



Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

Dyddiad ac Amser

1.30 y.h., DYDD GWENER, 25AIN MEDI, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Sera Jane Whitley

serajanewhitley@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 18/09/26)

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

Aelodau Cyngor

Cyng. Hugh Evans
Cyng. Gary Pritchard
Cyng. Julie Fallon
Cyng. Mark Pritchard
Cyng. Dave Hughes
Cyng. Nia Jeffreys

Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Wrecsam
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd

Aelod Eryri

Cyng. Ifor Glyn Lloyd

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol

Dafydd Gibbard
Dylan Williams
Rhun ap Iared
Neal Cockerton
Helen White
Alwyn Jones
Jonathan Cawley

Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Wrecsam
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Swyddogion Statudol

Alwen Williams
Dewi Aeron Morgan
Mark Watkins

Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor
Prif Swyddog Cyllid
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithriol/Swyddog
Monitro (dros dro)

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

3. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2026/27

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2026/27.

4. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

5 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 19 Mehefin, 2026 fel rhai cywir.

6. DATGANIAD LLYWODRAETHU 2025/26

14 - 32

Mark Watkins, Swyddog Monitro i gyflwyno'r adroddiad.

7. DATGANIAD O GYFRIFON CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD AM 2025/26 A'R ARCHWILIAD PERTHNASOL

33 - 116

Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid i gyflwyno'r adroddiad.

8. SEFYLLFA REFENIW A CHYFALAF 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD GORFFENNAF 2026

117 - 137

Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid i gyflwyno'r adroddiad.

9. STRATEGAETH A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2026/27 - 2029/30

138 - 176

Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) i gyflwyno'r adroddiad.

10. TREFNIADAU GWNEUD PENDERFYNIADAU AR GYFER RHEOLI'R GRONFA DRAFNIDIAETH RANBARTHOL YN YSTOD Y FLWYDDYN

177 - 180

Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth i gyflwyno'r adroddiad.

11. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025/26 181 - 230

Alwen Williams, Prif Weithredwr i gyflwyno'r adroddiad.

12. DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN TRAWSNEWID A GWELLA 231 - 236

Alwen Williams, Prif Weithredwr ac Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen a Dave Hole, Arweinydd y Rhaglen i gyflwyno'r adroddiad.

13. CYNLLUN DEISEBAU CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD 237 - 246

Helen Edwards, Dirprwy Swyddog Monitro i gyflwyno'r adroddiad.

14. SEFYDLU IS-BWYLLGOR SAFONAU 247 - 253

Helen Edwards, Dirprwy Swyddog Monitro i gyflwyno'r adroddiad.

15. NEWIDIADAU I AELODAETH IS-BWYLLGORAU'R CBC A PHENODIAD AELOD LLEYG 254 - 258

Mark Watkins, Swyddog Monitro i gyflwyno'r adroddiad.

Mae Atodiad 2 ar wahân ar gyfer Aelodau yn unig.

Mae'r Atodiad wedi'i eithrio o dan Baragraff 12, Rhan 4, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn penodol); yn ddarostyngedig i baragraff 21, Rhan 5 (prawf budd y cyhoedd). Wedi'i gymhwyso i'r CBC gan reoliad 26 o Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif. 2) (Cymru) 2021

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD 19/06/2026

Yn bresennol: Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Y Cynghorwyr: Paul Johnson (Cyngor Sir y Fflint), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), ac Ifor Glyn Lloyd (Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

Prif Weithredwyr Cyngorau Cyfansoddol: Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Helen White (Cyngor Sir Ddinbych), Matt Georgiou (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

Swyddogion eraill yn bresennol: Alwen Williams (Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC)), Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid – Cyngor Gwynedd), Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid – Cyngor Gwynedd), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd – Cyngor Gwynedd), Mark Watkins (Swyddog Monitro – Uchelgais Gogledd Cymru), David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig), Nia Llwyd Lewis (Rheolwr Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Eleri Jones (Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol – Cyngor Gwynedd), Ffion Williams (Uwch Swyddog Gweithrediadau – Uchelgais Gogledd Cymru), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth – Cyngor Gwynedd), a Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Cyngor Gwynedd).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Cynghorydd Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint) gyda Cynghorydd Paul Johnson yn dirprwyo
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd)
- Rhun ap Iareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gyda Matt Georgiou yn dirprwyo
- Nia Medi Williams (Rheolwr Gweithrediadau ac Adnoddau – Uchelgais Gogledd Cymru)
- Adam Graham (Uwch Swyddog Trafnidiaeth – Uchelgais Gogledd Cymru)
- Andy Roberts (Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol)

2. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2026/27

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Mark Pritchard yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2026/27.

3. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2026/27.

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Jason McLellan yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2026/27.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

6. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, 2026 fel rhai cywir.

7. RHAGLEN CYFARFODYDD AR GYFER 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Mark Watkins, Swyddog Monitro.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwywyd a mabwysiadu'r calendr drafft ar gyfer 2026/27.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd rhaglen cyfarfodydd ar gyfer 2026/27, gan amlygu dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd arfaethedig ar gyfer y CBC a'i Is-bwyllgorau. Manylwyd bod y rhaglen yn cefnogi gwneud penderfyniadau, tryloywder, a chydymffurfiaeth, ac yn caniatáu i gynllunio gwaith o flaen llaw.

8. CYNLLUNIO CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr y CBC.

PENDERFYNWYD:

Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad er mwyn cael gwell dealltwriaeth gan Lywodraeth newydd Cymru am eu barn yn cefnogi'r model yma o ariannu Cronfa Twf Lleol. Gofynnwyd am adroddiad yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan nodi mai ei bwrpas yw rhoi fframwaith glir mewn trefn ar gyfer sut y bydd y CBC yn gweithredu, blaenoriaethu ei adnoddau, a dangos atebolrwydd wrth symud ymlaen i'r cam nesaf o gyflawni rhanbarthol.

Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bwriad i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru gymryd cyfrifoldeb rhanbarthol am reoli'r Gronfa Twf Lleol o 2027/28. Nodwyd bod Lywodraeth Cymru wedi darparu £200,000 i Uchelgais Gogledd Cymru i gynhyrchu'r Cynllun Twf Rhanbarthol gan gynnwys y paratodau cysylltiedig i'w weithredu o fis Ebrill 2027 ymlaen.

Hysbyswyd bod Uchelgais Gogledd Cymru wedi nodi'r angen am Gynllun Corfforaethol, a fydd yn nodi'r weledigaeth, y blaenoriaethau a'r camau gweithredu, yn ogystal â darparu'r sail i weithio ar y cyd â'r rhanbarth. Adroddwyd bod Datganiad Gweledigaeth a Datganiad Llesiant ac Amcanion hefyd wedi'u creuynghyd â Chynllun Twf Rhanbarthol deng mlynedd fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Mynegwyd pryder ynghylch yr amserlenni tynn wrth gyflawni'r cynnig i ddangos bod gwaith wedi dechrau ar greu cynllun deng mlynedd erbyn mis Ebrill 2027. Cadarnhawyd bod trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch yr amserlenni, o ystyried y bydd gwahanol gydrannau'r Cynllun yn cymryd amser. Pwysleisiwyd bod ymgysylltu â'r awdurdodau lleol, partneriaid, a chymunedau yn holl bwysig i sicrhau bod y Cynllun Twf Rhanbarthol yn adlewyrchu'r cyfleoedd a'r heriau yng ngogledd Cymru.

Ychwanegwyd bod Llywodraeth Cymru angen cynllun pontio sy'n nodi sut y bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn newid o'r trefniadau presennol, lle mae Cyngor Gwynedd yn cyflawni blwyddyn 1 a cychwyn blwyddyn 2, i'r CBC cymryd cyfrifoldeb am gyflawni blwyddyn 3. Esboniwyd fod Uchelgais Gogledd Cymru yn aros am ganllawiau ffurfiol i'w cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, ond eu bod yn hyderus y byddent yn gallu bodloni'r gofynion a nodir. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r CBC, yn enwedig os bydd unrhyw oedi neu heriau'n codi.

Nodwyd bod rhai Aelodau'n anghytuno â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i gyfeirio cyllid ar gyfer y Gronfa Twf Lleol drwy'r CBC, yn enwedig gan fod diffyg mewnbwn gan awdurdodau lleol i'r penderfyniad hwn. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y gwrthwynebiad hwn yn adlewyrchiad negyddol o'r CBC ond yn hytrach yn wrthwynebiad i benderfyniad y Llywodraeth.

Gofynnwyd faint mwy o arian cyhoeddus fyddai ei angen i ariannu trawsnewid y CBC i gymryd cyfrifoldeb am reoli'r Gronfa Twf Lleol. Cadarnhawyd bod y strwythurau ar gyfer y SPF yn ei le yng Nghwynedd ac felly yn parhau ar gyfer blwyddyn 1. Pwysleisiwyd y byddai grant Llywodraeth Cymru o £200,000 yn cael ei ddefnyddio i sefydlu'r strwythurau a'r adnoddau ar gyfer blwyddyn 2 a 3.

Gofynnwyd am eglurhad ar gyfer yr £65,000 a gynigiwyd i gomisiynu partner strategol i gyd-ddatblygu dogfennau. Eglurwyd bod y ffigyrau a nodir yn gynnig o sut gellir gwario'r grant. Cadarnhawyd nad oes unrhyw waith wedi ei gomisiynu nac wedi dechrau eto ac y byddai Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio ar y cyd gydag awdurdodau lleol a phartneriaid er budd y rhanbarth.

Gofynnwyd am ddiweddariad ynghylch capasiti rheoli prosiectau yn Uchelgais Gogledd Cymru. Eglurwyd nad oes digon o gapasiti ar hyn o bryd yn nhîm Uchelgais Gogledd Cymru i gefnogi'r Gronfa Twf Lleol.

Mewn ymateb i bryderon ynghylch y cyfraniad gan yr awdurdodau lleol i gefnogi a chyd-gynhyrchu'r Gronfa Twf Rhanbarthol, esboniwyd y byddai'r cyfraniad o £30,000 i'r awdurdodau lleol, ac y byddai pob un o'r chwe awdurdod lleol yn derbyn £5,000 am eu gwaith. Nodwyd bod hyn yn seiliedig ar y model a grëwyd ar gyfer y SPF, lle darparwyd cyfraniad o'r grant i sefydlu tîm SPF o fewn Cyngor Gwynedd.

Mewn ymateb i'r drafodaeth, cadarnhawyd y gellid ystyried dulliau eraill o reoli'r Gronfa Twf Lleol, pe bai'r Aelodau'n dymuno. Trafodwyd dull arall, lle byddai gweinyddiaeth y Gronfa Twf Lleol yn aros gyda'r CBC ond gellid dirprwyo'r dasg o gyflwyno a chomisiynu'r Gronfa Twf Lleol i Gyngor Gwynedd neu awdurdod arall, a fyddai'n synhwyrol gan fod y strwythurau a'r prosesau eisoes wedi'u datblygu.

Mynegwyd pryderon pellach, yn enwedig ynghylch capasiti a costau, a tynnwyd sylw hefyd at newid diweddar yn Llywodraeth Cymru a allai arwain at gynllun gwahanol gan y Llywodraeth newydd ar gyfer cyllid a chefnogaeth ranbarthol.

Cynigiwyd gohirio'r eitem i'r cyfarfod nesaf, Cynigiwyd y byddai'r CBC yn parhau â thrafodaethau efo Llywodraeth Cymru ac yn adlewyrchu'r pryderon a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Diolchwyd i'r aelodau a'r swyddogion am eu mewnbwn i'r drafodaeth.

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Nia Medi Williams, Rheolwr Adnoddau a Gweithrediadau a Nia Llwyd Lewis, Rheolwr Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu (Cyngor Conwy).

PENDERFYNWYD:

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg i'w gyhoeddi.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan amlygu mai pwrpas yr adroddiad yw dangos i ba raddau y cydymffurfiodd Uchelgais Gogledd Cymru â Safonau'r Iaith Gymraeg rhwng y cyfnod 28 Chwefror 2025 a 31 Mawrth 2026. Eglurwyd bod yr holl gamau a gymerwyd yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Darparwyd y cyd-destun, gan esbonio bod Uchelgais Gogledd Cymru wedi comisiynu'r gwaith ac wedi cydweithio â swyddogion o'r Tîm Iaith a Chyfieithu yng Nghyngor Conwy i gwblhau'r adroddiad. Diolchwyd i'r tîm am eu cefnogaeth.

Cadarnhawyd bod Uchelgais Gogledd Cymru yn sefydliad dwyieithog balch ac eisoes yn gweithredu nifer fawr o safonau'r Gymraeg. Amlygwyd nad oedd unhryw gwynion wedi'u derbyn gan y cyhoedd na ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf, a bod yr holl ddeunydd ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru ar gael yn ddwyieithog.

Adroddwyd ar ddatblygiad cefnogi sgiliau iaith Gymraeg staff Uchelgais Gogledd Cymru. Eglurwyd bod sgiliau iaith Gymraeg wedi'u mesur a'u cofnodi am y tro cyntaf, gan ddefnyddio CEFR (Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer leithoedd). Adroddwyd bod 54% o staff Uchelgais Gogledd Cymru yn gallu siarad Cymraeg, 40% o'r staff yn dysgu Cymraeg, a bod dim ond 2 aelod o staff heb unrhyw sgiliau Cymraeg. Cadarnhawyd fod staff yn cael eu hannog i ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg sydd ganddynt, boed yn y Swyddfa neu mewn cyfarfodydd.

Diolchwyd i'r swyddogion am yr adroddiad, a phwysleisiwyd pwysigrwydd parhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

10. POLISI CANMOLIAETHAU, SYLWADAU A CHWYNION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr y CBC.

PENDERFYNWYD:

Ystyriwyd y Polisi Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion drafft a chymeradwyo ei fabwysiadu.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan nodi ei bod yn bwysig bod dull clir a chyson ar gyfer derbyn, rheoli a dysgu o unrhyw gwynion neu adborth yn ei le, yn arbennig wrth i'r CBC barhau i ddatblygu ei threfniadau llywodraethu..

Adroddwyd bod y polisi'n nodi sut y bydd canmoliaeth, sylwadau, a chwynion yn cael eu trin. Eglurwyd bod y polisi yn cadarnhau trefniadau datrysiad anffurfiol, ymchwiliad ffurfiol, amserlenni ar gyfer ymateb, trefniadau uwch-gyfeirio, a sut y bydd gwersi i'w dysgu'n cael eu casglu a chofnodi i gefnogi'r gwasanaeth. Yn ogystal, nodwyd bydd y polisi hefyd yn helpu i leihau'r risg o: drin cwynion yn anghyson; cadw cofnodion gwael; osgoi uwch-gyfeirio i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a difetha enw da. Eglurwyd bod y polisi'n cefnogi tryloywder, atebolrwydd a gwelliant parhaus, ac mae hefyd yn cyd-fynd ag egwyddorion gweinyddiaeth dda.

Nodwyd fod y polisi wedi'i ystyried gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r CBC yn ei gyfarfod ar 4ydd Mehefin, lle cafodd ei gefnogi a'i argymhell i'w fabwysiadu gan y CBC. Amlygwyd bod dau bwynt wedi'u codi, sef yr angen am gofnod rheoli dogfennau ar wahân ar gyfer y ffurflen adborth, a chreu mewnlwch Cymraeg a Saesneg pwrpasol ar gyfer derbyn adborth drwy e-bost.

11. DATGANIAD POLISI TAL 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Eleri Jones, Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol.

PENDERFYNWYD:

- Mabwysiadu datganiad polisi tâl Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2026/27 (Atodiad 1).
- Awdurdodi swyddogion i gyhoeddi'r Datganiad Polisi Tâl cymeradwy ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cymeradwyaeth.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd y Datganiad Polisi Tal 2026/27 gan nodi ei bod yn ddyletswydd statudol ar y CBC fel corff llywodraeth gyhoeddus i gyhoeddi Datganiad Polisi Tal yn flynyddol. Eglurwyd bod hyn yn arfer da, ac yn sicrhau bod y CBC yn dryloyw yn eu trefniadau talu ac wrth gyhoeddi amodau gwaith ei staff.

Hysbyswyd yr aelodau fod trafodaethau ynghylch cynnydd cyflogau prif weithredwyr a'r holl staff eraill yn parhau. Adroddwyd y cytunwyd i gynyddu cyflog blyneddol y Prif Weithredwr 3.2% ym mis Gorffennaf 2025, ac yn ddiweddarach yn yr haf cytunwyd ar gynydd o 3.2% i weddill y staff.

Adroddwyd ymhellach fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cytuno ar gynnydd o 3.3% i gyflogau Prif Weithredwyr ar gyfer 2026/27, ond eu bod yn disgwyl cadarnhad ar lefel y cynnydd i'r gweddill y staff.

Eglurwyd fod cytundeb i bwynt 2 ar y strwythur cyflogau gael ei ddileu, yn weithredol o 1 Ebrill 2026.

Cydnabuwyd y byddai angen diweddaru'r Polisi Teithio, i adlewyrchu'r addasiad diweddar gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC), lle cynyddwyd y gyfradd i 55 ceiniog y filltir.

Tynnwyd sylw bod y Polisi'n pwysleisio'r angen i ddenu a chadw staff, gan sicrhau bod y CBC yn parhau i fod yn gystadleuol gyda'i gyflogau.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod y Polisi Tal yn cynnwys holl staff y CBC a'i Is-bwyllgorau.

Gofynnwyd a oedd angen mwy o fanylion ynghylch y graddau cyflog a'r strwythurau cyflog, ac a fyddai'r lefel bresennol o fanylion a adlewyrchir yn y Datganiad Polisi Tal yn cael ei derbyn gan Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r CBC. Eglurwyd mai man cychwyn yw'r drafft presennol, a'i bod yn bosibl ychwanegu mwy o wybodaeth ynghylch graddau cyflog a strwythurau cyflog wrth i'r Polisi ddatblygu. Cadarnhawyd y byddai'r wybodaeth yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod nesaf y CBC.

12. SEFYLLFA ALLDRO REFENIW A CHYFALAF 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Statudol CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid.

PENDERFYNWYD:

- Nodwyd a derbyniwyd sefyllfa alldro y CBC ar gyfer 2025/26 (Atodiad 1), gan gynnwys trosglwyddo £1,067,414 i'r gronfa wrth gefn i ariannu cyllidebau'r dyfodol.
- Nodwyd a derbyniwyd sefyllfa alldro'r Cynllun Twf ar gyfer 2025/26 (Atodiad 2). Oherwydd y tanwariant a adroddwyd, er mwyn dangos sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn nid oedd angen defnyddio £60,990 o'r gronfa wrth gefn a gyllidebwyd ar ei gyfer yn 2025/26, a defnyddir swm o £867,731 o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru, sy'n llai na'r hyn oedd yn y gyllideb.
- Nodwyd a derbyniwyd sefyllfa cronfeydd y Cynllun Twf (Atodiad 3).
- Nodwyd a derbyniwyd adolygiad cyfalaf diwedd flwyddyn y Cynllun Twf ar 31 Mawrth 2026 (Atodiad 4).
- Nodwyd a derbyniwyd sefyllfa alldro y Parth Buddsoddi ar gyfer 2025/26 (Atodiad 5).
- Nodwyd a derbyniwyd sefyllfa alldro y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol ar gyfer 2025/26 (Atodiad 6).
- Nodwyd a derbyniwyd yr uchod yn amodol ar adroddiadau pellach i ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch:

1. Staff y CBC dros y tair blynedd diwethaf ar gynlluniau wrth symud ymlaen,
2. Darparu dadansoddiad o'r tanwariant ar ddefnydd o gronfeydd wrth gefn dros y blynyddoedd nesaf ynghyd â chanran angenrheidiol y cronfeydd wrth gefn
3. Ac unrhyw oblygiadau ariannol o oedi'r ardoll ar gyfer 2027-28.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan fanylu ar sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf y CBC ar gyfer 2025/26.

Esboniwyd bod cyfanswm y sefyllfa alldro net ar gyfer yr elfennau Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chorfforaethol eu natur wedi tanwario £1.067 miliwn. Ymhelaethwyd bod £600 mil o'r tanwariant yma'n deillio o grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

Manylwyd ar sefyllfa alldro y Cynllun Twf fesul pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn, gan nodi bod cyfanswm y tanwariant yn £543mil gyda'r prif danwariant o dan y pennawd 'gweithwyr'.

Ychwanegwyd bod cronfa llog o £5m wedi'i neilltuo i ariannu costau benthyca yn y blynyddoedd i ddod a hynny wrth i'r gwariant ar y cynlluniau cyfalaf gychwyn cyn derbyn arian grant gan y Llywodraeth. Eglurwyd bod balans y gronfa adnoddau ar 31 Mawrth 2026 yn £4.4m, ac mae bron i filiwn o'r gronfa yma wedi ei chlustnodi i'w defnyddio yng nghyllideb 2026/27.

Cyflwynwyd adolygiad diwedd blwyddyn rhaglen gyfalaf y Cynllun Twf ar gyfer 2025/26 ac yna proffil gwariant o 2026/27 ymlaen. Amlygwyd bod cyfanswm o £30.64 miliwn o wariant wedi ei wneud ar y Cynllun Twf erbyn diwedd 2025/26. Nodwyd gostyngiad net o £14.28m yn y gwariant ar gyfer 2025/26 o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd yn Chwefror 2025 oherwydd fod prosiectau wedi llithro.

Adroddwyd ar wariant ac incwm gwirioneddol y Parth Buddsoddi, gan nodi sefyllfa alldro niwtral ar gyfer 2025/26. Nodwyd bod sefyllfa ariannol y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd yn dangos sefyllfa niwtral am y flwyddyn, gyda'r gwariant o £290 mil yn cael ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru.

Mynegwyd pryder ynghylch rhoi dros £1 miliwn i'r cronfeydd wrth gefn tra bod awdurdodau lleol mewn sefyllfaoedd ariannol mor ddifrifol a'r angen cyson i gyfiawnhau gwariant arian cyhoeddus.

Holwyd os oes modd i'r awdurdodau lleol oedi'r ardoll ar gyfer 2027/28, a fyddai'n dal i adael £700,000 yn y cronfeydd wrth gefn. Mynegwyd y byddai unrhyw gynnig yn cael ei ystyried gan y CBC, ond na fyddai modd darparu unrhyw gyngor ariannol heb gael cyfle i gasglu'r wybodaeth a chostau perthnasol. Esboniwyd na fydd pob cynnig yn bosib i'w ariannu ond y buasai cymryd seibiant o godi ardoll yn 2027/28 yn fater difrifol a fyddai'n debygol o arwain at risg ariannol i'r CBC.

Amlygwyd y byddai'r cynllun ariannol tymor canolig yn cael ei gynhyrchu dros yr haf, gyda'r gyllideb yn dod i rym yn dilyn ei chymeradwyaeth gan y CBC ym mis Medi 2026. Cadarnhawyd y byddai cyfran o'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i gadw'r ardoll mor isel â phosibl ar gyfer 2026/27.

Nodwyd pryder am lefel uchel o gronfeydd wrth gefn, tanwariant posib yn y dyfodol, ac y ffaith nad oes gan y CBC bolisi cronfeydd wrth gefn. Cadarnhawyd y gellir datblygu polisi a fyddai'n amlinellu lefel y cronfeydd wrth gefn a ystyrir yn dderbyniol. Cydnabuwyd bod lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn yn uwch na'r hyn a argymhellir er yr eglurwyd y dylid gostwng lefel y cronfeydd wrth gefn yn systematig.

Pwysleisiwyd bod £600mil o'r arian wrth gefn eisoes wedi'i ymrwymo ar gyfer 2026/27. Nodwyd mai swyddogaeth gyffredinol y CBC yw datblygu economi Gogledd Cymru, gan amlygu bod y CBC yn cael ei graffu gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a gallai methu â chyflawni'r prosiectau arwain at risg sylweddol.

Amlygwyd bod y CBC yn gyfrifol am fuddsoddi £400 miliwn o gyllid y sector cyhoeddus mewn prosiectau cyfalaf mawr. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y bydd y prosiectau hyn yn creu 10,000 o swyddi newydd yn economi Gogledd Cymru dros y deng mlynedd nesaf, a byddant yn denu cyfanswm buddsoddiad yng Ngogledd Cymru o hyd at £2 biliwn yn ogystal. Esboniwyd fod gwaith y CBC yn galluogi twf economaidd a chyflawni prosiectau gwerth uchel. Pwysleisiwyd y bydd dal yn ôl neu leihau cyllid ar gyfer y prosiectau hyn yn arwain at beidio â chyflawni prosiectau a pheidio â chreu swyddi.

Gofynnwyd a oedd modd gohirio'r penderfyniad tan gyfarfod nesaf y CBC ym mis Medi 2026 er mwyn derbyn yr holl wybodaeth ychwanegol. O ystyried bod llawer iawn o danwariant y CBC yn gysylltiedig â staffio gofynnwyd am roi cyfle i'r aelodau adolygu gwariant gweithwyr gan edrych ar dwf staff, yngyd âg adolygu cynlluniau rhag-amcanol ar gyfer y dyfodol. Pwysleisiwyd bod angen gwell dealltwriaeth ar gyfer 2026/27 er mwyn cyfiawnhau unrhyw ardoll.

Pwysleiswyd os na fyddent yn fodlon derbyn unrhyw un o'r argymhellion ffurfiol yn y penderfyniad a geisir, na fyddai'r CBC yn gallu cynhyrchu'r datganiad ffurfiol o gyfrifon ar gyfer 2025/26. Nodwyd ei bod yn hanfodol bod y cyfrifon ar gyfer 2025/26 yn cael eu paratoi, ac felly cynigiwyd y gellid diwygio geiriad y penderfyniad a geisir i adlewyrchu'r cais am ragor o wybodaeth ynghylch y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, ac i sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno i'r aelodau yng nghyfarfod nesaf y CBC.

13. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CBC) a Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi.

PENDERFYNWYD:

Derbyniwyd yr adroddiad ar gyfer 2025/26.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan amlygu mai pwrpas yr adroddiad yw darparu trosolwg o'r gweithgareddau rheolaeth trysorlys y CBC yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26. Ategwyd fod £1.9m o log ar fuddsoddiadau o'r arian cyfalaf wedi ei dderbyn.

Cadarnhawyd bod y CBC mewn sefyllfa gryf o 31 Mawrth 2026, gyda buddsoddiadau gwerth £56.4 miliwn. Eglurwyd mai arian cyfalaf o'r Cynllun Twf a'r Parth Buddsoddi nad yw wedi'i wario eto yw hwn yn bennaf.

Pwysleisiwyd mai pwrpas Rheolaeth Trysorlys yw gwneud y defnydd gorau o'r balansau sydd angen eu buddsoddi, nes bod angen yr arian ym mhws busnes y CBC. Eglurwyd bod y CBC yn buddsoddi mewn banciau, cymdeithasau adeiladau, awdurdodau lleol, cronfeydd marchnad arian, a'r swyddfa rheoli taliedion. Nodwyd mai blaenoriaeth y buddsoddiadau hyn yw diogelwch, ac yna hylifedd a thwf.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod rhannau o naratif yr Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys wedi'i ysgrifennu gan Arlingclose. Cadarnhawyd ymhellach fod gan y CBC gytundeb gydag Arlingclose bellach, sydd ar wahân i gytundeb Arlingclose gyda Chyngor Gwynedd.

Gofynnwyd am sicrwydd ynghylch pa fanciau, cronfeydd marchnad arian, ac awdurdodau lleol y mae'r CBC yn buddsoddi ynddynt ac a yw eu polisïau buddsoddi moesegol yn cydymffurfio ag ethos a gwerthoedd y CBC a'r chwe awdurdod lleol. Eglurwyd bod yr holl fanciau y mae'r CBC yn buddsoddi ynddynt wedi'u rhestru yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys pan gafodd ei fabwysiadu gan y CBC yn 2025.

Darparwyd sicrwydd nad yw'r CBC yn buddsoddi mewn unrhyw sefydliad nad yw'n rhannu ei foeseg a gwerthoedd, a bydd yn ystyried unrhyw bryderon a wneir gan aelodau. Cadarnhawyd y byddai'n synhwyrol i'r CBC gael Strategaeth Buddsoddi Moesegol, a gallai'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y CBC wthio'r gwaith yma ymlaen.

Cadarnhawyd y byddai rhestr o'r banciau, cronfeydd marchnad arian, ac awdurdodau lleol a gwmpesir o fewn y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddiweddariad, er mwyn sicrhau tryloywder a didwylledd. Cadarnhawyd ymhellach y bydd y diweddariadau hyn hefyd yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y CBC.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 a daeth i ben am 15:45.

(Cadeirydd)



CYD BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

25 Medi, 2026

TEITL: Datganiad Llywodraethiant 2025/26

AWDUR: Mark Watkins, Swyddog Monitro

1. PWRPAS YR ADRODDIAD PURPOSE OF THE REPORT

- 1.1. Cyflwyno Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol 2025/26, sy'n cofnodi canlyniad yr adolygiad blynnyddol o drefniadau llywodraethiant a rheolaeth fewnol y Cyd-bwyllgor Corfforedig, a cheisio ei gymeradwyo.

2. PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Cymeradwyo Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol 2025/26 yn Atodiad 1 fel datganiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar reolaeth fewnol at ddibenion Rheoliad 5 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd).
- 2.2. Nodi a chymeradwyo'r Cynllun Gwella Llywodraethiant ar gyfer 2026/27 sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad.
- 2.3. Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i lofnodi'r Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol.

3. RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Mae'n ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig adolygu effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol o leiaf unwaith y flwyddyn ac, yn dilyn yr adolygiad hwnnw, cymeradwyo datganiad ar reolaeth fewnol a baratowyd yn unol ag arferion priodol. Y Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol yw'r dull y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cofnodi'r adolygiad hwnnw, ei gasgliad sicrwydd cyffredinol a'r gwelliannau llywodraethiant i'w datblygu yn ystod 2026/27.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn gymwys i gyd-bwyllgorau corfforedig. Mae Rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gynnal system gadarn o reolaeth fewnol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol; adolygu effeithiolrwydd y system honno o leiaf unwaith y flwyddyn; ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwnnw; a chymeradwyo datganiad ar reolaeth fewnol. Bydd y datganiad a gymeradwywyd yn cyd-fynd â'r Datganiad Cyfrifon.
- 4.2. Mae Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol 2025/26 wedi'i baratoi ar y sail honno ac yn unol â Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer Cyflawni Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol. Mae'n ystyried fframwaith llywodraethiant ehangach y CBC, gan gynnwys trefniadau cyfansoddiadol a phenderfynu, llywodraethu moesegol, rheoli ariannol, risg a pherfformiad, tryloywder,

llywodraethu rhaglenni a phartneriaethau, capasiti sefydliadol, a sicrwydd mewnol ac allanol.

- 4.3. Blwyddyn ariannol 2025/26 oedd y flwyddyn lawn gyntaf yn dilyn y trosglwyddiad ar 1 Ebrill 2025 o gyfrifoldebau Cytundeb Twf Gogledd Cymru – ynghyd â'r staff, yr adnoddau, y cyfrifoldebau ariannol a'r trefniadau llywodraethiant cysylltiedig – o drefniadau blaenorol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r CBC. Felly, mae'r adolygiad yn ystyried nid yn unig cydymffurfiaeth â'r fframwaith llywodraethiant, ond hefyd i ba raddau y mae trefniadau sefydliadol ac sicrwydd ehangach y CBC wedi'u hymgorffori'n effeithiol.
- 4.4. Mae'r adolygiad wedi cael ei arwain gan y Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid ac mae'n tynnu ar dystiolaeth a sicrwydd gan uwch swyddogion perthnasol ac arweinwyr gwasanaeth, ynghyd â thystiolaeth Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru lle bo ar gael. Mae'r Datganiad yn gwahaniaethu rhwng materion llywodraethiant sylweddol a gwendidau rheoli materol a chmau datblygu llywodraethiant a materion gweithredol arferol.
- 4.5. Mae'r Datganiad yn dod i'r casgliad bod y fframwaith llywodraethiant wedi darparu sail resymol ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r CBC yn gyfreithlon, yn atebol ac yn effeithiol yn ystod 2025/26, gan gydnabod ar yr un pryd bod nifer o drefniadau llywodraethiant corfforaethol yn dal i gael eu datblygu neu angen eu hymwreiddio ymhellach. Adlewyrchir y materion hynny yn y cynllun gweithredu ar gyfer gwella llywodraethiant ar gyfer 2026/27.
- 4.6. Roedd y Ddrafft-Ddatganiad wedi'i drefnu i gael ei adolygu gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Medi 2026. Yn dilyn gohirio'r cyfarfod hwnnw, nid oedd yn bosibl i'r Is-bwyllgor adolygu'r Datganiad cyn y cyfarfod hwn. Nid yw hyn yn atal y CBC rhag ystyried canfyddiadau'r adolygiad a chymeradwyo'r Datganiad ei hun yn unol â Rheoliad 5. Er mwyn cynnal rôl sicrwydd yr Is-bwyllgor, cyflwynir y Datganiad a'r cynllun gweithredu gwella i'w gyfarfod wedi'i aildrefnu cyn gynted â phosibl, gydag unrhyw argymhellion sylweddol yn cael eu hadrodd yn ôl i'r CBC.

5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

Mae'r goblygiadau cyfreithiol wedi'u nodi uchod. Mae cydymffurfio â Rheoliad 5 yn gofyn am adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y CBC, ystyried y canfyddiadau a chymeradwyo'r datganiad ar reolaeth fewnol. Rhaid i'r datganiad gyd-fynd â Datganiad Cyfrifon y CBC.

6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol. Mae rheoli ariannol a rheolaeth fewnol yn rhan o'r adolygiad blynyddol, a bydd unrhyw oblygiadau o ran adnoddau sy'n deillio o gamau gwella unigol yn cael sylw drwy'r prosesau cyllidebol a phenderfynu perthnasol.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Datganiad Llywodraethiant 2025/26

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:**i. Swyddog Monitro:**

Rwyf yn fodlon bod y dull a fabwysiadwyd ar gyfer Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol 2025/26 yn cyd-fynd â gofynion Rheoliad 5 ac yn darparu sail gymesur ar gyfer sicrwydd llywodraethiant blynnyddol y CBC. Nid yw gohirio cyfarfod yr Is-bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yn atal y CBC rhag cymeradwyo'r Datganiad ei hun, ond dylid cwblhau adolygiad yr Is-bwyllgor cyn gynted â phosibl ac adrodd unrhyw argymhellion sylweddol yn ôl i'r CBC.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf yn fodlon fod cynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol yn adlewyrchiad teg o drefniadau llywodraethiant a gweithgareddau perthnasol y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn 2025/26, bod y datganiad yn diwallu gofynion y Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio i baratoi datganiad o reolaethau mewnol.



Uchelgais
Gogledd Cymru
Ambition
North Wales

Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2025-2026



Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2025/26

[Drafft terfynol er cymeradwyaeth y CBC]

Cynnwys

1. Pwrpas a chyd-destun statudol
2. Gwybodaeth am Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd
3. Fframwaith llywodraethiant
4. Cwmpas a methodoleg yr adolygiad blynyddol
5. Ffynonellau sicrwydd a'r model Tair Llinell
6. Adolygiad o effeithiolrwydd yn erbyn saith egwyddor CIPFA/SOLACE
7. Datblygiadau llywodraethiant, materion ac asesiad perthnasedd
8. Cynllun gweithredu gwella llywodraethiant 2026/27
9. Casgliad sicrwydd a chymeradwyo

1. Pwrpas a chyd-destun statudol

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol hwn yn egluro sut y cydymffurfiodd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, a oedd yn gweithredu o dan frand Uchelgais Gogledd Cymru, â'i fframwaith llywodraethiant yn ystod 2025/26 ac mae'n adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

Mae'r Datganiad yn cael ei baratoi gan ystyried Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd), y rheoliadau sy'n berthnasol i gyd-bwyllgorau corfforaethol yng Nghymru, a Fframwaith Cyflawni Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol CIPFA/SOLACE.

Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol; bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; a bod trefniadau ar waith i reoli risg, sicrhau atebolrwydd a chefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion statudol a strategol.

Mae'r fframwaith llywodraethiant yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli drwyddynt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan o'r fframwaith hwnnw ac fe'i cynlluniwyd i reoli, yn hytrach na dileu, y risg o fethu â chyflawni amcanion. Felly, mae'n rhoi sicrwydd rhesymol, yn hytrach na sicrwydd llwyr.

2. Gwybodaeth am Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gorff corfforaethol statudol a sefydlwyd gan Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021. Mae'n cynnwys y chwe chyingor cyfansoddol yng Ngogledd Cymru ac, ar gyfer swyddogaethau cynllunio strategol perthnasol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.


Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn arfer swyddogaethau statudol sy'n ymwneud â llesiant economaidd rhanbarthol, cynllunio trafnidiaeth ranbarthol a chynllunio datblygu strategol. Ar 1 Ebrill 2025, trosglwyddodd y cyfrifoldeb dros gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru o drefniadau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd yn cefnogi'r trefniadau llywodraethiant a chyflawni ar gyfer Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

Felly, blwyddyn 2025/26 oedd y flwyddyn ariannol lawn gyntaf lle cyfunodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig ei swyddogaethau statudol gyda chyfrifoldeb am y Cynllun Twf a threfniadau sefydliadol, staffio, ariannol a llywodraethiant cysylltiedig.

3. Fframwaith llywodraethiant

Cyfansoddiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig yw prif ffynhonnell ei fframwaith llywodraethiant. Mae'n nodi strwythurau gwneud penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, trefniadau pwyllgorau ac is-bwyllgorau (gweler Ffigur 1 y strwythur terfynol arfaethedig) cynlluniau dirprwyo, rheolau gweithdrefnau ariannol a chontractau, trefniadau mynediad at wybodaeth, a gofynion ymddygiad aelodau a swyddogion.

Cefnogir y fframwaith llywodraethiant gan swyddogion statudol y Cyd-bwyllgor Corfforedig, trefniadau uwch reolwyr, archwilio mewnol ac allanol, trefniadau lefel gwasanaeth, sicrwydd rhaglenni a phrosiectau, rheoli risg a pherfformiad a gwaith yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cynhaliwyd cynlluniau cymeradwy a threfniadau monitro ar gyfer swyddogaethau unigol; nid oedd un Cynllun Corfforaethol trosfwaol na golwg gyfunol ar berfformiad corfforaethol ar waith eto. Er mwyn eglurder, ar y pryd, nid oedd yr Is-bwyllgor Safonau na'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi'u sefydlu.



Ffigur 1: Strwythur pwyllgor ac is-bwyllgor Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (arfaethedig)

4. Cwmpas a methodoleg yr adolygiad blynyddol

Mae'r adolygiad yn ymdrin â fframwaith llywodraethiant cyfan y Cyd-bwyllgor Corfforedig, gan gynnwys cydymffurfriad cyfansoddiadol, safonau moesegol, penderfyniadau aelodau a swyddogion, rheolaeth ariannol, rheoli risg a pherfformiad, tryloywder, llywodraethu gwybodaeth, llywodraethu partneriaethau a rhaglenni, capasiti'r gweithlu, trefniadau archwilio a sicrwydd.

Y Swyddog Monitro sy'n arwain yr asesiad mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid. Mae swyddogion cyfrifol yn darparu gwybodaeth ffeithiol wedi'i thargedu a sicrwydd ar sail eithriadau ar gyfer y meysydd y maent yn berchen arnynt. Mae'r Rheolwr Adnoddau a Gweithrediadau yn cydlynu tystiolaeth weithredol a rheoli dogfennau. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn cydlynu risg gorfforaethol a thystiolaeth archwilio, ac ystyrir bod tystiolaeth Archwilio Cymru ar gael. Mae'r Swyddog Monitro wedyn yn asesu dibynadwyedd a pherthnasedd, yn pennu effeithiolrwydd yn erbyn saith egwyddor CIPFA/SOLACE, yn setlo'r camau gwella ac yn drafftio'r casgliad sicrwydd cyffredinol. Y bwriad yw y bydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn goruchwyllo ac yn monitro'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gwella Llywodraethiant sy'n deillio ohono.

Perthnasedd a gwerthuso

Dylid asesu'r dystiolaeth o ran perthnasedd, dibynadwyedd ac amseroldeb. Dylid dosbarthu materion a nodwyd yn gyson fel a ganlyn: (a) mater llywodraethiant sylweddol; (b) gwendid sylweddol neu fater rheoli y mae angen ei ddatgelu; (c) cam datblygu llywodraethiant; neu (d) mater gweithredol arferol nad oes angen ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

5. Ffynonellau sicrwydd a'r model Tair Llinell

Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn defnyddio dull Tair Llinell i wahaniaethu rhwng cyfrifoldeb rheoli a goruchwyliaeth gorfforaethol a sicrwydd annibynnol.

Llinell	Prif gyfrifoldeb	Engbreffftiau yn Uchelgais Gogledd Cymru	Tystiolaeth sicrwydd nodweddiadol
Llinell gyntaf	Mae'r rheolwyr yn berchen ar risgiau, rheolaethau, perfformiad a darpariaeth ac yn eu rheoli.	Prif Weithredwr, Rheolwr Adnoddau a Gweithrediadau, arweinwyr rhaglenni a phrosiectau, deiliaid cyllidebau a rheolwyr contractau.	Sicrwydd rheoli wedi'i dargedu; adroddiadau risg a pherfformiad; cofnodion rheoli; adrodd ar eithriadau.
Ail linell	Mae swyddogaethau corfforaethol yn gosod fframweithiau, yn cynghori, herio a monitro.	Cyfreithiol a llywodraethiant, cyllid, risg, caffael, Adnoddau Dynol, llywodraethu gwybodaeth, gwasanaethau democrataidd.	Cydymffurfio â pholisïau; sylwadau swyddogion statudol; adroddiadau monitro; logiau eithriadau.
Trydedd linell	Sicrwydd annibynnol ar lywodraethiant, risg a rheolaeth.	Archwilio Mewnol, Archwilio Cymru ac adolygiadau annibynnol eraill.	Barn archwilio flynyddol a gwaith archwilio wedi'i gwblhau o fewn y cwrmpas; Archwilio Cymru a chanfyddiadau annibynnol eraill fel y maent ar gael.

Ffynonellau sicrwydd

Ffynhonnell sicrwydd	Rôl yn yr adolygiad	Tystiolaeth a ystyriwyd
Prif Weithredwr	Rheolaeth gorfforaethol, capasiti sefydliadol a sicrwydd gweithredol.	Tystiolaeth weithredol, gan gynnwys trefniadau staffio/gwasanaethau a gynhelir; sicrwydd corfforaethol terfynol y Prif Swyddog Gweithredol
Swyddog Monitro	Cyfreithlondeb, cydymffurfiaeth gyfansoddiadol, llywodraethiant moesegol, gwneud penderfyniadau ac asesu perthnasedd.	Cofnodion cyfansoddiadol/llywodraethiant, penderfyniadau pwyllgorau ac adolygiad llywodraethu.
Prif Swyddog Cyllid	Rheolaeth ariannol, rheolaeth fewnol a risg gorfforaethol.	Cafwyd cadarnhad drwy'r Prif Swyddog Cyllid nad oedd unrhyw faterion Archwilio Mewnol perthnasol wedi cael eu nodi. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried canfyddiadau archwilio perthnasol o'r flwyddyn flaenorol. Tystiolaeth risg gorfforaethol 2025/26; sicrwydd ariannol y Prif Swyddog Cyllid
Archwiliad Mewnol	Sicrwydd annibynnol ar lywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth o fewn cwrmpas y gwaith a gwblhawyd.	Deunydd y flwyddyn flaenorol ar gyfer cyd-destun hanesyddol; 2025/26
Archwilio Cymru	Archwiliad allanol a sicrwydd annibynnol arall.	Canfyddiadau archwiliad allanol perthnasol a sicrwydd y flwyddyn flaenorol lle bo hynny'n berthnasol.
Arweinwyr swyddogaethol a rhaglenni	Tystiolaeth ffeithiol llinell gyntaf ac adroddiadau eithrio.	Wedi cyhoeddi papurau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r is-bwyllgor; Map adrodd ar Weithrediadau a nodyn llywodraethiant 2025/26; cofnodion llywodraethu rhaglenni'r

Ffynhonnell sicrwydd	Rôl yn yr adolygiad	Tystiolaeth a ystyriwyd
		Cynllun Twf; tystiolaeth a sicrwydd swyddogion rheng flaen perthnasol

6. Adolygiad o effeithiolrwydd yn erbyn y saith egwyddor llywodraethiant

Mae'r asesiad canlynol yn crynhoi'r trefniadau llywodraethiant a adolygwyd, yr asesiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o effeithiolrwydd, y cyfyngiadau sylweddol a nodwyd ac unrhyw gamau gwella dilynol.

Egwyddor A: Ymddwyn yn ddidwyll, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith

Trefniadau llywodraethiant a thystiolaeth	Mae datganiadau a chofrestrau buddiannau aelodau wedi cael eu cwblhau a'u cyhoeddi. Mae Cod Ymddygiad ffurfiol i weithwyr yn cael ei ddatblygu gan y Tîm Cyfreithiol a Llywodraethiant. Mae materion cyfreithiol sy'n ymwneud â dehongli'r rheoliadau perthnasol a chymhwysedd i fod yn aelod o'r Is-bwyllgor Safonau bellach wedi'u datrys; mae cylch gorchwyl drafft wedi'i baratoi i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae cyngor swyddogion statudol wedi'i wreiddio yn y fframwaith gwneud penderfyniadau, ac mae angen sylwadau cyfreithiol ac ariannol ar adroddiadau pwyllgor. Mae polisïau drafft ar chwythu'r chwiban ac atal twyll hefyd wedi cael eu paratoi ac yn aros i gael eu mabwysiadu'n ffurfiol.
Asesu effeithiolrwydd yn ystod 2025/26	Yn gyffredinol, roedd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig drefniadau gweithredol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau cyfreithiol a moesegol yn ystod 2025/26, yn enwedig drwy gyngor statudol gan swyddogion wedi'i wreiddio a chasglu a chyhoeddi buddiannau aelodau. Fodd bynnag, nid oedd y fframwaith llywodraethiant moesegol wedi aeddfedu'n llawn yn ystod y flwyddyn. Gohiriwyd sefydlu'r Is-bwyllgor Safonau wrth i faterion cyfreithiol yn ymwneud â chymhwysedd aelodaeth gael eu datrys, ac nid oedd Cod Ymddygiad ffurfiol i weithwyr wedi cael ei fabwysiadu eto. Mae'r materion hynny wedi mynd rhagddynt ers hynny, gyda'r mater cyfreithiol wedi'i ddatrys, y cylch gorchwyl drafft wedi'i baratoi a'r gwaith polisi ategol wedi'i ddatblygu. Ar sail y dystiolaeth a adolygwyd, gellir disgrifio'r rhain orau fel bylchau datblygu-llywodraethiant yn hytrach na thystiolaeth o fethiant sylweddol o ran uniondeb, cyfreithlondeb neu wneud penderfyniadau moesegol.
Gwendidau, eithriadau neu gyfyngiadau	Ni chafodd yr Is-bwyllgor Safonau ei sefydlu'n llawn yn ystod 2025/26 ac roedd Cod Ymddygiad ffurfiol i weithwyr yn dal heb ei gwblhau. Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth bod y bylchau hyn wedi arwain at wneud penderfyniadau anghyfreithlon perthnasol, gwrthdaro buddiannau heb ei reoli na methiant llywodraethiant moesegol sylweddol.
Camau gwella	Cam 3 - cwblhau ac ymgorffori'r fframwaith llywodraethiant moesegol, gan gynnwys cymeradwyo a sefydlu trefniadau'r Is-bwyllgor Safonau, mabwysiadu'r Cod Ymddygiad i weithwyr a chwblhau'r polisïau ategol ar chwythu'r chwiban a gwrth-dwyll.

Egwyddor B: Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Trefniadau llywodraethiant a thystiolaeth	Cyhoeddi agendâu, adroddiadau, cofnodion a phenderfyniadau; blaenraglen waith; a threfniadau cyfranogiad y cyhoedd; ymgynghori ac ymgysylltu â sefydliadau; craffu drwy gynghorau cyfansoddol a datblygu trefniadau cyd-graffu. Mae trefniadau'r Cynllun Twf hefyd yn caniatáu i aelodau'r chwe chyngor cyfansoddol gymryd rhan yn y gwaith o graffu ar raglenni; er nad yw hyn yn gyfystyr â chyd-bwyllgor craffu cwbl weithredol ar draws y Cyd-bwyllgor Corfforedig, ac ni fwriedir iddo fod chwaith.
---	--

Asesu effeithiolrwydd yn ystod 2025/26	Cadarnhaodd y Gwasanaethau Democrataidd, a ddarparwyd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gan Gyngor Gwynedd, fod agendâu, adroddiadau, cofnodion a phenderfyniadau wedi cael eu cyhoeddi'n gyffredinol drwy'r trefniadau arferol yn ystod 2025/26. Fodd bynnag, roedd yna achosion cyfyngedig o gyhoeddi agendâu yn hwyr, a phwysau mewnol rheolaidd o ran amserlenni cyhoeddi cyfarfodydd. Cyhoeddwyd cofnodion yn gyffredinol gyda'r agenda ar gyfer y cyfarfod dilynol; mae cyhoeddi cofnodion drafft yn gynharach yn fwiad ar gyfer gwella'r gwasanaeth, yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael. Nid oedd trefniadau trosolwg a chraffu ar y cyd yn weithredol yn ystod y flwyddyn ac roeddent yn dal i gael eu datblygu, tra bod y llwybrau craffu statudol sydd ar gael drwy'r cynghorau cyfansoddol yn dal ar waith. Yn gyffredinol, roedd y fframwaith tryloywder yn gweithredu'n ymarferol, ond mae angen cryfhau prydlondeb cyhoeddi, datblygu craffu a chadernid prosesau ymhellach.
Gwendidau, eithriadau neu gyfyngiadau	Mae'r dystiolaeth yn nodi gwendid cyson o ran prydlondeb a chadernid o ran cyhoeddi agendau, a model craffu ar y cyd anghyflawn, yn hytrach na methiant systemig o ran didwylledd neu atebolrwydd. Nid yw'r deunydd a adolygwyd yn sefydlu diffyg cydymffurfio eang o ran cyhoeddi na methiant sylweddol o ran craffu. Mae'r materion hyn yn faterion datblygu-llywodraethiant y mae angen eu cwblhau, a threfniadau mwy cadarn.
Camau gwella	Camau 2 a 3 - cryfhau rheolaethau blaengynllunio a chyhoeddi a chwblhau trefniadau cyd-graffu cymesur.

Egwyddor C: Diffinio deilliannau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Trefniadau llywodraethiant a thystiolaeth	Nodwyd canlyniadau statudol a rhaglenni'r Cyd-bwyllgor Corfforedig mewn cynlluniau swyddogaethol-benodol cymeradwy yn hytrach nag un Cynllun Corfforaethol troswaol. Mae'r map adrodd ar Weithrediadau yn nodi Cytundeb Terfynol, Cytundeb Cyflenwi a Chyllido ac Achos Busnes Portffolio'r Cynllun Twf; rhaglen gytunedig y Parth Buddsoddi a'r cynllun cyflawni blynnyddol; cynlluniau sgiliau ac ynni rhanbarthol; y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynllun Cyflawni Blwyddyn 1; Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol; a Chynllun Trawsnewid. Roedd llwybrau adrodd yn amrywio yn ôl swyddogaeth. Adroddwyd ar berfformiad y Cynllun Twf bob chwarter i'r Is-bwyllgor Llesiant Economaidd ac i sianeli craffu'r llywodraeth ac awdurdodau lleol; adroddwyd ar ddarpariaeth y Parth Buddsoddi drwy ei drefniadau cynghori a llesiant economaidd; ac adroddwyd ar gynnydd trafndiaeth a chynllunio strategol drwy ei is-bwyllgorau. Roedd monitro pellach yn cynnwys adrodd i Lywodraeth Cymru ar sgiliau ac ynni ac adroddiadau chwe misol y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar drawsnewid. Roedd gan y Cynllun Twf hefyd fframwaith gwireddu manteision a datganiad a methodoleg allyriadau carbon a bioamrywiaeth.
--	--

Asesu effeithiolrwydd yn ystod 2025/26	Mae'r dystiolaeth Gweithrediadau yn cadarnhau bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cymeradwyo cynlluniau a llwybrau monitro adnabyddadwy ar draws ei brif swyddogaethau yn ystod 2025/26. Roedd y Cynllun Twf wedi sefydlu fframwaith adrodd chwarterol, wedi'i ategu gan asesiad blynyddol o'r portffolio/rhaglen/prosiect a chyfarfodydd â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae'r papurau cynllunio strategol a thrafnidiaeth sydd wedi'u cyhoeddi yn dangos cynnydd drwy'r camau ymgynghori, cynllunio a phenderfyniadau aelodau perthnasol; defnyddiodd y Parth Buddsoddi adroddiadau rhaglenni a chynlluniau cyflawni blynyddol. Roedd trefniadau gwireddu buddion a charbon/bioamrywiaeth y Cynllun Twf yn darparu fframwaith ar gyfer asesu'r manteision a fwriadwyd; nid yw eu bodolaeth, ynddo'i hun, yn dystiolaeth bod yr holl fanteision wedi'u cyflawni. Mae'r Arweinwyr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth Strategol o'r farn bod y papurau a gyhoeddwyd yn cynnwys y wybodaeth bwysig ar gyfer eu priod feysydd. Gyda'i gilydd, mae'r ffynonellau hyn yn dangos canlyniadau diffiniedig a goruchwyliaeth weithredol ar lefel rhaglen, heb sefydlu un asesiad o gyflawni ar draws y sefydliad yn erbyn yr holl ganlyniadau.
Gwendidau, eithriadau neu gyfyngiadau	Nid oedd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig Gynllun Corfforaethol trosfwaol nac un golwg gyfunol ar berfformiad ar draws ei swyddogaethau. Nid oedd hyn yn golygu bod canlyniadau neu adroddiadau'n absennol: roedd cynlluniau rhaglenni cymeradwy ac adroddiadau'n bodoli, ond roedd amllder, derbynwyr ac aeddfedrwydd y monitro'n amrywio. Mae'r map adrodd ar Weithrediadau'n dangos hefyd bod rhai llwybrau adrodd i'r dyfodol eto i'w cadarnhau. Mae diffyg barn gorfforaethol gyfunol yn fater datblygu-llywodraethu cymesur, nid tystiolaeth ynddo'i hun o danberfformiad sylweddol neu fethiant sylweddol.
Camau gwella	Cam 4 - llunio adroddiadau rhaglenni presennol yn farn gryno a chymesur ar draws y Cyd-bwyllgor Corfforedig am ganlyniadau strategol, perfformiad ac eithriadau perthnasol. Nid oes angen i hyn olygu fframwaith cynllunio corfforaethol newydd na dyblygu adroddiadau rhaglenni sydd wedi'u sefydlu.

Egwyddor D: Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau a fwriedir yn y ffordd orau bosibl

Trefniadau llywodraethiant a thystiolaeth	Gwneud penderfyniadau ffurfiol gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r is-bwyllgor; cyngor swyddogion statudol; Cytundeb Cyflawni a Chyllid y Cynllun Twf, y Bwrdd Portffolio a byrddau rhaglenni/prosiectau; prosesau achosion busnes a phyrth; Uwch Swyddogion Cyfrifol portffolio, rhaglenni a phrosiectau a enwir; a'r trefniadau caffael, contractio a chyllido presennol. Mae gweithrediadau'n adrodd bod achosion busnes y Cynllun Twf yn dilyn y model Pum Achos ac Achosion Busnes Gwell/canllawiau Llyfr Gwyrdd perthnasol a'u bod yn destun adolygiad porth annibynnol ar bwyntiau penderfynu allweddol. Mae cytundebau cyllido gyda phrif noddwyr prosiectau yn mynd i'r afael â gwrthdaro rhwng buddiannau a chaffael tryloyw, cystadleuol a chynaliadwy.
---	--

Asesu effeithiolrwydd yn ystod 2025/26	Mae adroddiadau Gweithrediadau am lywodraethu'r Cynllun Twf yn darparu tystiolaeth rheng flaen o lwybrau penderfynu wedi'u diffinio: Ystyriaeth y Bwrdd Portffolio cyn cyflwyno adroddiadau i'r Is-bwyllgor Llesiant Economaidd, ymgysylltu â byrddau rhaglenni/prosiectau a llywodraethiant lle bo hynny'n briodol, ac adolygu achosion busnes/porth. Mae Uwch Swyddog Cyfrifol portffolio ac Uwch Swyddogion Cyfrifol rhaglenni/prosiectau yn cefnogi atebolrwydd. Defnyddiodd y rhaglen drafnidiaeth lwybr penderfynu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig pan nad oedd amserlenni Ariannu Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â llywodraethiant lleol, gan arwain at gyfarfod ychwanegol o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig; roedd cynnig diweddarach gan awdurdod dirprwyedig yn mynd i'r afael â'r broses newid yn ystod y flwyddyn ar ôl i'r canllawiau gael eu gohirio. Mae'r rhain yn enghreifftiau o addasu i drefniadau newydd yn hytrach na thystiolaeth bod llwybrau penderfynu priodol wedi cael eu hosgoi. Roedd y Rheolau Gweithdrefnau Contractau yn dal ar waith, er bod eu hadolygiad a'r broses o ddisodli templedi contractau a etifeddwyd yn anghyflawn.
Gwendidau, eithriadau neu gyfyngiadau	Mae angen moderneiddio'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau a thempledi contractau a etifeddwyd, ac ni chafodd trefniadau penderfyniadau cyllido trafnidiaeth yn ystod y flwyddyn eu setlo mor gynnar â'r bwriad. Nid yw'r nodyn Gweithrediadau yn sefydlu'n annibynnol bod pob porth prosiect, proses gaffael noddwyr na rheolaeth wedi gweithredu heb eithriad; ni thyrir bod sicrwydd cyffredinol o'r fath yn bodoli. Nid yw'r deunydd a adolygwyd yn dangos unrhyw fethiant sylweddol.
Camau gwellu	Cam 2 - cwblhau'r adolygiad o'r fframwaith cyfansoddiadol, dirprwyo a chaffael, gan gynnwys Rheolau Gweithdrefnau Contractau wedi'u diweddarau, templedi contract priodol a llwybrau penderfynu clir ar gyfer newidiadau i raglenni yn ystod y flwyddyn.

Egwyddor E: Datblygu capasiti'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, gan gynnwys arweinyddiaeth a gallu unigol

Trefniadau llywodraethiant a thystiolaeth	Strwythur y sefydliad a chapasiti swyddogion statudol; recriwtio a swyddi gwag; cynefino a gallu; rheoli perfformiad; olyniaeth a pharhad busnes; trefniadau cymorth a gynhelir a chytundebau lefel gwasanaeth.
Asesu effeithiolrwydd yn ystod 2025/26	Parhaodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig i ddatblygu ei gapasiti sefydliadol yn ystod 2025/26 wrth i'w gyfrifoldebau statudol a'i gyfrifoldebau dros raglenni ehangu. Mae capasiti wedi cynyddu drwy ymarferion recriwtio rheolaidd ac mae'r sefydliad wedi parhau i ddefnyddio cymorth gan Gyngor Gwynedd, gan gynnwys Adnoddau Dynol, cyllid a Gwasanaethau Democrataidd. Parhaodd y gwasanaethau a gynhelir i weithredu yn ystod y flwyddyn. Roedd cytuno ar gytundeb lefel gwasanaeth cynhwysfawr ar gyfer y trefniadau a gynhelir wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl, ond mae'r cytundeb bellach yn agos at gael ei gwblhau a'i lofnodi. Ar sail yr wybodaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer y drafft hwn, nid oedd yr oedi wedi arwain at unrhyw fethiant sylweddol o ran parhad gwasanaeth na rheolaeth weithredol. Felly, mae'r sefyllfa gyffredinol yn un o sefydliad sy'n parhau i feithrin gallu a ffurfioli trefniadau ategol yn hytrach nag un nad yw'n meddu ar y gallu i gyflawni ei swyddogaethau.
Gwendidau, eithriadau neu gyfyngiadau	Roedd yr oedi cyn cwblhau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau a gynhelir wedi lleihau eglurder ffurfiol ynghylch safonau gwasanaeth, atebolrwydd, perfformiad a threfniadau uwchgysylltu yn ystod rhan o'r cyfnod. Mae recriwtio parhaus hefyd yn adlewyrchu'r angen i feithrin cadernid wrth i fodel gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ehangu. Ni nodwyd unrhyw fethiant sylweddol o ran darparu gwasanaethau na chapasiti sefydliadol.

Camau gwella	Cam 4 - cwblhau a gwreiddio Cytundeb Lefel Gwasanaeth gwasanaethau a gynhelir a pharhau i adolygu capasiti, cydnherthedd a dibyniaethau personau allweddol yn gymesur wrth i fodel gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddatblygu.
--------------	--

Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

Trefniadau llywodraethiant a thystiolaeth	Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael eu goruchwyllo gan y Prif Swydddog Cyllid, gyda rheolaeth gyllidebol, monitro ariannol ac adrodd yn cael eu cyflawni drwy'r fframwaith rheolaeth ariannol sefydledig. Adroddir ar berfformiad ariannol a chronfeydd wrth gefn i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac is-bwyllgorau perthnasol. Yn ystod 2025/26, datblygwyd cofrestr risg gorfforaethol ddrafft ond nid oedd wedi cael ei chymeradwyo'n ffurfiol. Roedd y Cynllun Twf yn cynnal cofrestr risg gynhwysfawr ar gyfer rhaglenni, a oedd yn cael ei hadolygu'n gyson ac yn adrodd yn rheolaidd i'r Is-bwyllgor Llesiant Economaidd. Roedd yr adolygiad hefyd yn defnyddio'r wybodaeth sicrwydd archwilio a ddarparwyd drwy'r Prif Swydddog Cyllid ac adroddiadau perthnasol Archwilio Cymru.
Asesu effeithiolrwydd yn ystod 2025/26	Roedd trefniadau monitro ariannol a rheoli risg ar lefel rhaglen ar waith yn ystod y flwyddyn. Yn benodol, roedd y Cynllun Twf yn cynnal fframwaith adrodd ar risg sefydledig, gan adrodd yn rheolaidd i aelodau. Roedd y fframwaith rheoli risg gorfforaethol ar draws y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn llai datblygedig. Er bod gwaith yn mynd rhagddo ar gofrestr risg gorfforaethol, roedd absenoldeb fframwaith sydd wedi'i gymeradwyo a'i wreiddio'n ffurfiol yn cyfyngu ar gysondeb y gwaith o nodi, perchnogi ac uwchgysgu risgiau gorfforaethol ar draws y sefydliad. Mae'r adolygiad wedi ystyried sicrwydd y Prif Swydddog Cyllid a chanfyddiadau perthnasol yr Archwiliad Mewnol (os bu rhai) wrth asesu effeithiolrwydd rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol.
Gwendidau, eithriadau neu gyfyngiadau	Y prif wendid oedd diffyg fframwaith rheoli risg gorfforaethol wedi'i gymeradwyo a'i wreiddio'n ffurfiol. Roedd y trefniadau presennol ar lefel rhaglen yn darparu rheolaethau pwysig ond nid oeddent yn system rheoli risg gynhwysfawr ar draws y Cyd-bwyllgor Corfforedig.
Camau gwella	Camau 1, 2 a 5 - cymeradwyo a gwreiddio'r fframwaith risg gorfforaethol; cwblhau'r adolygiad caffael/cyfansoddiadol; a chryfhau gwaith archwilio a sicrwydd integredig dilynol.

Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol

Trefniadau llywodraethiant a thystiolaeth	Cyhoeddi adroddiadau a phenderfyniadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r is-bwyllgor; adroddiadau perfformiad swyddogaethol a rhaglenni; cyfranogiad craffu gan aelodau o'r chwe chyngor cyfansoddol yn nhrefniadau'r Cynllun Twf; yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; Archwilio Mewnol, Archwilio Cymru a chamau dilynol. Mae map adroddiadau Gweithrediadau yn nodi adroddiadau i'r Is-bwyllgorau Llesiant Economaidd, Trafnidiaeth Strategol a Chynllunio Strategol, y Cyd-bwyllgor Corfforedig a chyllidwyr allanol, gydag amlder yn amrywio yn ôl rhaglen.
---	---

Asesu effeithiolrwydd yn ystod 2025/26	Mae map adroddiadau'r Tîm Gweithrediadau a nodyn llywodraethu'r Cynllun Twf yn dangos llwybrau sefydledig ar gyfer adrodd ar weithgarwch rhaglenni i aelodau, cyllidwyr a chyrrff goruchwyllo eraill. Mae trefniadau'r Cynllun Twf yn caniatáu i'r chwe chyngor gymryd rhan mewn craffu; ni ddylai'r trefniant penodol i raglen hwnnw gael ei gyfuno â chyd-bwyllgor trosolwg a chraffu cwbl weithredol ar draws y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Cadarnhaodd y Gwasanaethau Democrataidd fod cyhoeddiadau rheolaidd ar waith yn gyffredinol ond roeddent yn nodi pwysau o ran amserlen-agenda a phroblemau cworwm GASC. Mae deunyddiau archwilio'r flwyddyn flaenorol yn cynnig cefndir defnyddiol, nid amnewidyn ar gyfer sefyllfa archwilio 2025/26.
Gwendidau, eithriadau neu gyfyngiadau	Nid oedd cworwm mewn dau gyfarfod GASC wedi'u trefnu a chododd anhawster arall ym mis Medi 2026. Cyhoeddwyd rhai agendau yn hwyr; nid yw'r gwaith o adrodd ar raglenni wedi cael ei gyfuno i greu darlun ar draws y Cyd-bwyllgor Corfforedig eto. Nid oes unrhyw fethiant rheoli sylweddol, nad yw wedi cael sylw, wedi cael ei ddangos o ganlyniad i'r problemau cworwm, ond mae cadernid goruchwyllo a chyfanrwydd y sicrwydd yn dal yn faterion byw.
Camau gwella	Cam 5 - cryfhau presenoldeb/cworwm GASC, cynllunio gwaith blynyddol ac olrhain sicrwydd/camau gweithredu integredig, gan gynnwys uwchgyfeirio camau gweithredu hwyr neu risg uchel.

7. Datblygiadau llywodraethiant, materion ac asesiad perthnasedd

Mae'r adolygiad yn gwahaniaethu materion llywodraethiant arwyddocaol oddi wrth wendidau perthnasol, camau gweithredu datblygu-llywodraethiant a materion gweithredol arferol. Wrth asesu perthnasedd, rhoddwyd ystyriaeth i effaith wirioneddol, y risg sy'n cael ei chreu, p'un a yw gwendid yn ynysig neu'n systemig, ac effeithiolrwydd rheolaethau digolledu.

Mater llywodraethiant	Tystiolaeth / sefyllfa	Dyfarniad perthnasedd	Triniaeth derfynol
Fframwaith risg a sicrwydd corfforaethol	Datblygwyd cofrestr risg gorfforaethol ddrafft y Cyd-bwyllgor Corfforedig ond ni chafodd ei chymeradwyo'n ffurfiol. Roedd risgiau'r Cynllun Twf yn cael eu rheoli drwy gofrestr gynhwysfawr sy'n cael ei hadolygu'n barhaus ac adroddiadau rheolaidd gan aelodau.	Gwendid rheoli/datblygu llywodraethiant. Mae'r bwlch corfforaethol yn gofyn am weithredu, ond rhoddwyd rheolaethau digolledu ar lefel rhaglen ar waith ac ni nodwyd unrhyw fethiant llywodraethiant arwyddocaol.	Egwyddor F; Cam 1.
Tryloywder democrataidd, craffu a chyhoeddi	Roedd trefniadau cyhoeddi ar waith yn gyffredinol, ond cyhoeddwyd rhai agendau yn hwyr ac roedd pwysau o ran amserlen yn codi dro ar ôl tro. Roedd trefniadau craffu ar y cyd yn dal i gael eu datblygu; roedd llwybrau craffu cynghorau cyfansoddol yn dal ar gael.	Gwendid datblygu/rheoli llywodraethiant yn hytrach na methiant systemig i fod yn agored neu'n atebol.	Egwyddor B; Camau 2 a 3.

Mater llywodraethiant	Tystiolaeth / sefyllfa	Dyfarniad perthnasedd	Triniaeth derfynol
Safonau a llywodraethiant moesegol	Casglwyd a chyhoeddwyd buddiannau'r aelodau a chafodd cyngor swyddogion statudol ei wreiddio. Gohiriwyd sefydlu'r Is-bwyllgor Safonau tra datryswyd materion yn ymwneud â chymhwysedd aelodau. Roedd angen cwblhau Cod Ymddygiad Cyflogeion a pholisïau ategol o hyd.	Angen datblygu llywodraethiant a'i wreiddio; ni nodwyd methiant perthnasol o ran moeseg na chyfreithlondeb.	Egwyddor A; Cam 3.
Cyfansoddiad, dirprwyaethau, caffael a llwybrau penderfyniadau	Parhaodd y model gweithredu i esblygu ar ôl trosglwyddo'r Cynllun Twf. Mae Gweithrediadau'n adrodd ar Gytundeb Cyflenwi a Chyllid, Bwrdd Portffolio, Uwch Swyddogion Cyfrifol rhaglenni/prosiectau ac adolygiadau pyrh/achos busnes Pum Achos. Mae angen diweddarau Rheolau Gweithdrefnau Contractau a thempledi a etifeddwyd; o bryd i'w gilydd roedd amserlenni/canllawiau cyllido trafnidiaeth yn gofyn am benderfyniadau ychwanegol neu ddiweddarach gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.	Datblygu llywodraethiant. Ni nodwyd unrhyw benderfyniad anghyfreithlon perthnasol na methiant o ran caffael.	Egwyddor D; Cam 2.
Sicrwydd a gwytnwch GASC	Nid oedd cworwm mewn dau gyfarfod GASC a drefnwyd a chododd anhawster cworwm pellach ar ôl addasiadau i drefniadau cworwm.	Gwendid o ran cadernid sicrwydd yn galw am weithredu, ond ni ddangoswyd bod methiant arwyddocaol o ran rheoli, nad yw wedi cael sylw, wedi arwain at hynny.	Egwyddor G; Cam 5.
Gwasanaethau a gynhelir, capasiti a pherfformiad corfforaethol	Mae'r Tîm Gweithrediadau yn cofnodi penodiadau allweddol a chymorth arbenigol interim, ac yn adrodd bod gwasanaethau a gynhelir wedi cael eu derbyn yn unol â Chytundebau Lefel Gwasanaeth arfaethedig tra'n disgwyl cytundeb ffurfiol. Roedd cynlluniau a llwybrau adrodd wedi'u cymeradwyo ar gyfer swyddogaethau penodol ar waith, ond nid oedd Cynllun Corfforaethol trosfwaol na golwg gyfunol ar berfformiad ar draws y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn bodoli.	Datblygu llywodraethiant. Mae angen cryfhau safonau gwasanaeth ffurfiol a goruchwyllo perfformiad corfforaethol. Nid yw'r dystiolaeth yn sefydlu ymyrraeth berthnasol ar wasanaeth na methiant cyflawni systemig.	Egwyddorion C ac E; Cam 4.

Mater llywodraethiant	Tystiolaeth / sefyllfa	Dyfarniad perthnasedd	Triniaeth derfynol
Archwilio, polisi a materion rheoli eraill	Mae tystiolaeth archwilio mewnol/allanol y flwyddyn flaenorol yn darparu cyd-destun yn unig. Mae sicrwydd archwilio perthnasol, datblygu polisi corfforaethol a materion rheoli eraill wedi cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad. Ni nodwyd unrhyw fater llywodraethiant arwyddocaol ychwanegol o'r wybodaeth a ddarparwyd. Ymdrinnir â materion datblygu polisi sy'n weddill drwy'r Cynllun Gwella Llywodraethiant	Ni ddangosir unrhyw fethiant arwyddocaol gan y dystiolaeth a adolygir ar hyn o bryd.	Egwyddorion A, F a G; Camau 2, 3 a 5.

Asesu perthnasedd

Ar sail y wybodaeth a adolygwyd hyd yma, ni ddangoswyd methiant llywodraethiant arwyddocaol yn ystod 2025/26. Roedd y fframwaith risg corfforaethol ar draws y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dal i gael ei ddatblygu, ac nid oedd yna Gynllun Corfforaethol trosfwaol na darlun cyfunol unigol o berfformiad ar draws swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Er hynny, roedd cynlluniau rhaglenni cymeradwy ac adroddiadau rheolaidd yn cael eu gweithredu mewn meysydd unigol, yn enwedig y Cynllun Twf. Mae materion eraill y mae angen eu cwblhau yn cynnwys y fframwaith cyfansoddiadol/caffael, llywodraethiant democrataidd a moesegol, Cytundebau Lefel Gwasanaeth gwasanaethau a gynhelir a chadernid sefydliadol, a chworwm GASC a dilyniant sicrwydd. Mae'r asesiad perthnasedd yn ystyried y trefniadau gweithredol ar lefel rhaglen heb eu trin fel prawf bod pob rheolaeth gorfforaethol yn effeithiol.

Casgliad perthnasedd cyffredinol: ni nodwyd unrhyw fethiant llywodraethiant arwyddocaol. Mae'r materion uchod yn cael eu trin fel materion datblygu-llywodraethiant neu reoli-gwella ac maent yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Gwella Llywodraethiant.

8. Cynllun gweithredu gwella llywodraethiant 2026/27

Mae'r Cynllun Gwella Llywodraethiant yn cynnwys y nifer fach o gamau gweithredu, mesuradwy penodol a berchnogir sy'n deillio o'r asesiad tystiolaeth a pherthnasedd. Bwriedir iddo ganolbwyntio'r sylw corfforaethol ar y trefniadau llywodraethiant y mae angen eu cwblhau, eu cryfhau neu eu gwreiddio ymhellach yn ystod 2026/27.

Cyfeirnod	Cam	Arweinydd	Targed	Sicrwydd / adrodd	Statws
1	Cymeradwyo a gwreiddio Strategaeth Rheoli Risg gorfforaethol y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r gofrestr risg gorfforaethol, gyda chysylltiadau clir â risg weithredol, risg rhaglenni a phrosiectau ac adrodd/uwchgyfeirio cymesur.	Prif Swyddog Cyllid	31 Rhagfyr 2026	Uwch swyddogion; GASC; CBC	Ar waith

Cyfeirnod	Cam	Arweinydd	Targed	Sicrwydd / adrodd	Statws
2	Cwblhau'r adolygiad o'r fframwaith cyfansoddiadol a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys dirprwyaethau swyddogion, Rheolau Gweithdrefnau Contractau, templedi contractau wedi'u diweddaru, trefniadau blaenwaith a rheolaethau cryfach ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau aelodau a swyddogion a phapurau cyfarfodydd yn brydlon.	Swyddog Monitro / Caffael / Gwasanaethau Democraidaidd	31 Ionawr 2027	GASC / CBC	Ar waith
3	Cwblhau a gwreiddio trefniadau llywodraethiant democraidaidd a moesegol cymesur. Gweithio gyda'r chwe chynghor cyfansoddol i hwyluso sefydlu a gweithredu trefniadau trosolwg a chraffu cymesur ar y cyd, gan gynnwys cytuno ar y cymorth gweinyddol a phroffesiynol angenrheidiol; sefydlu a chynllunio gwaith yr Is-bwyllgor Safonau, mabwysiadu Cod Ymddygiad gweithwyr, cwblhau polisiau chwythu'r chwiban a gwrth-dwyll, a pharhau i gynnal trefniadau buddiannau.	Swyddog Monitro / Gwasanaethau Democraidaidd	31 Mawrth 2027	Pwyllgor(au) perthnasol; CBC	Ar waith

Cyfeirnod	Cam	Arweinydd	Targed	Sicrwydd / adrodd	Statws
4	Cwblhau a gwreiddio Cytundeb Lefel Gwasanaeth gwasanaethau a letyir gyda pherchnogaeth glir, safonau gwasanaeth a threfniadau uwchgyfeirio; parhau ag adolygiad capasiti/cadernid cymesur; a darparu crynodeb cryno ar draws y Cyd-bwyllgor Corfforedig o ganlyniadau strategol, perfformiad ac eithriadau perthnasol gan ddefnyddio adroddiadau rhaglenni presennol.	Prif Weithredwr / Rheolwr Adnoddau a Gweithrediadau	Cytundeb Lefel Gwasanaeth erbyn 31 Hydref 2026; adolygiad integredig o adrodd a chydnerthedd erbyn 31 Mawrth 2027	Uwch swyddogion; GASC/CBC	Ar waith
5	Cryfhau cadernid yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan gynnwys cynllunio presenoldeb/cworwm a chynllunio gwaith blynyddol cymesur, a thracio camau gweithredu Archwilio Mewnol, Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn modd integredig gan uwchgyfeirio eitemau hwyr/risg uchel.	Swyddog Monitro / Prif Swyddog Cyllid	31 Rhagfyr 2026	GASC / CBC	Ar waith

Bydd y Swyddog Monitro yn parhau i adolygu'r Cynllun Gwella Llywodraethiant a gall gyfuno, diwygio neu gau camau gweithredu lle mae tystiolaeth yn dangos bod y canlyniad llywodraethiant arfaethedig wedi'i gyflawni.

9. Casgliad sicrwydd a chymeradwyo

Datganiad y Prif Weithredwr ar lywodraethiant

Fel Prif Weithredwr, rwy'n cydnabod fy nghyfrifoldeb dros sicrhau bod gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig drefniadau rheoli priodol, capasiti sefydliadol a rheolaethau mewnol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei swyddogaethau statudol a strategol.

Yn ystod 2025/26, parhaodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig i ddatblygu ei drefniadau llywodraethiant corfforaethol ar ôl trosglwyddo cyfrifoldebau'r Cynllun Twf ac ehangu ei fodel gweithredu. Parhaodd rheolaethau a threfniadau adrodd sefydledig ar lefel rhaglen i weithredu, wrth i waith fynd rhagddo i gryfhau rheoli risg corfforaethol, capasiti sefydliadol a ffurfioli trefniadau gwasanaeth a gynhelir.

Rwy'n cydnabod y gwelliannau llywodraethiant a nodir yn y Datganiad hwn, gan gynnwys yr angen i gwblhau a gwreiddio'r fframwaith rheoli risg corfforaethol, cryfhau trefniadau democrataidd a sicrwydd, a datblygu adroddiadau perfformiad corfforaethol ymhellach.

Rwy'n cefnogi'r Cynllun Gwella Llywodraethiant a byddaf yn sicrhau bod y trefniadau rheoli angenrheidiol ar waith i oruchwylio'r gwaith o'i gyflawni ac adrodd ar gynnydd i'r cyrff priodol sy'n aelodau ohono.

Alwen Williams, Prif Swyddog Gweithredol, Uchelgais Gogledd Cymru, 16 Medi 2026

Casgliad sicrwydd cyffredinol

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd ac a geisiwyd at ddibenion yr ymarfer hwn, ynghyd â sicrwydd a ddarparwyd gan y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid, y casgliad cyffredinol yw bod fframwaith llywodraethiant y Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi rhoi sicrwydd rhesymol bod ei swyddogaethau wedi cael eu cyflawni'n gyfreithlon, yn effeithiol ac yn atebol yn ystod 2025/26. Nid yw'r adolygiad wedi nodi unrhyw fethiant llywodraethiant arwyddocaol a fyddai'n tanseilio'r casgliad hwnnw'n sylweddol.

Fodd bynnag, mae'r adolygiad wedi nodi nifer o feysydd lle mae angen datblygu, ffurfioli neu wreiddio trefniadau llywodraethiant ymhellach, gan adlewyrchu model gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig sy'n esblygu, a throsglwyddo cyfrifoldebau ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys (i raddau mwy neu lai) rheoli risg gorfforaethol, trefniadau cyfansoddiadol a gwneud penderfyniadau, llywodraethiant moesegol, trefniadau gwasanaeth a gynhelir a chadernid trefniadau archwilio a sicrwydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Er nad yw'r materion hyn yn tanseilio'r casgliad sicrwydd cyffredinol yn unigol nac ar y cyd, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cydnabod bod angen Cynllun Gwella Llywodraethiant strwythuredig i sicrhau bod gwendidau a nodwyd yn cael sylw, bod cyfrifoldebau'n cael eu neilltuo'n glir a bod gwelliannau'n cael eu cyflawni o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt. Felly, mae'r Cynllun yn rhan annatod o ymrwymiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig i gryfhau ei drefniadau llywodraethiant a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gymesur ac yn effeithiol wrth i'r sefydliad ddatblygu.

Ar ôl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ei gymeradwyo, bydd y gwaith o gyflawni'r Cynllun Gwella Llywodraethiant yn cael ei fonitro drwy'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gyda chynnydd, oedi ac eithriadau perthnasol yn cael eu hadrodd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar adegau priodol.

Mark Watkins, Swyddog Monitro Uchelgais Gogledd Cymru, 16 Medi 2026

Llofnodion

Cadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd	Prif Weithredwr
Llofnod: Cyng. Mark Pritchard, Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig Dyddiad:	Llofnod: Alwen Williams, Prif Weithredwr Dyddiad:

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

25 Medi 2026

TEITL: Datganiad o Gyfrifon Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd am 2025/26 a'r archwiliad perthnasol.

AWDUR: Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)
Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno datganiad o gyfrifon statudol terfynol Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC) ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, yn ogystal ag adroddiad ISA 260 gan Archwilio Cymru, sy'n manylu ar eu prif ddarganfyddiadau.
- 1.2. Trosglwyddwyd rôl a swyddogaethau y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r CBC ar 1 Ebrill 2025, a oedd yn cynnwys staff, adnoddau, ymrwymadau ac asedau ariannol, gan gynnwys y Cynllun Twf a'r cyllid. Mae rhain felly yn cael eu cynnwys yn Datganiad o Gyfrifon y CBC o 2025/26.

2. PENDERFYNIADAU A GEISIWYD

- 2.1. Ystyried a chymeradwyo'r adroddiad ISA 260 gan Archwilio Cymru ar gyfer y CBC.
- 2.2. Ystyried a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon terfynol y CBC (ôl archwiliad) ar gyfer 2025/26.

3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Cyflwynir yma y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2025/26. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2 o ISA260 Archwilio Cymru.
- 3.2. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n llywyddu'r cyfarfod, ynghyd â'r Swyddog Cyllid Statudol, ardystio'r Llythyr Sylwadau. Gwneir hyn yn electronig (Atodiad 4 i adroddiad Archwilio Cymru) wedi i'r CBC gymeradwyo'r uchod.
- 3.3. Wedi iddi dderbyn y Llythyr Sylwadau wedi'i ardystio gan y person sy'n llywyddu'r cyfarfod a'r Swyddog Cyllid Statudol, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Catherine Mealing-Jones) yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mae'r cyfrifon terfynol a gyflwynir yma i'r CBC ar 25 Medi 2026 wedi cael eu harchwilio gan Archwilio Cymru.

- 4.2. Cyflwynwyd adroddiad ar y sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2025/26 i'r CBC ar 19 Mehefin 2026. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 5.1. Nodir yn Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 5.2. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod yr holl gyd-bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae'r Incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Cyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

ATODIADAU:

- | | |
|------------------|---|
| Atodiad 1 | Datganiad o Gyfrifon y CBC ar gyfer 2025/26 |
| Atodiad 2 | Adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru |
-

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Mae paratoi, archwilio a chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon blynyddol yn elfennau pwysig o drefniadau llywodraethu ariannol ac atebolrwydd statudol y CBC.

Gofynnir i Aelodau ystyried canfyddiadau Archwilio Cymru, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n gofyn am gamau pellach, a sicrhau eu hunain bod y rhain wedi'u trin yn briodol cyn cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon terfynol.

Yn dilyn cymeradwyaeth, dylid cwblhau'r trefniadau angenrheidiol ar gyfer ardystio a chyhoeddi yn unol â'r gofynion statudol perthnasol.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Datganiad o'r Cyfrifon 2025/26 –
Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

CYNNWYS

	Tudalen
Adroddiad Naratif	2 – 7
Datganiad Cyfrifoldebau	8
Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	9
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	10
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	11
Y Fantolen	12
Datganiad Llif Arian	13
Nodiadau i'r Cyfrifon	14 – 44
Adroddiad yr Archwilydd	45 – 48
Geirfa	49 – 50

ADRODDIAD NARATIF

RHAGARWEINIAD

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (enw brand Uchelgais Gogledd Cymru), sydd yn cael ei ystyried i fod yn endid cyfreithiol annibynnol, yn ffurfiol ar 14 Ionawr 2022, a daeth yn gwbl weithredol ar 30 Mehefin 2022 ac roedd hyn yn sgil i'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i greu fframwaith i gael trefn gyson ar gyfer cydweithio rhanbarthol rhwng llywodraeth leol.

Mae dyletswyddau'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) yn cynnwys cynllunio strategol, trafnidiaeth ranbarthol a lles economaidd. Mae'r CBC yn cynnwys chwech cyngor cyfansoddol sef Cyngor Bwrdeistrefol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn aelod o'r CBC mewn perthynas ag ymarfer swyddogaethau cynllunio strategol.

Mae cyfrifon y CBC am 2025/26 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 9 i 44. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2025/26*.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** - Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.
- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddeler gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.
- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2026.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ystod 2025/26 at ddibenion refeniw a chyalaf.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol a chefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Sefydlwyd partneriaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn 2012 i ddatblygu dull rhanbarthol o dwf economaidd ac i fynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu economi Gogledd Cymru. Roedd y bartneriaeth yn cwmpasu'r chwech cyngor cyfansoddol Gogledd Cymru a hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai.

Ar 1 Ebrill 2025 trosglwyddwyd y Swyddfa Rheoli Portffolio a Chynllun Twf Gogledd Cymru i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd a elwir bellach yn Uchelgais Gogledd Cymru. Trosglwyddwyd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd i'r CBC o Gyngor Gwynedd ar yr un dyddiad.

Swyddogaethau allweddol y CBC yw:

1. Cynllunio Strategol – arwain ar ddatblygu Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Gogledd Cymru.
2. Trafnidiaeth Ranbarthol – datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru fel strategaeth i sicrhau system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy, fforddiadwy ac integredig ar gyfer y rhanbarth.
3. Llesiant economaidd – gwella economi'r rhanbarth, gyda mentrau allweddol yn cynnwys Cynllun Twf Gogledd Cymru a Pharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

Gweledigaeth Uchelgais Gogledd Cymru

Y weledigaeth yw adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn ar gyfer Gogledd Cymru er mwyn:

- Canolbwyntio ar wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth.
- Gweld y rhanbarth yn datblygu mewn ffordd gynaliadwy, gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd ar gyfer y dyfodol a datblygu gyrfaedd gwerth chweil, gweld busnesau'n tyfu a chymunedau'n ffynnu.
- Hyrwyddo ein hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth, yn unol â nodau llesiant Cymru.

Cynllunio Strategol

Bydd y Cynllun Datblygu Strategol (CDS) yn darparu fframwaith rhanbarthol ar gyfer cynllunio ledled Gogledd Cymru, gan gydnabod bod anghenion cymunedau, marchnadoedd a seilwaith yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau awdurdodau lleol unigol. Bydd yn cefnogi gweledigaeth hirdymor gydlynol ar gyfer twf economaidd cynaliadwy, seilwaith, ansawdd bywyd a datblygiad cytbwys, tra'n cyd-fynd â gofynion statudol Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r CBC wedi cyflwyno ei Gytundeb Cyflawni, gan gynnwys y datganiad o gyfranogiad cymunedol a'r amserlen, ac mae'r gwaith i gyflawni'r CDS dros y pum mlynedd nesaf bellach wedi dechrau.

Trafnidiaeth Rhanbarthol

Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (CTRh) yn nodi gweledigaeth ar gyfer rhwydwaith trafndiaeth diogel, cynaliadwy, fforddiadwy ac integredig sy'n cefnogi twf economaidd, yn gwella cysylltedd ac yn lleihau dibyniaeth ar gerbydau preifat. Wedi'i ddatblygu gan Uchelgais Gogledd Cymru gydag awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru, bydd y cynllun yn cael ei gyflawni gan Awdurdodau Lleol drwy gynlluniau'r Gronfa Drafndiaeth Rhanbarthol, gyda goruchwyliaeth gan Is-bwyllgor Trafnidiaeth y CBC. Drwy flaenoriaethu trafndiaeth gyhoeddus, teithio llesol ac atebion symudedd arloesol, nod y CTRh yw gwella mynediad at swyddi a gwasanaethau, lleihau'r effaith amgylcheddol a chreu system drafndiaeth fwy cysylltiedig â gwydn ar gyfer Gogledd Cymru.

Cynllun Twf Gogledd Cymru

Nod y Cynllun Twf yw dod â dros £1 biliwn o fuddsoddiad i ogledd Cymru er mwyn cynhyrchu dros 4,000 o swyddi newydd a chynnydd mewn Gwerth Ychwanegol Gros o £2.4 biliwn. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi £240 miliwn o gyfalaf ar y cyd dros gyfnod o 15 mlynedd, gyda'r gweddill wedi'i ddenu o ffynonellau preifat a chyhoeddus. Bydd y deilliannau a ddymunir o'r buddsoddiad hwn yn cael eu cyflawni drwy gyflawni portffolio o bum rhaglen ar wahân sy'n:

- Adeiladu ar ein cryfderau rhanbarthol mewn gweithgynhyrchu ac ynni carbon isel
- Targedu arloesedd ac isadeiledd digidol i gysylltu'r rhanbarth yn well
- Buddsoddi mewn safleoedd ac eiddo allweddol ar gyfer y farchnad datblygu
- Galluogi arloesedd i roi hwb i gynhyrchedd
- Cefnogi ein diwydiannau allweddol o fewn twristiaeth ac amaeth i ddatblygu ar gyfer y dyfodol

Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam

Mae'r parth buddsoddi yn brosiect cydweithredol y disgwylir iddo ddenu £1 biliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat a chreu 6,000 o swyddi newydd yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Mae'n cael ei gefnogi gan £160 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar weithgynhyrchu uwch, gyda'r Parth Buddsoddi yn targedu 5.5 miliwn troedfedd sgwâr o gapasiti newydd ar gyfer y sector.

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

Mae Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru yn gweithredu o fewn strwythur Uchelgais Gogledd Cymru. Mae hyn yn galluogi gweithio'n strategol ar draws sectorau, gan sicrhau bod datblygu sgiliau wedi'i ymgorffori mewn rhaglenni buddsoddi mawr gan gynnwys y Cynllun Twf a'r Parth Buddsoddi. Mae'n cryfhau ein gallu i gydlyn ar draws awdurdodau lleol, diwydiant a darparwyr.

Gweledigaeth Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yw i Ogledd Cymru fod yn rhanbarth lle mae sgiliau'n

talentau pobl yn gyrru economi ffyniannus a chymunedau cryf. Mae gweithlu medrus yn galluogi cyflogwyr lleol i dyfu a llwyddo, tra'n denu busnesau newydd sy'n cydnabod gwerth potensial y rhanbarth.

Cyllideb 2025/26

Mabwysiadodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ei gyllideb ar gyfer 2025/26 yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2025 ac mae ar gael yn: Rhaglen ar gyfer Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar Dydd Gwener, 17eg Ionawr, 2025, 1.30 y.h.

Cymeradwywyd cyllideb Cynllun Twf Gogledd Cymru ar gyfer 2025/26 gan Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru cyn y trosglwyddiad ar 14 Chwefror 2025: Rhaglen ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar Dydd Gwener, 14eg Chwefror, 2025, 9.30 y.b.

Perfformiad 2025/26

Mae gan y CBC drefniadau cadarn o adrodd ar berfformiad ar gyfer pob un o'i gyfrifoldebau, gan gynnwys:

- Adroddiadau perfformiad chwarterol ar Gynllun Twf Gogledd Cymru, gydag adroddiadau perfformiad a risg yn cael eu cyflwyno i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ac yna'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â Phwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol.
- Cyflwynir Adroddiad Blynnyddol Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd i'r CBC yn flynyddol.
- Diweddariad chwarterol ar y Parth Buddsoddi i'r Bwrdd Cynghori a'r Is-bwyllgor Lles Economaidd.
- Adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Datblygu Strategol i'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol.
- Adroddiadau bob dwy flynedd ar berfformiad, canlyniadau a gofynion adnoddau i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

Mae'r adroddiadau hyn ar gael yn Pwyllgorau, cofnodion ac agendau - Cyngor Gwynedd

Perfformiad Ariannol 2025/26

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 10 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar y lefel 'cost gwasanaethau' yn £9,383k yn ystod 2025/26, gyda'r sefyllfa net yn £49k.
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2025/26 i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 19 Mehefin 2026 ac mae ar gael yn: Rhaglen ar gyfer Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar Dydd Gwener, 19eg Mehefin, 2026, 1.30 y.h.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 10 a 11 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL I - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl I yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a cheir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb	Gwir	Gwahaniaeth
	£'000	£'000	£'000
Gwariant ar Weithrediadau	5,389	6,282	893
Ariannwyd gan-			
Cyfraniadau'r Partneriaid	(818)	(818)	0
Ardoll	(902)	(902)	0
Grantiau, chyfraniadau ac incwm eraill	(2,619)	(5,467)	(2,848)
Cyfraniad o gronfa	(1,050)	(705)	345
(Tanwariant)/Gorwariant Net	0	(1,610)	(1,610)

TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng ‘Crynodeb o’r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a’r Gwir Sefyllfa (Net)’ (Tabl 1) i’r fformat Incwm a Gwariant

	Adroddiad Perfformiad (Alldro)	Addasiad Trawsddodiad	Sefyllfa Net i’w Ariannu gan / (drosgrwyddo i) falansau’r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwyng y sail Ariannu a’r sail Cyfrifo	Datganiad Incwm a Gwariant
	£’000	£’000	£’000	£’000	£’000
Gwariant	6,282	(1,988)	4,294	5,089	9,383
Incwm	(7,892)	3,911	(3,981)	(5,353)	(9,334)
Cost Gwasanaethau Net	(1,610)	1,923	313	(264)	49

Addasiad Trawsddodiad - Mae’r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ac o reserfau, y llog ar falansau a dderbyniwyd yn y flwyddyn ariannol, yr ardoll gan awdurdodau cyfansoddol a’r gostyngiad i’r Grant Cynllun Twf a oedd ei angen yn ystod y flwyddyn.

Eitemau Materol o Incwm a Gwariant

Mae’r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- £2,225k mewn llog derbyniadwy ac incwm tebyg (Nodyn 11)
- £902k mewn ardollau gan awdurdodau cyfansoddol (Nodyn 12)
- £18,199k mewn grantiau a chyfraniadau (Nodyn 24)
- £5,230k mewn Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud (Nodyn 20)

Materion Eraill

- Mae ansefydlogrwydd economaidd a risgiau ariannol yn parhau yn y DU ac yn fyd-eang, yn arbennig o ystyried y sefyllfa yn y Dwyrain Canol sydd wedi cynyddu prisiau ynni a thanwydd, ac felly’n cynyddu chwyddiant cyffredinol. Tra fod lefelau chwyddiant yn parhau’n uwch na’r targed o 2% ar hyn o bryd, mae Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol (OBR) yn eu hadroddiad ‘Economic and Fiscal Outlook’ dyddiedig Mawrth 2026 yn darogan y bydd cyfraddau chwyddiant yn lleihau ac yn cyrraedd y targed erbyn 2027.
- Mae chwyddiant mewn costau yn risg ar gyfer prosiectau cyfalaf y Cynllun Twf Gogledd Cymru a mae’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi clustnodi arian ychwanegol i’r prosiectau mwyaf aeddfed a sefydlu Cronfa wrth Gefn Chwyddiant Costau yn 2026/27 er mwyn lleihau y risg yma.

Prosiectau Cyfalaf yn 2025/26

Yn 2025/26 gwariodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig £5.2m ar gynlluniau cyfalaf a rhoddwyd benthyciad o £8.9m yn ystod y flwyddyn. Ariannwyd y £14.1m gan grant Cynllun Twf Gogledd Cymru.

TABL 3 - CRYNODEB O PROSIECTAU CYFALAF A’I ARIANNU

	2025/26
	£’000
Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud	5,230
Benthyciad	8,865
	14,095
ARIANNWYD GAN -	
Grantiau a Chyfraniadau	14,095
	14,095

Mae'r £5,230k o Wariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud yn y tabl uchod wedi'i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant yn y flwyddyn. Mae'r gwariant yn ymwneud â:

- Prosiectau Canolfan Peirianeg ac Opteg Menter a Chymdeithas 5.0 gan Brifysgol Wrecsam;
- Prosiectau Canolfan Prosesu Signal Digidol a'r Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol gan Brifysgol Bangor;
- Prosiect Academi Croeso (Rhwydwaith Talent Twristiaeth) gan Grŵp Llandrillo Menai
- Prosiect Parc Bryn Cegin gan Llywodraeth Cymru ac Uchelgais Gogledd Cymru; a
- Phrosiectau Cronfa Ynni Glân, 4G+ (Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig), LPWAN (Campws Cysylltiedig) a Diwifr Uwch (Campws Cysylltiedig) gan Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae'r benthyciad o £8,865k yn cael ei ddangos fel dyledwr tymor hir ar y fantolen. Mae hyn yn ymwneud â phrosiect Cydnerth gan Menter Môn.

Arian wrth Gefn

Mae gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig reserfau defnyddiadwy o £12,073k. Ceir manylion yn y Fantolen a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

Cronfa Bensiwn

Mae asesiad wedi cael ei wneud gan Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd, Hymans Robertson, o sefyllfa actiwaraidd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Er mwyn cydymffurfio â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19, mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi dangos ymrwymiad net o ddim ar 31 Mawrth 2026 ar y Fantolen. Gweler Nodyn 27 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Mae'r cyfrifon yn seiliedig ar y prisiad a gafodd ei gynnal ar 1 Ebrill 2025.

Risg a Llywodraethu

Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Sefydlwyd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2025/26. Mae dogfennau allweddol fel y Blaengynllun Gwaith a'r Strategaeth Rheoli Risg wedi'u cyflwyno i'r is-bwyllgor a gellir eu gweld yn [Browse meetings - Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio CBC y Gogledd](#)

Mae cofrestr risg Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei chyflwyno bob chwarter i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd. Cyflwynwyd cofrestr risg chwarter 4 ar 15 Mai 2026: [Rhaglen ar gyfer Is-bwyllgor Lles Economaidd CBC y Gogledd ar Dydd Gwener, 15fed Mai, 2026, 9.30 y.b.](#)

Mae'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu'r symudiad mewn risgiau strategol ac effeithiolrwydd trefniadau lliniaru a dwysáu.

Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi ystyried y risgiau a nodwyd yn ei gynlluniau ariannol, gan gynnal lefel ddarvoudus o gronfeydd wrth gefn.

Mae gwybodaeth bellach hefyd wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blyneddol.

Polisiâu Cyfrifo

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg gymeradwy berthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisiâu Cyfrifo yn Nodyn 1 i'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 14.

Newidiadau mewn Polisiâu Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon

Mae polisiâu cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi eu haddasu i adlewyrchu y newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26 i God Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

Gwybodaeth Bellach

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd (www.gwynedd.llyw.cymru) ac ar wefan y CBC (uchelgaisgogledd.cymru).

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Sian Pugh
Pennaeth Cyllid Cynorthwyol -
Cynaliadwyedd a Datblygiadau
sianpugh@gwynedd.llyw.cymru

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar yr adeg briodol.

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

Mae'n ofynnol ar Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Swyddog Cyllid Statudol Cyngor Gwynedd yw swyddog ariannol cyfrifol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

Y Cyngorydd Mark Pritchard
Cadeirydd Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

25 Medi 2026

CYFRIFOLDEB Y SWYDDOG CYLLID STATUDOL

Swyddog Cyllid Statudol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Swyddog Cyllid Statudol wedi dewis polisiâu cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Swyddog Cyllid Statudol wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod ac yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 31 Mawrth 2026 ac incwm a gwariant y Cyd-Bwyllgor Corfforedig am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Dewi Aeron Morgan CPFA
Swyddog Cyllid Statudol, Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

17 Medi 2026

Tud. 43

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2024/25				2025/26			
Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler Nodyn 9)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr		Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler Nodyn 9)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr	
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000	
325	0	325	Cyd-Bwyllgor Corfforedig	415	(7)	408	
34	0	34	Cynllunio Strategol	(6)	(1)	(7)	
160	0	160	Trafnidiaeth Rhanbarthol	65	(1)	64	
0	0	0	Cynllun Twf	(54)	(241)	(295)	
83	0	83	Parth Buddsoddi	(12)	(1)	(13)	
0	0	0	Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	(95)	(13)	(108)	
602	0	602	Cost Gwasanaethau	313	(264)	49	
(57)	0	(57)	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	(2,347)	412	(1,935)	
(765)	0	(765)	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(902)	(8,865)	(9,767)	
(220)	(0)	(220)	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(2,936)	(8,717)	(11,653)	
(893)			Balans Agoriadol	(1,113)			
0			Addasiad Trosglwyddiad	(8,024)			
(893)			Balans Agoriadol wedi'i ailddatgan	(9,137)			
(220)			(Gweddill)/Diffyg yn y Flwyddyn	(2,936)			
(1,113)			Balans Cau	(12,073)			

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.

2024/25				Nodyn	2025/26		
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net			Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000			£'000	£'000	£'000
325	0	325	Cyd-Bwyllgor Corfforedig		608	(200)	408
34	0	34	Cynllunio Strategol		193	(200)	(7)
341	(181)	160	Trafnidiaeth Rhanbarthol		264	(200)	64
0	0	0	Cynllun Twf		7,599	(7,894)	(295)
83	0	83	Parth Buddsoddi		442	(455)	(13)
0	0	0	Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol		277	(385)	(108)
783	(181)	602	Cost Gwasanaethau		9,383	(9,334)	49
0	(57)	(57)	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	11	295	(2,230)	(1,935)
0	(765)	(765)	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	12	0	(9,767)	(9,767)
783	(1,003)	(220)	(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau		9,678	(21,331)	(11,653)
		0	Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymadau/(asedau)	17.2			150
		0	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall				150
		(220)	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				(11,503)

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cael eu torri i lawr rhwng enillion a cholledion yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol, a hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm a godir ar y dreth cyngor (trwy gyfraniadau'r Cyngorau a'r ardoll). Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau					
Nodyn	Reserf Cyffredinol £'000	Reserfau a Glustnodwyd £'000	Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy £'000	Reserfau na ellir eu defnyddio £'000	Cyfanswm Reserfau'r CBC £'000
Balans 31 Mawrth 2024 a ddygwyd ymlaen	0	(893)	(893)	0	(893)
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2024/25</u>					
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(220)	0	(220)	0	(220)
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	0	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn					
Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd	(220)	0	(220)	0	(220)
Trosglwyddiadau i / o Reserfau a Glustnodwyd	220	(220)	0	0	0
(Cynnydd)/ Gostyngiad yn 2024/25	0	(220)	(220)	0	(220)
Balans 31 Mawrth 2025 a ddygwyd ymlaen	0	(1,113)	(1,113)	0	(1,113)
Addasiad Trosglwyddiad	0	(8,024)	(8,024)	42	(7,982)
Balans 1 Ebrill 2025 a ddygwyd ymlaen	0	(9,137)	(9,137)	42	(9,095)
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2025/26</u>					
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(11,653)	0	(11,653)	150	(11,503)
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	8,717	0	8,717	(8,717)	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn					
Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd	(2,936)	0	(2,936)	(8,567)	(11,503)
Trosglwyddiadau i / o Reserfau a Glustnodwyd	1,869	(1,869)	0	0	0
(Cynnydd)/ Gostyngiad yn 2025/26	(1,067)	(1,869)	(2,936)	0	(2,936)
Balans 31 Mawrth 2026 a ddygwyd ymlaen	(1,067)	(11,006)	(12,073)	(8,525)	(20,598)

Tud. 46

Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymïadau'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (asedau llai ymrwymïadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyd-Bwyllgor Corfforedig eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd. Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyd-Bwyllgor Corfforedig eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbrisio), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

31 Mawrth 2025 £'000		Nodyn	31 Mawrth 2026 £'000
0	Dyledwyr Tymor Hir	13	8,877
0	Asedau Tymor Hir		8,877
0	Buddsoddiadau Tymor Byr	13	34,089
86	Dyledwyr Tymor Byr	14	23,538
1,426	Arian a Chywerthoedd Arian	15	22,262
1,512	Asedau Cyfredol		79,889
(399)	Credydwyr Tymor Byr	16	(5,525)
0	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw	24b	(62,643)
(399)	Ymrwymïadau Cyfredol		(68,168)
0	Ymrwymïad Pensiwn	27	0
0	Ymrwymïadau Tymor Hir		0
1,113	Asedau Net		20,598
(1,113)	Reserfau Defnyddiadwy		(12,073)
0	Reserfau na ellir eu defnyddio	17	(8,525)
(1,113)	Cyfanswm Reserfau		(20,598)

DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chywerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cynhyrchu a defnyddio arian a chywerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig a ariennir trwy incwm grant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn y dyfodol.

2024/25 £'000		Nodyn	2025/26 £'000
(220)	(Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau		(11,653)
(354)	Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol	18a	10,793
0	Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu		0
(574)	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu		(860)
0	Gweithgareddau Buddsoddi	19	34,000
0	Gweithgareddau Ariannu		0
(574)	(Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chywerthoedd arian		33,140
(852)	Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd	15	(1,426)
0	Addasiad Trosglwyddiad		(53,976)
(852)	Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd wedi'i ailddatgan		(55,402)
(1,426)	Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd	13	(22,262)

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO

I.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn y flwyddyn ariannol 2025/26 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2026. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025/26* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu yn y Datganiad o'r Cyfrifon. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Ar 1 Ebrill 2025, trosglwyddwyd y Cynllun Twf, ei chyllid a'r Swyddfa Rheoli Portffolio o Gyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC). Trosglwyddwyd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd o Gyngor Gwynedd i'r CBC ar yr un dyddiad. Trosglwyddwyd yr asedau, ymrwymadau a chronfeydd wrth gefn ar eu gwerth cario a chymhwyswyd egwyddorion cyfrifyddu amsugno. Felly, mae'r ffigurau cymharol ar gyfer 2024/25 yn cynnwys y CBC cyn trosglwyddo'r Cynllun Twf a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ac felly gweler isod y polisiâu perthnasol yn unig.

I.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid pan wneir neu derbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynnwyd y gwasanaeth yn unol â rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Mae llog derbyniadwy ar fuddsoddiadau yn cael ei gyfrif fel incwm ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offerynnau ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian a bennir neu a bennir gan y contract.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar y cyfrif refeniw am yr incwm sydd yn annhebygol o gael ei gasglu.

I.3 Arian a Chywerthoedd Arian

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd, a gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categorio fel cywerthoedd arian a'u cynnwys fel Arian a Chywerthoedd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y Fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

I.4 Buddiannau Gweithwyr

I.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Gwneir cronïad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y cronïad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r symudiad mewn Reserfau i'r cyfrif absenoldebau croniedig fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

1.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor Corfforedig i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad croniat yn erbyn y gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr un ai pan na all y Cyd-Bwyllgor Corfforedig dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cydnabod cost o ail-strwythuro, pa un bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau, mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai Gronfa'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn, yn hytrach na'r swm sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Reserf Pensiynau er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

1.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn aelodau o un cynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r cynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lym-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

1.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac maent yn cynrychioli cyfran benodol o gyfraniadau gweithwyr i'r cynllun pensiwn a ariennir hwn.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 6.35% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwarï'r Gronfa.

Pan fydd y cyfrifiad yn arwain at ased net ar gyfer y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, rhaid cydnabod yr ased net ar isaf yr ased net hwnnw a'r nenfwd asedau, sy'n cael ei gyfrifo fel gwerth net presennol o gostau gwasanaeth yn y dyfodol llai gwerth net presennol cyfraniadau yn y dyfodol dros hyd oes waith yn y dyfodol. Lle mai'r nenfwd yw'r isaf, bydd angen addasiad sy'n cael ei gynnwys fel aifesuriad.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaeth y gweithiodd y gweithwyr iddo.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion a ddiffinnir ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraid - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu am nad yw'r Actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.
- Addasiad nenfwd asedau - yn lleihau i'r nenfwd asedau wedi'i gyfrifo os yw hyn yn is na'r sefyllfa ased.
- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiaid; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiaid tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau Corfforedig) Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh 19.

1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiaid sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiâu â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisiâu Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynnyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiâu cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai nad yw'n faterol neu y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.7 Offerynnau Ariannol

Ymrwymadau Ariannol

Cydnabyddir ymrwymadau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig.

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig fenthyciadau ar hyn o bryd.

Asedau Ariannol

Dosbarthir asedau ariannol yn unol â dull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn dal asedau ariannol wedi eu mesur ar:

- gost amorteiddiedig, a
- gwerth teg drwy elw a cholled

Model busnes y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yw i ddal buddsoddiadau i gasglu llif arian cytundebol. Mae offerynnau ariannol felly yn cael eu dosbarthu fel cost amorteiddiedig, ag eithrio rheiny nad yw eu taliadau cytundebol yn daliad o brifswm a llog yn unig (h.y. ble nad yw llif arian ar ffurf offeryn dyled sylfaenol).

Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Gost Amorteiddiedig

Cydnabyddir asedau ariannol a fesurir ar gost amorteiddiedig ar y Fantolen pan ddaw'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Bydd credyd blynyddol i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y llog a dderbynnir yn seiliedig ar werth cario yr ased wedi ei luosi gyda chyfradd llog effeithiol yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau sydd gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sydd yn weddill (yn ogystal â'r llog cronedig) gyda'r llog sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Bydd unrhyw enillion a cholledion sydd yn codi wrth ddad-gydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Model Colled Credyd Disgwyliedig

Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei holl asedau ariannol a ddelir ar gostau wedi'u hamorteiddio, un ai ar sail 12 mis neu oes. Dim ond colledion oes a gydnabyddir ar gyfer symiau masnach derbyniadwy a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Cyfrifir colledion amhariad i adlewyrchu'r posibilrwydd na fydd y llif arian yn digwydd yn y dyfodol o ganlyniad i'r benthyciwr yn diffygdalu ei ymrwymiad.

Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Werth Teg Drwy Elw a Cholled

Cydnabyddir asedau ariannol sydd wedi eu mesur ar werth teg drwy elw a cholled ar y Fantolen pan ddaw'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol ac yn cael eu mesur a'u cario ar eu gwerth teg i ddechrau. Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg wrth iddynt gyrraedd y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau.

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

Mesuriad Gwerth Teg o Asedau Ariannol

Gwerth teg ased yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased mewn trafodiad trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar y dyddiad mesur. Mae mesuriad gwerth teg asedau ariannol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn seiliedig ar y technegau canlynol:

- offerynnau sydd â phris marchnad wedi ei ddyfynnu – pris y farchnad.
- offerynnau eraill gyda thaliadau sefydlog a phendant – dadansoddiad llif arian gostyngol.

Mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur wedi eu categoreiddio yn unol â'r tri lefel isod;

- Mewnbwn Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd actif am asedau yr un fath y gall y Cyd-Bwyllgor Corfforedig gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur.
- Mewnbwn Lefel 2 – mewnbwn heblaw am brisiau a ddyfynnwyd sy'n gynwysedig o fewn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Mewnbwn Lefel 3 – mewnbwn anweladwy i'r ased.

Bydd unrhyw enillion a cholledion sydd yn codi wrth ddad-gydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

1.8 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail gronïadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi ei fodloni.

Oherwydd gofynion y gyfundrefn rheoli cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf fel rhan o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, nid yw'r grantiau a chyfraniadau sy'n ariannu gwariant cyfalaf sydd wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wir incwm. Felly, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cyfrifo'r symiau hyn fel a ganlyn:

- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei dderbyn, a bod amodau'n parhau heb eu bodloni ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant ei gydnabod fel Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o flaen llaw ar y Fantolen. Unwaith mae'r amod wedi ei fodloni, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a bod y gwariant sydd i'w ariannu o'r grant neu gyfraniad hwnnw wedi ei wneud ar ddyddiad y fantolen, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, i adlewyrchu dyrannu adnoddau cyfalaf i ariannu gwariant. Adroddir y trosglwyddiad hwn yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

1.9 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw ac amser y staff a gofnodir.

1.10 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau. Cedwir rhai reserfau eraill sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

1.11 Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf Drwy Statud

Mae deddfwriaeth yn caniatáu categoreiddio peth gwariant fel cyfalaf i bwrpas ariannu er nad yw'n creu ased sydd yn cael ei gario ar y Fantolen. Bwriad hyn yw galluogi'r gwariant i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf yn hytrach nag ei roi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol. Defnyddir cost hanesyddol fel sail prisio ar gyfer y math yma o wariant ac ysgrifennir hwn i lawr o fewn blwyddyn.

1.12 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant cyfalaf a refeniw. Gan nad yw'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi cofrestru ar gyfer TAW, mae'r TAW yn cael ei adennill drwy TAW126.

NODYN 1 – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

1.13 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar sail cronni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

1.14 Contractau Tymor Hir

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei ddrynnu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynnydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

1.15 Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partïon sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymïadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymïadau, refeniw a gwariant.

NODYN 2 – TROSGLWYDDIAD CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU A'R BARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig am y tro cyntaf yn 2025/26 baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) oherwydd trosglwyddiad Cynllun Twf Gogledd Cymru ar 1 Ebrill 2025. Felly, mae Ffurflen Flynyddol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2024/25 wedi'i throsi i'r fformat priodol ar gyfer y Datganiad o'r Cyfrifon.

Dangosir balansau Cynllun Twf Gogledd Cymru (yn cynnwys y Swyddfa Rheoli Portffolio) a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar 31 Mawrth 2025 isod a dyma'r sail a ddefnyddiwyd ar gyfer y trosglwyddiad i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd:

	Cynllun Twf	Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Dyledwyr Tymor Hir	2	0	2
Asedau Tymor Hir	2	0	2
Dyledwyr Tymor Byr	133	0	133
Arian a Chywerthoedd Arian	53,716	260	53,976
Asedau Cyfredol	53,849	260	54,109
Credydwyr Tymor Byr	(4,540)	(9)	(4,549)
Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw	(30,787)	0	(30,787)
Ymrwymïadau Cyfredol	(35,327)	(9)	(35,336)
Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw	(10,793)	0	(10,793)
Ymrwymiad Pensiwn	0	0	0
Ymrwymïadau Tymor Hir	(10,793)	0	(10,793)
Asedau Net	7,731	251	7,982
Reserfau Defnyddiadwy	(7,773)	(251)	(8,024)
Reserfau na ellir eu defnyddio	42	0	42
Cyfanswm Reserfau	(7,731)	(251)	(7,982)

Tud. 54

NODYN 2 – TROSGLWYDDIAD CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU A'R BARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL (parhad)

Dangosir y balansau perthnasol fel 'Addasiad Trosglwyddiad' mewn datganiadau a nodiadau sy'n dangos y symudiad mewn balansau er mwyn darparu sefyllfa agoriadol newydd Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 1 Ebrill 2025.

NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Nid oes yna addasiad cyfnod blaenorol yn berthnasol i gyfrifon 2025/26.

NODYN 4 – SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn gofyn i effaith ddisgwyliedig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei datgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Cod 2026/27:

- Diwygiadau i SAA 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Diwygiadau i Asedau Treftadaeth) a gyhoeddwyd ym Mawrth 2024.
- Diwygiadau i Ddosbarthu a Mesur Offerynnau Ariannol (Diwygiadau i SAARh 9 ac SAARh 7) a gyhoeddwyd ym Mai 2024.
- Gwelliannau Blynyddol i Safonau Cyfrifyddu SAARh – Cyfrol II a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2024.
- Contractau sy'n Cyfeirio at Drydan Dibynnol ar Natur (Diwygiadau i SAARh 9 ac SAARh 7) a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2024.

Mae'n ofynnol fod y Cod yn weithredol o 1 Ebrill 2026 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2025/26. Ni ddisgwyli'r y bydd yr eitemau eraill uchod yn cael effaith sylweddol ar y wybodaeth a ddarperir yn natganiadau ariannol 2026/27.

NODYN 5 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISIÂU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisiâu cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafluniadau hanesyddol, cyfredol a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis prisiad yr Actiwari o asedau ac ymrwymadau'r gronfa bensiwn, reserfau a glustnodwyd, benthyciadau tymor hir a gwariant refeniw wedi ei ariannu o gyfalaf drwy statud. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd, gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

NODYN 6 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar 31 Mawrth 2026 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw canlyniadau gwir yn wahanol i dybiaethau
Ymrwymiad Pensiwn	Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth yn ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwylidig ar asedau'r gronfa pensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghori yn ymwneud â rhoi cyngor arbenigol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig am y rhagdybiaethau i'w defnyddio.	Mae effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar ymrwymiad pensiwn net wedi'u nodi yn Nodyn 27.

NODYN 7 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau materol o incwm a gwariant yn cynnwys y canlynol:-

- £2,225k mewn llog derbyniadwy ac incwm tebyg (Nodyn 11)
- £902k mewn ardollau gan awdurdodau cyfansoddol (Nodyn 12)
- £18,199k mewn grantiau a chyfraniadau (Nodyn 24)
- £5,230k mewn Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud (Nodyn 20)

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

2025/26	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU			
	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i) £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii) £'000	Gwahaniaethau Eraill (iii) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Cyd-Bwyllgor Corfforedig	0	(15)	8	(7)
Cynllunio Strategol	0	(1)	0	(1)
Trafnidiaeth Rhanbarthol	0	(1)	0	(1)
Cynllun Twf	(123)	(108)	(10)	(241)
Parth Buddsoddi	0	(4)	3	(1)
Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	0	(16)	3	(13)
Cost Gwasanaethau	(123)	(145)	4	(264)
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	417	(5)	0	412
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(8,865)	0	0	(8,865)
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(8,571)	(150)	4	(8,717)

Nid oedd unrhyw addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn 2024/25.

(i) Addasiadau i Bwrpas Cyfalaf

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r golofn yma yn ychwanegu gwariant refeniw wedi ei ariannu o gyfalaf drwy statud.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi**, y costau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf a chyfraniadau refeniw arall yn cael eu tynnu allan o incwm a gwariant arall gan na ellir codi amdanynt o dan drefn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae'r llinell hon hefyd yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer lwfans colled ar fenthyciad cyfalaf.

(ii) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig fel y caniateir trwy statud a'u hamnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi**, y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

(iii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.

Tud. 57

NODYN 9 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig i gwrdd â gwariant yn y dyfodol.

2025/26		
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU	Reserf Defnyddiwyd Balans Cronfa Gyffredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf		
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a ddefnyddiwyd	14,218	(14,218)
Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud	(5,230)	5,230
Gwariant cyfalaf a ariennir o falansau refeniw	(123)	123
Lwfansau colled ar fenthyciadau cyfalaf	(294)	294
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 27)	(128)	128
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	278	(278)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(4)	4
Cyfanswm Addasiadau	8,717	(8,717)

Nid oedd unrhyw addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn 2024/25.

NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU A GLUSTNODWYD

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, gyda chynnydd net o £1,869k.

2025/26		Balans 31 Mawrth 2025 £'000	Addasiad Trosglwyddiad £'000	Balans 1 Ebrill 2025 £'000	Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd			Balans 31 Mawrth 2026 £'000
Nodyn						mewn	allan	
10.1	CBC	(1,113)	0	(1,113)	0	(21)	565	(569)
	Cynllun Twf - Cronfa							
10.2	Wrth Gefn a	0	(211)	(211)	0	0	0	(211)
	Glustnodwyd							
10.3	Cynllun Twf - Cronfa	0	(29)	(29)	0	(123)	0	(152)
	Prosiectau							
10.4	Cynllun Twf - Cronfa	0	(4,733)	(4,733)	0	(331)	0	(5,064)
	Llog							
10.5	Cynllun Twf - Cronfa	0	(2,800)	(2,800)	0	(1,636)	79	(4,357)
	Adnoddau							
10.6	Cynllun Twf - Cyfrif	0	0	0	0	(307)	0	(307)
	Dal Llog							
10.7	Partneriaeth Sgiliau	0	(251)	(251)	0	(95)	0	(346)
	Rhanbarthol							
Cyfanswm		(1,113)	(8,024)	(9,137)	0	(2,513)	644	(11,006)

- 10.1 CBC - i gefnogi cyllidebau'r blynyddoedd i ddod ar gyfer swyddogaethau'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynllunio Strategol.
- 10.2 Cynllun Twf - Cronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd - i gefnogi cyllidebau'r blynyddoedd i ddod a strwythur staffio y Swyddfa Rheoli Portffolio.
- 10.3 Cynllun Twf - Cronfa Prosiectau - i ariannu gwariant sydd yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.
- 10.4 Cynllun Twf Cronfa Llog - i ariannu cost benthyca yn y dyfodol.
- 10.5 Cynllun Twf - Cronfa Adnoddau - i ariannu gofynion y llywodraeth, costau datblygu prosiectau a chadw capasiti y Swyddfa Rheoli Portffolio.
- 10.6 Cynllun Twf - Cyfrif Dal Llog - i ddal llog sydd wedi cronni ar fenthyciadau sy'n daladwy yn y tymor hir.
- 10.7 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol - i gefnogi cyllidebau ac ymrwymadau yn y maes sgiliau yn y blynyddoedd i ddod.

NODYN 11 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

2024/25	2025/26
£'000	£'000
0 Llog net yr ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net	(5)
(57) Llog derbyniadwy ac incwm tebyg	(2,225)
0 Lwfansau colled ar offerynnau ariannol	295
(57) Cyfanswm	(1,935)

NODYN 12 – TRETH AC INCWM GRANT AMHENODOL

2024/25		2025/26
£'000		£'000
(124)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(147)
(121)	Cyngor Gwynedd	(145)
(107)	Cyngor Sir Ddinbych	(127)
(173)	Cyngor Sir y Fflint	(203)
(77)	Cyngor Sir Ynys Môn	(90)
(150)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(177)
(13)	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	(13)
(765)		(902)
0	Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf	(8,865)
(765)	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(9,767)

NODYN 13a – OFFERYNNAU ARIANNOL

(i) Offerynnau Ariannol - Dosbarthiadau

Diffinnir offeryn ariannol fel unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn cael eu cyfnewid, megis rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn gyfystyr ag offerynnau ariannol.

Ymrwymadau Ariannol

Mae ymrwymiad ariannol yn ddyletswydd i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, a all gynrychioli dyletswydd gytundebol i gyflwyno arian parod neu asedau ariannol, neu ddyletswydd i gyfnewid ymrwymadau ac asedau ariannol gydag endid arall sydd o bosib yn anffafriol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

Mae ymrwymadau ariannol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio, ac yn cynnwys:

- taliadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd

Asedau Ariannol

Mae ased ariannol yn golygu hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig a gynrychiolir gan arian parod, offerynnau ecwiti neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu ased ariannol arall, neu hawl i gyfnewid asedau ac ymrwymadau ariannol gyda endid arall sydd yn ffafriol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Mae'r asedau ariannol a ddaliwyd gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyfrifo o fewn y dau ddosbarth a ganlyn:

Cost wedi'i amorteiddio (ble mae'r llif arian yn daliadau prifswm a llog yn unig, ac mai cynllun busnes y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yw i gasglu'r llif arian hynny) yn cynnwys:

- cyfrifon banc
- adneuon cyfnod penodol gyda Llywodraeth y DU
- benthyciadau i awdurdodau lleol eraill
- benthyciadau i gwmnïoedd bach
- derbyniadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd

Gwerth teg trwy elw a cholled (asedau ariannol eraill) yn cynnwys:

- cronfeydd marchnadoedd arian

Dangosir asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio yn net o lwfans colled sydd yn adlewyrchu'r tebygolrwydd ystadegol na fydd y benthyciwr neu'r dyledwr yn gallu cyflawni ei ymrwymadau cytundebol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

Tud. 60

NODYN 13a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

(ii) Offerynnau Ariannol – Balansau

Mae'r ymrwymadau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

Ymrwymadau Ariannol	Tymor Hir		Tymor Byr	
	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	2025	2026	2025	2026
	£'000	£'000	£'000	£'000
<i>Ymrwymadau ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Benthyciad wedi'i roi	0	0	0	1,923
Dyledion masnachol	0	0	305	805
Cynhwyswyd o fewn Credydwy'r *	0	0	305	2,728
Cyfanswm yr Ymrwymadau Ariannol	0	0	305	2,728

* Mae llinell credydwy'r tymor byr ar y Fantolen yn cynnwys £2,797,000 (2024/25: £94,000) o gredydwy'r (Nodyn 16) nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o ymrwymiad ariannol. Mae'r benthyciad o £1,923,000 a roddwyd yn ymwneud â thynnu benthyciad i lawr i Menter Môn fel rhan o brosiect Cynllun Twf Cydnerth. Cymeradwywyd tynnu'r benthyciad i lawr ond nid oedd wedi'i dalu eto i Menter Môn ar 31 Mawrth 2026.

Mae'r asedau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

Asedau Ariannol	Tymor Hir		Tymor Byr	
	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	2025	2026	2025	2026
	£'000	£'000	£'000	£'000
<i>Ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Prifswm	0	0	0	34,000
Llog cronedig	0	0	0	89
Lwfans colled	0	0	0	0
Cyfanswm Buddsoddiadau	0	0	0	34,089
<i>Ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Prifswm	0	0	1,421	2,260
Llog cronedig	0	0	5	3
Lwfans colled	0	0	0	(1)
<i>Ar werth teg drwy elw a cholled:</i>				
Gwerth teg	0	0	0	20,000
Cyfanswm Arian a Chywerthoedd Arian	0	0	1,426	22,262
<i>Ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Prifswm	0	8,865	0	0
Llog cronedig	0	306	0	0
Lwfans colled	0	(294)	0	0
Derbyniadau Masnachol	0	0	0	37
Cynhwyswyd o fewn Dyledwy'r *	0	8,877	0	37
Cyfanswm Asedau Ariannol	0	8,877	0	56,388

* Mae llinell tymor byr dyledwy'r ar y Fantolen yn cynnwys £23,501,000 (2024/25: £0) o ddyledwy'r (Nodyn 14) nad ydynt yn cwrdd â'r diffiniad o ased ariannol. Mae'r balans o £8,877,000 o ddyledwy'r tymor hir yn ymwneud â benthyciad a ddarparwyd i Menter Môn fel rhan o brosiect Cynllun Twf Cydnerth.

NODYN 13a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

(iii) Offerynnau Ariannol – Enillion a Cholledion

Mae'r enillion a cholledion a nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas â'r offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

	Asedau Ariannol			
	Cost wedi'i Amorteiddio	Gwerth Teg drwy Elw a Cholled	2025/26	2024/25
	£'000	£'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
Incwm llog	(1,657)	0	(1,657)	(57)
Incwm difidendau	0	(568)	(568)	0
Incwm y llog a'r buddsoddiad	(1,657)	(568)	(2,225)	(57)
Lwfans colled	295	0	295	0
Addasiadau i ddarpariaethau a gwerth teg offerynnau ariannol	295	0	295	0
Effaith net ar (Gwarged)/ Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau (Enillion)/colledion net y flwyddyn	(1,362)	(568)	(1,930)	(57)
	(1,362)	(568)	(1,930)	(57)

iv) Offerynnau Ariannol – Gwerthoedd Teg

Gwerth teg offeryn ariannol yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn wrth werthu ased, neu'r pris a fyddai'n cael ei dalu wrth drosglwyddo ymrwymiad, i gyfranogwr arall yn y farchnad mewn trafodyn hyd braich.

Mae offerynnau ariannol, ar wahân i'r rhai gyda chost wedi ei amorteiddio, wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg. Ar gyfer y mwyafrif o asedion, yn cynnwys cyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnadoedd arian, mae'r gwerth teg yn deillio o bris y farchnad.

Mae offerynnau ariannol gyda chost wedi ei amorteiddio wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail cost wedi'i amorteiddio. Amcangyfrifir eu gwerth teg trwy gyfrifo'r gwerth net presennol o'r llifau arian cytundebol sy'n weddill ar 31 Mawrth 2026, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Mae gwerth teg benthyciadau a buddsoddiadau tymor hir wedi eu disgowntio ar gyfraddau'r farchnad ar gyfer offerynnau cyffelyb sydd â chyfnod ad-dalu cyffelyb yn weddill ar 31 Mawrth.
- Ni chydabyddir ad-daliadau cynnar nac amhariadau ar gyfer offerynnau ariannol.
- Rhagdybir bod gwerth teg offerynnau tymor byr, gan gynnwys dyledion a derbyniadau masnachol, yn cyfateb yn agos i'r swm cario, o ystyried y sefyllfa llog isel sydd ohoni.

Dengys y gwerthoedd teg yn y tabl isod, wedi eu rhannu yn unol â'u lefel yn yr hierarchaeth gwerth teg:

- Lefel 1 – gwerth teg sydd yn deillio o brisiau a ddyfynnwyd mewn marchnadoedd gweithredol am asedau neu ymrwymadau yr un fath, e.e. prisiau bondiau
- Lefel 2 – gwerth teg sydd wedi ei gyfrifo yn seiliedig ar fewnbynnau yn hytrach na prisiau a ddyfynnwyd ar gyfer yr ased neu ymrwymiad, e.e. cyfraddau llog neu gynnyrch am offerynnau tebyg
- Lefel 3 – gwerth teg sydd wedi'i bennu trwy ddefnyddio mewnbynnau na ellir eu harsylwi, e.e. data nad yw'n y farchnad fel rhagolwg llif arian neu amcan teilyngdod credyd

Tud. 62

NODYN 13a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

	Lefel	Mantolen	Gwerth Teg	Mantolen	Gwerth Teg
	Gwerth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	Teg	2025	2025	2026	2026
		£'000	£'000	£'000	£'000
<i>Gwerth teg offerynnau ariannol:</i>					
Cronfeydd marchnadoedd arian	1	0	0	20,000	20,000
<i>Asedau ariannol ar gost wedi'i amorteiddio:</i>					
Benthyciadau tymor hir i gwmnïau	3	0	0	8,877	6,760
CYFANSWM		0	0	28,877	26,760
<i>Asedau ble nad ydi gwerth teg yn cael ei ddangos *</i>					
		1,426		36,388	
CYFANSWM ASEDAU ARIANNOL		1,426		65,265	
<i>Wedi ei gofnodi ar y mantolen fel:</i>					
Dyledwyr tymor hir		0		8,877	
Dyledwyr tymor byr		0		37	
Buddsoddiadau tymor byr		0		34,089	
Arian a chywerthoedd arian		1,426		22,262	
CYFANSWM ASEDAU ARIANNOL		1,426		65,265	

* Rhagdybir bod gwerth teg asedau ariannol tymor byr, a ddelir ar gost wedi ei amorteiddio, gan gynnwys derbyniadau masnachol, yn gyfystyr â'r gwerth i'w gario.

Mae gwerth teg asedau ariannol a ddelir ar gost wedi amorteiddio yn is na'u swm gwerth i'w gario oherwydd bod y gyfradd llog ar fenthyciadau tebyg yn uwch na'r hyn a gafwyd pan wnaed y benthyciad yn wreiddiol.

NODYN 13b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cydymffurfio â Chod Ymarfer ar Reolaeth y Trysorlys CIPFA â'r Cod Darbodus Ariannu Cyfalaf Awdurdodau Lleol, y ddau wedi eu diwygio Rhagfyr 2021.

Yn unol â Chod Rheolaeth y Trysorlys, mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cymeradwyo Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r paramedrau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig hefyd yn cynhyrchu Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys, sy'n manylu ar y trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hynny. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, ynghyd â'i Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys yn ceisio sicrhau cydbwysedd addas rhwng risg ac enillion neu gost.

NODYN 13b – NATUR A MAINT Y RISG SY’N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae’r prif risgiau fel a ganlyn:

- *Risg Credyd:* Y posibilrwydd y bydd un parti mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni ei ymrwymadau cytundebol, gan beri colled i’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig.
- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na fydd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn gallu codi digon o arian i ddiwallu’r ymrwymiad ariannol ar amser.
- *Risg y Farchnad:* Y posibilrwydd o golled ariannol oherwydd newidiadau i’r cyfraddau llog, prisiau’r farchnad ac ati.

Risg Credyd: Buddsoddiadau

Mae’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod ei holl fuddsoddiadau’n cael eu gwneud gyda sefydliadau sydd ag ansawdd credyd uchel, fel y nodir yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys. Mae’r rhain yn cynnwys endidau masnachol gydag isafswm statws credyd hirdymor o A-, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol eraill heb statws credyd lle y mae’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi derbyn cyngor buddsoddi annibynnol arnynt. Gan gydnabod nad yw credyd-raddio bob amser yn medru rhagweld diffygdlu, mae’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig hefyd yn ystyried mesurau eraill gan gynnwys cyfnewid diffygdlu credyd a phrisiau ecwiti wrth ddewis sefydliadau masnachol ar gyfer buddsoddi.

Gosodir uchafswm o £5m o swm yr holl bortffolio y gellid ei fuddsoddi gyda gwrth barti unigol (heblaw llywodraeth y DU). Ar gyfer buddsoddiadau heb eu gwarantu mewn banciau, cymdeithasau adeiladau a darparwyr cofrestredig, mae terfyn llai o £3m yn berthnasol.

Nid yw’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn dal gwarant gyfochrog yn erbyn unrhyw fuddsoddiadau.

Ceir crynodeb yn y tabl isod o werth risg credyd portffolio buddsoddi trysorlys y Cyd-Bwyllgor Corfforedig fesul cyfradd credyd:

Cyfradd Credyd	Tymor Byr	
	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2026
	£’000	£’000
AAA (Cronfeydd Marchnad Arian)	0	20,000
A+	1,421	2,255
Llywodraeth y DU	0	3,000
Awdurdodau Lleol	0	31,000
Cyfanswm Buddsoddiadau (Prifswm)	1,421	56,255

Mae lwfansau colled ar fuddsoddiadau’r trysorlys ac arian a chywerthoedd arian wedi eu cyfrifo trwy gyfeirio at ddata rhagosodiad hanesyddol gyhoeddwyd gan asiantaethau statws credyd, wedi ei luosi gyda 110% i ystyried yr hinsawdd economaidd gyfredol ac i’r dyfodol. Rhagdybir y bydd oediad o ddwy flynedd yn y llifau arian mewn achos o ddiffygdlu. Mae buddsoddiadau wedi dioddef cynnydd sylweddol mewn risg credyd ac wedi eu israddio gan dri neu mwy o nodlau statws credyd, neu gyfatebol, ers y gydnabyddiaeth gychwynnol, oni bai eu bod yn dal sgôr credyd gradd buddsoddi. Ystyrir hwy â nam ar eu credyd os wedi eu dyfarnu â sgôr credyd “D” neu gyfatebol. Ar 31 Mawrth 2026, roedd £792 o lwfansau colled yn perthyn i fuddsoddiadau’r trysorlys.

Risg Hylifedd

Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig £22.3m (2024/25: £1.4m) o asedau ariannol hylifol y gellir eu tynnu’n ôl neu eu gwerthu ar fyr rybudd os oes angen i gwrdd ag all-lifau arian parod ar ymrwymadau ariannol.

NODYN 13b – NATUR A MAINT Y RISG SY’N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Risg y Farchnad : Risg Cyfraddau Llog

Mae’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn agored i risgiau sy’n codi o symudiadau yn y cyfraddau llog ar fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effeithiau cymhleth ar y Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn arwain at yr effeithiau a ganlyn:

- Benthyciadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai’r gwariant llog yn cynyddu.
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr ymrwymadau benthyca yn disgyn.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai’r incwm llog sydd yn cael ei gredydu yn cynyddu.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr asedau yn disgyn.

Nid yw buddsoddiadau ar gost wedi ei amorteiddio na benthyciadau a ddelir yn cael eu cario ar werth teg, ac felly ni fydd newidiadau i’w gwerth teg yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae’r newidiadau yn y llog sy’n daladwy ac yn ddyledus ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfraddau cyfnewidiol yn cael eu nodi ar y Gwarged neu’r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau. Caiff symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog eu hadlewyrchu yn yr Incwm Cynhwysfawr Arall neu yn y Gwarged neu’r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, fel sy’n briodol.

Petai’r holl gyfraddau llog wedi bod 1% yn uwch (gyda’r elfennau newidiol eraill oll yn gyson), yr effaith ariannol fyddai:

	31 Mawrth 2026 £'000
Cynnydd yn y llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol	(196)
Gostyngiad yng ngwerth teg y buddsoddiadau a ddelir ar Werth Teg drwy Elw a Cholled	26
Effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(170)
Gostyngiad yng ngwerth teg benthyciadau a buddsoddiadau ar gost wedi'i amorteiddio *	18

* Dim effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, nac ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

NODYN 14 – DYLEDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Symiau Derbyniadwy Masnach	0	3
Blaendaliadau	0	34
Symiau Derbyniadwy Eraill *	86	23,501
Cyfanswm	86	23,538

* Roedd £22.5m o Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ddyledus gan Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2026.

NODYN 15 – ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Cyfrifon Banc Cyfredol	0	5
Cyfrifon Galw	1,426	22,257
Arian a Chywertoedd Arian	1,426	22,262

NODYN 16 – CREDYDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Symiau Taladwy Masnach	305	805
Derbyniadau ymlaen llaw	90	0
Symiau Taladwy Eraill	4	4,720
Cyfanswm	399	5,525

NODYN 17 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
0 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	8,571
0 Reserf Pensiynau	0
0 Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(46)
0 Cyfanswm Reserfau Na Ellir Eu Defnyddio	8,525

17.1 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n codi oherwydd y gwahaniaethau mewn trefniadau cyfrifeg am ddefnyddio asedau tymor hir a chyllido'r prynu, adeiladu a gwella'r asedau o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda'r gost o brynu, adeiladu a gwella gan fod dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddio yn cael ei gyfrifo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r Cyfrif yn cael ei gredydu gyda'r swm wedi ei neilltuo gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig fel cyllid i brynu, adeiladu a gwella asedau.

Mae Nodyn 9 yn dangos manylion yr holl drafodion o fewn y Cyfrif.

2024/25 £'000	2025/26 £'000
0 Balans 1 Ebrill	0
0 Addasiad Trosglwyddiad	0
0 Balans 1 Ebrill wedi'i ailddatgan	0
<u>Gwrthdroi eitemau sydd yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u>	
0 Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud	(5,230)
0 Lwfansau colled ar fenthyciadau cyfalaf	(294)
<u>Ariannu Cyfalaf a gyfeiriwyd yn y flwyddyn:</u>	
0 Grantiau a Chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ariannu cyfalaf	14,218
0 Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	(123)
0 Balans 31 Mawrth	8,571

NODYN 17 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

17.2 Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol ac ar gyfer ariannu buddion yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blyneddod o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau sydd wedi eu neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion enillwyd gael eu hariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu yn y pen draw fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt, gydag anghenion ariannu wedi eu neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2024/25 £000	2025/26 £000
0 Balans 1 Ebrill	0
0 Addasiad Trosglwyddiad	0
0 Balans 1 Ebrill wedi'i ailddatgan	0
0 Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net (ymrwymadau) / asedau	(150)
0 Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(128)
0 Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	278
0 Balans 31 Mawrth	0

17.3 Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cydadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blyneddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

2024/25 £000	2025/26 £000
0 Balans 1 Ebrill	0
0 Addasiad Trosglwyddiad	(42)
0 Balans 1 Ebrill wedi'i ailddatgan	(42)
0 Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(4)
0 Balans 31 Mawrth	(46)

NODYN 18a – DATGANIAD LLIF ARIAN – ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

2024/25	2024/25
£'000	£'000
(145) (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyd	(12,772)
(209) Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyd	23,713
0 Ymrwymiad Pensiwn	150
0 Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau	(298)
(354)	10,793

*Oherwydd trosglwyddiad balansau Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol i'r CBC, nid yw'r symudiadau uchod yn cysoni'n uniongyrchol â'r symudiadau yn y fantolen.

NODYN 18b – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

Mae'r llif arian ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitem ganlynol:

2024/25	2025/26
£'000	£'000
(4) Difidendau a llog a dderbyniwyd	(1,780)

NODYN 19 – DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

2024/25	2025/26
£'000	£'000
0 Prynu buddsoddiadau tymor byr	569,080
0 Derbyniadau o fuddsoddiadau tymor byr	(535,080)
0	34,000

NODYN 20 – DADANSODDIAD NATUR GWARIANT AC INCWM

Mae gwariant ac incwm y Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:

2024/25 £'000	Gwariant / Incwm	2025/26 £'000
	Gwariant	
104	Gwariant buddion gweithwyr	1,963
0	Eiddo	59
0	Cludiant	5
610	Gwasanaeth a Chyflenwadau	1,604
69	Trydydd Parti	522
0	Lwfansau colled ar offerynnau ariannol	295
0	Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud	5,230
783	Cyfanswm Gwariant	9,678
	Incwm	
0	Cyfraniadau Partneriaid	(818)
(765)	Ardoll	(902)
(57)	Incwm llog a buddsoddi	(2,230)
(181)	Grantiau a chyfraniadau eraill	(17,381)
(1,003)	Cyfanswm Incwm	(21,331)
(220)	(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(11,653)

NODYN 21– TALIADAU I SWYDDOGION

21a. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor Corfforedig i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn cyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor Corfforedig:

Uwch Swyddogion	2025/26		
		Cyfraniadau Pensiwn	
	Cyflog £	Cyflogwr £	Cyfanswm £
Prif Weithredwr*	125,900	22,447	148,347
Pennaeth Gweithrediadau**	97,028	19,017	116,045
Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol	63,273	12,402	75,675

* Penodwyd y Prif Weithredwr ym mis Mehefin 2025 ac roedd yn flaenorol yn rôl Cyfarwyddwr Portffolio. Tra yn y rôl Cyfarwyddwr Portffolio, ymgwymerodd â rôl y Prif Weithredwr am 2 ddiwrnod yr wythnos a derbyniodd honorariwm mewn perthynas â'r rôl hon (£705 o Ebrill 2025 i Mehefin 2025 gyda chyfraniad pensiwn y cyflogwr o £138). Mae'r ffigurau uchod yn cynnwys y tâl a dderbyniwyd tra yn y ddwy swydd. Cyn y trosglwyddiad, roedd y CBC yn ad-dalu'r BUEGC am holl gostau cyflogaeth a chostau cysylltiedig y swydd Prif Weithredwr, costau cyflog oedd £26,302 a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr oedd £5,050.

** Ymgwymerodd y Pennaeth Gweithrediadau â rôl Cyfarwyddwr Portffolio am dri diwrnod yr wythnos ac roedd y tâl a dderbyniwyd yn seiliedig ar ddwy raddfa gyflog.

NODYN 21 – TALIADAU I SWYDDOGION (parhad)

21b. Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor Corfforedig a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr). Mae costau ddiswyddo i'w cynnwys yn y ffigurau; fodd bynnag, nid oedd unrhyw achosion yn 2025/26 a 2024/25.

Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:	Nifer yn 2025/26
£60,000 - £64,999	Cyfanswm
	3

21c. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig gyfrifo cymhareb tâl. Cymhareb tâl y Prif Weithredwr i'r tâl canolrif o holl weithwyr y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2025/26 yw 2.75:1, sydd yn cyfateb â chyflog canolrif o £46,142.

NODYN 22 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band, a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu cost y pecynnau perthnasol i'r cyflogwr, yn hytrach na gwir werth y taliadau i'r unigolion. Yn unol â'r gofynion fe gynhwysir yr ymrwymïadau perthnasol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig fel a wybyddir ar 31 o Fawrth 2026. Cynhwysir isod y costau gros perthnasol ond nid unrhyw arbedion cyllidol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, ble'n briodol.

Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)	Nifer diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill		Cyfanswm nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau terfyn gwaith ym mhob band	
	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26
£							£'000	£'000
0 - 20,000	0	1	0	0	0	1	0	10
Cyfanswm	0	1	0	0	0	1	0	10

NODYN 23 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

2024/25	2025/26
£'000	£'000
(5) Ffioedd taladwy i archwilydd apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol	55
(5) Ffioedd Net	55

*Mae'r costau archwilio yn dangos yn negyddol yn 2024/25 oherwydd gorgronni a wnaed yn y flwyddyn flaenorol. Y gwir ffi ar gyfer archwiliad 2024/25 oedd £1,909.

NODYN 24 – INCWM GRANT

24a. Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2024/25		2025/26	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau				
Llywodraeth Cymru				
Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru	0		5,353	
Grant Ynni Lleol	0		177	
Grant Gweithredu'r CBC	0		200	
Grant Cynllun Datblygu Strategol	0		200	
Grant Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	181		200	
Grant Parth Buddsoddi Cefnogaeth Ymgynghorol	0		25	
Grant Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam	0		430	
Grant Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	0		290	
		181		6,875
Grantiau a Chyfraniadau eraill				
Cyfraniadau'r Partneriaid				
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	0		112	
Cyngor Sir Ddinbych	0		111	
Cyngor Sir y Fflint	0		118	
Cyngor Gwynedd	0		113	
Cyngor Sir Ynys Môn	0		107	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	0		122	
Prifysgol Bangor	0		29	
Prifysgol Wrecsam	0		39	
Coleg Cambria	0		29	
Grŵp Llandrillo Menai	0		38	
		0		818
Cyngor Gwynedd				
Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru	0		1,108	
Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU	0		321	
		0		1,429
Eraill				
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Grant Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	0		95	
Grŵp Llandrillo Menai - Tâl at Mynediad Cyllid	0		25	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU	0		91	
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus a Gofal Cymdeithasol Cymru	0		1	
		0		212
Cyfanswm		181		9,334
Wedi eu Credydu i Dreth ac Incwm Grant Amhenodol				
Llywodraeth Cymru				
Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru		0		8,865
Cyfanswm		0		8,865

* Mae'r Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei ariannu 50% gan Llywodraeth Cymru a 50% gan Lywodraeth y DU.

24 – INCWM GRANT (parhad)

24b. Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi derbyn grantiau, cyfraniadau neu roddion sydd eto i'w hadnabod fel incwm gan fod amodau wedi eu glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian i'r rhoddwr. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Derbyniadau Grantiau a Chyfraniadau Ymlaen Llaw		
<u>Tymor Byr</u>		
Grantiau Cyfalaf		
Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru	0	48,756
Grant Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam	0	7,800
		56,556
Grantiau a Chyfraniadau Refeniw		
Grant Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam	0	6,070
Cyfraniadau Ymchwil Statws Bwyd Amaeth	0	17
	0	6,087
Cyfanswm	0	62,643

NODYN 25 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartion cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddog gwblhau datganiad personol, fel y ddiffinnir yng Nghod Ymarfer CIPFA.

Fe grynhoir isod daliadau ac incwm rhwng y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, yr Awdurdodau Lleol, Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Cyngor Gwynedd sy'n darparu'r gwasanaethau cefnogaeth i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

	Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y CBC	Incwm a dderbyniwyd	Symiau sy'n ddyledus i'r CBC
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	1	0	(259)	0
Cyngor Sir Ddinbych	0	0	(238)	0
Cyngor Sir y Fflint	70	130	(321)	0
Cyngor Gwynedd	100	505	(1,600)	(185)
Cyngor Sir Ynys Môn	0	0	(197)	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	0	128	(364)	(26)
Prifysgol Bangor	1,571	343	(29)	0
Prifysgol Wrecsam	930	577	(39)	0
Coleg Cambria	0	0	(29)	0
Grŵp Llandrillo Menai	837	1,205	(38)	(25)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	0	0	(13)	0

Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, ac mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol ynghyd â darparu'r mwyafrif o'r ariannu drwy grantiau. Ceir dadansoddiad goddrychol o'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn Nodyn 20 sy'n dadansoddi natur gwariant ac incwm. Manylir y sefyllfa ar 31 Mawrth yn Nodyn 24.

Aelodau Bwrdd, Ymgynghorwyr a Swyddogion

Mae gan aelodau ac ymgynghorwyr y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ddylanwad dros bolisiau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

Mae holl Aelodau'r Bwrdd, Ymgynghorwyr ac Uwch Swyddogion y Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi cwblhau ffurflenni datganiad i ddatgan eu diddordeb neu eu perthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sy'n ymwneud â'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2025/26 a'r balansau ar 31 Mawrth 2026 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y CBC	Incwm a dderbyniwyd	Symiau sy'n ddyledus i'r CBC
£'000	£'000	£'000	£'000
53	19	0	0

Mae un o aelodau pleidleisio'r CBC hefyd yn aelod o Bwyllgor Pensiynau Cronfa Bensiwn Gwynedd. Dangosir manylion trafodion gyda'r Gronfa Bensiwn yn Nodyn 27.

Mae Uwch Swyddog yn Gyfarwyddwr Anweithredol Menter Môn. Dangosir manylion balansau'r CBC gyda Menter Môn yn Nodyn 13a.

NODYN 25 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG (parhad)

Personél Rheoli Allweddol

Mae Swyddog Adran 151 y Cyd-Bwyllgor Corfforedig hefyd yn Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 Cyngor Gwynedd. Hyd at fis Chwefror 2026, Swyddog Monitro'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig oedd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd. Y swm a oedd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig i Gyngor Gwynedd am wasanaethau Adran 151 a'r Swyddog Monitro yn 2025/26 oedd £22,925 a £17,770 yn y drefn honno. O fis Chwefror 2026 ymlaen, darparwyd gwasanaethau Swyddog Monitro'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig gan asiantaeth ar gost o £46,200.

NODYN 26 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dengys y tabl isod gyfanswm gwariant cyfalaf am y flwyddyn, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Os yw'n fwriad ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy godi tâl yn refeniw fel defnyddir asedau gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, yna byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), mesurydd gwariant cyfalaf hanesyddol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig sydd heb ei ariannu eto.

Mae'r symudiadau am y flwyddyn yn cael eu hegluro fel a ganlyn:

	2025/26
	£'000
Gofyn Cyllido Cyfalaf 1 Ebrill	0
Addasiad Trosglwyddiad	0
Gofyn Cyllido Cyfalaf 1 Ebrill wedi'i ailddatgan	0
Buddsoddiadau cyfalaf yn y flwyddyn	
Benthyciadau cyfalaf	8,865
Wedi'w ariannu o gyfalaf drwy statud	5,230
Ffynonellau cyllid	
Grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill	(14,095)
Gofyn Cyllido Cyfalaf 31 Mawrth	0

NODYN 27 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau i'r dyfodol.

Mae'r CBC yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Awdurdod a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i gydbwyso'r ymrwymadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.
- Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan.** Trefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Tud. 74

NODYN 27 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisiâu cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrthdroi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

Newid mewn Gwerth Teg Ymrwymiad Net	(Ymrwymiadau) /asedau net
	31 Mawrth 2026
	£'000
Gwerth teg asedau'r cynllun	3,046
Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu	(2,072)
Effaith y nenfwd asedau	(974)
Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill	0
Cost Gwasanaeth	
- Cost gwasanaeth cyfredol*	(133)
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	(133)
Llog Net	
- Incwm llog ar asedau'r cynllun	189
- Cost llog ar ymrwymiad buddion a ddiffinnir	(127)
- Llog ar effaith y nenfwd asedau	(57)
Cyfanswm Llog Net	5
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	(128)
Llif Arian	
- Cyfraniadau y cyflogwr	275
Sefyllfa Cau y Disgwyllir	147
Ail Fesuriadau	
- Newid mewn tybiaethau demograffig	(5)
- Newid mewn tybiaethau ariannol	123
- Profiadau eraill**	(17)
- Enillion ar asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net	150
- Newidiadau mewn effaith y nenfwd ased	(398)
Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	(147)
Gwerth teg asedau'r cynllun	3,764
Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu	(2,335)
Effaith y nenfwd asedau	(1,429)
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth	0

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.6% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

** Mae'r profiadau eraill yn cynnwys lwfans o £17,000 ar gyfer effaith gorchymyn cynnydd pensiwn Ebrill 2026.

NODYN 27 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Asedau ac ymrwymïadau pensiwn a gydnabyddir yn y Fantolen

Mae'r swm a gynhwysir yn y Fantolen sy'n codi o ymrwymïad y Cyd-Bwyllgor Corfforedig mewn perthynas â'i gynllun buddion diffiniedig fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2026 £'000
Gwerth teg asedau'r cynllun	3,764
Gwerth presennol ymrwymïadau wedi eu hariannu	(2,335)
Is-gyfanswm	1,429
Effaith SCRh 19/ PDAARh 14	(1,429)
Ased/ (Ymrwymïad) Net Yn Deillio o Ymrwymïad Buddion a Ddiffinnir	0

Mae prisiad actiwaraid ymrwymïadau cynllun pensiwn a reserf pensiynau y Cyd-Bwyllgor Corfforedig a ddangosir ar y Fantolen yn adrodd am ased neu ymrwymïad net o ddim. Penderfynodd Actiwari'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, Hymans Robertson LLP, fod gwerth teg asedau cynllun pensiwn y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn fwy na gwerth presennol ymrwymïadau'r cynllun ar 31 Mawrth 2026 gan arwain at ased cynllun pensiwn. Mae PDAARh 14 a buddion gweithwyr SCRh 19 yn ei gwneud yn ofynnol, lle mae ased cynllun pensiwn yn bodoli, ei fod yn cael ei fesur fel yr isaf o'r:

- Gwarged yn y cynllun buddion diffiniedig; a'r
- Nenfwd asedau, sydd wedi'i gyfyngu i £0

Y nenfwd asedau yw gwerth presennol unrhyw fuddion economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu ostyngiadau yng nghyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol. Cyfrifodd Actiwari'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig y nenfwd asedau fel y gwerth net presennol o gostau gwasanaeth yn y dyfodol llai gwerth net presennol cyfraniadau yn y dyfodol. Mae'r nenfwd asedau a gyfrifwyd ar gyfer 2025/26 yn arwain at fwy o gyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol na chostau gwasanaeth yn y dyfodol, felly mae'r budd economaidd wedi'i gyfyngu i ddim. Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn dibynnu ac yn rhoi sicrwydd ar farn broffesiynol yr Actiwari a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r prisiad actiwaraid hwn.

Prif Gategoriâu Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r Actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh 19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau'r CBC ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Mawrth 2026. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Roedd gwerth asedau'r Gronfa yn £3.59bn ar 31 Mawrth 2026. Dim ond rhan o'r Gronfa sy'n berthnasol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

NODYN 27 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh 19.

Categori Ased	Ar 1 Ebrill 2025				Ar 31 Mawrth 2026			
	Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm		Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm	
	£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000	
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	156	156	5	0	173	173	5
Eiddo Diriaethol								
Eiddo y DU	0	166	166	5	0	183	183	5
Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol								
Ecwiti	0	1,619	1,619	54	0	1,833	1,833	49
Bondiau	0	889	889	29	0	1,295	1,295	34
Is-adeiladwaith	0	183	183	6	0	221	221	6
Arian a Chywerthoedd Arian								
Y cyfan	0	33	33	1	0	59	59	1
Cyfanswm	0	3,046	3,046	100	0	3,764	3,764	100

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymïadau

Mae'r ymrwymïadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2025, gyda pharmedreiddio craidd, addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwelliant hirdymor o 1.5% y flwyddyn ar gyfer gwrywod a benywod.

NODYN 27 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymïadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymïadau Buddion Dewisol. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr Actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymïadau fel a ganlyn:

	I Ebrill 2025	31 Mawrth 2026
Tybiaethau Ariannol	% y.f.	% y.f.
Cyfradd Codiad Pensiynau	2.70	3.00
Cyfradd Codiad Cyflogau	3.20	3.50
Cyfradd Chwyddiant	2.70	3.00
Cyfradd Ddisgownt	5.85	6.35
Cyfradd enillion tymor hir a ddisgwylir ar yr holl asedau	5.85	6.35
Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol		
am wasanaeth cyn Ebrill 2008		65
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008		65
Tybiaethau Marwolaeth		Blynyddoedd
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr cyfredol		
Dynion		20.9
Merched		23.8
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr y dyfodol		
Dynion		21.9
Merched		25.4

Mae'r amcangyfrifiad o'r ymrwymïadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintoli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r Actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymïadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2026 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh 19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintoli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r Actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn yr ymrwymïad buddion a ddiffinnir. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor Corfforedig fel yr oedd ar 1 Ebrill 2025.

Effaith ar Ymrwymïad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun		
Newid tybiaeth	Brasamcan cynnydd i'r Ymrwymïad Buddion a Ddiffinnir	Brasamcan swm ariannol
	31 Mawrth 2026	31 Mawrth 2026
	%	£'000
0.1% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt	3	62
Cynnydd o 1 blwyddyn yn nisgwylid oes aelodau	4	93
0.1% o gynnydd i'r cyfradd codiad cyflog	0	4
0.1% o gynnydd i'r gyfradd codiad pensiwn	2	58

Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor Corfforedig

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi cytuno ar strategaeth gydag Actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

NODYN 27 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd, neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Cyfraniadau'r cyflogwr a oedd yn daladwy dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2026 oedd 19.6%.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

	Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2025	
	£'000	%
Aelodau Gweithredol	2,335	100.0
Aelodau Gohiriedig	0	0.0
Aelodau Pensiynwyr	0	0.0
Cyfanswm	2,335	100.0

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymadau wedi eu hariannu yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys ymrwymadau pensiynwyr heb eu hariannu. Ar ddyddiad y prisiad diweddaraf, cyfnod cyfartaledd cymhwysol o'r ymrwymadau buddion diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yw 29 mlynedd.

Effaith ar y Blynnyddoedd i ddod

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig fod yn £191k yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2027.

Gan fod adroddiad Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amser, gwnaed addasiad o -£3,362 yn 2025/26 i ddod â'r sefyllfa yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r sefyllfa cau ar 31 Mawrth 2026. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymadau Pensiwn.

NODYN 28 – MENTRAU AR Y CYD

Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig wedi ymrwymo i fenter ar y cyd â Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu tir ar gyfer adeiladau cyflogaeth a busnes newydd ym Mharc Bryn Cegin, gyda'r gwaith adeiladu yn dechrau yn 2025/26. Cyfraniad cyfalaf y Cyd-Bwyllgor Corfforedig i'r prosiect yw 83% a chyfraniad cyfalaf Llywodraeth Cymru yw 17%. Bydd dosbarthiad y derbyniadau yn cael ei rannu rhwng y Cyd-Bwyllgor Corfforedig a Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar eu canran o gyfraniadau cyfalaf.

Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn 2025/26 yn cynnwys ei drafodion gwirioneddol a'i falansau mewn perthynas â'r fenter ar y cyd.

NODYN 29 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad o'r Cyfrifon gan y swyddog ariannol cyfrifol ar 3 Gorffennaf 2026. Nid yw digwyddiadau yn dilyn y dyddiad yma wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau cysylltiedig. Lle roedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2026, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob agwedd materol i ddangos yr effaith. Mae'r cyfrifon wedi eu diweddarau ers eu cyhoeddi yn amodol ar archwiliad, i ymgorffori argymhellion yr archwiliwr.

Adroddiad Archwilio Arfaethedig

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 31 Mawrth 2026 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynol o Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol.

bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd sy'n ymwneud ag:
 - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: wrthwneud rheolaethau gan reolwyr a chofnodi cofnodion cyfnodol anarferol;
- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd; a
- cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrddedd bosibl; a
- gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Catherine Mealing-Jones	1 Cwr y Ddinas
Archwilydd Cyffredinol Cymru	Stryd Tyndall
29 Medi 2026	Caerdydd, CF10 4BZ

Cyfrifoldeb y Rheolwr Gweithrediadau ac Adnoddau a'r Arweinydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol yw cynnal a chyfanrwydd gwefan Uchelgais Gogledd Cymru gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am wefan Cyngor Gwynedd; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

Geirfa

Ariannu Cyfalaf - Cyllid ar gyfer talu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd i ariannu gwariant cyfalaf yn cynnwys benthycu, lesu, cyllido'n uniongyrchol o refeniw, derbyniad cyfalaf i'w ddefnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, reserfau refeniw a reserfau wedi'u clustnodi.

Ased - Eitemau o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall golli gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

Balansau (neu Reserfau) - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu mentrau diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymadau gaiff eu hadnabod.

CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting) - Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

Cost Gwasanaeth Cyfredol - Cynnydd yng ngwerth cyfredol ymrwymadau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ddisgwyli'r i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

Credydwy'r - Symiau yn ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Cronfa Gyffredinol - Prif gronfa refeniw'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig sydd yn cynnwys cost net yr holl wasanaethau a ariennir gan gyfraniadau partneriaid a grantiau'r Llywodraeth.

Cyfrif Addasiadau Cyfalaf - Reserf wedi ei glustnodi o adnoddau refeniw neu dderbyniad cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-daliad benthyciad allanol a mathau eraill o drafodion cyllido cyfalaf.

Cynllun Buddiannau Diffiniedig - Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall sydd ddim yn gynllun cyfraniad diffiniedig.

Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig - Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall lle gwelir gweithiwr yn cyfrannu symiau penodol rheolaidd fel swm neu ganran o'r cyflog, a ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu cyfraniadau pellach petai'r cynllun ddim ag asedau digonol i dalu buddion i'r holl weithwyr mewn perthynas â gwasanaeth y gweithiwr yn y cyfnod presennol a blaenorol.

Dyledwyr - Symiau yn ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a ddarperir, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Enillion a Cholledion Actiwaraid - Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, mae y newidiadau mewn gwarged actiwaraid sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraid a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu bod y rhagdybiaethau actiwaraid wedi newid.

Gwariant Cyfalaf - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

Gwerth Teg - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu a delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

Offerynnau Ariannol - Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymadau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymadau ariannol, o fasnach dderbyniadwy (anfoneb dyledus) a masnach daladwy (anfoneb sy'n ddyledus i'w talu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewnbllannu.

Partïon Cysylltiedig - Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu gyda dylanwad sylweddol penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) - Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu gweithredu ar bob datganiad cyllidol gan bob endid sy'n adrodd er mwyn darparu darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiadau cyllidol endidau eraill.

Ymrwymadau - Symiau sydd yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu rhywbryd yn y dyfodol.

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Blwyddyn archwilio: 2025-26

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2026

Cyfeirnod y ddogfen: 5498A2026



Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Cipolwg ar eich archwiliad	5
Perthnasedd	6
Canfyddiadau Archwilio	7
Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol	9
Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau	10
Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed	17
Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig	20
Atodiad 4 – Llythyr sylwadau	26
Ansawdd archwilio	29
Eich cefnogi chi	30

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon nac unrhyw ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflwyniad



Catherine Mealing-Jones

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd newydd ei benodi, mae'n bleser gennyf rannu fy Adroddiad Archwilio Cyfrifon. Mae'r Adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2025-26. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y canfyddiadau hyn gyda'r Pennaeth Cynorthwyol Cyllid (Cynaliadwyedd a Datblygiadau).

Mae fy nhîm wedi cwblhau y gwaith archwilio i raddau helaeth yn unol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Mai 2026. Mae'r tasgau sy'n weddill yn cynnwys:

- Datganiad Llywodraethu Blynnyddol;
- Partïon Cysylltiedig;
- Cwblhau'r adolygiad o'r ffeil archwilio; a
- Chwblhau chamau terfynol y gweithdrefnau archwilio.

Ers fy Nghynllun Archwilio, rwyf wedi diweddarau perthnasedd i adlewyrchu cyfrifon 2025-26. Nid wyf wedi adnabod unrhyw risgiau archwilio newydd. Caiff fy ymateb i risgiau a adnabuwyd yn flaenorol ei nodi yn **Atodiad 1**.

Mae'n ofynnol i mi ddarparu barn pa un a yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol, a pha un a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol. Caiff fy marn archwilio arfaethedig a'r sail drosti ei hamlinellu ar dudalen 20.

Cyfrifoldeb y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, h.y. y Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC y Gogledd) yw mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn fy adroddiad a darparu Llythyr Sylwadau ar fy nghyfer.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i swyddogion a staff am eu cydweithrediad trwy gydol y broses archwilio sydd wedi bod yn amhrisiadwy i allu cwblhau'r archwiliad hwn yn effeithiol.

Cipolwg ar eich archwiliad



Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn ddiamod** ar y cyfrifon.

Gweler [Atodiad 4](#)



Mae **materion eraill** i'w nodi.

Gweler y [Canfyddiadau archwilio](#)



Nid oes unrhyw **gamddatganiadau heb eu cywiro** yn y cyfrifon.

Gweler y [Canfyddiadau archwilio](#)



Bydd yr argymhellion sy'n codi o'n gwaith yn cael eu nodi mewn Memorandwm ar y Cyfrifon a fydd yn cael ei gyfleu i swyddogion maes o law.



Rydym yn anelu at ardystio eich cyfrifon ar **29 Medi 2026**, sydd yn unol â'r terfyn amser sef **30 Medi 2026**.

Perthnasedd

Rwy'n defnyddio barn proffesiynol i bennu trothwy perthnasedd i adnabod a chywiro camddatganiadau a allai effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr, gan ystyried gwallau ariannol a gofynion datgelu yn ôl y fframwaith cyfrifyddu a'r cyfreithiau perthnasol. Mae fy nhîm yn diweddarau perthnasedd trwy gydol yr archwiliad ac yn yr adroddiad hwn rwy'n cynnwys materion sy'n mynd y tu hwnt i'm trothwy adrodd, a nodir isod.

Perthnasedd

Pennwyd lefel perthnasedd o 1% o asedau gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2025-26.

£888,000

Trothwy adrodd (dibwys)

Pennwyd lefel perthnasedd o 5%.

£44,000

Yn y Cynllun Archwilio, pennwyd lefel perthnasedd dros dro gan defnyddio gwariant gros Bwrdd Uchelgaais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn flaenorol fel y sail fwyf priodol. Yn dilyn ein hadolygiad o'r datganiadau ariannol drafft, ailaseswyd y dull hwn a daethpwyd i'r casgliad bod asedau gros bellach yn darparu sail fwy priodol. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol mantolen CBC y Gogledd wrth i'r sefydliad barhau i ddatblygu ac ymgymryd â threfniadau mwy cymhleth. Yn unol â hynny, pennwyd lefel perthnasedd as 1% o'r asedau gros.

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn cadarnhau lefelau perthnasedd is ar gyfer y rhain:

Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol

£1,000

Datgeliadau partïon cysylltiedig

£10,000

Canfyddiadau Archwilio

Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn codi lle nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifeg.

Camddatganiadau a gywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom rhai gamddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

Caiff y rhain eu nodi yn **Atodiad 2**.

Materion arwyddocaol eraill

Mae'r Safon Ryngwladol ar Gyfrifyddu 260 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Rhaid i ni roi gwybod i chi am ganfyddiadau arwyddocaol o'r archwiliad a materion eraill os ydynt yn arwyddocaol i'ch goruchwyliaeth chi ar broses adrodd ariannol CBC y Gogledd.

Nid chanfuwyd unrhyw faterion o'r fath yn ystod yr archwiliad.

Materion eraill

Roedd fy nghynllun archwilio a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2026 yn cynnwys ffi archwilio amcangyfrifedig o £34,832 ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol. Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf i CBC y Gogledd baratoi set lawn o ddatganiadau ariannol yn dilyn trosglwyddo trefniadau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 1 Ebrill 2025, roedd yr archwiliad yn cynnwys mwy o waith nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Roedd angen gwaith ychwanegol i ddeall a gwerthuso'r trefniadau llywodraethu newydd, y gofynion adrodd, y triniaethau cyfrifyddu, a'r balansau agoriadol a drosglwyddwyd i'r CBC. O ganlyniad, cynyddodd cymhlethdod yr archwiliad lefel y mewnbwn archwilio oedd ei angen y tu hwnt i'r hyn a ragwelwyd pan osodwyd yr amcangyfrif ffi gwreiddiol. Bydd fy nhîm yn trafod y costau ychwanegol a gafwyd gyda'r Swyddog Cyllid Statudol cyn cytuno ar y ffi archwilio derfynol.

Ni ddarparwyd y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol (Datganiad Llywodraethu) ochr yn ochr â'r drafft o'r datganiadau ariannol, ac fe'i cyflwynwyd yn hwyr yn y broses archwilio. Creodd hyn bwysau ychwanegol o ran adnoddau ac amserlen wrth gwblhau'r gwaith archwilio angenrheidiol ar y Datganiad Llywodraethu cyn i'r CBC y Gogledd ystyried y datganiadau ariannol. Er ein bod yn cydnabod mai 2025-26 oedd y flwyddyn gyntaf i'r CBC y Gogledd baratoi set lawn o ddatganiadau ariannol ac y bu'n rhaid sefydlu prosesau adrodd newydd, byddem yn disgwyl i'r Datganiad Llywodraethu gael ei baratoi a'i gyflwyno ochr yn ochr â'r cyfrifon drafft yn y blynnyddoedd i ddod, er mwyn hwyluso archwiliad amserol ac effeithlon.

Yn ystod yr archwiliad, fe wnaethom nodi ansicrwydd ynghylch y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer y cytundeb cydweithredol â Llywodraeth Cymru ar gyfer Parc Bryn Cegin. Fe wnaethom ofyn am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y driniaeth gyfrifyddu briodol; fodd bynnag, nid oedd ymateb wedi dod i law cyn cwblhau ein gwaith archwilio. O ganlyniad, nid oeddem yn gallu dod i gasgliad llawn ynghylch a yw'r driniaeth a fabwysiadwyd gan CBC yn briodol. Er na ddisgwylir i unrhyw effaith bosibl fod yn berthnasol i ddatganiadau ariannol 2025-26, rydym yn tynnu'r mater hwn i sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i'w ystyried wrth i'r trefniant ddatblygu yn y blynnyddoedd i ddod.

Barn archwilio arfaethedig

Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch chi wedi darparu Llythyr Sylwadau ar ein cyfer (gweler isod).

Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 3**.

Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau ac ynddo rydych yn cadarnhau wrthym ni bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Mae peth o'r wybodaeth hon yn ofynnol yn ôl safonau archwilio; gall gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â'ch archwiliad chi.

Mae'r llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**, mae ei gynnwys yn gyson â'n cais safonol am sylwadau.

Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol

Mae prif aelodau fy nhîm a wnaeth y gwaith archwilio, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: fy nhîm archwilio lleol

Arweinydd Ymgysylltu

Matthew Edwards

matthew.edwards@archwilio.cymru

Rheolwr Archwilio

Yvonne Thomas

yvonne.thomas@archwilio.cymru

Arweinydd Archwilio

Siwan Glyn

siwan.glyn@archwilio.cymru

Cydymffurfio â safonau moesegol

Rydym yn cadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol i ni eu dilyn wrth wneud ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol oddi arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu; ac
- nad oes gennym unrhyw berthnasoedd a allai danseilio ein hannibyniaeth neu ein gwrthrychedd.

Nododd y Cynllun Archwilio fygythiadau posibl i annibyniaeth yn sgil cysylltiad rhwng y Rheolwr Archwilio a swyddog awdurdod lleol sy'n aelod o Fwrdd Portffolio CBC y Gogledd. Cafodd y mater ei fonitro drwy gydol yr archwiliad, ac gan nad oedd gan y Rheolwr Archwilio unrhyw gysylltiad â'r unigolyn yn ystod yr archwiliad, ni nodwyd unrhyw amharu gwirioneddol na chanfyddedig ar annibyniaeth na gwrthrychedd. O ganlyniad, nid oedd angen unrhyw fesurau diogelu.

Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau

Roedd fy Nghynllun Archwilio'n nodi'r risgiau o gamddatganiad perthnasol ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon CBC y Gogledd. Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru'r risgiau archwilio hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad. Nid adnabwyd unrhyw risgiau archwilio ychwanegol ers hynny y mae angen eu dwyn i'ch sylw.

Arddangosyn 2: risgiau archwilio a adroddwyd yn flaenorol, gwaith a wnaed a'r canlyniad

Risg archwilio	Gwaith a wnaed	Canlyniad
Risg o wrthwneud gan reolwyr Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33].	Fe wnaeth y tîm archwilio: • brofi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol; • adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a • gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes.	Nid adnabu fy ngwaith unrhyw achosion o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr.

Pontio i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Ym mis Mehefin 2022, cymerodd CBC y Gogledd ei swyddogaethau, gyda threfniadau blaenorol y BUEGC yn trosglwyddo iddo ar 1 Ebrill 2025. Mae'r newid hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gynnwys datgeliadau ychwanegol ac adlewyrchu trosglwyddo balansau a data o'r corff blaenorol.

O ganlyniad, mae risg uwch na fydd gofynion adrodd yn cael eu cydymffurfio'n llawn, neu na fydd trosglwyddo gwybodaeth yn cael ei gyflawni'n gyflawn, neu na fydd y wybodaeth wedi'i chwblhau'n gywir. Os na chaiff hyn ei reoli'n briodol, gallai arwain at gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- ymgysylltu â swyddogion cyllid yn ystod y broses o baratoi'r cyfrifon i drafod newidiadau arfaethedig i ofynion datgelu;
- asesu pob datgeliad yn erbyn Cod CIPFA a'r Rhestr Wirio Datgeliadau i nodi unrhyw ofynion sydd ar goll neu'n anghywir;
- cynnal profion manwl ar ddatgeliadau newydd i gadarnhau eu bod yn gyflawn a bod y driniaeth gyfrifyddu sylfaenol yn gywir; ac
- archwilio balansau agoriadol cyfrifon y CBC y Gogledd, gan gynnwys adolygiad o'r gweithdrefnau ar gyfer trosglwyddo balansau o drefniadau blaenorol y BUEGC.

Gweler Atodiad 2 am fanylion fy nghanfyddiadau.

Prisio

rhwymedigaeth/gwarged net y gronfa bensiwn

Mae

rhwymedigaeth/gwarged cronfa bensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) fel y'i hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrif perthnasol.

Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu bod llawer iawn o ansicrwydd amcangyfrif yn perthyn iddo, gan ei fod yn sensitif i addasiadau bychain yn y tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth ei gyfrifo.

Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog, hefyd yn cael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth/gwarged.

Cynhaliwyd prisiad teirblynyddol o'r cynllun ar 31 Mawrth 2025, a fydd yn effeithio ar ddatgeliadau yn natganiadau ariannol CBC y Gogledd, am y tro cyntaf ym mlwyddyn ariannol 2025-26.

Ceir risg felly bod y rhwymedigaeth/gwarged wedi ei gam ddatgan yn berthnasol.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- werthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan y rheolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;
- asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a wnaeth y prisiadau;
- asesu cywirdeb a chyflawnder yr wybodaeth a ddarparwyd gan CBC y Gogledd ar gyfer yr actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth;
- profi cywirdeb rhwymedigaeth net a datgeliadau'r gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraid gan yr actiwari;
- asesu rhesymoldeb y tybiaethau a wnaed gan yr actiwari trwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chyflawni unrhyw weithdrefnau ychwanegol oedd yn ofynnol; ac
- cynnal rhaglen o waith i ddarparu sicrwydd ynghylch y data a ddefnyddiwyd gan yr actiwari i gynnal y prisiad teirblynyddol.

Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw faterion sylweddol.

Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion

Mae cydnabyddiaeth ariannol a delir i uwch swyddogion o ddiddordeb mawr ac yn berthnasol o ran ei natur.

Mae risg, yn dilyn trosglwyddo'r BUEGC i CBC y Gogledd, na fydd strwythur yr uwch swyddogion yn cael ei ddatgelu'n llawn nac yn briodol yn y datganiadau ariannol.

Felly, ceir risg y gallai gwallau gwerth isel hyd yn oed yn y datgeliad arwain at gamddatganiad perthnasol.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- ddeall strwythur y tîm uwch reolwyr sydd ar waith yn ystod 2025-26;
- sicrhau bod y gydnabyddiaeth ariannol a ddatgelwyd yn gyson â thystiolaeth ategol;
- sicrhau bod symiau a dalwyd yn gyson â'r rhai a gymeradwywyd gan y CBC y Gogledd; a
- sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac wedi eu paratoi yn unol â'r gofynion.

Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw faterion sylweddol.

Datgeliadau partïon cysylltiedig

Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodion a'r balansau rhwng CBC y Gogledd a'r corff/parti arall.

Mae gan CBC y Gogledd nifer o berthnasoedd y gellid ystyried eu bod yn barti cysylltiedig. Mae llawer yn dra hysbys, er enghraifft Llywodraeth Cymru fel cyllidwr.

Fodd bynnag, lle cyfyd perthnasoedd partïon cysylltiedig trwy berthnasoedd swyddogion neu aelodau unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder ynglŷn â'r perthnasoedd hyn. Mae'r trafodion hyn yn rhai o ddiddordeb mawr ac ystyrir eu bod yn berthnasol o ran eu natur.

Ceir risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed lle mae gwerth y rhain yn gymharol fach.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- adolygu proses ar gyfer adnabod perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig;
- cyflawni gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnder perthnasoedd partïon cysylltiedig; a
- sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol.

Gweler Atodiad 2 am fanylion fy nghanfyddiadau.

Prydlesi

Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf o gyfrifon llawn ar gyfer datganiadau ariannol CBC y Gogledd yn dilyn trosglwyddo'r BUEGC ar 1 Ebrill 2025, mae risg nad yw trefniadau les wedi'u nodi'n llawn na'u hasesu'n briodol o dan ofynion safon ddiwygiedig SAAR 16 'Cyfrifyddu am Prydlesi' (SAAR16). Gall contractau sy'n cynnwys prydlesi gael eu hepgor neu eu dosbarthu'n anghywir. Gallai hyn arwain at gamddatganiad perthnasol oherwydd cydnabyddiaeth, mesur a datgelu anghyflawn neu anghywir, o asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau les cyfatebol yn y datganiadau ariannol

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- cael dealltwriaeth o broses y rheolwyr ar gyfer adnabod prydlesi;
- adolygu papurau gwaith CBC y Gogledd i sicrhau bod pob prydles sy'n dod o fewn SAAR16 wedi'i chynnwys yn y cyfrifiadau;
- brofi sampl o gyfrifiadau asedau a rhwymedigaeth i sicrhau bod y rhagdybiaethau'n rhesymol, a bod cyfrifiadau wedi'u paratoi'n gywir; a
- chadarnhau bod gwerthoedd asedau a rhwymedigaeth wedi'u cyfrif yn gywir a'u datgelu yn y datganiadau ariannol.

Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw faterion sylweddol.

Cydnabod Trefniant Cydweithredol Newydd

Aeth CBC y Gogledd i drefniant cydweithredol newydd gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu prosiect, lle mae Llywodraeth Cymru yn darparu tir, ac mae CBC y Gogledd yn darparu cyllid. Gan nad yw CBC y Gogledd yn ymgymryd â'r math hwn o drefniant ar hyn o bryd, mae risg nad yw wedi'i asesu a'i gyfrifo yn briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Gall hyn arwain at gydnabod, dosbarthu neu ddatgelu asedau, rhwymedigaethau neu fuddiannau yn y trefniant yn anghywir o fewn y datganiadau ariannol.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- cael ac adolygu'r cytundeb ffurfiol ar gyfer y prosiect i ddeall rolau, cyfrifoldebau a hawliau pob parti;
- asesu a yw'r trefniant yn bodloni'r diffiniad o fenter ar y cyd o dan y fframwaith cyfrifyddu perthnasol;
- asesu sut y dylid cydnabod unrhyw ased, rhwymedigaeth neu fuddiant yn y prosiect; a
- gwirio cyfrifiadau a data ategol ar gyfer unrhyw symiau a gydnabyddir.

Gweler Canfyddiadau yr Archwiliad ac Atodiad 2 am fanylion fy nghanfyddiadau.

Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi'u cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

Gwerth y cywiriad	Maes yn y cyfrifon	Eglurhad
£6,942,000 Datgelu yn unig – dim effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol	Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig canlynol: 18a, 18b a 19	Cafodd benthyciad a roddwyd yn ystod y flwyddyn ei gydnabod yn gywir fel dyledwr yn y Fantolen; fodd bynnag, cafodd yr all-lif arian cysylltiedig ei ddosbarthu'n anghywir fel gweithgaredd buddsoddi yn y Datganiad Llif Arian. Nid oedd y dull hwn yn gyson â'r dosbarthiad cyfrifyddu a gymhwyswyd i'r benthyciad. Diwygiwyd y Datganiad Llif Arian i sicrhau cysondeb â'r modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y Fantolen, fel a ganlyn: • Cynyddwyd y ffigwr ar gyfer 'Addasiadau i'r gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn ymwneud ag arian parod' o £6,942,000. • Tynnwyd y ffigwr ar gyfer 'addasu ar gyfer eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau ac sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu' o £6,942,000. Effeithiodd hyn hefyd ar y nodiadau Llif Arian cysylltiedig fel a ganlyn: • Nodyn 18a: cynyddwyd y ffigwr ar gyfer 'Cynnydd/(Lleihad) mewn Credydwy'r' o £6,942,000.

		- Nodyn 18b: tynnwyd y ffigwr ar gyfer 'Grant a dderbyniwyd i ariannu benthyciad a roddwyd' o £6,942,000. - Nodyn 19: tynnwyd y benthyciad a roddwyd o £6,942,000 a thynnwyd y ffigwr ar gyfer 'Grant a dderbyniwyd i ariannu benthyciad a roddwyd' o (£6,942,000).
£1,923,000 Datgeliad yn unig – dim effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol	Nodyn 13a Offerynnau Ariannol	Roedd y nodyn ar Offerynnau Ariannol wedi hepgor credydwr o £1.923 miliwn yn ymwneud â rhan o'r benthyciad a grybwyllwyd uchod na chafodd ei dynnu i lawr o'r categori 'rhwymedigaethau ariannol a fesurir ar gost amortisedig'. Gan fod y balans yn cynrychioli rhwymedigaeth gytundebol i drosglwyddo arian parod, roedd yn bodloni'r diffiniad o rwymedigaeth ariannol. Diwygiwyd y nodyn i gynnwys y balans o fewn rhwymedigaethau ariannol a fesurir ar gost amortisedig.
Datgeliad yn unig	Nodyn 3 Addasiad Cyfnod Blaenorol Nodyn 2 Trosglwyddiad Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	Nid oedd y datgeliadau yn Nodyn 3 yn bodloni diffiniad y safonau cyfrifyddu o addasiad cyfnod blaenorol, gan eu bod yn ymwneud â balansau a drosglwyddwyd i Gyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd ar 1 Ebrill 2025. Felly, symudwyd hwy i Nodyn 2 er mwyn adlewyrchu eu natur yn well.
Datgeliad yn unig	Nodyn 25 Partïon Cysylltiedig	Ni chafodd taliadau i swyddogion statudol o dan gytundeb lefel gwasanaeth (SLA) eu datgelu'n wreiddiol fel taliadau i Bersonél Rheoli Allweddol. Diwygiwyd y nodyn ar Bartïon Cysylltiedig i gynnwys y taliadau hyn.

Datgeliad yn unig	Nodyn 28 Mentrau ar y Cyd	Daeth ein gwaith archwilio i'r casgliad bod y trefniant gyda Llywodraeth Cymru yn Weithrediad ar y Cyd yn hytrach nag yn Fenter ar y Cyd. Nodir y materion cyfrifyddu cysylltiedig ar dudalen 8.
Amrywiol – dim effaith gyffredinol ar y prif ddatganiadau	amrywiol	Gwnaed mân ddiwygiadau eraill i ddatgeliadau, geiriad naratif a gwallau teipograffyddol.

Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 31 Mawrth 2026 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu

disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmparu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan,

mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-25;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd sy'n ymwneud ag:

- adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: wrthwneud rheolaethau gan reolwyr a chofnodi cofnodion cyfnodol anarferol;
 - cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd; a
 - cael dealltwriaeth am berthnasodedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymglyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrddedd bosibl; a
- gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwnpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Catherine Mealing-Jones

Archwilydd Cyffredinol Cymru

29 Medi 2026

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd, CF10 4BZ

Atodiad 4 – Llythyr sylwadau

Llythyr sylwadau

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

25 Medi 2026

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2025-26

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u gwirionedd a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2025-26; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:

- yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
 - mynediad digyfngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u cam ddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
 - ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac sy'n cynnwys:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
 - ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
 - ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
 - gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasodd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt;

Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghydestun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasodd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymglyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd yn y datganiadau ariannol.

Sylwadau gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 25 Medi 2026.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Dewi Morgan

Pennaeth Cyllid (Swyddog Statudol
Adran 151)

25 Medi 2026

Llofnodwyd gan:

Mark Pritchard

Cadeirydd Cyd-Bwyllgor
Corfforedig y Gogledd

25 Medi 2026

Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlyn a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein [Hadroddiad Ansawdd Archwilio diweddaraf](#).



Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Plattfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y problem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch at ein gwefan i ganfod:



Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.



Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.



Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwleidiadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.



Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.



CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

25 Medi 2026

TEITL: Sefyllfa Refeniw a Chyfalaf 2026/27 – Adolygiad Diwedd Gorffennaf 2026

AWDUR: Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)
Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn bwriadu rhoi manylion o rhagamcanion alldro blwyddyn lawn i Gyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) am y CBC (Cynllunio, Trafnidiaeth a Chorfforaethol), y Cynllun Twf (gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Cynllun Ynni Ardal Leol), y Parth Buddsoddi a'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol (PSRh) a ragwelir yn erbyn eu cyllideb flynyddol.
- 1.2. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Cyd-Bwyllgor fod yn ymwybodol o'r sefyllfa gwariant a ragwelir yn erbyn y gyllideb flynyddol a gymeradwywyd.

2. PENDERFYNIADAU A GEISIWYD

- 2.1. I nodi a derbyn yr adolygiad refeniw ar ddiwedd Gorffennaf 2026 ar gyfer CBC (Atodiad 1), gan gynnwys uchafswm o £39,874 i'w drosglwyddo o'r gronfa wrth gefn (yn ychwanegol at y £624,590 a gymeradwywyd yng nghyllideb 2026/27) i adael sefyllfa niwtral (gyda'r ffigur terfynol i'w gadarnhau pan gyflwynir adroddiad alldro 2026/27).
- 2.2. I nodi a derbyn yr adolygiad refeniw a chyfalaf diwedd Gorffennaf 2026 ar gyfer y Cynllun Twf (Atodiad 2), gan gynnwys y sefyllfa cronfeydd wrth gefn (Atodiad 3).
- 2.3. I nodi a derbyn proffil gwariant cyfalaf diwygiedig y Cynllun Twf (Atodiad 4).
- 2.4. I nodi a derbyn yr adolygiad refeniw diwedd Gorffennaf 2026 ar gyfer y Parth Buddsoddi (Atodiad 5), gan gynnwys y defnydd o'r llog ar falansau Parth Buddsoddi i adael sefyllfa niwtral ar gyfer 2026/27.
- 2.5. I nodi a derbyn yr adolygiad refeniw diwedd Gorffennaf 2026 ar gyfer yr PSRh (Atodiad 6).
- 2.6. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau yng nghyllidebau y CBC, y Cynllun Twf a'r Parth Buddsoddi a nodir yn Atodiad 7.

3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. I nodi gorwariant a ragwelir o £39,874 yn erbyn cyllideb refeniw y CBC ar gyfer 2026/27.
- 3.2. I nodi tanwariant a ragwelir o £288,174 yn erbyn cyllideb y Cynllun Twf ar gyfer 2026/27.

- 3.3. I nodi llithriad ar y rhaglen gyfalaf, gydag amcangyfrif o wariant o £51.26m yn 2026/27 o'i gymharu â chyllideb a gymeradwywyd o £67.07m ar gyfer y flwyddyn.
- 3.4. I nodi sefyllfa alldro niwtral ar gyfer y Parth Buddsoddi ar gyfer 2026/27, gyda llog ar falansau'r Parth Buddsoddi o £227,589 yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gwahaniaeth rhwng y gwariant a ragwelir a £200,000 a ddyrannwyd i'r CBC i gefnogi gweinyddiaeth y rhaglen. Mae'r defnydd o log yn drefniant dros dro gan y bydd llog i'w dderbyn ar falansau yn gostwng wrth i all-lif arian parod grant y Parth Buddsoddi gynyddu.
- 3.5. I nodi sefyllfa alldro niwtral ar gyfer yr PSRh ar gyfer 2026/27.
- 3.6. Cymeradwyo trosglwyddiadau i'r cyllidebau yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y CBC.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Cymeradwyodd y CBC yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2026 gyllideb 2026/27 ar gyfer y CBC, y Cynllun Twf a'r Parth Buddsoddi. Dyfarnwyd cyllid o £290,000 ar gyfer yr PSRh gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27 ym mis Mawrth 2026.
- 4.2. Bydd y cyllidebau yn parhau i gael eu monitro a'u hadolygu trwy flwyddyn ariannol 2026/27, a bydd yr adolygiad trydydd chwarter yn cael ei gyflwyno i'r CBC ym mis Ionawr 2027.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Cyd-Bwyllgor Corfforedig

- 5.1. Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o rhagamcanion gwariant y CBC fesul pennawd yn erbyn ei gyllideb flynyddol.
- 5.2. Amcangyfrifir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2026/27 yn orwariant o £39,874. Mae'r prif orwariant yn cael ei ddangos ar y pennawd ymgynghorwyr allanol, gyda gwasanaethau cyfreithiol, rheoli rhaglen a chymorth cynghori busnes yn cael eu derbyn.

Gweithwyr

- 5.3. Mae'r pennawd gweithwyr yn rhagweld tanwariant net o £149,825. Mae tanwariant o £94,645 ar wariant gweithwyr sy'n cynnwys tua £143,200 o danwariant ar Gynllunio, bron i £16,460 o orwariant ar Drafnidiaeth, £4,610 o orwariant ar y CBC a £27,485 o wariant ar y Gronfa Twf Lleol. Mae'r gyllideb gweithwyr Cynllunio yn cynnwys Uwch Swyddog Cynllunio (ar secondiad o Gyngor Sir y Fflint ar hyn o bryd) a dau Swyddog Cynllunio; disgwylir y bydd un swydd Swyddog Cynllunio yn cael ei llenwi yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol a'r swydd arall yn cael ei llenwi yn 2027/28. Mae'r gwariant gweithwyr ar Drafnidiaeth yn dangos gorwariant oherwydd bod dau Swyddog Trafnidiaeth yn cael eu recriwtio yn ystod y flwyddyn i gefnogi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd y swyddi hyn yn cael eu hariannu gan y grant Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae gwariant gweithwyr y CBC yn dangos gorwariant bach oherwydd adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i gefnogi'r CBC. Er mwyn cefnogi trosglwyddo'r Cronfa Twf Lleol i'r CBC, dyrannwyd swm o £200,000 mewn cyllid capasiti i'r CBC ar gyfer 2026/27; Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r £27,485 ar wariant gweithwyr.
- 5.4. Rhagwelir bod £64,220 o danwariant yn erbyn Capasiti Ychwanegol y Swyddog Monitro Ychwanegol a'r Swyddog Adran 151. Er mwyn cefnogi trefniadau llywodraethu ymhellach ar

draws y CBC (gan gynnwys y Parth Buddsoddi a'r Cynllun Twf), nodwyd bod angen Swyddog Monitro llawn amser a 0.6 cyfwerth ag amser llawn Swyddog Adran 151 yng nghyllideb 2026/27. Mae costau'r Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151 o dan gyllideb y gwasanaethau cefnogol yn seiliedig ar 0.35 cyfwerth ag amser llawn a 0.18 cyfwerth ag amser llawn yn y drefn honno (sydd wedyn yn cael eu rhannu rhwng CBC a'r Cynllun Twf). Er mwyn cynyddu'r capasiti i fodloni'r gofynion hyn, cyllidwyd £129,790 ychwanegol, gyda £81,110 i'r CBC, £16,230 i'r Parth Buddsoddi a £32,450 i'r Cynllun Twf. Yn ystod 2025/26, penodwyd Swyddog Monitro dros dro i gyflawni'r rôl yn llawn amser, felly mae'r costau sy'n ymwneud â'r rôl wedi'u cynnwys ym mhennawd Ymgynghorwyr Allanol Cyfreithiol (gan gynnwys y Swyddog Monitro). Felly, mae'r amcan gwariant ar y pennawd Capasiti Ychwanegol y Swyddog Monitro Ychwanegol a'r Swyddog Adran 151 yn ymwneud â Chapasiti y Swyddog Adran 151 yn unig.

Ymgynghorwyr Allanol

- 5.5. Mae'r pennawd ymgynghorwyr allanol yn dangos gorwariant a ragwelir o £516,625.
- 5.6. Mae'r gwariant Cyfreithiol (gan gynnwys y Swyddog Monitro) yn cynnwys y Swyddog Monitro dros dro, y Dirprwy Swyddog Monitro dros dro a chyfreithiwr dan gontract, a'r amcan gorwariant yw £236,225. Cyfanswm y gyllideb ar gyfer cefnogaeth cyfreithiol ar gyfer 2026/27 yw £130,280 (£47,330 Capasiti Ychwanegol y Swyddog Monitro, £69,560 o fewn y Gwasanaethau Cefnogol a £13,390 o fewn Costau Sefydlu) felly y gwir orwariant a ragwelir ar wasanaethau cyfreithiol yw £105,945.
- 5.7. Mae costau Rheoli'r Rhaglen yn cynnwys cymorth ar drawsnewid y CBC a hefyd y paratoi ar gyfer y Gronfa Twf Lleol, a'r gwariant a ragwelir ar y pennawd hwn yw £254,400. Dyfarnwyd grant o £200,000 i'r CBC ar gyfer 2026/27 i gefnogi ei weithredu a bydd £115,000 o'r grant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer costau Rheoli Rhaglenni. Bydd £64,400 o gyllid grant y Cronfa Twf Lleol hefyd yn cael ei ddefnyddio ar y pennawd hwn i gefnogi ei waith paratoi.
- 5.8. Mae'r pennawd Ymgynghorwyr Busnes yn cynnwys cefnogaeth gan Ymgynghorwyr Anweithredol Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'r gyllideb wedi'i dyrannu o fewn y Cynllun Twf, fodd bynnag, mae cymorth hefyd wedi'i darparu yn ystod y flwyddyn ariannol i'r CBC a'r Parth Buddsoddi.

Cyflenwadau a Gwasanaethau

- 5.9. Y gorwariant a ragwelir ar y pennawd cyflenwadau a gwasanaethau yw £435,864. Mae'r ymgynghorwyr allanol o fewn y pennawd hwn yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau ac mae'n dangos gorwariant o £394,350 gyda £155,000 o'r gorwariant y gellir ei briodoli i Gynllunio (oherwydd gallu ymgynghorwyr allanol i fwrw ymlaen â gwaith ar y Cynllun Datblygu Strategol a darparu'r cymorth tîm angenrheidiol) a £204,350 yn ymwneud â Thrafnidiaeth (er mwyn cefnogi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ymhellach, gan gynnwys cymorth ymgynghori gydag awdurdodau lleol, polisïau a'r gofrestr ymrwymïadau). Bydd y rhan fwyaf o'r gorwariant Cynllunio o £155,000 yn cael ei ariannu gan y tanwariant mewn gwariant gweithwyr a bydd y gorwariant o £204,350 ar Drafnidiaeth yn cael ei ariannu gan y grant Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.
- 5.10. Mae'r £108,110 sy'n weddill o'r £200,000 o gyllid Cronfa Twf Lleol yn cael ei ddangos ar bennawd y Gronfa Twf Lleol nes bod rhagor o wybodaeth ar gael am y gwariant. Yng nghyllideb 2026/27, dyrannwyd £141,500 o'r grant CBC o £200,000 i brosiectau. Bellach, disgwylir y bydd

y rhan fwyaf o'r £141,500 yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwaith cynllunio corfforaethol (a ddangosir fel £35,000 yn y golofn trosglwyddiadau yn Atodiad 7 ar y pennawd ymgynghorwyr allanol) a chostau rheoli rhaglen. Felly, y gwariant a ragwelir ar y pennawd hwn yw £50,000.

- 5.11. Mae'r penawdau marchnata a digwyddiadau yn dangos gorrariant oherwydd presenoldeb mewn digwyddiadau fel UKREiIF a'r Eisteddfod. Fodd bynnag, rhagwelir bod tanwariant ar systemau oherwydd bod Mod Gov yn disgwyl cael ei weithredu yn 2027/28.

Gwasanaethau Cefnogol

- 5.12. Mae'r pennawd gwasanaethau cefnogol yn dangos tanwariant a ragwelir o £101,090. Mae hyn oherwydd bod gwasanaethau cyfreithiol bellach yn cael eu darparu gan staff o fewn y pennawd ymgynghorwyr allanol cyfreithiol a recriwtio staff Cyngor Gwynedd sy'n darparu cefnogaeth cyllid a democrataidd i'w gwneud ar ôl i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gael ei gwblhau.

Costau Sefydlu

- 5.13. Nid oes unrhyw gostau wedi'u rhagweld yn erbyn y pennawd costau sefydlu felly yn arwain at danwariant o £71,890. Mae hyn oherwydd bod y CBC bellach yn ei gam trawsnewid ac felly dangosir y costau cymorth cysylltiedig o fewn y pennawd ymgynghorwyr allanol.

Incwm

- 5.14. Mae'r incwm a ddisgwylir ar gyfer 2026/27 yn cynnwys y grant gweithredu y CBC o £200,000 a £200,000 o gyllid Cronfa Twf Lleol. Mae'r gyllideb yn cynnwys grant refeniw y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol o £100,000 gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, bydd dyraniad cyfalaf o £370,000 hefyd yn cael ei dderbyn yn 2026/27 er mwyn cefnogi rheoli a monitro rhaglenni'r cynllun (a fydd yn cael ei ddefnyddio i ariannu swyddi Swyddogion Trafnidiaeth ychwanegol a'u costau cysylltiedig, ymgynghorwyr allanol a gwasanaethau cyfreithiol a chefnogol). Amcangyfrifir y bydd £40,000 o incwm llog yn cael ei dderbyn ar gyfer y flwyddyn ariannol. Cymeradwywyd yr ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2026/27 gan y CBC yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2026.

Cronfeydd wrth gefn

- 5.15. Balans y cronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2026 oedd £1,636,007, ac mae £624,590 o'r gronfa wrth gefn wedi'i ddyrannu i gyllideb 2026/27 i roi balans o £1,011,417. Er mwyn gadael sefyllfa niwtral ar gyfer 2026/27, mae angen trosglwyddo £39,874 ychwanegol o'r gronfa wrth gefn, felly yr amcan balans ar 31 Mawrth 2027 yw £971,543. Disgwylir y bydd angen hwn ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol, gyda gofynion adnoddau CBC yn cynyddu ac ni ddisgwylir na chadarnhawyd grantiau fel grant gweithredu CBC.

Cynllun Twf (gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Ynni Ardal Leol)

- 5.16. Mae Atodiad 2 yn darparu dadansoddiad manwl o wariant ac incwm gwirioneddol y Cynllun Twf (gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Cynllun Ynni Ardal Leol) fesul pennawd hyd at ddiwedd Gorffennaf 2026, ynghyd â rhagamcaniad alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei chyllideb flynyddol.
- 5.17. Amcangyfrifir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2026/27 yn danwariant o £288,174. Mae hyn yn bennaf oherwydd tanwariant mewn gwariant gweithwyr, rolau ychwanegol y llywodraeth, gwasanaethau cefnogol y corff atebol a chefnogaeth cyfreithiol,

cyllid a chaffael allanol. Bydd tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei ddefnyddio i ariannu cyllidebau yn y dyfodol a lleihau unrhyw gynnydd mewn cyfraniadau partneriaid yn y dyfodol.

Swyddfa Rheoli Portffolio

- 5.18. Mae tanwariant o £680,896 ar y Swyddfa Rheoli Portffolio ac mae'r prif danwariant yn cael ei ddangos ar y pennawd gwariant gweithwyr a rolau ychwanegol y llywodraeth.
Mae Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Cydweithio gan Brif Gynghorau, yn nodi pwerau Llywodraeth Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru. Yn benodol, mae rheoliadau 11 i 14 o Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (Cymru) 2021 yn amlinellu'r canlynol fel swyddogaethau CBC Gogledd Cymru:

Llesiant Economaidd. Mae'r swyddogaeth llesiant economaidd yn cael ei rhoi i CBC Gogledd Cymru fel y nodir yn adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gall cyd-bwyllgor corfforedig sydd wedi cael y swyddogaeth llesiant economaidd wneud unrhyw beth y mae'n ystyried ei fod yn debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd ei ardal.

Datblygu polisïau trafnidiaeth. Swyddogaeth datblygu polisïau ar gyfer hyrwyddo ac annog trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd i, oddi yno ac o fewn eu hardal ac i ddatblygu polisïau ar gyfer

gweithredu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn eu hardal, mewn perthynas ag ardal pob cyngor cyfansoddol, i'w harfer gan CBC y Gogledd, ac nid gan y cyngor cyfansoddol.

Swyddogaethau cynllunio strategol. Mae gan CBC y Gogledd y swyddogaeth o baratoi cynllun datblygu strategol.

Mae rheoliad 14 yn nodi, – (1) caiff CBC y Gogledd wneud unrhyw beth (a) i hwyluso, neu (b) sy'n gysylltiedig neu'n ffafriol i, arfer ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw ddeddfiad arall. Mae hyn yn cynnwys (a) ysgwyddo gwariant; (b) codi ffioedd; (c) caffael neu waredu eiddo neu hawliau.

Trosglwyddo Bargaen Twf

Ar 1 Ebrill 2025, trosglwyddwyd swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd o dan ddyletswydd statudol CBC ar gyfer llesiant economaidd.

Ariannu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig

Nid oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig unrhyw bwerau codi trethi.

Mae costau refeniw y Fargen Twf yn cael eu hariannu gan gyfuniad o sleisen uchaf o'r grant cyfalaf a chyfraniadau partner. Yn yr un modd, mae costau refeniw sy'n gysylltiedig â Pharthau Buddsoddi yn cael eu hariannu gan grant.

Ar gyfer pob swyddogaeth ac eithrio'r Bargaen Twf a'r Parthau Buddsoddi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol rhaid i CBC y Gogledd gyfrifo ei ofyniad refeniw net y gellir ei briodoli i—

(a) ei swyddogaethau cynllunio strategol a

(b) ei swyddogaethau eraill.

Mae'r gofynion refeniw net sy'n ymwneud â'r swyddogaethau cynllunio strategol (gan gynnwys cyfran briodol o gostau gweinyddol a gorbenion eraill) yn cael eu dosrannu i'r Cynghorau Cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, tra bod y gofyniad refeniw net ar gyfer pob swyddogaeth arall (ac eithrio cynllunio strategol, y Fargen Twf a'r Parthau Buddsoddi) yn cael eu dosrannu i'r Cynghorau Cyfansoddiadol. Rhaid cytuno ar ddryniadau yn unfrydol.

Felly, mae'r gyllideb yn cael ei gosod yn flynyddol ac, ar wahân i'r materion penodol a ddisgrifir uchod, nid oes mecanwaith cyllido cynaliadwy hirdymor lle mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Pam mae angen y SATC nawr

Fel sefydliad y mae ei swyddogaethau yn parhau i gael eu datblygu a'u harwain gan Lywodraeth Cymru, rhaid i Uchelgais Gogledd Cymru sicrhau bod ganddo'r adnoddau angenrheidiol ar waith i gyflawni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau statudol. Er bod y gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn, dim hwyrach na diwedd mis Ionawr, rhaid bod dull strategol o ystyried gallu'r sefydliad i barhau i weithredu yn ôl yr angen. Mae hyn nid yn unig yn caniatáu i Uchelgais Gogledd Cymru fod yn glir ynglŷn â'i gyfeiriad, ond hefyd yn dryloyw ac yn agored gyda'r cyngor cyfansoddiadol ac awdurdod y parc cenedlaethol.

2. Pwrpas y SATC

Mae canllawiau CBC Llywodraeth Cymru yn nodi bod CBCau yn gyrrff cyhoeddus ac yn rhan o deulu llywodraeth leol a dylent ddangos llywodraethu da o'r cychwyn cyntaf. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) yn cynnig egwyddorion wedi'u sefydlu ar Ddisgwyliadau CIPFA a Llywodraeth Cymru ynghylch llywodraethu da, cynaliadwyedd ariannol, rheoli risg, stiwardiaeth ac atebolrwydd.

Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y CBC yn gwneud dewisiadau ariannol cynaliadwy, yn rheoli ansicrwydd ac yn cynnal y gallu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a'i raglenni rhanbarthol y cytunwyd arnynt dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) presennol. Mae'n gosod y fframwaith strategol, archwaeth risg, rheolau penderfynu a disgwyliadau llywodraethu y mae'r CATC yn cael ei baratoi, ei herio, ei gymeradwyo a'i fonitro. Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol a'i chyflwyno yn unol â'r cynllun ariannol.

Bwriad y Strategaeth yw:

- cefnogi gwneud penderfyniadau ariannol cynaliadwy;
- integreiddio cynllunio cyllid, gweithlu, risg a pherfformiad;
- gwahaniaethu'n glir rhwng gweithgarwch a ariennir gan ardoll a gweithgarwch a ariennir gan raglen;
- cefnogi gwneud penderfyniadau tryloyw gan Aelodau a chyrrff sy'n talu ardoll.

Perthynas â'r CATC

SATC: fframwaith strategol	CATC: cynllun ariannol meintiol
Gosod egwyddorion, amcanion, archwaeth risg, rheolau penderfynu a llywodraethu.	Yn dangos rhagolygon incwm, gwariant, ardoll, cronfeydd wrth gefn, llif arian, cyfalaf a benthyca ar draws 2026/27-2029/30.
Yn esbonio sut y bydd y CBC yn asesu gwynwch ac yn gwneud dewisiadau.	Yn dangos canlyniadau ariannol rhagdybiaethau cyfredol a dewisiadau arfaethedig.
Dylai aros yn gymharol sefydlog, yn amodol ar adolygiad blynyddol.	Dylid ei adnewyddu'n flynyddol a'i gyflwyno yn unol â phrosesau cynllunio ariannol.

3. Egwyddorion strategol

1. Dewisiadau cynaliadwy

Egwyddor: Bydd y CBC yn asesu penderfyniadau dros yr amserlen gynllunio lawn, gan alinio adnoddau ac ymrwymïadau â chyfrifoldebau statudol a blaenoriaethau rhanbarthol y cytunwyd arnynt.

Mae'n egwyddor sylfaenol bod yn rhaid i unrhyw sefydliad awdurdod lleol statudol fel Uchelgais Gogledd Cymru allu gosod cyllideb gytbwys. Felly, mae deddfwriaeth ariannol llywodraeth leol arwyddocaol yr un mor berthnasol i'r CBC ag y mae i brif gyngor, yn enwedig Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ymhlith eraill. Fel Cyd-bwyllgor Corfforedig, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gorff codi ardoll ac nid oes ganddo unrhyw bwerau codi trethi ei hun.

Prif ffynonellau incwm refeniw y Swyddfa Rheoli Portffolio, sy'n gweinyddu Bargen Twf Gogledd Cymru, yw "haen uchaf" o 2.15% o'r grantiau cyfalaf o £240 miliwn a ddarperir gan Lywodraethau'r DU a Chymru, a chyfraniadau partner y cytunwyd arnynt gan chwe chyingor cyfansoddol a phedwar sefydliad addysg bellach ac uwch.

Yn yr un modd, mae costau refeniw sy'n gysylltiedig â Pharthau Buddsoddi yn cael eu hariannu gan grant trwy "haen uchaf" gweinyddol y cytunwyd arno.

Mae swyddogaethau eraill y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael eu hariannu'n bennaf trwy godi ardoll ar y chwe chyingor cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Yn ôl statud, rhaid cytuno ar y gyllideb a'i dosrannu i'r cyrff sy'n talu ardoll erbyn 31 Ionawr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol. Fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn dryloyw gyda'r cyrff sy'n talu ardoll a bydd yn cynnal trafodaethau ar lefel aelodau a swyddogion ar ei ofynion ariannu.

Bydd datblygu'r gyllideb yn broses ailadroddus, gyda'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael eu hysbysu'n rheolaidd yn ystod y broses gyllidebu am lefel debygol yr ardoll, ac unrhyw ymrwymïadau ariannol newydd y bydd angen eu hystyried.

Bydd y strategaeth yn agored ar y gofynion gwariant, ac o ganlyniadau peidio â chytuno ar gyllid.

Fel rhan o'r dyletswyddau statudol, os bydd popeth arall yn methu, rhaid i'r Swyddog Adran 151 gyflwyno adroddiad o dan Adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Hysbysiad Adran 114" os yw'n o'r farn bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig neu berson sy'n dal unrhyw swydd neu gyflogaeth o dan y CBC—

(a) sydd wedi gwneud neu sydd ar fin gwneud penderfyniad sy'n cynnwys neu a fyddai'n golygu i'r awdurdod ysgwyddo gwariant sy'n anghyfreithlon,

(b) sydd wedi cymryd neu ar fin cymryd camau a fyddai, pe bai'n cael ei ddilyn i'w ddiwedd, yn anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg ar ran y CBC, neu

(c) sydd ar fin cofnodi eitem o gyfrif y mae ei chofnodi yn anghyfreithlon.

2. Cyllid gwydn a mantolen

Egwyddor: Bydd y CBC yn rheoli incwm, cronfeydd wrth gefn, llif arian, trysorlys, benthycia ac wrth gefn fel system integredig o wydnwch ariannol.

Bydd y strategaeth ariannol ar gyfer y Fargen Twf yn parhau i gymryd golwg oes gyfan hyd at ddiwedd y Fargen yn 2034/35., a bydd rhagolygon ariannol y gwariant cyfalaf hyd at ddiwedd y Fargen yn 2034/35 yn cael eu hadolygu'n barhaus. Fel sydd wedi digwydd ers cychwyn y fargen twf, bydd y trosolwg oes gyfan hwn yn cynnwys trosolwg o broffiliau gwariant cyfalaf, cronfeydd wrth gefn disgwylidig, llif arian ac unrhyw ofynion benthycia cysylltiedig, amseriad taliadau grant, treth annomestig a gedwir, a'r gofynion reffeniw cysylltiedig i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Bydd trefniadau clir ar waith ar gyfer delio â diwedd y Fargen Twf, a ddangosir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Yn yr un modd, bydd Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn cael ei ariannu drwy grant penodol gan y Llywodraeth, gydag amlen wariant reffeniw clir. Bydd y cyllid hwn hefyd yn cael ei adolygu'n gyson i sicrhau nad yw cyfanswm y gwariant reffeniw yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael.

O ran swyddogaethau eraill Uchelgais Gogledd Cymru, mae'r rhain yn faterion a ariennir yn bennaf gan yr ardoll a godwyd ar awdurdodau cyfansoddol. Yn unol ag ymrwymiad i dryloywder, bydd y defnydd o'r ardoll yn cael ei gyfathrebu'n glir i'r awdurdodau cyfansoddol, a dylai'r rhesymeg y tu ôl i ofynion cyllideb Uchelgais Gogledd Cymru fod yn ddangosadwy.

3. Portffolio cyflawnadwy ac adnoddau corfforedig

Egwyddor: Bydd y CBC yn sicrhau bod gallu sefydliadol, gallu, trefniadau llywodraethu ac adnoddau ariannol yn datblygu yn unol â'i gyfrifoldebau statudol sy'n ehangu, ei bortffolio rhaglenni a'i rôl fel corff cyhoeddus corfforedig.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i ddatblygu wrth iddo gael dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. O ganlyniad, bydd adolygiad cyson o ofynion capasiti'r sefydliad i sicrhau y gall barhau i gyflawni'r swyddogaethau hyn. Mae hyn yn cynnwys yr angen i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gynnwys trosolwg gonest a chlr o'r angen i ddatblygu Uchelgais Gogledd Cymru fel corff awdurdod lleol statudol. Bydd yr adnoddau hyn yn cynnwys yr angen am strwythurau staffio digonol a chyfiawnhau a sefydlu'r strwythurau llywodraethu sy'n ofynnol ar gyfer sefydliad o'r fath, o ran arfer da ac fel sy'n ofynnol gan statud.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau cefnogaeth ddigonol i'r swyddogion statudol a'u timau.

Felly, bydd adolygiadau rheolaidd o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys asesiad o strwythurau staffio sy'n symud ymlaen am y tair blynedd nesaf.

4. Llywodraethu a phartneriaeth dryloyw

Egwyddor: Bydd y CBC yn gwneud rhagdybiaethau, risgiau, dewisiadau ac atebolrwydd yn weladwy, gan gefnogi penderfyniadau gwybodus yr Aelodau ac ymgysylltu'n gynnar â chyrrff sy'n talu ardoll.

Wrth i Uchelgais Gogledd Cymru aeddfedu fel sefydliad dros dymor y Strategaeth Ariannol hon, bydd y broses gyllidebu hefyd yn datblygu. Bydd adolygiadau rheolaidd o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, gydag ystyriaeth ffurfiol gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (ar gyfer trosolwg annibynnol) a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig llawn (i'w mabwysiadu'n ffurfiol) bob hydref, yn caniatáu i'r broses gyllidebu fod yn broses wirioneddol ailadroddus, gyda'r darlun sy'n datblygu yn glir i'r holl aelodau erbyn gosod y gyllideb ffurfiol ym mis Ionawr.

Mae hyn yn cynnwys bod yn glir o fewn yr CATC o'r rhagdybiaethau a wnaed wrth ddatblygu'r gofynion cyllideb.

4. Pensaernïaeth Cynllunio Ariannol

Cefnogir yr SATC gan Gynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cwmpasu'r cyfnod 2026/27-2029/30.

Mae'r CATC yn cyflwyno trosolwg o'r canlynol mewn un golwg o sefyllfa ariannol tymor canolig y CBC:

- gweithgaredd craidd a ariennir gan ardoll;
- swyddogaethau statudol;
- gwariant rhaglen;
- cronfeydd wrth gefn;
- llif arian;
- gofynion benthyca;
- goblygiadau'r gweithlu.

5. Rhagdybiaethau a Senarios

Bydd y SATC yn cael ei gefnogi gan ddatblygu cofrestr rhagdybiaethau rheoledig yn ystod 2026/27.

Wrth ddatblygu'r CATC, gwnaed nifer o ragdybiaethau sy'n cael eu hegluro yn y ddogfen. Dylai'r rhagdybiaethau allweddol hyn gynnwys chwyddiant, dyfarniadau cyflog, cyllid grant, costau benthyca, proffiliau cyflawni rhaglenni a chyfrifoldebau CBC newydd.

6. Archwaeth Risg a Rheolau Penderfynu

Mae gan y CBC archwaeth isel am:

- gwariant a all fod *yn ultra vires*;
- gwariant cylchol heb gefnogaeth;
- disbyddu cronfeydd wrth gefn cyffredinol islaw'r trothwy a argymhellir gan y Swyddog Cyllid Statudol heb strategaeth ailgyflenwi;
- ymrwymo i wariant newydd ar ôl i'r gyllideb gael ei chymeradwyo, gan arwain at yr angen am gyllideb atodol o fewn y flwyddyn;
- penderfyniadau ariannol sy'n bygwth cyflawni statudol.

Mae gan y CBC archwaeth cymedrol am:

- buddsoddiad heb ddiwydrwydd dyladwy digonol
- risg cyflawni rhaglenni a ariennir yn allanol;
- benthyca a reolir lle gellir dangos fforddiadwyedd.

7. Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae'r Strategaeth yn cydnabod yr holl gyrff sy'n talu ardollau a phartneriaid statudol perthnasol ac yn ceisio cefnogi gwneud penderfyniadau tryloyw a gwybodus.

8. Monitro a Gwerthuso

Bydd y SATC yn cael ei fonitro drwy:

- monitro cyllideb chwarterol;
- adrodd gwytnwch chwarterol;
- adrodd risg;
- adrodd ar berfformiad y rhaglen.

9. Asesiad Gwydnwch Ariannol Blynnyddol

Bydd y Swyddog Cyllid Statudol yn darparu asesiad blynnyddol o wydnwch ariannol ochr yn ochr â'r CATC.

Dylai'r asesiad hwn ystyried:

- cynaliadwyedd y sefyllfa refeniw;
- digonolrwydd cronfeydd wrth gefn;
- fforddiadwyedd benthyca;
- cyllid a dibyniaeth ar grantiau;
- cynaliadwyedd y gweithlu;
- fforddiadwyedd rhaglenni a risg cyflawni;
- effeithiolrwydd llywodraethu a rheolaethau ariannol.

10. Casgliad

- Bydd y SATC yn cael ei adolygu'n flynyddol ochr yn ochr â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
- Bydd y cyfnod cynllunio ariannol yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r broses flynyddol o osod cyllideb a chynllunio ariannol.
- Gellir adolygu'r Strategaeth yn gynharach pan fo newid sylweddol mewn trefniadau cyllido, cyfrifoldebau statudol, trefniadau llywodraethu neu amlygiad i risg ariannol.
- Bydd y Swyddog Cyllid Statudol yn cyngori ar unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol i sicrhau aliniad parhaus â'r CATC a deddfwriaeth, canllawiau a safonau proffesiynol perthnasol.

Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/27 – 2029/30

1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Pwrpas y CATC

Bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cynllunio a rheoli adnoddau ariannol Uchelgais Gogledd Cymru dros y tymor canolig. Ei bwrpas yw sicrhau ein bod yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer ei rwymedigaethau statudol, cynnal cynaliadwyedd ariannol a chefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol.

1.2 Cyfnod y Cynllun

Cyfnod y cynllun hwn yw 2027/28 i 2029/30. Bydd y cynllun hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol i adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf.

1.3 Rhagdybiaethau Allweddol

Mae'r rhagolygon ariannol a gynhwysir yn y cynllun yn dilyn cymhwyso nifer o ragdybiaethau allweddol, gan gynnwys:

- Lefelau chwyddiant disgwylidig.
- Dyfarniadau cyflog cenedlaethol.
- Cyllid a grantiau Llywodraeth Cymru.
- Cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol.
- Newidiadau yn y galw a gweithgarwch gwasanaeth.
- Effaith polisïau a deddfwriaeth newydd.

Er mwyn sicrhau cywirdeb y rhagdybiaethau hyn, byddwn yn eu hadolygu'n rheolaidd wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael

1.4 Sefyllfa ariannol gyffredinol

Erbyn diwedd cyfnod 2025/26 roedd Uchelgais Gogledd Cymru, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC) mewn sefyllfa ariannol sefydlog, gyda model cyllido yn seiliedig ar gyfuniad o ardollau awdurdodau cyfansoddiadol, cyfraniadau partner, grantiau a ffynonellau incwm eraill. Yn ystod 2025/26, defnyddiodd y CBC (gan gynnwys y Cynllun Twf) grantiau a chyfraniadau gwerth £18.2m a derbyniodd £2.2m o incwm llog. Roedd y sefydliad hefyd yn rheoli lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn a buddsoddiadau sylweddol i gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglenni rhanbarthol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Twf, y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r gwaith Cynllunio Strategol.

Fodd bynnag, nodwyd bod gan y CBC fwy o gronfeydd wrth gefn nag oedd ei angen i barhau i fod yn ddarbodus ac roedd 2026/27 yn cynnwys defnydd sylweddol o gronfeydd wrth gefn er mwyn lleihau'r cynnydd yn yr ardoll.

Mae'r rhagolygon ariannol dros gyfnod y cynllun hwn yn adlewyrchu pwysau costau cyflogaeth, chwyddiant a risgiau cyllido grantiau, ond mae hefyd yn dangos cyfleoedd sylweddol i sicrhau buddsoddiad pellach yn y rhanbarth.

1.5 Prif risgiau a chyfleoedd

Risgiau

- Chwyddiant a phwysau cost yn uwch na'r rhagolygon.
- Mae dyfarniadau cyflog a chostau cyflogaeth yn fwy na'r ddarpariaeth yn y gyllideb.
- Newidiadau i lefelau cyllido neu drefniadau grant awdurdod cyfansoddol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Dibynnu ar gyllid grant a ffynonellau cyllido cyfnod penodol ar gyfer rhaglenni strategol.
- Risgiau o recriwtio a chadw staff mewn meysydd arbenigol a swyddogaethau allweddol.
- Oedi wrth sicrhau neu gyflawni prosiectau a ariennir yn allanol.
- Newidiadau i ddeddfwriaeth, polisiau neu flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol.
- Cost benthyca ddiangen.
- Incwm ardrethi annomestig ar brosiectau Cynllun Twf heb ei dderbyn neu'n is na'r disgwyl.
- Nid yw cyllid grant Parth Buddsoddi ar gael i ariannu gwariant prosiect.
- Gwariant gweinyddu Parth Buddsoddi yn uwch na'r cyllid sydd ar gael.

Cyfleoedd

- Sicrhau cyllid grant a buddsoddiad ychwanegol ar gyfer rhaglenni rhanbarthol.
- Datblygu a chyflwyno Cynllun Twf Gogledd Cymru a Pharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.
- Cryfhau trefniadau cydweithredu rhanbarthol a gwasanaethau a rennir.
- Gwellu effeithlonrwydd gweithredol a chyflawni mwy o werth am arian.
- Cynyddu incwm buddsoddi a datblygu ffynonellau incwm newydd lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu gallu sefydliadol a chynllunio ariannol strategol i gefnogi twf a chyflawni blaenoriaethau'r CBC.

1.6 Crynodeb o'r bwlch yn y gyllideb

Er bod cyfleoedd clir yn deillio o'r cynnydd yn y dyletswyddau statudol ar Uchelgais Gogledd Cymru i wella gwaith rhanbarthol a denu buddsoddiad sylweddol i'r rhanbarth, mae'r her o sicrhau cyllid o hyd. Mae'r CBC yn dibynnu ar yr ardoll sy'n cael ei thalu gan y 6 cyngor cyfansoddol (ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer materion Cynllunio Strategol), ac mae'r broses statudol o osod y gyllideb flynyddol yn cynnwys cytundeb ar swm yr ardoll i'w godi, a'i dosraniad ymhlith yr awdurdodau.

Mae gwaith ar ddatblygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn dangos y bydd angen ariannu'r symiau canlynol drwy gyfuniad o ardoll a defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer y penawdau gwariant perthnasol.

	2027/28 (£)	2028/29 (£)	2029/30 (£)
Cyfanswm yr incwm nad yw'n ardoll	(470,000)	(470,000)	(470,000)
Cyfanswm y Gwariant	2,633,830	2,593,000	2,682,080
Diffyg i'w ariannu gan ardoll a chronfeydd wrth gefn	2,163,830	2,123,000	2,212,080

2. Cyd-destun Strategol

2.1 Amcanion, blaenoriaethau a rhaglenni

Mae dyletswyddau statudol Uchelgais Gogledd Cymru, Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, wedi'u nodi mewn rheoliadau a wneir yn unol â phwerau Llywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Yn benodol, mae rheoliadau 11 i 14 o Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 yn amlinellu swyddogaethau statudol Uchelgais Gogledd Cymru:

- Llesiant economaidd
- Datblygu Polisi Trafnidiaeth Rhanbarthol
- Cynllunio Strategol

Ffactor arwyddocaol wrth gyflawni'r ddyletswydd Llesiant Economaidd oedd trosglwyddo Cynllun Twf Gogledd Cymru o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Cyd-bwyllgor annibynnol (yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972) gyda Chyngor Gwynedd yn awdurdod lletyol, i Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, Uchelgais Gogledd Cymru, corff corfforaethol annibynnol, ar 1 Ebrill 2025.

Er mwyn cyflawni'r pwerau statudol hyn, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau strategol a rhanbarthol ledled Gogledd Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau cyfansoddol, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn darparu'r fframwaith ariannol sy'n cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau hyn mewn ffordd gynaliadwy a fforddiadwy.

Trwy gydol cyfnod y cynllun, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ein swyddogaethau statudol a datblygu rhaglenni sy'n cyfrannu at dwf economaidd, cysylltedd a chynaliadwyedd y rhanbarth. Mae'r prif flaenoriaethau strategol yn cynnwys:

- Datblygu a gweithredu'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Gogledd Cymru.
- Cyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a chefnogi gwell cysylltedd ar draws y rhanbarth.
- Arwain a chyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a'i phortffolio o raglenni a phrosiectau.
- Cefnogi datblygiad a gweithrediad Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.
- Datblygu sgiliau a gallu'r gweithlu drwy waith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.
- Sicrhau trefniadau llywodraethu, perfformiad a rheoli ariannol cadarn.
- Datblygu gallu sefydliadol a gweithredol y CBC i fodloni cyfrifoldebau cynyddol y sefydliad.

Rydym yn ceisio sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu cyfeirio at y blaenoriaethau hyn tra'n cynnal gwytnwch ariannol a rheoli risg effeithiol. Wrth ddatblygu'r cynllun, rhoddir ystyriaeth i'r adnoddau sydd ar gael, y pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus, a'r angen i ddarparu gwerth am arian wrth gyflawni canlyniadau i gymunedau, busnesau a rhanddeiliaid ledled Gogledd Cymru.

Mae'r cynllun hwn hefyd yn adlewyrchu pwysigrwydd gweithio rhanbarthol a sicrhau bod buddsoddiadau'r CBC yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth o economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn i Ogledd Cymru, gan gefnogi twf economaidd, datblygu sgiliau a gwelliannau seilwaith strategol ledled y rhanbarth.

2.2 Ffactorau allanol sy'n effeithio ar y sefyllfa ariannol

Bydd nifer o ffactorau allanol yn dylanwadu ar sefyllfa ariannol y CBC a allai effeithio ar lefelau cyllid, costau a blaenoriaethau y sefydliad. Bydd y ffactorau hyn yn cael eu monitro a'u hystyried wrth ddatblygu a diweddarau'r cynllun.

Ffactor	Effaith bosibl
Cyllid gan y Partneriaid	Amharoddrwydd i barhau i gefnogi Uchelgais Gogledd Cymru yn ariannol, gan arwain at ardoll annigonol.
Cyllid y Llywodraeth	Newidiadau i lefelau cyllid, trefniadau grant neu broffil grant.
Chwyddiant	Cynnydd mewn costau cyflogaeth, contract a gwasanaeth.
Amodau Economaidd	Effaith ar gostau gweithredu, buddsoddi a chyfleoedd ariannu.
Datblygiadau Polisi a Deddfwriaeth	Gofynion newydd neu newidiadau i flaenoriaethau'r CBC.
Disgwyliadau Rhanddeiliaid	Pwysau i gyflawni canlyniadau rhanbarthol a chyflawni gwerth am arian.

Byddwn yn adolygu effaith y ffactorau hyn yn rheolaidd fel rhan o'n trefniadau cynllunio ariannol, rheoli risg a gosod cyllideb.

3. Rhagdybiaethau Cynllunio

Mae'r rhagolygon ariannol yn y cynllun hwn yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau ynghylch incwm, gwariant ac amodau economaidd. Defnyddir y rhagdybiaethau hyn fel sail ar gyfer datblygu'r rhagolygon ariannol dros gyfnod y cynllun.

3.1 Rhagdybiaethau Incwm

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r prif ragdybiaethau incwm a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r cynllun.

Ardal	Rhagdybiaeth
Cyfraniadau Partner (Cynllun Twf)	Cyfraniad gan 6 cyngor a 4 corff addysg i ariannu gweithredu'r Cynllun Twf. Mae hwn yn swm y cytunwyd arno, ac nid yw ei weithrediad yn dibynnu ar benderfyniadau ardoll ehangach. Mae'r CATC hwn yn rhagdybio y bydd cyfraniadau'r partner yn parhau fel y cytunwyd rhwng y partneriaid.
Incwm Ardoll	Yn unol â gofynion statudol, bydd yr ardoll yn parhau i gael ei chodi ar y 6 cyngor cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Rhaid pennu'r swm sydd i'w gasglu trwy ardoll, a'i ddyrannu i'r aelodau cyfansoddol, cyn diwedd mis Ionawr ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.
Cyllid Prosiect	Rhagwelir y gellir parhau i ddefnyddio 2.15% o grant y Cynllun Twf tuag at gostau refeniw y Swyddfa Rheoli Portffolio
Incwm Llog	Yn seiliedig ar lefelau arian parod a chyfraddau llog a ragwelir gan Fanc Lloegr a'r ymgynghorwyr rheoli trysorlys penodedig.
Cyfraniadau Llog Partneriaid	Yn seiliedig ar incwm ardrethi annomestig, proffil gwariant cyfalaf, proffil grant a chyfradd llog a ragwelir

3.2 Rhagdybiaethau gwariant

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r prif ragdybiaethau gwariant a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r cynllun.

Ardal	Rhagdybiaeth
Strwythur staffio	Y bydd angen i strwythur staffio'r CBC adlewyrchu'r dyletswyddau presennol ac sy'n dod i'r amlwg a osodir ar y sefydliad.
Cynnydd Cyflog	Yn unol â'r rhagolygon cenedlaethol diweddaraf a'r wybodaeth sydd ar gael.
Codiadau cyflog	Yn cynnwys costau cytundebol lle bo hynny'n berthnasol.
Yswiriant Gwladol	Adlewyrchu unrhyw newidiadau hysbys i gyfraddau cyfraniadau.
Cyfraniadau Pensiwn	Yn seiliedig ar gyfraddau cyflogwr disgwylidig a bydd yn adlewyrchu unrhyw newidiadau hysbys i gyfraddau cyfraniadau.
Chwyddiant	Yn cynnwys darpariaeth ar gyfer costau cyflogaeth, contractau a gwasanaethau. Gwneir rhagdybiaethau yn unol â'r wybodaeth ragolygon ddiweddaraf sydd ar gael gan Fanc Lloegr a'r ymgynghorwyr rheoli trysorlys penodedig.
Costau trydydd parti	Bydd yn cynnwys rhagdybiaethau darbodus o gostau'r gwasanaethau cymorth a ddarperir gan Gyngor Gwynedd a darparwyr trydydd parti eraill, fel y nodir mewn contractau a chytundebau lefel gwasanaeth.
Costau Eiddo	Yn cynnwys taliadau cyfleustodau, rhenti a chostau cysylltiedig lle bo'n berthnasol.

3.3 Adolygu rhagdybiaethau

Fel y nodwyd eisoes, bydd y rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y cynllun yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r amgylchiadau diweddaraf. Bydd angen gwneud hyn o leiaf bob blwyddyn, ond yn ymarferol bydd angen ei wneud yn ystod y flwyddyn wrth i ddata a gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg gael ei dderbyn. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol i lefelau cyllid, chwyddiant, costau cyflogaeth neu amodau economaidd yn cael eu hystyried wrth ddiweddarau'r rhagolygon ariannol.

4. Sylfaen Ariannol

4.1 Cyllideb sylfaenol ar gyfer y flwyddyn gyfredol

Dyma gyllideb sylfaenol 2026/27 ar gyfer y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, fel y'i cymeradwywyd ar 23 Ionawr 2026. Nid yw'n cynnwys costau sy'n ymwneud â Cynllun Twf Gogledd Cymru, Parth Buddsoddi na'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol gan nad ydynt yn cael eu hariannu drwy'r ardoll, ond gan gytundeb a grant cytundebol ar wahân.

Categori	Cyllideb 2026/27 (£)
Gweithwyr	956,920
Teithio	3,110
Cyflenwadau a Gwasanaethau	654,630
Gwasanaethau Cefnogol	273,220
Costau Sefydlu	71,890
Incwm (nad yw'n ardoll, gan gynnwys cyfraniadau o gronfeydd wrth gefn)	(944,590)
Cyfanswm Gwariant Net	1,015,180

4.2 Man cychwyn rhagolwg ariannol

Defnyddir y gyllideb sylfaenol fel sail ar gyfer datblygu'r rhagolygon ariannol dros gyfnod y cynllun hwn. Mae'r rhagolygon yn ystyried effaith y rhagdybiaethau cynllunio, gan gynnwys:

- Chwyddiant.
- Dyfarniadau cyflog.
- Newidiadau mewn cyllid.
- Pwysau a rhaglenni gwasanaeth.
- Newidiadau i gyfrifoldebau'r CBC.

Mae'r dull hwn yn galluogi'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig i asesu cynaliadwyedd ariannol, nodi bylchau cyllidebol posibl a chefnogi penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau.

4.3 Newidiadau i'r Sylfaen

Y newid mwyaf yn y sylfaen ariannol oedd trosglwyddo Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r Swyddfa Rheoli Portffolio, ynghyd â'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 1 Ebrill 2025. Arweiniodd y trosglwyddiad hwn at drosglwyddo asedau, ymrwymïadau, cronfeydd wrth gefn a chyfrifoldebau gweithredol sylweddol i'r CBC, gan gynyddu maint a chymhlethdod gweithgarwch y sefydliad.

5. Rhagolwg Ariannol Tair Blynedd

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r rhagolygon incwm, gwariant a sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer y CBC dros gyfnod y cynllun hwn. Mae'r rhagolygon yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a nodir yn Adran 3.

5.1 Rhagolygon Incwm

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r incwm a ragwelir dros gyfnod y cynllun.

Ffynhonnell yr Incwm	2027/28 (£)	2028/29 (£)	2029/30 (£)
Llog ar Falansau	(20,000)	(20,000)	(20,000)
Grant y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	(450,000)	(450,000)	(450,000)
Cyfanswm Incwm nad yw'n ardoll	(470,000)	(470,000)	(470,000)

Mae'r rhagolygon incwm yn adlewyrchu trefniadau cyllido cyfredol, grantiau hysbys a rhagdybiaethau ynghylch ffynonellau incwm eraill.

5.2 Rhagolygon Gwariant

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r gwariant a ragwelir dros gyfnod y CATC.

Gwariant a ragwelir	2027/28 (£)	2028/29 (£)	2029/30 (£)
Cyd-Bwyllgor Corfforedig	1,220,090	1,354,100	1,446,490
Cynllun Datblygu Strategol	814,210	634,690	625,910
Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	599,530	604,210	609,680
Cyfanswm y Gyllideb Gwariant	2,633,830	2,593,000	2,682,080

Mae'r rhagolygon gwariant yn cynnwys effaith dyfarniadau cyflog, chwyddiant, ymrwymïadau cytundebol a phwysau costau eraill a ragwelir dros gyfnod y cynllun.

5.3 Sefyllfa Ariannol Gyffredinol

Mae cymhariaeth o'r incwm a'r gwariant disgwylïedig yn rhoi trosolwg o sefyllfa ariannol y CBC dros gyfnod y CATC.

Dyma'r symiau y bydd angen eu hariannu trwy gyfuniad o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a chodi ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol.

	2027/28 (£)	2028/29 (£)	2029/30 (£)
Cyfanswm yr incwm nad yw'n ardoll	(470,000)	(470,000)	(470,000)
Cyfanswm y Gwariant	2,633,830	2,593,000	2,682,080
Diffyg	2,163,830	2,123,000	2,212,080

Mae rhywfaint o sgôp cyfyngedig ar gyfer amrywio'r union gyfuniad a'r gyfran o ardoll / cronfeydd wrth gefn i'w defnyddio dros gyfnod y CATC. Mae'r rhain wedi'u nodi isod.

6. Meysydd Gwariant

6.1 Cynllun Twf

Mae'r Cynllun Twf yn ddarostyngedig i drefniadau cyllido ar wahân ac nid yw'n cael ei ariannu drwy'r ardoll. Mae ganddo hefyd gronfeydd wrth gefn ar wahân na ellir eu defnyddio i ariannu gweithgareddau ehangach y Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

Er bod y CBC hyd yma wedi derbyn mwy o incwm grant nag y mae wedi'i wario ar brosiectau'r Cynllun Twf, rhagwelir bwlch cyllido dros dro tymor canolig rhwng proffil gwariant y Cynllun Twf a phroffil disgwylidiedig cyllid y llywodraeth a dderbyniwyd gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Yn 2020, comisiynodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gwmni cynghori trysorlys annibynnol i fodelu cost benthyca a'r cyfraniadau partner blyneddol cyfatebol sy'n ofynnol i dalu'r gost hon ac sydd wedi'u cynnwys yn y cyllidebau ers 2021/22. Mae nifer o newidynnau (incwm ardrethi annomestig, proffil gwariant cyfalaf, proffil grant a chyfradd llog a ragwelir) a all effeithio ar y costau hyn, ac mae'r cyfraniadau partner yn cael eu hail gyfrifo bob blwyddyn i adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf.

Mae cronfa llog penodol wedi'i chreu ac mae wedi'i neilltuo i ariannu'r costau hyn ac mae'n cynnwys cyfraniadau'r partner yn ogystal â'r llog ar falansau'r Cynllun Twf (ac eithrio 2024/25 a 2025/26 lle gwnaed penderfyniad y Bwrdd i'r llog gael ei drosglwyddo i'r gronfa adnoddau wrth gefn i ariannu gofynion ychwanegol y llywodraeth, datblygu prosiectau a chadw capasiti'r Swyddfa Rheoli Portffolio am ddwy flynedd ychwanegol y tu hwnt i fis Mawrth 2026).

Yn 2023/24 a 2024/25, mae'r ddwy Lywodraeth wedi atal eu cyllid ac er bod proffil grant diwygiedig wedi'i dderbyn gan Lywodraeth y DU, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eu proffil grant diwygiedig eto i gynnwys y cyllid o £16m a gafodd ei atal. Ar hyn o bryd rydym yn rhagweld y bydd angen i'r CBC fenthycu yn 2027/28 i ariannu'r gwariant cyfalaf. Ffactor arall a fydd yn cynyddu cost benthyca'n ddiangen yw amseriad y grant a dderbynnir gan lywodraethau, gyda thaliadau grant yn cael eu derbyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac ar rai achlysuron wedi llithro i'r flwyddyn ariannol ganlynol.

6.2 Parth Buddsoddi

Dros gyfnod deng mlynedd y Parth Buddsoddi, mae cyfanswm o £6.4m ar gael i gefnogi gweinyddiaeth y rhaglen. O'r dyraniad hwn, dyrennir £200,000 y flwyddyn i'r CBC a £220,000 yr un i Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Nododd adolygiad diwedd Gorffennaf 2026 na fydd y dyraniad gweinyddol ar ei ben ei hun yn ddigonol i ariannu costau'r CBC ar gyfer 2026/27, felly bydd y llog ar falansau Parth Buddsoddi yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y bwlch ariannu hwn. Mae'r defnydd o log yn drefniant dros dro gan y bydd llog i'w dderbyn ar falansau yn gostwng wrth i all-lif arian grant y Parth Buddsoddi

gynyddu, a bydd angen mesurau ar y CBC i sicrhau bod y gwariant yn parhau i fod o fewn yr amlen ariannu yn y blynyddoedd i ddod.

6.3 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yn sicrhau bod datblygu sgiliau wedi'i ymgorffori mewn rhaglenni buddsoddi mawr gan gynnwys y Cynllun Twf a'r Parth Buddsoddi. Mae'n cael ei ariannu gan grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru gyda'r rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei wneud ar weithwyr, digwyddiadau a chyfarfodydd, marchnata a chyfathrebu a'r porth sgiliau.

6.4 Y Gronfa Twf Lleol

Mae'r Gronfa Twf Lleol yn rhaglen fuddsoddi sy'n cefnogi twf cynhyrchiant ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd ledled Cymru rhwng 2026 a 2029. Mae'n cefnogi buddsoddiad mewn busnesau cynhyrchiol a chystadleuol, sgiliau a chymorth i helpu pobl i gael gwaith ac isadeilwaith rhanbarthol.

Yn ystod 2027–29 (ac wedi hynny yn amodol ar unrhyw estyniad), bydd y cyfrifoldeb am gynllunio a goruchwyllo cyflawni'r Gronfa Twf Lleol yn trosglwyddo o Gyngor Gwynedd i Gyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, a fydd yn arwain cynllunio rhanbarthol, blaenoriaethu a dewis portffolio.

Mae'r costau gweinyddol wedi'u capio ar 4% o gyfanswm dyraniadau y Gronfa Twf Lleol ym mhob blwyddyn ariannol ac felly bydd angen i'r CBC weithio o fewn eu hamlen ariannol.

6.5 Cyd-Bwyllgor Corfforedig

Mae'r grŵp cyllideb hwn yn cynnwys costau net cyflawni dyletswyddau statudol Uchelgais Gogledd Cymru ac eithrio'r Cynllun Twf, y Cynllun Datblygu Strategol a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Yn ogystal â'r costau gweithredol, mae'r grŵp hwn hefyd yn cynnwys craidd corfforaethol y sefydliad, a'r costau sy'n gysylltiedig â rhedeg corff awdurdod lleol gan gynnwys swyddogaethau statudol fel y Prif Weithredwr, Swyddog S151 a Swyddog Monitro, ac ystod o swyddogaethau corfforaethol eraill megis polisi, caffael a gwasanaethau cefnogol eraill. Er bod rhai o'r costau hyn yn daladwy i Gyngor Gwynedd fel darparwr gwasanaethau cefnogol drwy gytundebau lefel gwasanaeth, mae'r CATC yn mynd i'r afael â'r materion capasiti cyfredol o fewn rhai o swyddogaethau craidd Uchelgais Gogledd Cymru.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig	2027/28 (£)	2028/29 (£)	2029/30 (£)
Gweithwyr	875,560	1,000,980	1,079,000
Ymgynghorwyr Allanol	37,260	38,560	39,900
Teithio	3,110	3,750	4,430
Cyflenwadau a Gwasanaethau	191,780	194,490	202,760
Gwasanaethau Cefnogol	149,640	154,880	160,300
Incwm - Llog ar falansau	(20,000)	(20,000)	(20,000)
Cyfanswm Gwariant Net	1,200,090	1,334,100	1,426,490

6.6 Cynllun Datblygu Strategol (CDS)

Tynnodd adroddiad i'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol ar 4 Medi 2025 sylw at y ffaith bod y Rheoliadau sy'n ymwneud â datblygu'r CDS yn nodi'n glir bod cynhyrchu CDS yn ddyletswydd statudol i'r CBC, ac yn ymhyg â hynny mae'r cyfrifoldeb i dalu costau llawn gwneud hynny. Ar wahân i ryw faint o gyllid grant cymharol fychan ar y cychwyn, nid oes unrhyw gyllid wedi'i nodi ar gyfer y CDS gan Lywodraeth Cymru, yn wahanol i ymrwymiad cyhoeddedig i gefnogi gwaith y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Fel y mae pethau'n sefyll, felly mae i fyny i'r CBC dalu costau llawn y CDS.

Mae'r gwaith a wnaed ers mis Medi 2025 wedi caniatáu i'r CBC ddatblygu a mireinio ei ragolygon ariannol, ac fel y gwelir o'r tabl isod, disgwylir i wariant ostwng ar ôl 2027/28 wrth i'r angen am ymgynghorwyr allanol (a ddangosir o dan Gyflenwadau a Gwasanaethau) leihau'n sylweddol, gyda chyfrifoldebau wedi'u darparu'n fewnol.

Cynllun Datblygu Strategol	2027/28 (£)	2028/29 (£)	2029/30 (£)
Gweithwyr	232,040	300,440	375,160
Teithio	950	980	1,010
Cyflenwadau a Gwasanaethau	531,380	281,680	196,340
Gwasanaethau Cefnogol	49,840	51,590	53,400
Cyfanswm Gwariant Net	814,210	634,690	625,910

6.7 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Mae'r swyddogaeth o ddatblygu polisïau ar gyfer hyrwyddo ac annog trafndiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd i'w hardal, oddi yno ac o fewn eu hardal, a datblygu polisïau ar gyfer gweithredu Strategaeth Drafndiaeth Cymru yn eu hardal, mewn perthynas ag ardal pob cyngor cyfansoddol, i'w harfer gan CBC Gogledd Cymru, ac nid gan y cyngor cyfansoddol.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Uchelgais Gogledd Cymru gyflawni'r swyddogaeth o ddatblygu a chynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a pholisïau rhanbarthol cysylltiedig mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol a phartneriaid. Trwy'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, mae gan Uchelgais Gogledd Cymru gyfrifoldebau i reoli prosiectau a rhaglenni. Cyflawnir y rôl hon trwy gydlyn, cynllunio a datblygu'r rhaglenni prosiect perthnasol a gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae'r cyfrifoldeb i fonitro ac adolygu lefel a defnydd adnoddau, gan gynnwys staff, yn cael ei wneud gan yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	2027/28 (£)	2028/29 (£)	2029/30 (£)
Gweithwyr	207,740	215,020	222,550
Teithio	520	540	560
Cyflenwadau a Gwasanaethau	341,940	337,590	333,720
Gwasanaethau Cefnogol	49,330	51,060	52,850
Incwm - Grant y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	(450,000)	(450,000)	(450,000)
Cyfanswm Gwariant Net	149,530	154,210	159,680

Derbyniwyd cyllid dangosol ar gyfer y grant ar gyfer 2027/28 a 2028/29. Wrth ddatblygu'r CATC hwn mae rhagdybiaeth y bydd cyllid yn aros yn gyson yn 2029/30, ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau eto. Bydd y sefyllfa yn cael chadw dan adolygiad.

7. Cyllid

Mae model cyllido y CBC yn dibynnu ar gyfuniad o gyfraniadau awdurdodau cyfansoddiadol, grantiau a ffynonellau cyllid eraill. Mae rheoli'r ffynonellau hyn yn effeithiol yn hanfodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol a chyflawni ein blaenoriaethau.

7.1 Defnyddio cronfeydd wrth gefn

Mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa cronfeydd wrth gefn y CBC (heb gynnwys unrhyw gronfeydd wrth gefn y Cynllun Twf a'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, sydd wedi'u neilltuo).

	£
Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2026	(1,636,007)
Defnydd yn 2026/27 (wedi'i gymeradwyo yn y gyllideb)	624,590
Defnydd yn 2026/27 (amcangyfrif fel rhan o adolygiad ariannol Gorffennaf 2026)	39,874
Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2027	(971,543)
5% o gyllideb refeniw gros 2027/28 wrth gefn	131,692
Cyfanswm y gronfa wrth gefn sydd ar gael ar gyfer 2027/28	(839,851)

Fel y gwelir, yn ogystal â'r £624.6k a gymeradwywyd i ariannu cyllideb 2026/27, mae adolygiad diwedd Gorffennaf 2026 yn amcangyfrif y bydd angen £40k ychwanegol yn ystod y flwyddyn i ddelio â gorwariant a ragwelir.

Yn unol ag arfer da a dderbynnir yn gyffredinol, mae angen cadw oddeutu 5% o'r Gwariant Refeniw Gros fel Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol. Byddai hyn yn gadael oddeutu £840k i'w ddefnyddio fel rhan o'r cyllidebu ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

7.2 Cyfraniadau ardoll Awdurdodau Partner

Mae cyfraniadau ardoll yr awdurdodau lleol cyfansoddol yn ffynhonnell allweddol o gyllid i'r CBC. Mae lefel y cyfraniadau yn cael ei adolygu'n flynyddol gan ystyried y gofynion ariannol, blaenoriaethau rhanbarthol a fforddiadwyedd i'r partneriaid.

Opsiwn 1 - Cadw'r ardoll yr un fath â 2026/27 a defnyddio'r cronfeydd wrth gefn i gydbwysu'r gyllideb

	Cynllunio Strategol	Ffwythiannau eraill	Cyfanswm Ardoll
Awdurdod	(£)	(£)	(£)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(61,450)	(103,330)	(164,780)
Cyngor Sir Ddinbych	(54,690)	(88,350)	(143,040)
Cyngor Sir y Fflint	(86,790)	(140,200)	(226,990)
Cyngor Gwynedd	(56,130)	(108,660)	(164,790)
Cyngor Sir Ynys Môn	(38,480)	(62,130)	(100,610)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(76,970)	(124,340)	(201,310)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	(13,660)		(13,660)
Cyfanswm Ardoll	(388,170)	(627,010)	(1,015,180)
Defnydd y cronfeydd wrth gefn	(426,040)	(722,610)	(1,148,650)

Yr opsiwn hwn yw rhewi'r ardoll yn 2027/28 ar yr un gyfradd â 2026/27 a defnyddio cronfeydd wrth gefn i lenwi'r bylchau ariannu, ar ôl cadw 5% o wariant refeniw gros 2027/28 fel Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol. Byddai hyn yn gofyn am £1,148,650 o gronfeydd wrth gefn, nad oes gan y CBC. Felly, nid yw'r cynnig hwn yn ymarferol gan y byddai diffyg cyllido o £308,799.

Gan nad yw rhewi'r ardoll yn ymarferol, mae'n dilyn nad yw peidio â chodi ardoll o gwbl yn 2027/28 yn bosibl chwaith.

Opsiwn 2 - Cynyddu'r ardoll a pheidio â defnyddio cronfeydd wrth gefn

	Cyfanswm Ardoll	(Cynnydd) / Gostyngiad	%
Awdurdod	(£)	(£)	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(350,500)	(185,720)	113%
Cyngor Sir Ddinbych	(305,760)	(162,720)	114%
Cyngor Sir y Fflint	(485,130)	(258,140)	114%
Cyngor Gwynedd	(351,050)	(186,260)	113%
Cyngor Sir Ynys Môn	(213,350)	(112,740)	112%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(429,300)	(227,990)	113%
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	(28,740)	(15,080)	110%
Cyfanswm Ardoll	(2,163,830)		

Gyda'r opsiwn hwn, byddai'r CBC yn cadw'r cronfeydd wrth gefn y mae'n disgwyl eu bod ar gael ar ddiwedd 2026/27 a dim yn gwneud unrhyw ddefnydd pellach ohonynt. Er bod hyn yn golygu y byddai cronfeydd wrth gefn ar gael i gydbwyso'r gyllideb yn y blynyddoedd i ddod, ni ellir cyfiawnhau hyn gan y byddai'r holl awdurdodau cyfansoddol yn wynebu cynnydd o 113% yn eu hardoll ar gyfer 2027/28.

Opsiwn 3 - Cynyddu'r ardoll a defnyddio cyfran o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael

	Cyfanswm Ardoll 2027/28	(Cynnydd) / Gostyngiad	%
Awdurdod	(£)	(£)	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(282,480)	(117,700)	71%
Cyngor Sir Ddinbych	(246,410)	(103,370)	72%
Cyngor Sir y Fflint	(390,980)	(163,990)	72%
Cyngor Gwynedd	(282,930)	(118,140)	72%
Cyngor Sir Ynys Môn	(171,950)	(71,340)	71%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(345,990)	(144,680)	72%
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	(23,160)	(9,500)	70%
Cyfanswm Ardoll	(1,743,900)		
Defnydd y cronfeydd wrth gefn	(419,930)		

Cronfa wrth gefn sydd ar gael sy'n weddill (ar ôl y dyraniad cronfa wrth gefn cyffredinol o 5%) ar 31 Mawrth 2028: £419,921.

Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys defnyddio 50% o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ar gyfer 2027/28, 2028/29 a 2029/30. Byddai hyn yn darparu cydbwysedd o allu defnyddio rhai o'r cronfeydd wrth gefn ym mhob un o dair blynedd ariannol er mwyn lleihau'r cynnydd ardoll. Gyda'r opsiwn hwn, byddai angen i'r ardoll gynyddu oddeutu 71% yn 2027/28, ond gyda chynnydd is o oddeutu 10% yn y ddwy flynedd ddilynol.

Opsiwn 4 - Defnyddio'r holl gronfeydd wrth gefn sydd ar gael (£839,850) yn 2027/28

	Cyfanswm Ardoll 2027/28	(Cynnydd) / Gostyngiad	%
Awdurdod	(£)	(£)	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(214,460)	(49,680)	30%
Cyngor Sir Ddinbych	(187,070)	(44,030)	31%
Cyngor Sir y Fflint	(296,830)	(69,840)	31%
Cyngor Gwynedd	(214,800)	(50,010)	30%
Cyngor Sir Ynys Môn	(130,540)	(29,930)	30%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(262,680)	(61,370)	30%
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	(17,600)	(3,940)	29%
Cyfanswm Ardoll	(1,323,980)		
Defnydd y cronfeydd wrth gefn	(839,850)		

Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys defnyddio'r holl gronfeydd wrth gefn sydd ar gael i osod cyllideb 2027/28, gan gadw'r cynnydd ardoll ar oddeutu 30%. Effaith hyn yw na fyddai cronfeydd wrth gefn ar gael i gydbwyso'r cyllidebau yn 2028/29 a 2029/30, gan arwain at gynydd ardoll o dros 60% ar gyfer y 6 cyngor cyfansoddol yn 2028/29 ond gyda chynnydd llai yn 2029/30.

7.2 Ariannu Rhaglenni Rhanbarthol

Mae llawer o weithgareddau'r CBC yn dibynnu ar grantiau a chyllid allanol. Byddwn yn monitro lefelau cyllid, cyfleoedd newydd, dyddiadau dod i ben grant a risgiau cyllido hirdymor.

7.3 Trefniadau Gwasanaeth a Rennir

Lle bo hynny'n briodol, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn defnyddio gwasanaethau a rennir i sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian. Ar hyn o bryd mae'r trefniadau hyn yn cynnwys gwasanaethau ariannol, adnoddau dynol, gwasanaethau cefnogol democrataidd, TGCh a gwasanaethau corfforaethol eraill.

7.4 Dadansoddiad o ddibyniaeth ar grantiau

Mae dibyniaeth ar gyllid grant yn peri risg ariannol, yn enwedig pan fo grantiau'n gyfnod penodol. Byddwn yn monitro lefel y ddibyniaeth ar grantiau, dyddiadau dod i ben cyllid a chyfleoedd i amrywio ffynonellau incwm.

Rhaglen	Ffynhonnell Grant
Cynllun Twf Gogledd Cymru	Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU
Parth Buddsoddi	Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU
Cynllun Datblygu Strategol	Dim grant cyfredol
Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	Llywodraeth Cymru
Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	Llywodraeth Cymru

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i fod yn ddibynnol ar gyllid grant i gefnogi nifer o'i rhaglenni strategol. Bydd unrhyw ostyngiad neu newid mewn trefniadau grant yn risg sylweddol i gyflawni blaenoriaethau'r sefydliad.

8. Strategaeth Arian Wrth Gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn rhan allweddol o reolaeth ariannol y CBC ac yn darparu gwytnwch ariannol i reoli risgiau, ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl a chefnogi costau un tro. Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa gronfeydd wrth gefn cyffredinol a ragwelir ar gyfer cyfnod y CATC hwn.

Categori Cronfa Wrth Gefn	Ar 1/4/2027	Ar 31/3/2030
	(£)	(£)
Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol	131,692	131,692
Cronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi	839,851	0
Cyfanswm	971,543	131,692

Mae'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol yn cynrychioli 5% o gyllideb refeniw gros 2027/28 gyda gweddill y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

8.2 Defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn

Lle bo'n briodol, gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer:

- Cyllido cost un-amser.
- Rheoli risgiau neu bwysau ariannol tymor byr.
- Cefnogi prosiectau a blaenoriaethau'r CBC.
- Lliniaru effaith amrywiadau mewn incwm neu wariant.
- Cynorthwyo gyda newidiadau neu drawsnewid sefydliadol.

Bydd unrhyw ddefnydd o gronfeydd wrth gefn yn cael ei ystyried yn drylwyr yng nghydestun cynaliadwyedd ariannol tymor hwy, a bydd y sefyllfa yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig a'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'r adolygiadau ariannol.

Mae cronfeydd wrth gefn y Cynllun Twf a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi'u neilltuo ac nid ydynt yn cael eu hystyried fel rhan o'r sefyllfa cronfeydd wrth gefn a ddangosir uchod.

8.3 Isafswm lefel y cronfeydd wrth gefn

Mae'r CBC yn cynnal lefel briodol o gronfeydd wrth gefn cyffredinol er mwyn diogelu'r sefydliad rhag risgiau a chostau annisgwyl. Bydd cronfeydd wrth gefn cyffredinol i ddechrau oddeutu 5% o'r Gwariant Refeniw Gros amcangyfrifedig ar gyfer 2027/28, a byddant yn cael eu hadolygu'n flynyddol, gan ystyried y risgiau ariannol allweddol, ansicrwydd cyllido, a lefel y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

8.4 Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi

Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu clustnodi at ddibenion penodol, megis:

- Cronfa Wrth Gefn Cynllun Twf
- Cronfa Prosiectau Cynllun Twf
- Cronfa Llog Cynllun Twf
- Cronfa Adnoddau Cynllun Twf
- Cyfrif Dal Llog Cynllun Twf
- Cronfa Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

Ni ellir defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cynllun Twf na'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol i ariannu neu sybsideiddio gweithgareddau eraill Uchelgais Gogledd Cymru.

Byddwn yn adolygu'r cronfeydd wrth gefn hyn yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac yn berthnasol.

8.5 Rhagolygon Cronfeydd Wrth Gefn

Bydd lefelau cronfeydd wrth gefn yn cael eu monitro trwy gydol cyfnod y cynllun i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddigonol i gefnogi gwytnwch ariannol y sefydliad. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu hadlewyrchu yn y rhagolygon ariannol a'r broses gyllidebu flynyddol.

9. Asesiad Risg

Mae'r cynllun yn cynnwys asesiad o'r prif risgiau a allai effeithio ar sefyllfa ariannol y CBC dros ei oes. Mae'r risgiau hyn yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd fel rhan o drefniadau llywodraethu a rheoli ariannol y sefydliad.

9.1 Risgiau Ariannol Allweddol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r prif risgiau sy'n wynebu'r CBC a'r mesurau lliniaru perthnasol.

Risg	Effaith	Tebygolrwydd	Camau Lliniaru
Gostyngiad mewn cyllid grant	Uchel	Canolig	Amrywio ffynonellau cyllido a monitro cyfleoedd grant newydd
Chwyddiant yn uwch na'r rhagolwg	Uchel	Canolig	Darpariaeth wrth gefn priodol ac adolygiad rheolaidd o ragdybiaethau
Pwysau i recriwtio a chadw staff	Canolig	Canolig	Cynllunio'r gweithlu a monitro marchnad lafur
Dyfarniadau cyflog uwch na rhagdybiaethau	Uchel	Canolig	Adolygu cyllidebau cyflog a monitro trafodaethau cenedlaethol
Oedi neu fethu â sicrhau cyllid allanol	Uchel	Canolig	Cryfhau prosesau cynllunio a datblygu prosiectau
Newidiadau mewn deddfwriaeth neu bolisi	Canolig	Canolig	Monitro datblygiadau polisi a chynllunio ymlaen llaw
Cynnydd mewn costau contract a gwasanaeth	Canolig	Canolig	Rheoli contractau'n effeithiol ac adolygu trefniadau caffael
Dibyniaeth ar nifer fach o ffynonellau cyllido	Uchel	Isel/Canolig	Gall y CBC archwilio ffynonellau cyllid amgen, ond mae'r opsiynau yn gyfyngedig iawn.
Cost benthyca ddiangen	Uchel	Uchel	Trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a Chymru ar broffil ac amseriad Cyllid Grant y Cynllun Twf.
Incwm ardrethi annomestig ar brosiectau Cynllun Twf heb ei dderbyn neu'n is na'r disgwyl	Canolig	Canolig	Mae angen cymeradwyaeth gweinidogion Llywodraeth Cymru ar incwm ardrethi annomestig yn ogystal â chytundebau ar rannu incwm ardrethi annomestig rhwng cynlluniau'r Cynllun Twf, Porthladd Rydd a'r Parth Buddsoddi.

Nid yw cyllid grant Parth Buddsoddi ar gael i ariannu gwariant prosiect	Uchel	Isel/Canolig	Trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a Chymru ar broffil ac amseriad Cyllid Grant Parth Buddsoddi.
Gwariant gweinyddu Parth Buddsoddi yn uwch na'r cyllid sydd ar gael	Canolig	Canolig	Defnyddio incwm llog yn y tymor byr, ond mae angen rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod y gwariant yn aros o fewn yr amlen ariannu yn y blynyddoedd i ddod.

9.2 Rheoli Risg Ariannol

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn rheoli risgiau ariannol drwy:

- Adolygu'r cynllun yn flynyddol.
- Monitro perfformiad ariannol yn rheolaidd.
- Cynnal lefel briodol o gronfeydd wrth gefn.
- Diweddarau rhagolygon a rhagdybiaethau wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael.
- Integreiddio rheoli risg i brosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.

9.3 Casgliad

Mae rheoli risg yn rhan annatod o gynaliadwyedd ariannol Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd y risgiau a nodir yn y cynllun yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y sefydliad yn gallu ymateb yn effeithiol i newidiadau mewn cyllid, costau a'r amgylchedd gweithredu ehangach.

Atodiad – Dadansoddiad Sefydliad Swyddi

Swyddi Presennol (heb gynnwys y rhai sydd wedi eu hariannu'n llawn gan y Cynllun Twf a/neu y Parth Buddsoddi)

Teitl Swydd	Dyraniad Cyllideb			Nodiadau
	Cyd-Bwyllgor Corfforedig	Cynllunio Strategol	Trafnidiaeth	
Prif Weithredwr	100%			
Cynhorthwy-ydd Personol i'r Prif Weithredwr	100%			
Rheolwr Prosiect Cyllido	50%			Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Swyddog Arweiniol Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol	50%			Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Rheolwr Adnoddau a Gweithrediadau	25%			Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Rheolwr Caffael a Gwerth Cymdeithasol	25%			Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Uwch Swyddog Caffael	75%			Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Swyddog Cefnogi Corfforaethol	100%			
Uwch Swyddog Gweithredol	75%			Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Uwch Swyddog Polisi	100%			
Rheolwr Rhaglen	25%			Tan ganol Blwyddyn 1, wedi ei ariannu gan PB a CTLI
Swyddog Monitro	40%	5%	10%	Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf a PB

Teitl Swydd	Dyranid Cyllideb			Nodiadau
	Cyd-Bwyllgor Corfforedig	Cynllunio Strategol	Trafnidiaeth	
Dirprwy Swyddog Monitro	75%	5%	5%	Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf a PB
Cyfreithiwr	15%	5%		Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf a PB
Rheolwr Masnachol	33%			Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf a PB
Rheolwr Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol		100%		
Uwch Swyddog Cynllunio		100%		
Uwch Swyddog Trafnidiaeth			100%	
Swyddog Trafnidiaeth			100%	
Swyddog Trafnidiaeth			100%	

Mae'r swyddi sydd eisoes wedi eu llenwi i gyd yn rhai tymor penodol, ar wahân i'r Prif Weithredwr a Cymhorthydd Personol y PW sy'n apwyntiadau parhaol.

Swyddi Ychwanegol sydd wedi eu cynnwys yn y CATC ac i gyd yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth cyllidebol

Teitl Swydd	Dyranid Cyllideb			Nodiadau
	Cyd-Bwyllgor Corfforedig	Cynllunio Strategol	Trafnidiaeth	
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adnoddau)	100%			O Blwyddyn 1
Swyddog Cyfathrebu	50%			O Blwyddyn 1. Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Uwch Swyddog Cynllunio		100%		O Blwyddyn 1
Swyddog Gweithredol	25%			O Blwyddyn 2. Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf
Swyddog Polisi	100%			O Blwyddyn 2
Swyddog Cymorth Technegol		100%		O Blwyddyn 2
Swyddog Rhaglen		100%		O Blwyddyn 3
Dadansoddwr Systemau / Data	33%			O Blwyddyn 3. Gweddill wedi ei ariannu o'r Cynllun Twf a PB



**Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG
25 Medi 2026**

TEITL: Trefniadau gwneud penderfyniadau ar gyfer Rheoli'r Gronfa Drafnidiaeth
Ranbarthol yn Ystod y Flwyddyn

AWDUR: Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw:

- hysbysu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig am y disgwyliad a roddir i'r Cyd-bwyllgor ynghylch rheoli'r rhaglen o brosiectau'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol ledled gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn, a
- cheisio cymeradwyaeth i awdurdod dirprwyedig ar gyfer penderfyniadau ynghylch newidiadau i'r rhaglen yn ystod y flwyddyn.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gymeradwyo dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid ac arweinwyr trafndiaeth awdurdodau lleol perthnasol, i gymeradwyo a chyflwyno ceisiadau am newid rhanbarthol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rheolaeth y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol yn ystod y flwyddyn.

2.2 Dylai'r Pwyllgor nodi mai Llywodraeth Cymru fydd yn parhau i wneud y penderfyniadau grant terfynol o ran y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol.

3. RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1 Ar 13 Gorffennaf 2026 (Rhaglen Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol y CBC ar ddydd Llun, 13 Gorffennaf, 2026, 2.30 pm), cytunodd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol argymhell i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y dylid dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid ac arweinwyr trafndiaeth awdurdodau lleol perthnasol, i gymeradwyo a chyflwyno ceisiadau am newid rhanbarthol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rheolaeth y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol yn ystod y flwyddyn.

3.2 Bydd y penderfyniad hwn yn caniatáu gwneud penderfyniadau mwy effeithlon ac amserol ynghylch newidiadau i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn ac yn gwneud y mwyaf o fanteision cyllid y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol i ogledd Cymru.



4. CEFNDIR

- 4.1 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) yn nodi'r polisïau sy'n siapio buddsoddiad mewn trafndiaeth yng ngogledd Cymru. Fe'i cymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor ym mis Gorffennaf 2025 a daeth yn bolisi mabwysiedig ar ôl cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2025.
- 4.2 Roedd y polisïau yn yr RTP yn dylanwadu ar y cynlluniau a gynhwyswyd yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP) a gymeradwywyd/mabwysiadwyd law yn llaw â'r RTP. Mae llawer o'r cyllid sydd ei angen i gyflawni cynlluniau'r RTDP yn debygol o ddod o Gronfa Drafndiaeth Rhanbarthol (RTF) Llywodraeth Cymru.
- 4.3 Yn unol ag amserlenni Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd rhaglen o gynlluniau ar gyfer cyllid RTF yn 2026/27 i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2026 ar ôl iddi gael ei chymeradwyo gan yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol ac yna'r Cyd-bwyllgor.
- 4.4 Ym mis Mawrth 2026 cymeradwyodd Llywodraeth Cymru y rhaglen o gynlluniau a chyhoeddi llythyrau cynnig ar gyfer pob cynllun i'r awdurdod lleol perthnasol. Gellir dechrau cyflwyno'r cynlluniau hynny o fis Ebrill 2026. Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, mae'r cyllid yn mynd yn uniongyrchol i awdurdodau lleol.

5. CANLLAWIAU GWEITHREDU LLYWODRAETH CYMRU

- 5.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Chanllawiau Gweithredu RTF 2026/27 i'r Cyd-bwyllgor ar 18 Mai 2026. Mae hyn yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer awdurdodau lleol a'r Cyd-bwyllgor wrth reoli Rhaglen y Gronfa Drafndiaeth Rhanbarthol yn y flwyddyn ariannol gyfredol.
- 5.2 Mae hyn yn cynnwys y broses ar gyfer gwneud unrhyw newidiadau i'r rhaglen, e.e. mewn achos o danwariant neu orwariant. Mae'r canllawiau yn nodi:

"Er y dylai Awdurdodau Lleol unigol adrodd am danwariant a gorwariant bob chwarter, ni fydd unrhyw newidiadau i ddyraniadau cynlluniau yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru oni bai bod ceisiadau am newid yn cael eu cytuno a'u cyflwyno ar y cyd gan Awdurdodau Lleol fel rhanbarth drwy'r Cyd-bwyllgor. Gellir cyflwyno ceisiadau am newid ar unrhyw adeg drwy'r flwyddyn

Byddem yn disgwyl i unrhyw geisiadau newid a gyflwynir, fod wedi cael eu cytuno ar y cyd fel rhanbarth drwy'r Cyd-bwyllgor cyn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried"

- 5.3 Felly, os oes angen newid gwariant cynllun, rhaid i'r rhanbarth wneud argymhelliad i Lywodraeth Cymru bod newid yn cael ei wneud. Yna bydd trafodaeth rhwng swyddogion yr awdurdod lleol, swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru, a gweision sifil cyn i unrhyw benderfyniad cymeradwyo gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.
- 5.4 Os cymeradwyir y newid, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi llythyrau cynnig diwygiedig i'r awdurdodau lleol ac mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cyflwyno ffurflenni diwygiedig i Lywodraeth Cymru.



- 5.5 Mae'r broses hon yn golygu ei bod yn hanfodol bod penderfyniadau rhanbarthol yn effeithlon ac yn gallu ymateb i unrhyw bryderon sy'n dod i'r amlwg.

6. ROLAU'R CYD-BWYLLGOR A'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

- 6.1 Mae adran 5.8 Cyfansoddiad y Cyd-bwyllgor yn nodi'r hyn a ganlyn o ran yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

"Bydd y Cyd-bwyllgor yn penodi Is-bwyllgor a elwir yn Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol - ("Swyddogaeth Trafnidiaeth Strategol") i wireddu'r swyddogaeth o baratoi a monitro polisiâu trafndiaeth dan adrannau 108(1)(a) a (2A)(a) Rhan 2 Deddf Trafnidiaeth 2000 neu unrhyw swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor sy'n ategol neu'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny.

- 6.2 Felly, mae'r Cyd-bwyllgor wedi gwneud trefniadau i'r is-bwyllgor gyflawni swyddogaethau trafndiaeth strategol penodol. Mae'r is-bwyllgor yn cydlynu'r broses o raglennu rheolaeth yr RTDP a'i gyflawni o fewn y gyllideb, ynghyd â'i fonitro a'i adolygu.

- 6.3 Caiff yr is-bwyllgor drefnu i unrhyw un o'r swyddogaethau hynny gael eu harfer gan aelod o staff (oni bai bod y Cyd-bwyllgor wedi cyfarwyddo fel arall).

7. AMSERLEN YR IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

- 7.1 Mae'r Is-bwyllgor wedi trefnu dyddiadau cyfarfodydd ym mis Gorffennaf, Tachwedd a Chwefror. Mae gan bob un o'r cyfarfodydd hynny amser arweiniol ar gyfer paratoi adroddiadau. Er bod hyn yn llywodraethu effeithiol, nid yw'n darparu'r hyblygrwydd a allai fod ei angen i reoli newidiadau i'r rhaglen yn ystod y flwyddyn, yn enwedig tua diwedd y flwyddyn ariannol.

8. AWDURDOD DIRPRWYEDIG

- 8.1 Bydd y ddirprwyaeth y gofynnir amdani wedi'i chyfyngu i newidiadau sy'n gyson â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol cymeradwy, y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol cymeradwy, canllawiau RTF Llywodraeth Cymru a'r telerau ac amodau arian grant perthnasol, gan gynnwys ailddyrrannu cyllid rhwng cynlluniau cymeradwy, amnewid o restr wrth gefn gymeradwy pan fo risgiau cyflawni'n codi, ac addasiadau sydd eu hangen i gyflawni cymaint â phosib o fewn amserlenni cyllid.

- 8.2 Er mwyn osgoi amheuaeth, ni chaiff y ddirprwyaeth awdurdodi cymeradwyo neu adolygu polisi trafndiaeth, unrhyw wyriad perthnasol o'r RTP/RTDP cymeradwy, cyflwyno cynllun newydd y tu allan i'r rhaglen gymeradwy neu wrth gefn lle byddai hyn yn codi materion polisi, nac unrhyw ddiwygiad i raglen gyfalaf y Cyd-bwyllgor ei hun sydd angen cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor o dan y Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

- 8.3 Bydd pob penderfyniad a wneir o dan y ddirprwyaeth hon yn cael ei gofnodi'n ysgrifenedig, gyda rhesymau, ac yn cael ei adrodd i'r cyfarfod nesaf o'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a, lle bo hynny'n briodol, i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

9. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i gyllidebau'r Cyd-bwyllgor yn deillio o'r adroddiad hwn.



10. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 10.1 Ymgynghorwyd â'r Swyddog Monitro wrth ysgrifennu'r adroddiad ac mae wedi cynghori ynghylch agweddau cyfansoddiadol a natur y ddirprwyaeth.

ATODIADAU:

N/A

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Gellir cefnogi'r argymhelliad yn gyfreithiol ac o ran y cyfansoddiad, ar yr amod ei fod yn cael ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn cael ei weithredu yn unol â'r cyfyngiadau a nodir yn yr adroddiad.

Dylid trin y ddirprwyaeth fel mecanwaith rheoli-rhaglen weithredol i gyflwyno ceisiadau am newid i Lywodraeth Cymru. Nid yw'n awdurdodi newidiadau i'r polisi trafnidiaeth, gwyradau materol o'r RTP/RTDP a gymeradwywyd, ac ati.

Dylai penderfyniadau a wneir o dan y ddirprwyaeth hon gael eu cofnodi'n ysgrifenedig, gyda rhesymau, yn dilyn yr ymgynghoriad gofynnol, a'u hadrodd i'r cyfarfod nesaf o'r Is-bwyllgor a, lle bo hynny'n briodol, i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Yn amodol ar y trefniadau diogelu hynny, nid oes unrhyw faterion cyfreithiol eraill yn codi."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Rwyf yn fodlon nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r penderfyniad a geisir. Bydd yr Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno ystyried i ba raddau y mae'r ddirprwyaeth arfaethedig yn cynnig cydbwysedd briodol rhwng atebolrwydd a'r angen i gael prosesau gwneud penderfyniadau sydd yn ystwyth ac yn symlach.



CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

25 o Fedi, 2026

TEITL: Adroddiad Blynyddol 2025/26

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/2026.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/26.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r adroddiad blynyddol yn edrych yn ôl ar y cynnydd sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf gan Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'r adroddiad yn adrodd ar y Cyd-Bwyllgor Corfforedig a'i gyfrifoldebau gan gynnwys Trafnidiaeth Strategol, Cynllunio Strategol, Lles Economaidd sy'n cynnwys Cynllun Twf Gogledd Cymru, Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, a ffrydiau ariannu eraill megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac Ynni Strategol.

4.2. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r cynnydd sydd wedi ei wneud ar Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Yn y flwyddyn lle trosglwyddwyd y Swyddfa Rheoli Portffolio, y Cynllun Twf a'r Bartneriaeth Sgiliau i mewn i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, cyflawnwyd nifer o gerrig milltir:

- Penodwyd ein Prif Weithredwr llawn amser cyntaf, ynghyd a Chyfarwyddwr Portffolio.
- Penodwyd Ymgynghorwyr Anweithredol i gryfhau y cysylltedd rhwng y sector breifat, gan ddarparu llais annibynnol a her adeiladol.
- Penodwyd swyddogion arweiniol Trafnidiaeth a Chynllunio i yrru ymlaen ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'n Cynllun Datblygu Strategol.
- Parhad i'r cytundeb gyda Cyngor Gwynedd i ddarparu ystod o wasanaethau cefnogol i'r Cyd-Bwyllgor.
- Recriwtio swyddogion allweddol ar gyfer gyrru ymlaen y gwaith gweithredol a chyflawni rhaglenni.
- Sefydlu pwyllgorau newydd.
- Cyflawni a chyflwyno ein adolygiad Cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg.
- Cyflwynwyd ein adroddiad Dyletswydd Partneriaethau Cymdeithasol cyntaf ar gyfer 2024/25.



- 4.3. O fewn yr adroddiad mae gwybodaeth am y cynnydd a wnaed ar y dyletswyddau statudol, sef Trafnidiaeth a Chynllunio Rhanbarthol:
- Cwblhawyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn mis Ebrill 2025.
 - Cymeradwywyd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gan y Cyd-Bwyllgor yn mis Gorffennaf ac yna daeth yn bolisi yn dilyn ei gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru yn mis Medi.
 - Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys Cynllun Cyflawni sy'n nodi'r cynlluniau y gellid eu cyflawni yng Ngogledd Cymru os bydd cyllid ar gael. Gweithiodd Uchelgais Gogledd Cymru yn agos gyda'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth i flaenoriaethu pa rai o'r cynlluniau hyn i'w hariannu drwy gyllid Trafnidiaeth Rhanbarthol yn 2026/27.
 - Cychwynnodd gwaith ar Gytundeb Cyflawni y Cynllun Datblygu Strategol yn Ebrill 2025, gyda dogfen ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Gorffennaf ac Awst 2025. Yn dilyn ystyried yr adborth, cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Cytundeb Cyflawni drafft ym mis Medi 2025 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- 4.4. Am y tro cyntaf rydym yn adrodd o fewn ein adroddiad blynyddol ar Barth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam:
- Lansiodd Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn swyddogol yn ystod y flwyddyn.
 - Cymeradwywyd Strategaeth Sgiliau y Parth Buddsoddi gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.
 - Dyrannwyd £12m o gyllid sgiliau cychwynnol ar gyfer Prifysgol Wrecsam ac Coleg Cambria dros gyfnod o bum mlynedd.
 - Lansiodd rhaglen Grantiau Busnesau Bach gan Gynghorau Sir y Fflint ac Wrecsam.
 - Mae gwaith ar y gweill efo Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu achosion busnes ar gyfer nifer o brosiectau rheilffordd a bws.
 - Sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol y Parth Buddsoddi ar gyfer cael trosolwg o gyflawni a chynnydd.
- 4.5. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Twf a'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth gyflawni'r prosiectau ynghyd â cherrig milltir allweddol eraill sydd wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:
- 7 prosiect bellach yn weithredol, gyda 10 prosiect pellach wedi ei cymeradwyo a chyllid wedi neilltuo, a'r gwaith o symud yn nes at gyflawni yn parhau.
 - Hyd yma mae'r cynllun twf wedi creu 121 o swyddi, sy'n cynnwys 63 o swyddi newydd ac 58 o swyddi adeiladwaith.
 - Mae'r Cynllun Twf wedi cynhyrchu cyfanswm buddsoddiad o £34.21m yn economi Gogledd Cymru.
 - Rydym yn falch o adrodd fod 86% o gaffael ar gyfer prosiectau y Cynllun Twf wedi ei roi i gwmnïau sydd wedi lleoli yng Ngogledd Cymru, ac 79% o'r contractau wedi eu rhoi i gyflenwyr sydd wedi'u cofrestru / eu cydnabod fel busnesau bach a chanolig (SME).
- 4.6. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi parhau i chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith ar draws Uchelgais Gogledd Cymru.

- Cefnogodd y bartneriaeth sgiliau ddatblygiad y Cynllun Twf drwy gynllunio'r gweithlu, gwybodaeth am y farchnad lafur ac ymgysylltu gyda noddwyr prosiectau.
 - Cefnogodd y tîm ar y cynllunio sgiliau ar gyfer cyfleoedd yn y rhanbarth.
 - Mae'r Bartneriaeth wedi gweithio'n agos efo cyflogwyr i gael mynediad ar gefnogaeth sgiliau, hysbysu darpariaeth hyfforddiant a datblygu'r gweithlu sydd ei angen ar gyfer twf a chynhyrchiant.
 - Datblygiad parhaus y Porth Sgiliau.
- 4.7. Parhawyd gyda'r gwaith ynni strategol gan lansio Hwb Cymorth Ynni Gogledd Cymru, datblygiad dashfwrdd ynni, mapio prosiectau ynni adnewyddol a datgarboneiddio, a chynhyrchu prosiectws ynni strategol.
- 4.8. Cyflawnwyd a chwblhawyd y prosiectau ariannwyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn llwyddiannus, gyda un o'r uchafbwyntiau yn cynnwys cynnal gweithdai marchnad lafur ar gyfer 70 o bobl ifanc, cefnogi 16 o ffermydd i dreialu'r dechnoleg digidol ddiweddaraf, ac cefnogi 7 o sefydliadau efo astudiaethau dichonoldeb i'w prosiectau ynni a datgarboneiddio.
- 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**
- 5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.
- 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**
- 6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

ATODIADAU:

Atodiad 1 Adroddiad Blynyddol 2025/26

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi cyfle bwysig i'r CBC ddangos tryloywder ac atebolrwydd wrth gyflawni ei swyddogaethau ac i adrodd yn gyhoeddus ar ei weithgareddau a'i gyflawniadau yn ystod 2025/26.

Yn dilyn ei gymeradwyaeth, dylid gwneud trefniadau priodol ar gyfer cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Mae’r adroddiad yn crynhoi yr holl ystod o weithgareddau a ymgwymerwyd gan Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod 2025/26 a nid yw’r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd.”



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Adroddiad Blynyddol 2025/26

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL YN SAESNEG HEFYD.
THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE IN ENGLISH.



Cynnwys

Rhagair	3
Blwyddyn o gyflawni, trosglwyddo a momentwm o'r newydd	4
Gyrru uchelgais, twf a chyfleoedd yng Ngogledd Cymru	5
Cerrig Milltir	6
Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd	7
Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	10
Cynllun Datblygu Strategol	13
Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wreccsam	17
Cynllun Twf Gogledd Cymru	22
Sgiliau a Chyflogaeth	34
Ynni Strategol	37
Cronfa Ffyniant Gyffredin	39
Elusen	43
Y flwyddyn nesaf	45

Ein Uchelgais

Bod yn hyderus ac yn gydlynol, yn canolbwyntio ar wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth.

Gweld y rhanbarth yn datblygu mewn modd cynaliadwy, gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd, datblygu gyrfaoedd gwerth chweil, i fusnesau dyfu ac i gymunedau ffynnu.

Gwneud hyn gan hyrwyddo'r Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth, ac yn unol â nodau llesiant Cymru.

Rhagair

Fel Cadeirydd, rwyf yn falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2025/26 ar ran Uchelgais Gogledd Cymru. Mae hon wedi bod yn flwyddyn drosiannol bwysig, lle gwelwyd y bartneriaeth yn cryfhau a chynnydd parhaus, wrth i ni weithio ar y cyd i gefnogi Gogledd Cymru sy'n fwy gwydn, cysylltiedig, arloesol a chynaliadwy.

Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol yn ystod y flwyddyn oedd uno'r Cynllun Twf, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r Swyddfa Rheoli Portffolio, o dan strwythur corfforedig newydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd sy'n cael ei adnabod dan yr enw brand Uchelgais Gogledd Cymru – dyma greu llwyfan cryfach ar gyfer cydweithio rhanbarthol a chyflawni hirdymor.

Ar y cyd â'r trosglwyddiad hwn, rwyf wedi parhau i ymgorffori'r polisiâu, y prosesau a'r trefniadau llywodraethu sydd eu hangen i gefnogi ein cyfrifoldebau ehangach ar gyfer lles economaidd, trafnidiaeth rhanbarthol a chynllunio strategol. Mae'r sylfeini hyn yn hanfodol i sicrhau bod ein huchelgeisiau rhanbarthol yn cael eu cefnogi gan benderfyniadau cadarn, atebolrwydd clir a chyflawni effeithiol.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn ystod 2025/26, yn cynnwys cyflawniadau allweddol drwy Gynllun Twf Gogledd Cymru, Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, a'r rhaglen ehangach o weithgarwch rhanbarthol. Mae hefyd yn cydnabod y gwaith sylweddol sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni i ddatblygu achosion busnes, cryfhau sicrwydd, ymgysylltu â llywodraethau, cefnogi arianwyr prosiect ac adeiladu'r capasiti sydd ei angen i gyflawni ar gyfer y tymor hir.

Rwyf yn ddiolchgar i'n partneriaid, ein rhanddeiliaid a'n timau cyflawni am eu hymrwymiad, eu harbenigedd a'u cydweithio adeiladol drwy'r flwyddyn. Mae eu cyfraniad wedi bod yn allweddol er mwyn cadw momentwm, ymateb i newid a sicrhau bod ein gwaith yn parhau i ganolbwyntio ar anghenion a chyfleoedd y rhanbarth.

Wrth i ni edrych ymlaen, mae gennym hyder yng nghryfder ein partneriaethau a'r cyd-ymrwymiad sy'n tanategu Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd y flwyddyn i ddod yn dod â heriau a chyfleoedd pellach, ond mae'r cynnydd sy'n cael ei amlygu yn yr adroddiad hwn yn dangos ein bod mewn lle da i barhau i gydweithio er budd ein pobl, ein cymunedau a'n busnesau.



Cyng Mark Pritchard

Cadeirydd

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Blwyddyn o gyflawni, trosglwyddo a momentwm o'r newydd

I Uchelgais Gogledd Cymru, mae 2025/26 wedi bod yn flwyddyn o drawsnewid a momentwm, gan gyfuno newidiadau mawr o ran llywodraethu, strwythur a phroses gyda ffocws arwyddocaol ar gyflawni a buddsoddiad parhaus. Ar ôl trosglwyddo Cynllun Twf Gogledd Cymru, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r tîm i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 1 Ebrill 2025, dan frand Uchelgais Gogledd Cymru. Mae hyn wedi galluogi'r sefydliad symud i gam mwy hyderus o gyflawni, wedi'i gefnogi gan lywodraethu cryfach, arweinyddiaeth o'r newydd a ffocws ar yr effaith ranbarthol

Eleni, gwelwyd cynnydd arwyddocaol ar draws y Cynllun Twf, gyda saith prosiect yn cael eu cyflawni a deg pellach wedi'u cymeradwyo ac yn barod i ddechrau cyflawni y flwyddyn nesaf. Mae sawl achos busnes wedi'u cymeradwyo, mae'r gwariant wedi cyflymu, ac mae rhestr wrth gefn wedi'i greu i sicrhau bod modd dod â phrosiectau cryf, cyflawnadwy yn eu blaen. Mae'r portffolio hefyd wedi'i ail-osod, wedi i rai prosiectau dynnu'n ôl ac arian gael ei ryddhau i'w ail-fuddsoddi mewn prosiectau rhestr wrth gefn, sydd â'r posibilrwydd i gyflawni a dod â buddion clir i'r rhanbarth.

Roedd cymeradwyaeth ffurfiol Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam gan lywodraethau'r DU a Chymru yn garreg filltir arall, gan farcio dechrau rhaglen deng mlynedd i yrru buddsoddiad, creu cyfleoedd i gyflogwyr a chymunedau lleol, a chefnogi twf economaidd hirdymor.

Ar y cyd â hyn, mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi parhau i gefnogi blaenoriaethau rhanbarthol ehangach, gan gynnwys sgiliau a chyflogadwyedd, trafnidiaeth strategol, cynllunio strategol a chyfleoedd buddsoddi. Mae'r ardaloedd hyn yn gynyddol ryng-gwylltiedig, a'n rôl ni yw helpu i alinio gweithgarwch, cryfhau'r cyflawni a gwneud y mwyaf o'r buddion i drigolion, busnesau a chymunedau.

Yn sefydliadol, mae hon hefyd wedi bod yn flwyddyn o dwf ac arweinyddiaeth o'r newydd. Ar y cyd â'n penodiadau fel Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Portffolio, mae penodiadau allweddol eraill wedi cryfhau'r strwythur cyflawni, yn cynnwys Dylan Williams (Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn) fel Uwch Berchennog Cyfrifol y Cynllun Twf a phenodiad Dave Penrith a Nick Bennett fel Ymgynghorwyr Anweithredol.

Mae gwaith wedi parhau i adeiladu systemau mewnol a galluedd cryfach ar ôl trosglwyddo, gyda'r gwaith yn bwrw ymlaen ar lywodraethu, cynllunio corfforaethol a gweithgarwch trosglwyddo, gan ddarparu'r sylfeini sydd eu hangen i gyflawni portffolio rhanbarthol cynyddol gymhleth gyda hyder, cyflymder a thryloywder.

Wrth edrych ymlaen, rydym yn teimlo'n freintiedig ac yn gyffrous i weithio gyda gwleidyddion, cydweithwyr, partneriaid a rhanddeiliaid ymrwymedig ledled y rhanbarth. Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed eleni, cynnal momentwm ar gyflawni a chanolbwyntio ar greu economi fywiog, ffyniannus a chynaliadwy i ogledd Cymru.



Alwen Williams
Prif Weithredwr



Hedd Vaughan-Evans
Cyfarwyddwr Portffolio

Gyrru Uchelgais, Twf a Chyfleoedd yng Ngogledd Cymru

Fel Ymgynghorwyr Anweithredol sydd newydd gael eu penodi i Uchelgais Gogledd Cymru, rydym wrth ein boddau yn cefnogi'r cam nesaf yn natblygiad y rhanbarth. Mae cyfleoedd sylweddol i ddod i ogledd Cymru, a chredwn fod gan y sector breifat ran hanfodol i'w chwarae i helpu i siapio, herio a chryfhau'r gwaith sy'n cael ei fwrw yn ei flaen gan Uchelgais Gogledd Cymru.

Un o'n blaenoriaethau cyntaf fydd sefydlu Bwrdd Ymgynghori Busnes newydd, gan ddod ag arweinwyr profiadol o'r sector preifat a chyflogwyr o'r rhanbarth at ei gilydd. Bydd y Bwrdd yn darparu cyngor annibynnol, mewnwelediad strategol a her adeiladol, gan sicrhau bod llais busnes wedi'i ymgorffori yng nghyflawniad rhaglenni rhanbarthol mawr, yn cynnwys Cynllun Twf Gogledd Cymru a Pharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

Rydym yn gweld y Bwrdd fel cyswllt hanfodol rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a'r gymuned fusnes ehangach. Drwy dynnu ar arbenigedd, rhwydweithiau a phrofiad ymarferol arweinyddion busnes, bydd yn helpu i adnabod cyfleoedd, ymdrin â rhwystrau a chefnogi buddsoddiad sy'n cyflawni buddion hirdymor i fusnesau, cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol.

Bydd y Bwrdd Ymgynghori Busnes wrth galon y momentwm hwn – gan helpu i herio tybiaethau, cryfhau penderfyniadau a gweithredu fel eiriolwr pwerus i Uchelgais Gogledd Cymru a'r rhanbarth. Bydd ei gyfraniad yn bwysig wrth helpu i wireddu ein cyd-weledigaeth o economi fywiog, cynaliadwy a gwydn lle gall busnesau dyfu, cymunedau ffynnu a Gogledd Cymru gyflawni ei botensial economaidd.

Rydym yn edrych ymlaen i weithio gyda phartneriaid ar draws pob sector i adeiladu Bwrdd fydd yn medru gweithredu fel pencampwyr i ogledd Cymru, cefnogi twf cynaliadwy a chynhwysol, a helpu i sicrhau bod y rhanbarth mewn lle da i wireddu ei botensial economaidd llawn.



Dave Penrith
Ymgynghorydd
Anweithredol



Nick Bennett
Ymgynghorydd
Anweithredol

Cerrig milltir

Ebrill 2025 i Mawrth 2026



Yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn cymeradwyo rhestr wrth gefn o 17 o brosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru.



Lansiwyd y Gronfa Ynni Lleol.

Ebrill

Mai

Mehefin

Gorffennaf



Trosglwyddo'r Cynllun Twf a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 1 Ebrill 2025



Penodi Alwen Williams yn Brif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.



Penodi Dave Penrith a Nick Bennett fel Ymgynghorwyr Anweithredol i Uchelgais Gogledd Cymru.



Ymgynghori ar Gytundeb Cyflawni Drafft ar gyfer ein Cynllun Datblygu Strategol.

Tachwedd

Hydref

Medi

Awst



Agoriad swyddogol yr adeilad CanfodAu a ariannwyd gan y Cynllun Twf, ym Mhrifysgol Wrecsam.



Ymgysylltu ar ein gwaith cysylltedd digidol yn Connected Britain a'n rhaglen Ynni Carbon Isel yn Rhwydwaith Clwstwr Ynni Adnewyddadwy a Glân Cymru.



Datgan cymeradwyaeth i Brosiect Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn - gan ddatgloi'r cam nesaf mewn buddsoddiad adfywio £10.4 miliwn.



Croesawu'r cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ar ei ddosbarthiad o'r Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol i gynghorau ledled y rhanbarth.

Rhagfyr

Ionawr

Chwefror

Mawrth



Cymeradwyo Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn ffurfiol gan lywodraethau'r DU a Chymru.



Rhanddeiliaid yn ymweld â safle Defaid Llaeth Cymru - rhan o'n prosiect Hwb Economi Gwledig Glynllifon ehangach.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd



Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, sy'n defnyddio'r enw brand Uchelgais Gogledd Cymru, yn gorff cyhoeddus sy'n cynnwys ardal weinyddol chwe awdurdod lleol y Gogledd, sef cyngorau Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Ar 1 Ebrill 2025, trosglwyddwyd y Swyddfa Rheoli Portffolio, Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

Mae cyfrifoldeb ar Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd am drafnidiaeth rhanbarthol, cynllunio strategol, ynghyd â gwella a hyrwyddo llesiant economaidd y gogledd.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y Gogledd yn nodi gweledigaeth ar gyfer rhwydwaith trafndiaeth diogel, cynaliadwy, fforddiadwy ac integredig sy'n cefnogi twf economaidd, gwella cysylltedd a lleihau dibyniaeth ar gerbydau preifat. Wedi'i ddatblygu gan Uchelgais Gogledd Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru, bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno gan awdurdodau lleol drwy gynlluniau'r Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol, gyda throsolwg gan yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth. Drwy flaenoriaethu trafndiaeth cyhoeddus, teithio llesol a datrysiadau symudedd arloesol, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ceisio gwella mynediad at swyddi a gwasanaethau, lleihau'r effaith amgylcheddol a chreu system trafndiaeth mwy cysylltiedig a gwydn i Ogledd Cymru.

Cynllun Datblygu Strategol

Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn darparu fframwaith rhanbarthol ar gyfer cynllunio ledled y gogledd, gan gydnabod bod cymunedau, marchnadoedd ac anghenion isadeiledd yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau awdurdodau lleol. Bydd yn cefnogi gweledigaeth gydlynus a hirdymor ar gyfer twf economaidd cynaliadwy, isadeiledd, ansawdd bywyd a datblygiad cytbwys, tra'n cyd-fynd â gofynion statudol Llywodraeth Cymru a'r blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cyflwyno ei Gytundeb Cyflawni, yn cynnwys datganiad o ymglymiad cymunedol ac amserlen, ac yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, mae'r gwaith i gyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol dros y pum mlynedd i ddod, bellach wedi cychwyn.

Lles Economaidd

Yn ychwanegol i ddyletswyddau statudol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, mae cyfrifoldeb anstatudol i wella ac hyrwyddo lles economaidd Gogledd Cymru. Mae'r gwaith yma ar hyn o bryd yn cynnwys pump ffrwd gwaith craidd: Cynllun Twf Gogledd Cymru, Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Ynni Strategol ac y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Ar y cyd, mae'r gwaith hwn yn cefnogi economi'r rhanbarth ac yn cyfrannu tuag at dwf economaidd hirdymor ar draws Gogledd Cymru.



Cyd-Bwyllgor Corfforedig - Uchafbwyntiau

Wrth i ni gyrraedd pennod newydd ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru, fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio, Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, wedi trosglwyddo ers 1 Ebrill 2025. Mae rhaglen uchelgeisiol a hirdymor o newid yn parhau i sefydlu'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Ymysg yr uchafbwyntiau mwyaf dros y 12 mis a fu oedd:

Penodi Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr
Portffolio llawn amser

Penodi Ymgynghorwyr Anweithredol i gryfhau'r cysylltiad gyda'r sector breifat., gan ddarparu llais annibynnol a her adeiladol.

Penodi arweinyddion Trafnidiaeth a Chynllunio i yrru ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynllun Datblygu Strategol yn eu blaenau

Cytundeb parhaus gyda Chyngor Gwynedd i ddarparu amrediad o wasanaethau cefnogi.

Tud. 193

Penodi swyddogion i yrru ymlaen ar weithrediadau a chyflawni rhaglenni

Sefydlu pwyllgorau newydd.

Adolygiad cydymffurfiaeth a'r Safonau Cymraeg.

Cyflwyno ein Hadroddiad Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol cyntaf ar gyfer 2024/25.



Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Gweledigaeth hirdymor y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yw y bydd gan ogledd Cymru rwydwaith trafnidiaeth integredig, diogel, cynaliadwy, gwydn ac effeithiol sy'n cefnogi twf economaidd, ffyniant i bawb, cynhwysedd a llesiant.

Mae'r weledigaeth yn cael ei chefnogi gan **bedair o amcanion SMART**




Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol



Gwella hygyrchedd a dewis trafnidiaeth



Galluogi twf economaidd cynaliadwy



Galluogi datgarboneiddio trwy drosglwyddo i fflyd allyriadau sero

Daeth ein ymgynghoriad cyhoeddus a rhanddeiliaid ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i ben ym mis Ebrill 2025.



1,600+

o ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad



67%

o ymatebion yr ymgynghoriad yn cytuno neu'n cytuno'n gryf efo'r weledigaeth a'r amcanion



Cafodd yr adborth wedi fwydo mewn i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.



Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Wedi'i gymeradwyo gan Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn **Gorffennaf 2025**.

Daeth yn bolisi yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru yn **Medi 2025**.

Wrth gymeradwyo'r Cynllun dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd, bod y cynllun
“yn gyflawniad mawr ac yn gam enfawr ymlaen ar gyfer cydweithio rhanbarthol” a
chadarnhaodd ei fod yn “gyson a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, ac mae'r polisiau'n
ddigonol ar gyfer gweithredu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn y rhanbarth.”

£28m

o gyllid cyfalaf wedi ei sicrhau ar gyfer
ymyriadau trafnidiaeth gynaliadwy i'w
darparu yn 2026/27

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys Cynllun Cyflawni sy'n nodi'r cynlluniau a allai gael eu cyflawni yng Ngogledd Cymru os oes cyllid ar gael. Gweithiodd Uchelgais Gogledd Cymru yn agos â'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth i flaenoriaethu pa rai o'r cynlluniau hyn sydd i'w hariannu gyda Chyllid Trafnidiaeth Rhanbarthol yn 2026/27. Bu i'r gwaith hwn sicrhau dros £28m o arian cyfalaf ar gyfer ymyraethau trafnidiaeth gynaliadwy i'w cyflawni yn 2026/27, sy'n gwella mynediad at swyddi, gwasanaethau, addysg a hamdden i gymunedau ledled y gogledd.

Dyraniad cyllid 2026/27



61%

ar gyfer cynlluniau
cerdded, olwyno a
beicio



19%

ar gyfer cynlluniau
priffyrdd



7%

ar gludiant cyhoeddus



6%

ar gerbydau trydan



5%

ar gyfalaf diogelwch
ffordd



Cynllun Datblygu Strategol

Cynllun Datblygu Strategol

Dechreuodd gwaith ar Gytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS) ym mis Ebrill 2025, gyda dogfen ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Gorffennaf ac Awst 2025. Gwahoddwyd rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i gymryd rhan yn uniongyrchol i sicrhau bod y broses ddatblygu mor ddeallus â phosib.

Wedi ystyried yr adborth a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad, cymeradwyodd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd y Cytundeb Cyflawni drafft ym mis Medi 2025, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn amodol ar adnabod a chymeradwyo cyllideb briodol ar gyfer paratoïr CDS.

Ym mis Ionawr 2026, cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ei gyllideb am 2026/27, oedd yn cynnwys darpariaeth i ddechrau gwaith ar yr CDS. Yn yr un cyfarfod, cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig gyflwyniad y Cytundeb Cyflawni drafft i Lywodraeth Cymru, aeth wedyn yn eu blaen i'w gymeradwyo o fewn wythnos o'i dderbyn.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn casglu tystiolaeth i gefnogi datblygiad yr Cynllun Datblygu Strategol.



Lles Economaidd



Tud. 199



Parth Buddsoddi
Sir y Fflint a
Wrecsam



Cynllun Twf
Gogledd
Cymru



Partneriaeth
Sgiliau
Rhanbarthol




Ynni
Strategol



Cronfa Ffyniant
Gyffredin

Lles Economaidd

Cefnogi buddsoddiad, arloesedd, sgiliau a thwf cynaliadwy ar draws Gogledd Cymru.



Mae tudalennau **17-42** yn cyflwyno cyflawniadau, canlyniadau ac astudiaethau achos sy'n dangos sut mae'r rhaglenni hyn wedi cefnogi lles economaidd ledled Gogledd Cymru yn ystod 2025/26.



Parth Buddsoddi
Sir y Fflint a Wrecsam
Flintshire and Wrexham
Investment Zone

Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam



funded by:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gaeafod Cymru

Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam

Mae Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn cael £160m o fuddsoddiad gan y Llywodraeth dros 10 mlynedd i yrru twf yn y sector gweithgynhyrchu uwch yn Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'n cael ei gyflawni gan bartneriaeth o Gyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae hanes diwydiannol y rhanbarth yn ymestyn dros ganrif, o ddur, cemegolion ac ynni, i glystyrau awyrofod uwch, cerbydau, bwyd a gwyddorau bywyd sydd wedi tyfu ochr yn ochr â nhw. Mae cenedlaethau o weithwyr medrus wedi ffurfio gweithlu rhanbarthol lle mae gweithgynhyrchu wedi'i ymgorffori yn ei ddiwylliant. Mae'r gallu technegol, gwybodaeth am y sector a'r agwedd at waith wedi cymryd degawdau i'w datblygu.

Drwy adeiladu ar y dreftadaeth unigryw hon, mae'r Parth Buddsoddi yn cyflymu twf pellach mewn gweithgarwch gweithgynhyrchu, sgiliau, isadeiledd trafnidiaeth, safleoedd buddsoddi allweddol ac arloesedd. Mae'n rhaglen hirdymor i hyrwyddo'r hyn sydd gan y rhanbarth i'w gynnig a gwneud y mwyaf o effaith buddsoddiad yn y dyfodol: i fuddsoddwyr, busnesau, pobl leol a chymunedau.



Tud. 202

Bydd y Parth Buddsoddi yn:



Creu 6,000 o swyddi newydd - gan dyfu'r sector gweithgynhyrchu o ran swyddi, Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) a buddsoddiad mewn gweithgynhyrchu modern megis awyrofod, amddiffyn, peirianeg cerbydau, gwyddorau bywyd, bwyd a pheccynnu bwyd.



Denu buddsoddiad mewn twf busnes, a datblygiad cyffredinol o leiaf 5.5 miliwn tr.sg. o ofod llawr newydd i dyfu gallu ffisegol y sector i weithgynhyrchu a chyflogi.



Creu tri safle treth, cynnig amrediad o ryddhad treth i fusnesau sy'n meddiannu, yn cynnwys rhyddhad trethi busnes, rhyddhad treth trafodion tir, mwy o lwfansau cyfalaf a rhyddhad cyfraniadau yswiriant gwladol i gyflogwyr.



Helpu cymunedau lleol i gyflawni lefel sgiliau cyffredinol uwch yn y gweithlu gweithgynhyrchu a mwy o bobl ifanc yn ceisio cael swyddi o safon mewn rolau gweithgynhyrchu newydd sy'n gysylltiedig â sgiliau'r dyfodol.



Cyflawni defnydd mwy sylweddol a boddhad uwch mewn trafnidiaeth gyhoeddus, wedi'i alluogi gan wasanaethau bws dibynadwy, aml, yn gweithredu ar lwybrau mwy uniongyrchol rhwng cymunedau a safleoedd cyflogaeth.

Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam



Buddsoddiad
llywodraeth o
£160M
dros 10 mlynedd



£1bn+
mewn buddsoddiad
preifat wedi'i dargedu



6,000
o swyddi o ansawdd
uchel



40%
o'r economi rhanbarthol
ar weithgynhyrchu

9

lleoliad yn barod am
fuddsoddiad ar draws tri
safle treth

5.5m sq ft

o botensial datblygu newydd

2

ganolfan arloesi newydd
sbon yn hyrwyddo twf a
gwydnwch busnes

£5.5bn


mewn allforion blynyddol o'r
clwstwr presennol

£7.5m

Grantiau busnes drwy'r rhaglen
cefnogi busnes sy'n cael eu
cyflawni gan yr awdurdau lleol

1

uned gynllunio ddynodedig,
yn hwyluso caniatâd i
fuddsoddwyr



Sgiliau a'r Gweithlu

31,000

o arbenigwyr
gweithgynhyrchu yn
y gweithlu lleol

120+

o interniaethau i
raddedigion a
lleoliadau i is-
raddedigion

12 a 15

prentisiaeth
gradd a
phrentisiaethau
peirianeg uwch,
yn y drefn honno,
y flwyddyn

100+

o gyrsiau hyfforddi ar
gyfer uwchsgilio ac
ailsgilio'r gweithlu

300+

o gyfranogwyr
mewn cyrsiau lefel
uchel a
micro-gymwysterau

3 a 6

cyfle ymchwil PhD a
MRes, yn y drefn
honno, yn gysylltiedig
yn uniongyrchol â
blaenoriaethau'r Parth
Buddsoddi

Cynnydd yn 2025/26

Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam wedi'i lansio yn swyddogol

Lansiodd Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn swyddogol, gyda'r cyllid wedi'i ddyrannu, a'r cytundebau wedi'u llofnodi rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Uchelgais Gogledd Cymru, ynghyd â Chyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r caniatadau hyn wedi galluogi rheolwyr rhaglen dynodedig i gael eu recriwtio, a dyrannu adnoddau arbenigol, yn cynnwys adnoddau cyfreithiol, ariannol a chynllunio, er mwyn gyrru'r cyflawniad ymlaen. Cafodd tri safle treth – Porth Glannau Dyfrdwy, Warren Hall a Stad Ddiwydiannol Wrecsam – eu dynodi ym mis Tachwedd 2025, gan ddarparu amrediad o ryddhad treth yn y parthau hyn, gan wneud y rhain yn safleoedd delfrydol i sefydlu a thyfu busnesau.



Strategaeth Sgiliau Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam

Cafodd y Strategaeth Sgiliau Parth Buddsoddi ei chymeradwyo gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (RSP) ar 12 Mehefin 2025. Paratowyd y Strategaeth Sgiliau gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn gweithio gyda Phrifysgol Wrecsam, Coleg Cambria a darparwyr annibynnol i osod rhaglen uchelgeisiol i ddenu pobl ifanc i rolau medrus, ymdrin â bylchau mewn cyfranogiad STEM, cadw mwy o raddedigion mewn gyrfaedd gwerth chweil a chynyddu cynrychiolaeth merched a grwpiau lleiafrifol yn y sector gweithgynhyrchu.

Cyllid Sgiliau

Mae £12 miliwn cychwynnol wedi'i ddyrannu i Brifysgol Wrecsam a Choleg Cambria dros pum mlynedd. Bydd y cyllid yma yn galluogi cannoedd o gyrsiau hyfforddi newydd, gan ddarparu cyfleoedd uwchsgilio ac ailsgilio i o leiaf 1,500 o bobl. Bydd cyrsiau hyfforddi wedi'u dylunio ar y cyd â chyflogwyr, a 12 prentisiaeth gradd newydd y flwyddyn (yn cynnwys mewn peirianeg uwch, digidol a busnesau SME).



Lansiwyd rhaglenni Grantiau Busnesau Bach

Lansiwyd rhaglenni Grantiau Busnesau Bach gan gynghorau Sir y Fflint a Wrecsam ym mis Ionawr 2026. Mae grantiau hyd at £100,000 ar gael i gefnogi Busnesau Bychan a Chanolig (SME) yn y sector gweithgynhyrchu uwch i dyfu, creu swyddi ac arloesi. Gydag isafswm o 30% o arian cyfatebol wedi'i dalu gan y busnes, gall y grantiau yma alluogi prynu offer newydd, addasu eiddo neu ddatgarboneiddio, neu gefnogi achrediad neu ardystiad.



Gwelliannau i gysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus

Mae gwaith ar y gweill gyda Thrafnidiaeth Cymru i ddatblygu'r achosion busnes ar gyfer nifer o brosiectau rheilffordd a bws fydd yn gwella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus i safleoedd cyflogaeth allweddol ledled Sir y Fflint a Wrecsam. Bydd yn cynyddu dalgylch y gweithlu ac yn blaenoriaethu cysylltu cymunedau lleol, fel nad yw mynediad at swyddi newydd yn ddibynnol ar fod yn berchen car a bod cyfleoedd ar agor i bawb. Rydym yn disgwyl i wedd gyntaf y prosiectau yma ddod ymlaen i'w cymeradwyo yn y flwyddyn i ddod. Mae Porthladd Caergybi, Maes Awyr Manceinion a'r M53/M56 oll o fewn cyrraedd, gan roi mynediad rhwydd i fusnesau yn y Parth Buddsoddi at farchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol a chadwyni cyflenwi - ychydig iawn o leoliadau Parth Buddsoddi eraill sydd gan yr un mynediad.

Bwrdd Ymgynghorol

Mae Bwrdd Ymgynghorol Parth Buddsoddi, wedi'i sefydlu i gymryd trosolwg o'r gwaith o'i gyflawni a'r cynnydd. Gyda chynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat, yn cynnwys Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, cynrychiolwyr Seneddol, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Prifysgol Wrecsam, AMRC Cymru, Cyngor Busnes Gogledd Cymru ac arweinyddion busnes, bydd yn sicrhau bod arbenigedd yn cael ei harneisio a'r momentwm yn cael ei gadw am y blynyddoedd i ddod.





Cynllun Twf
Gogledd Cymru
North Wales
Growth Deal

Cynllun Twf Gogledd Cymru

funded by:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Trosolwg o'r Cynllun Twf

Adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru.

Adeiladu ar ein cryfderau, hybu cynhyrchiant wrth fynd i'r afael â heriau tymor hir a rhwystrau economaidd i sicrhau twf cynhwysol.

Hyrwyddo twf mewn modd graddadwy, cynhwysol a chynaliadwy, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Buddsoddiad



£240m

Targed buddsoddiad cynllun twf



Cyfanswm y buddsoddiad targed:
dros **£1bn**

Amcanion Gwariant



Creu hyd at to
4,200
o swyddi newydd

Ein Rhaglenni



Arloesi mewn Gweithgynhyrchu
Gwerth Uchel



Bwyd-amaeth a
Thwristiaeth



Cysylltedd Ddigidol




Tir ac Eiddo



Ynni Carbon Isel

Cyflawniad y Cynllun Twf hyd yma, mewn rhifau

	7 Prosiect wrthi'n cael eu cyflawni		10 Prosiect wedi'u cymeradwyo ond ddim yn y cam cyflawni eto (arian wedi'i ymrwymo)		8 Achos busnes yn datblygu (arian wedi'i ymrwymo)
	63 o swyddi a grëwyd (63 o swyddi newydd, 58 o swyddi adeiladwaith)		Gwariant Cynllun Twf o £30.65m		Cyfanswm buddsoddiad o £34.21m
	Incwm Refeniw o £7.05m wedi'i sicrhau		5,885 o unigolion wedi ymgysylltu mewn sesiynau wedi ffocysu ar yrfaedd		2,349m ² o ofod llawr wedi'i ddatblygu
	106 o Gamau Gweithredu i gryfhau cadwyni cyflenwi lleol		26 Cydwethio o'r newydd yn cynnwys sefydliadau sy'n cefnogi Prosiectau'r Cynllun Twf		163 Cynnyrch rheoli gwybodaeth newydd wedi'u creu a'u rhannu

Academi Croeso

Mae Academi Croeso, y cyn Rwydwaith Talent Twristiaeth, dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai, yn fodel prif ganolfan a lloerennau sydd wedi'i ddylunio i greu un llwybr cydlynol i hyfforddiant, prentisiaethau a datblygiad gyrfaedd ar draws yr economi ymweld. Cyrhaeddodd y prosiect garreg filltir fawr yn 2025/26 gyda lansiad swyddogol y brand newydd yn Theatr Clwyd ym mis Tachwedd. Daeth y lansiad â phartneriaid a rhanddeiliaid at ei gilydd o bob cwr o'r sector twristiaeth a lletygarwch ac roedd yn gam pwysig i gryfhau piblinell sgiliau'r rhanbarth ar gyfer un o ddiwydiannau mwyaf sefydledig a nodedig y gogledd.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y gwaith cyflawni yn parhau ar draws safleoedd partneriaid, gyda gweithgarwch adeiladu yn bwrw yn ei flaen ym Mhortmeirion a gwaith yn parhau gyda Zip World a phartneriaid eraill. Hefyd, fe sicrhodd y prosiect gymeradwyaeth am fwy o amser i ddod ag Achos Cyfiawnhad Busnes yn ei flaen ar gyfer lloeren newydd, gan sicrhau bod y buddsoddiad sy'n weddill yn cael ei dargedu mewn ffordd sy'n cefnogi'r effaith hirdymor. Mae Academi Croeso yn helpu i sicrhau'r ddarpariaeth sgiliau ar gyfer y dyfodol, cryfhau cysylltiadau rhwng hyfforddiant a diwydiant, a chefnogi sector twristiaeth a lletygarwch mwy gwydn yng ngogledd Cymru.



“ Mae Academi Croeso yn hwyluso mynediad at gyfleusterau hyfforddiant o'r radd flaenaf drwy gysylltu addysg gyda diwydiant. Drwy gefnogi dysgwyr a gweithwyr y dyfodol yn y diwydiannau twristiaeth a lletygarwch i'w dysgu a'u hyfforddi mewn amgylcheddau go iawn, y mae'n sicrhau eu bod yn gwbl barod i ymateb i anghenion economi Gogledd Cymru heddiw ac yn y dyfodol. ”

Aled Jones-Griffith
Prif Weithredwr




£3.94m
Cyfanswm
buddsoddiad
i ddyddiad



25
Prentis wedi
cofrestru
hyd yma



30
Menter wedi'u
cefnogi hyd
yma



£1.3m
o incwm cyfalaf
wedi'i sicrhau
gan y prosiect
hyd yma



15
o gynnyrch rheoli
gwybodaeth
newydd wedi'u
creu hyd yma



Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter

Prifysgol Wreccsam
Wrexham University

Agorwyd CanfodAu - Canolfan Peirianeg ac Arloesi newydd yng nghampws Plas Coch Prifysgol Wreccsam, yn swyddogol ym mis Tachwedd 2025. Mae'r cyfleuster arloesol hwn yn darparu gofod am waith ymchwil, arloesedd, a chydweithio rhwng myfyrwyr, ymchwilwyr a busnesau, ac yn garreg filltir arwyddocaol ar gyfer Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel.

Yn canolbwyntio ar weithgynhyrchu uwch, deunyddiau cyfansawdd, integreiddio opteg a thechnolegau hydrogen, bydd CanfodAu yn cefnogi cyd-greu cynnyrch a phrosesau newydd sy'n cyflymu datgarboneiddio a thrawsnewid diwydiannol. Drwy arfogi busnesau lleol gyda mynediad at declynau, arbenigedd a seilwaith arbenigol, mae'r prosiect yn anelu at droi gwaith ymchwil a datblygu yn werth masnachol a helpu busnesau Gogledd Cymru i gystadlu yn fyd-eang.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed gwaith pellach ar gaffael offer arbenigol a chymeradwywyd buddsoddiad ychwanegol i wella'r ddarpariaeth. Parhaodd y gwaith ar weithgareddau cysylltiedig, gan gynnwys datblygu'r labordy hydrogen ac adnewyddu cyfleuster OpTIC ar safle'r Brifysgol yn Llanelwy. Bydd y Ganolfan Opted a Pheirianeg Menter yn helpu leoli Gogledd Cymru fel lleoliad lle y gall gweithgynhyrchu gwerth uchel dyfu, arloesi a denu buddsoddiad.

“ Mae CanfodAu yn ymgorffori'r uchelgais wrth galon gweledigaeth Prifysgol Wreccsam i fod yn brifysgol ddinesig fodern arweiniol yn y byd: yn cyflawni'r sgiliau, arloesedd a phartneriaethau sy'n creu swyddi, gwella cynhyrchedd a gyrru twf cynhwysol ledled y gogledd. Wedi'i ddylunio fel catalydd ar gyfer cydweithio, gwaith ymchwil a mentergarwch, mae'r cyfleuster unigryw ac arloesol hwn yn gyflym iawn wedi dod yn ased arweiniol ar gyfer y rhanbarth. Mae cael cydnabyddiaeth genedlaethol am Brosiect Adeiladu'r Flwyddyn yng Ngwobrau 'Constructing Excellence in Wales', ynghyd â'r gydnabyddiaeth i Brifysgol Wreccsam fel Prifysgol Gymreig y Flwyddyn gan y Daily Mail, yn adlewyrchu cryfder ein cyd-uchelgais a'r effaith drawsnewidiol y mae'r buddsoddiad yma yn ei gael ar ein cymunedau, ein busnesau a'n dysgwyr. ”

Yr Athro Joe Yates

Is-Ganghellor a Prif Weithredwr, Prifysgol Wreccsam



Cyfanswm buddsoddiad
o £12.25m (i ddyddiad)



Creu 13 o swyddi
uniongyrchol (i ddyddiad)



75 o fyfyrwyr wedi
cwbhau cymwysterau
(i ddyddiad)



2,187m2 o arwynebedd
llawr ymchwil wedi'i greu
(i ddyddiad)



26 menter wedi'u cefnogi
(i ddyddiad)



Cydnerth

Mae prosiect Cydnerth wedi bwrw ymlaen i gael ei gyflawni yn ystod y flwyddyn. Mae'r prosiect yn cefnogi datblygiad ynni llanw Morlais drwy fuddsoddi mewn isadeiledd i gysylltu â'r Grid Cenedlaethol, fel bod modd gwneud rhagor o ddefnydd o dyrbinau llanw a chefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy o un o asedau carbon isel pwysicaf Gogledd Cymru.

Cwblhawyd y cytundeb benthyciad rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a Menter Môn yn ystod y flwyddyn, gyda thri taliad benthyciad wedi'u prosesu erbyn mis Mawrth 2026. Aethpwyd ymlaen â gweithgarwch adeiladu ym Mharc Cybi, Caergybi, gan gynnwys gwaith i dynnu ceblau drwy ddwythellau i ymestyn isadeiledd Morlais a'i gysylltu i'r grid. Mae'r prosiect bellach yn bwrw ymlaen yn dda wrth gyflawni, gyda'r monitro buddion wedi cychwyn a gweithgarwch pellach yn parhau i 2026/27.

£

Cyfanswm
buddsoddiad o
£8.87m
(i ddyddiad)



4

Swydd wedi'i
creu (i ddyddiad)



73

Digwyddiadau
ymgysylltu â
chyfleoedd gyrfa
(i ddyddiad)



69

Camau a gymerwyd
i ddatblygu/cryfhau
cadwyni cyflenwi
lleol



3

Cam Gweithredu
wedi'u cymryd i
wella bioamrywiaeth
(i ddyddiad)



“ Mae cefnogaeth Uchelgais Gogledd Cymru yn hanfodol i sefydlu diwydiant ynni morol newydd yng Ngogledd Cymru, gan sicrhau mynediad i'r farchnad a chyfleoedd swyddi hirdymor. Roedd symud Cydnerth i'r cam adeiladu yn garreg filltir arwyddocaol i'r rhanbarth. Bydd yn arwain at gryfhau cadwyni cyflenwi lleol, cefnogi twf economaidd cynaliadwy, ac yn sicrhau safle Gogledd Cymru fel prif gyfrannwr yn nyfodol cynhyrchu ynni glân.

Gerallt Llywelyn Jones, Cyfarwyddwr Menter Môn Morlais Cyf.

”

Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol+

Bu'r Ganolfan Biodechnoleg Amgylcheddol+ yn parhau i wneud cynnydd yn ystod y flwyddyn. Mae'r prosiect yn cefnogi uchelgais Prifysgol Bangor i ddatblygu galluedd arweiniol, fyd-eang yn y gwaith o ganfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol, gan greu llwyfan ar gyfer gwaith ymchwil, cydweithredu a buddsoddiad yn y dyfodol.

Cafodd y cyfleusterau labordy yn Henfaes eu hadnewyddu'n llawn yn ystod y flwyddyn, ac roedd offer arbenigol yn parhau i gyrraedd, yn cynnwys y prif bioadweithydd. Fe wnaeth y prosiect adnabod tanwariant, a chymeradwywyd cais am newid i ail-ddyrannu cyllid tuag at fuddion ychwanegol, yn cynnwys cydweithio a gofod hyfforddi a galluedd gwell i wneud gwaith ymchwil a datblygu. Mae'r prosiect yn agosáu at ddiwedd ei gam cyflawni, gyda'r buddion eisoes yn cael eu gwireddu a gweithgaredd pellach yn parhau i 2026/27.



“Mae'r buddsoddiad yma yn y Ganolfan Biodechnoleg Amgylcheddol+ yn adeiladu ar waith ymchwil grŵp sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol am ei ragoriaeth. Bydd y buddsoddiad a gefnogir gan Gynllun Twf Gogledd Cymru yn galluogi'r tîm i ddod â'r rhagoriaeth hwnnw ymlaen i gyflawni ar gyfer yr economi rhanbarthol. Mae'r buddsoddiad wedi golygu bod modd sefydlu cyfleuster arbenigol sydd wedi'i arfogi i gynyddu'r gwyddorau a'r gwaith gyda'r diwydiant i uwchsgilio a chyfieithu'r wyddoniaeth yn gynnyrch a phrosesau newydd.”

Yr Athro Paul Spencer, Dirprwy Is-ganghellor



Cyfanswm Buddsoddiad
o £2.56m (i ddyddiad)



Incwm Refeniw o £2.64m
wedi'i sicrhau (i ddyddiad)




8
o swyddi uniongyrchol
newydd (i ddyddiad)



72
o gynnyrch rheoli gwybodaeth
newydd wedi'u creu a'u rhannu



26
o fyfyrwyr yn cwblhau
cymwysterau (i ddyddiad)



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Cronfa Ynni Glân

Ym mis Gorffennaf 2025, lansiwyd cronfa £24.6 miliwn i ddarparu cefnogaeth ariannol hanfodol i fusnesau a sefydliadau sector gwirfoddol, sydd am gyflawni prosiectau ynni glân neu ddatgarboneiddio. Daeth y digwyddiad lansio â mwy na 90 o ran-ddeiliaid at ei gilydd, ac roedd yn ddechrau llwybr newydd o gefnogi ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol ledled y gogledd.

Mae'r gronfa gyffredinol, a fydd yn rhedeg dros gyfnod o bum mlynedd i ddechrau, yn cynnwys dwy is-gronfa allweddol ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru. Is-gronfa sector gwirfoddol dan arweiniad WCVA i brosiectau gan elusennau, mentrau cymdeithasol a phrosiectau dan arweiniad y gymuned; gydag UMi yn cyflawni is-gronfa sector preifat i fusnesau. Gall trydedd gronfa wrth gefn ystyried ceisiadau gan sefydliadau eraill a modelau cyllido amgen.

Mae'r gronfa yn ceisio cyflawni buddsoddiad o £100m yn y rhanbarth, creu 150 o swyddi newydd, a thorri hyd at 125,000 tonnall cyfwerth o garbon deuocsid.

Drwy'r flwyddyn, derbyniodd y gronfa fynegiant o ddiddordeb a cheisiadau ar draws ei is-gronfeydd. Ymysg y gweithgareddau hyrwyddo roedd digwyddiadau, podlediadau, erthyglau, sioeau ac ymgysylltu â darpar ymgeiswyr a phartneriaid cyflawni. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y Panel Buddsoddi cyntaf wedi'i gynnal ac roedd y prosiectau cyntaf wedi'u cymeradwyo. Bellach, mae'r Gronfa Ynni Glân yn rhan bwysig o'r dirwedd ynni rhanbarthol, gan roi llwybr ymarferol i brosiectau symud o'r cam dichonolrwydd ac uchelgais draw tuag at fuddsoddi a chyflawni.



“ Mae'r buddion economaidd ac amgylcheddol sy'n dod gyda'r cynlluniau yn sylweddol, ac yn gwbl unol â'n dull eco-gyfeillgar o ariannu sefydliadau'r sector gwirfoddol yng Nghymru. ”

Gwenith Elias, Rheolwr Buddsoddi Ynni Glân, WCVA

“ Mae buddsoddi mewn ynni glân a phrosiectau datgarboneiddio o fudd mewn sawl agwedd i fusnesau gan y gall y deilliannau arwain at gostau is, gwell effeithiolrwydd a datgloi cyfleoedd twf newydd. ”

Matt Popple, Rheolwr Partneriaethau a Phobl, UMi



Symud i gyflawni

Mae nifer o brosiectau wedi sicrhau cymeradwyaeth achos busnes llawn ac yn symud i gael eu cyflawni.



Parc Bryn Cegin

Mae Timau Dylunio ac Ymgynghori ar gyfer prosiect Parc Bryn Cegin wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru i gael cynllun prosiect a chyflwyno am ganiatâd cynllunio a chaniatadau eraill. Disgwylir i unedau cyflogaeth newydd gael eu darparu mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, gan ddarparu 1,730 metr sgwâr o ofod llawr busnes modern, ynni-effeithlon ym Mharc Bryn Cegin.



Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn

Bu i brosiect safleoedd ac adeiladau Gogledd Môn sicrhau cymeradwyaeth i'r Achos Busnes, ac mae ar hyn o bryd yn cael ei symud tuag at gyflawni. Bydd y prosiect yn ailwampio cyn adeilad y Derfynfa Forol ym Mhorth Amlwch ac yn adeiladu deg uned fusnes ar y Stad Ddiwydiannol gerllaw. Gyda'i gilydd, disgwylir i'r datblygiadau hyn gefnogi 95 o swyddi newydd, a chreu 2,300m² o ofod masnachol newydd.

Porth y Porthladd Rhydd

Bu i'r prosiect Porth y Porthladd Rhydd sicrhau cymeradwyaeth i ymuno â'r Cynllun Twf. Bydd y prosiect yn caffael, dymchwel, dad-halogi, creu plotiau datblygu a darparu mynediad a phrif wasanaethau i'r cyn safle Peboc/Eastman yn Stad Ddiwydiannol Parc Bryn Cefni. Yn ogystal, bydd pum uned ddiwydiannol ysgafn yn cael eu creu ar Blot 2 ym Mharc Diwydiannol Tregarnedd a dod â Phlot 3 yn ei flaen i'w werthu i'r sector preifat er mwyn ei ddatblygu.



Cyn Ysbyty Gogledd Cymru

Cytunwyd ar ddull mewn camau ar gyfer y prosiect, sicrhawyd y contractau ar gyfer y wedd gyntaf er mwyn gwaith galluogi a gwaith lliniaru ecolegol. Mae'r prosiect yn ceisio ail-ddatblygu ac adfer y safle 53 acer segur drwy gyflwyno tai newydd, unedau masnachol a gofodau cymunedol gwyrdd yno.





Porthladd Mostyn

Cymeradwywyd yr achos busnes, a cwblhawyd yr ymarferiad caffael i benodi prif contractwr. Mae'r prosiect yn cynnwys gwelliannau i'r angorfeydd presennol ac ailddatblygu safle Marsh Row. Mae'r gwelliannau wedi'u cynllunio i sicrhau bod y porthladd yn gallu trin y genhedlaeth nesaf o gydrannau gwynt ar y môr mwy a darparu ar gyfer busnesau sy'n gweithredu ar draws y gadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy.



Egni

Sicrhawyd cymeradwyaeth i'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect, fydd nawr yn gweld y prosiect yn bwrw yn ei flaen i'r cam adeiladu. Bydd yr ail adeilad hwn yn M-SParc yn ehangu gallu'r safle i gefnogi busnesau, ymchwilyr ac arloeswyr sy'n gweithio ar draws ynni carbon isel a thechnolegau uwch.

Hwb Economi Wledig Glynllifon

Dathlodd Defaid Llaeth Cymru, rhan o brosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon, fod y prosiect yn symud i'r cyfnod cyflawni gyda digwyddiad torri'r dywarchen ar y safle yn ystod mis Chwefror. Mae'r prosiect yn gosod Gogledd Cymru fel arweinydd byd-eang mewn cynhyrchu llaeth cynaliadwy yn ogystal â chreu swyddi o ansawdd uchel yn y gymuned wledig. Mae gwaith yn parhau ar yr Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer eifen Llaeth Cynaliadwy'r prosiect.



Society 5.0

Mae'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer prosiect Cymdeithas 5.0 wedi cael cymeradwyaeth ac wedi ymuno'n swyddogol â'r Cynllun Twf. Bydd y prosiect yn gwella'r Ganolfan Opteg a Pheirianeg Menter gan alluogi i'r diwydiant gael mynediad at ragor o adnoddau peirianeg hynod-fanwl o'r radd flaenaf. Gan adeiladu ar gryfderau'r Ganolfan Opteg a Pheirianeg Menter, mae'n ymestyn manteision y tu hwnt i'r cwmpas gwreiddiol, gan roi hwb i sgiliau a chynhyrchiant, gyrru arloesedd mewn cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau ledled Gogledd Cymru.



Y Rhaglen Ddigidol yn symud i gael ei chyflawni



Di-wifr Uwch

Ar ôl sicrhau cymeradwyaeth i'r achos busnes ym mis Gorffennaf 2025, rydym yn paratoi i lansio cronfa newydd £18.8 miliwn i gefnogi busnesau yn y rhanbarth i uwchraddio eu systemau technoleg di-wifr. Bydd y Gronfa yn rhedeg tan fis Mawrth 2030 ar gyfer busnesau sydd â phrosiectau wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru. Bydd cyllid grant ar gyfer hyd at 50% o gostau prosiect cymwys yn cael ei ddyrannu, gyda grantiau unigol rhwng £20,000 a £2 filiwn ar gael.

Mae technoleg ddi-wifr uwch yn cynnwys y Rhyngrwyd Pethau (IoT), 5G, Wi-Fi a'r systemau cyfathrebu lloeren diweddaraf, pob un ohonynt yn helpu busnesau i wella eu cysylltedd, gwella cynhyrchedd, awtomeiddio prosesau a gweithredu'n fwy effeithlon. Gall y technolegau hyn gefnogi gweithgareddau fel monitro o bell, rhannu data a gweithrediadau doethach ar draws ystod eang o ddiwydiannau.



4G+

Mae'r prosiect 4G+ yn paratoi i lansio dwy ffrwd arian grant wedi'u targedu i gefnogi cyflawniad y isadeiledd symudol a helpu i ddatgloi cyfleoedd datblygu ar draws safleoedd economaidd allweddol, llwybrau trafnidiaeth, a hybiau busnes a thwristiaeth yn y gogledd, gan gefnogi twf, buddsoddiad a defnyddio 5G yn y dyfodol.

Cefnogodd y prosiect 4G+ y defnydd cyntaf o gell fychan gydag O2 ac Ontix, gan wella cysylltedd symudol yn Sir y Fflint. Mae pedwar safle wedi'u gosod, yn cynnwys Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, gan dynnu sylw at ymrwymiad O2 i gefnogi'r diwydiant a chymunedau lleol fel ei gilydd. Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi chwarae rôl allweddol drwy helpu cynghorau i gyflwyno Cytundebau Mynediad Agored, sy'n galluogi darparwyr telecoms i ddefnyddio isadeiledd y cyngor a chyflymu gwelliannau cysylltedd ar draws y rhanbarth.

Fe wnaethom lansio Fforwm Telecoms Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n dod â phartneriaid allweddol o'r sectorau cyhoeddus a phreifat at ei gilydd i gryfhau'r isadeiledd ffôn symudol a band llydan, ymdrin â heriau cyfathrebu digidol, a chefnogi trawsffurfiad digidol y rhanbarth.



LPWAN (Rhwydwaith Ardal Eang Trefn Hir)

Mae'r prosiect hwn yn anelu at ddarparu gorchudd eang a hygyrch LoRaWAN (Rhwydwaith Ardal Eang Trefn Hir) - gan gynnig ateb cost-effeithiol i fusnesau ac defnyddwyr y sector cyhoeddus i fabwysiadu cymwysiadau Rhyngrwyd Pethau. Disgwylir iddo ddarparu dros 130 o borthi gwestai a gynhelir gan gynghorau i wella cysylltedd ac effeithlonrwydd ar draws sawl gwasanaeth cyhoeddus tra'n darparu mynediad i'r rhwydwaith i ddefnyddwyr preifat i alluogi treialu ac arloesedd yn eu busnesau.

Yn 2026, arweiniodd Uchelgais Gogledd Cymru ar brosiect wedi ariannu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan ddarparu cymorth i 16 o fusnesau amaethyddol ledled y rhanbarth i brofi'r dechnoleg. O ganlyniad, cafodd amrywiaeth eang o fanteision busnes eu hadnabod yn llwyddiannus mewn gwahanol fathau o ffermydd ac mae'r dechnoleg yn parhau i'w defnyddio ar ôl y prosiect. Bydd mwy o ddiwydiannau yn cymryd rhan drwy gydol y prosiect i hyrwyddo potensial LoRaWAN ar draws yr economi.

Gwerth Cymdeithasol yn y Cynllun Twf



Rydym wedi mynd ati'n gyson i wneud y mwyaf o'r buddion rhanbarthol a ddaw drwy fuddsoddiad cyfalaf y Cynllun Twf. Mae ein hegwyddorion caffael yn rhoi pwyslais gryf ar ychwanegu gwerth, gydag ymrwymiad clir i ymgorffori gwerth cymdeithasol ar draws yr hyn sy'n cael ei gyflawni gan y Cynllun Twf.

Mae gofyn i bob ymarferiad caffael dros £100k gynnwys ymrwymïadau gwerth cymdeithasol, gyda disgwyl i arianwyr prosiect weithredu pwysoliad gwerth cymdeithasol o 15% yn eu meini prawf sgorio. Y prif nod yma yw sicrhau gwerth cymdeithasol ychwanegol a buddion cymunedol o brosiectau ond amcan eilaidd yw cefnogi cwmnïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau contractau gan eu bod yn aml yn lleoedd da i ddarparu gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol.

Mae hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, gan sicrhau bod twf economaidd yn cael ei gyflawni law yn llaw â buddion amgylcheddol a chymunedol.

Cyfanswm gwerth y contractau Cynllun Twf a ddyfarnwyd (yn cynnwys TAW)
£72.3m

Tud. 217

86%

o gontractau'r Cynllun Twf wedi'u dyfarnu i gyflenwyr o ogledd Cymru

79%

o gontractau'r Cynllun Twf wedi'u dyfarnu i gyflenwyr bach a chanolig

Hwb Economi Wledig Glynllifon

Dyfarnwyd cytundeb gwerth £3.7m i gwmni Adeiladwaith OBR sydd wedi ei leoli ar Ynys Môn i ymgymryd a'r prif becyn gwaith ar adeilad Llaeth Defaid Cymru. Roedd ei cynnig gwerth cymdeithasol yn cyfateb i £33,042.

Gwerth y cytundeb
£3.7M

.....

Gwerth Cymdeithasol
£33k

Egni

Rhoddwyd contract gwaith Cam 2 M-SParc i'r cyflenwr lleol o ogledd Cymru, Wynne Construction. Mae gwerth y contract o £844k, yn cynnwys cynnig gwerth cymdeithasol o:

- 30 wythnos o leoliadau profiad gwaith
- Recriwtio 5 o swyddi FTE lleol ar gyfer prosiect Egni.
- 295 wythnos o hyfforddiant drwy ddysgwyr newydd neu brentisiaethau
- Amcangyfrif o £5,566,000 i'w wario yn y gadwyn gyflenwi lleol drwy'r cytundeb.

Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter

Dyfarnodd Prifysgol Wrecsam ddau gytundeb cyfanswm gwerth £1.5M ar gyfer Newidiadau Mecanyddol, Trydanol a Chyflenwi, ynghyd a Cyflwyno a Gosod Winder Ffilament. Dyfarnwyd y contractau Newidiadau Trydanol i AJ Field, cyflenwr o Sir Fflint. Cyfanswm y gwerth cymdeithasol cyfansawdd oedd £86k:

Gwerth y cytundeb
£1.5M

.....

Gwerth Cymdeithasol
£86k

- Prentisiaethau
- Cyfleon gwaith
- Gwariant yn y gadwyn gyflenwi lleol
- Cyfraniad o £5,000 tuag at brosiect cymunedol yn Wrecsam.



Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Gogledd Cymru
North Wales
Regional Skills Partnership

Sgiliau a Chyflogaeth



funded by:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

Roedd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (RSP) Gogledd Cymru wedi parhau i chwarae rôl allweddol i gefnogi blaenoriaethau Uchelgais Gogledd Cymru drwy sicrhau bod datblygiad y gweithlu a'r ddarpariaeth sgiliau yn parhau i fod yn unol ag uchelgeisiau economaidd y rhanbarth, buddsoddiadau mawr a chyfleoedd twf yn y dyfodol.

Roedd cefnogi Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn flaenoriaeth allweddol yn ystod 2025/26. Arweiniodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ddatblygiad y Strategaeth Sgiliau Parth Buddsoddi, ac fe helpodd i adnabod y gofynion gweithlu oedd eu hangen i gefnogi twf yn y dyfodol. Bu i'r gwaith hwn gyfrannu at gymeradwyo Rhaglen Sgiliau'r Parth Buddsoddi, gan sicrhau £12 miliwn i Goleg Cambria a Phrifysgol Wrecsam i gryfhau sgiliau gweithgynhyrchu uwch, datblygu cyfleusterau arbenigol ac adeiladu'r piblinellau talent sydd eu hangen i gefnogi buddsoddiad yn y dyfodol ledled Gogledd Cymru.



Hefyd, bu i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gefnogi cyflawniad Cynllun Twf Gogledd Cymru drwy gynllunio'r gweithlu, deallusrwydd y farchnad lafur ac ymgysylltu ag arianwyr y prosiect. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd Prosiect Prince (Knauf), Society 5.0 (Prifysgol Wrecsam), Ysgol Fusnes Albert Gubay (Prifysgol Bangor) a Phrosiect Egni (M-SParc), i Fwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, gan roi diweddariadau ar gyflawni, gofynion sgiliau a'r galw yn y dyfodol am weithlu. Roedd y trafodaethau hyn yn helpu i alinio anghenion gweithlu'r prosiect â'r ddarpariaeth sgiliau rhanbarthol ac yn cryfhau'r cydweithio rhwng prosiectau, cyflogwyr a darparwyr addysg.

Ar y cyd â'r gwaith hwn, cefnogodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gynllunio sgiliau yn gysylltiedig â chyfleoedd, yn cynnwys HyNet, ynni adnewyddadwy, gwynt alltraeth a datblygiadau niwclear sydd ar y gorwel.

Hefyd, bu'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn gweithio'n agos â chyflogwyr, yn cynnwys busnesau SME, gan helpu busnesau i gael mynediad at gefnogaeth sgiliau, hysbysu'r ddarpariaeth hyfforddiant a datblygu'r gweithlu sydd ei angen ar gyfer twf a chynhyrchedd.

Roedd Porth Sgiliau Gogledd Cymru yn parhau i gysylltu unigolion a chyflogwyr gyda swyddi, hyfforddiant, gwybodaeth gyrfaedd a chefnogaeth busnes, tra'n hyrwyddo cyfleoedd sy'n codi o fuddsoddiad rhanbarthol a thwf economaidd.




Yn ystod y flwyddyn, bu i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd fwrw ymlaen i ddatblygu'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru nesaf (ar gyfer y cyfnod 2026-2029).

Drwy ymgysylltu eang â chyflogwyr, darparwyr, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid rhanbarthol, bydd y Cynllun yn sefydlu blaenoriaethau sgiliau'r rhanbarth ac yn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r cyfleoedd economaidd sy'n datblygu.

Mae disgwyl i'r Cynllun ar ei newydd-wedd gael ei lansio yn ystod yr Hydref eleni.

Ynni Strategol



funded by:




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ynni Strategol



Cynlluniau Ynni Ardal Leol

Mae Pum Cynllun Ynni Ardal Leol wedi'u cymeradwyo gan awdurdodau lleol, gydag un ar ôl yn y broses gymeradwyo wleidyddol.



Hwb Cyngor ar Ynni Gogledd Cymru

Fe wnaethom lansio Hwb Cyngor ar Ynni Gogledd Cymru, sy'n rhoi ffynhonnell ganolog i ran-ddeiliaid gael arweiniad, tecynnau, astudiaethau achos a gwybodaeth cyllido i gefnogi prosiectau datgarboneiddio.



Dashfwrdd Ynni

Bu i ni ddatblygu dashfwrdd i fonitro'r defnydd newydd o dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel ar draws pob ardal awdurdod lleol, ac roedd hyn yn dangos y broses ddatgarboneiddio yng Ngogledd Cymru yn glir.



Cydweithio

Aethom ati i fapio prosiectau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio ledled y gogledd i wella gwelededd gweithgarwch rhanbarthol, i gefnogi cydweithio ac i adnabod cyfleoedd buddsoddi.



Prosbectws Buddsoddi

Fe gynhyrchom Brosbectws Buddsoddi Ynni Strategol Gogledd Cymru i arddangos y prosiectau ynni â blaenoriaeth, denu buddsoddiad a chefnogi cyflawniad prosiectau sydd wedi'u hadnabod drwy'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol a'r Strategaeth Ynni Rhanbarthol.

Cronfa Ffyniant Gyffredin



Cronfa Ffyniant Gyffredin

Funded by UK Government  Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi sicrhau dros £1m o Arian Ffyniant Gyffredin i gyflawni ffrydiau gwaith sy'n gwneud y mwyaf o'r buddion a'r cyfleoedd sydd ar gael i fusnesau a chymunedau ledled y gogledd, drwy fuddsoddiadau sy'n cyd-fynd â Chynllun Twf Gogledd Cymru. Roedd y gweithgareddau yma wedi helpu i gryfhau effaith buddsoddiad rhanbarthol drwy gefnogi twf busnes, sgiliau, arloesedd, ynni, cysylltedd digidol a gwydnwch cymunedol.

Daeth gweithgarwch y Gronfa Ffyniant Gyffredin i ben ym mis Mawrth 2026, gyda chyfres o ddigwyddiadau wedi'u dylunio i rannu dysgu a chefnogi cyfleoedd yn y dyfodol. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad trosglwyddo gwybodaeth am ynni cymunedol, dan arweiniad cwmni ymgynghori ynni Greener Edge, ac roeddynt yn helpu'r cyfranogwyr i ddeall sut fyddai modd bwrw eu prosiectau yn eu blaenau drwy'r Gronfa Ynni Glân. Roedd y prosiect Treialon IoT Amaethyddiaeth Smart hefyd yn arddangos defnyddiau ymarferol y dechnoleg Rhynggrwyd Pethau (IoT) mewn lleoliadau gwledig, gan gyfuno â digwyddiad trosglwyddo gwybodaeth arall yn Fferm Derwydd, Corwen, i ffermwyr a phobl broffesiynol mewn ardaloedd gwledig.


Porth Sgiliau Gogledd Cymru

Drwy weithgarwch wedi'i ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin, gweithiodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gyda Loud Speaker a chyd-weithiwr yn y rhanbarth i gyflwyno sawl sesiwn gan ymgysylltu â mwy na 70 o bobl ifanc ledled y gogledd. Roedd y gweithdai yn darparu gwybodaeth am y farchnad lafur, yn archwilio llwybrau gyrfa lleol ac yn cynnwys cipolwg a hyfforddiant ar sgiliau rhyngbersonol, gan helpu dysgwyr i ddeall cyfleoedd yn y dyfodol yn well a'r sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi.

Roedd adborth a gasglwyd trwy weithdai yn llywio'r Adroddiad Cipolwg ar Farn Pobl Ifanc, gan ddarparu tystiolaeth ynghylch dyheadau gyrfa, rhwystrau i ddilyniant ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd lleol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gefnogi a llywio ymgyrchoedd a chyfathrebu sydd ar y gweill sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc, gan helpu i hyrwyddo cyfleoedd yn y rhanbarth a chodi ymwybyddiaeth o sgiliau gwyrdd a gyrfaedd yn y dyfodol ledled Gogledd Cymru.

“Diolch yn fawr iawn i'r Porth Sgiliau am gynnal y sesiwn adborth gyda Digwyddiadau Loud speaker yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Roedd yn gyfle gwerthfawr iawn, ac rwyf eisiau sôn yn arbennig pa mor anhygoel a diddorol oedd Rich drwy'r cwbl. Gwnaeth waith gwyh o annog y dysgwyr i gymryd rhan ac roedd yn wych clywed eu profiadau a'u gwyllo yn cymryd rhan mor fawr. Roedd y sesiwn ar sgiliau rhyngbersonol yn hynod effeithiol ac roedd yn amlwg bod y dysgwyr wedi elwa cymaint o gyflwyniad a dull Rich.

Shoned Owen, Swyddog Mentergarwch Coleg Menai a Choleg Meirion Dwyfor



Treialon IoT Amaethyddiaeth Smart

Funded by
UK Government



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Dyluniwyd rhaglen gefnogaeth wedi'i thargedu i 16 o ffermydd ledled y gogledd, i dreialu'r technolegau digidol diweddaraf a mynd i'r afael â rhai o'r prif heriau y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Roedd grym arloesedd technolegau'r Rhyngrwyd Pethau (IoT) a LoRaWAN (Long Range Wide Area Network) yn ganolog i lansiad y rhwydwaith newydd a chyffrous hwn i ffermwyr.

Canfod Problem yn Sied y Dofednod

Derwydd, Llanfihangel Glyn Myfyr

Cymerodd Llyr Jones, Fferm Derwydd, Sir Ddinbych, ran yn y Prosiect Treialon IoT Amaethyddiaeth Smart i edrych ar sut allai technoleg sensor LoRaWAN wella rheolaeth dŵr a lles dofednod ar ei fferm uwchdirol 500 hectar. Gosododd y fferm sensoriaid lefel dŵr ar ei brif danciau dŵr er mwyn monitro'r cyflenwad o'i ddyfrdwl a rhoi rhybuddion cynnar am broblemau posib, gan helpu i sicrhau cyflenwad dŵr parhaus tra'n lleihau'r risg o gael dibyniaeth gostus ar ddŵr o'r prif gyflenwad. Hefyd, gosodwyd sensorau dwysedd golau yn siediau'r dofednod i fonitro'r amodau a rhybuddio staff am unrhyw amodau is na'r disgwyl, gan gefnogi lles yr adar a galluogi'r ffermwyr i ymateb yn gyflym i unrhyw broblemau y tu allan i oriau gwaith arferol. Yn ogystal, defnyddiwyd sensorau tymheredd a lleithder i fonitro cyfleusterau storio wyau'r fferm. Roedd y treial yn dangos sut all technoleg IoT wella effeithiolrwydd fferm, darparu mewnwelediad gweithredol amser go iawn, gwella lles anifeiliaid, a chefnogi gwneud penderfyniadau mwy gwybodus, ac fe benderfynodd Fferm Derwydd gario ymlaen i ddefnyddio'r sensorau ar ôl i'r prosiect peilot ddod i ben.



Monitro Clyfar – Ffensys Trydan

The Cloy, Wreccsam

Cymerodd Andrew Gresty, The Cloy Farm, ger Wreccsam, ran ym Mhrosiect Treialon IoT Amaethyddiaeth Smart i edrych ar sut allai technoleg ddigidol helpu i leihau'r gofynion am lafur a gwella rheolaeth y fferm, ar ôl iddo ddioddef anaf i'w asgwrn cefn a arweiniodd ato'n trosglwyddo o fod yn fferm laeth i fferm cynhyrchu cig eidion. Gosododd y fferm sensorau Fencyboy wedi'u galluogi gan LoRaWAN i fonitro perfformiad y ffens drydanol o bell ar draws ei dir pori, gan roi rhybuddion amser real pe bai'r foltedd yn gostwng neu'r pŵer yn diffodd. Mae hyn



yn galluogi diffygion i gael eu canfod yn gyflym, heb i'r ffermwr orfod mynd ati i archwilio'r ffens ei hun, ac mae'n helpu i leihau llwyth gwaith, gwella rheolaeth stoc a lleihau'r risg y bydd gwartheg yn dianc. Mae'r dechnoleg eisoes wedi helpu i dynnu sylw at ardaloedd lle mae angen gwella'r isadeiledd ac mae disgwyl iddi gryfhau

bioddiogelwch y fferm drwy gynnal ffensys terfyn diogel, a chefnogi rheolaeth effeithlon y fenter cig eidion sy'n tyfu ganddo.

Bu i ffermwyr elwa o gael hyfforddiant a chefnogaeth ar sut i ddefnyddio dashfyrdau data i wella cynhyrchedd busnes. Daeth y gwaith i ben gyda digwyddiad trosglwyddo gwybodaeth agri-tech, dan arweiniad ein partner cyflawni, Mentera, ar fferm ger Cerrigydrudion, i rannu'r prif ganfyddiadau, mewnwelediadau a gwersi o'r treialon.

Dichonoldeb Ynni Glân

Ar y cyd gyda'r darparwr Greener Edge cafodd darpariaeth o gefnogaeth uniongyrchol i sefydliadau gynnal astudiaethau dichonoldeb a datblygu eu cynigion prosiect ynni a datgarboneiddio ei dyfarnu i 7 sefydliad - Cyngor Tref Bae Colwyn, Pafiliwn Llangollen, Nant Gwrtheyrn, Cwmni Budd Cymunedol Park in the Post, Cymdeithas Amaethyddol Môn, Canolfan Gymdeithasol Hafod, a Theatr y Stiwt.

Pafiliwn Llangollen

Mae'r pafiliwn yn lleoliad diwylliannol o bwys cenedlaethol ac mae'n cynllunio trawsnewidiad carbon isel i warchod ei ddyfodol drwy leihau costau gweithredu a chefnogi'r gymuned leol. Gyda thechnolegau yn cynnwys PV solar, storio batris, pypiau gwres a gwefru EV, rhagdybir y bydd yr arbedion yn cynnwys:

- gostyngiad carbon o 46,68tCO₂e
- oddeutu £269,000 dros gyfnod o 10 mlynedd



Tud. 226

“Rydym yn hynod o ddiolchgar am y gefnogaeth gan Gyngor Sir Ddinbych ac Uchelgais Gogledd Cymru. Gan mai tîm bychan a gwirfoddolwyr ydym ni, doedd gennym ni mo'r arbenigedd technegol sydd ei angen ar gyfer gwneud asesiad cynaliadwyedd llawn, felly roedd yn hanfodol ein bod yn penodi ymgynghorwyr da. Mae Greener Edge wedi bod yn wych i weithio gyda nhw, o'rymweliadau safle i'r gwaith sgopio manwl, maen nhw wedi rhoi cynllun clir i ni sy'n dangos y ffordd ymlaen.”

**John Gambles, Cadeirydd,
Eisteddfod Genedlaethol Llangollen**

Cyngor Tref Bae Colwyn

Neuadd y Dref Bae Colwyn, hwb cymunedol rhestredig Gradd II a gwblhawyd yn 1907. Canfu'r astudiaeth dichonolrwydd y gallai ffenestri eilaidd treftadaeth-gyfeillgar, PV solar a storio batris, pypiau gwres ffynhonnell aer ac uwchraddio'r goleuadau, wella pa mor gyfforddus ac effeithlon yw'r adeilad, tra'n gostwng CO₂ o 32.80 tCO₂e y flwyddyn, gan dorri'r defnydd ynni o oleuadau 66%, cyflenwi 66% o'r galw blyneddol am drydan gyda solar a batri, ac arbed oddeutu £75,000 dros 10 mlynedd.



“Fe wnaeth y Cyngor tref ddatgan Argyfwng Hinsawdd a Natur rai blynedd yn ôl. Roeddem yn ymwybodol iawn o'n allyriadau uniongyrchol a'r ffaith ein bod yn defnyddio adeilad rhestredig Gradd II. Er ei fod yn adeilad hyfryd, mae'n peri heriau i ni o ran ynni yn benodol. Buom yn llwyddiannus gyda'n cais am gefnogaeth i gynnal Astudiaethau Dichonoldeb Ynni Glân ac fe weithiom gyda Greener Edge i ddod i grwydro'r adeilad efo ni, cael golwg iawn arno, a deall ein defnydd presennol ni a'r bobl eraill sy'n defnyddio'r adeilad, ac mae oddeutu chwech ar hyn o bryd, ac mae nifer y staff sydd yn yr adeilad ar wahanol adegau o'r dydd yn amrywio.”

Tina Earley, Clerc Tref, Cyngor Tref Bae Colwyn

Elusen y Flwyddyn



Elusen y Flwyddyn

Bob blwyddyn, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn dewis elusen am y flwyddyn. Elusen y Tîm ar gyfer y llynedd (Medi 2024-2025) oedd Canolfan Cymorth Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru. Mae RASASC yn darparu gwybodaeth hanfodol, cymorth arbenigol, a therapi i unrhyw un 3 oed a throsodd sydd wedi profi cam-drin rhywiol neu drais - boed yn ddiweddar neu'n hanesyddol. Mae eu gwasanaethau hefyd yn ymestyn i bartneriaid ac aelodau o'r teulu yr effeithir arnynt gan brofiadau o'r fath, gan gynnig cymorth tosturiol, proffesiynol i helpu pobl i wella.

Mae'r tîm wedi cynnal cymysgedd wych o weithgareddau codi arian hwyliog ar gyfer yr elusen, o gynnal cyfres o stondinau gwerthu cacennau, i gynnal digwyddiad Spin Fest poblogaidd tu hwnt a ddaeth â chydweithwyr a'r gymuned at ei gilydd. Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran a chefnogi'r digwyddiadau gwych hyn a'r elusen! Hefyd, bu'r tîm yn creu pecynnau gofal i gleientiaid RASASC oedd werth £1,159.

Diolch yn fawr iawn i Ganolfan Cefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC Gogledd Cymru am fod yn Elusen y Flwyddyn - rydym yn hynod falch o gefnogi sefydliad sydd mor hanfodol bwysig.

Fe wnaethon ni godi
£3,271
ar gyfer yr elusen

Rydym yn falch o gyhoeddi mai ein Elusen y Flwyddyn (Medi 2025-2026) yw Hosbis Dewi Sant.

Dyma elusen sy'n darparu gofal lliniarol arbenigol o ansawdd uchel i gleifion gydag afiechydon sy'n byrhau oes. Maent yn gweithio 24/7 ac yn cynnig gofal i gleifion mewnol, gwasanaethau hosbis-yn-y-cartref, therapi dydd, a chefnogaeth profedigaeth i gleifion a'u teuluoedd.

Rydym yn bwriadu cefnogi tîm ymroddedig y sefydliad drwy ystod o weithgareddau codi arian a chodi ymwybyddiaeth drwy gydol y flwyddyn.

Cadwch lygad am fwy o'n digwyddiadau yn eich ardal chi wrth i ni barhau i gefnogi'r achos hanfodol hwn trwy gydol y flwyddyn!



Edrych ymlaen: Y deuddeg mis nesaf

Eleni byddwn yn adeiladu ar y sylfeini cadarn sefydlwyd yn 2025/26. O dan arweinyddiaeth ddemocratiaeth y chwe Arweinydd cyngor cyfansoddol, gan weithio gyda'i gilydd drwy Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, byddwn yn cyflymu buddsoddiad, cryfhau hyder wrth gyflawni a chreu hyd yn oed mwy o gyfleoedd ar gyfer cymunedau, busnesau a phartneriaid ar draws Gogledd Cymru.

Wrth i'n rhaglenni ennill momentwm, byddwn yn parhau i gryfhau'r sefydliad drwy ymgorffori systemau cadarn, gwella gallu a symud ymlaen a'n taith drawsnewid. Bydd y gwelliannau hyn yn sicrhau bod gennym y capasiti, yr ystwythder a'r tryloywder sydd ei angen i reoli portffolio cynyddol gymhleth a uchafu'r effaith.

Bydd trafnidiaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol, gyda buddsoddiad cyfalaf yn cefnogi ymyriadau cynaliadwy sy'n gwella mynediad at swyddi, addysg, gwasanaethau a chyfleoedd hamdden. Bydd y buddsoddiadau hyn yn helpu i greu cymunedau wedi'u cysylltu'n well, cefnogi datgarboneiddio a chryfhau cyfranogiad economaidd hirdymor.

Bydd gwaith hefyd yn parhau ar y Cynllun Datblygu Strategol, gan gefnogi dull mwy cyd-gysylltiedig o ddefnyddio tir, tai, isadeiledd, trafnidiaeth a datblygu economaidd. Mae hyn yn gam pwysig tuag at ddyfodol cynaliadwy a ffyniannus i ogledd Cymru, gan gydbwysu blaenoriaethau lleol â chyfleoedd rhanbarthol.

Ar draws Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, bydd prosiectau yn parhau i symud o gynllunio i gyflawni. Mae hyn yn cynnwys cyllid grantiau busnes, ymyraethau sgiliau ac buddsoddi mewn isadeiledd i gyflymu'r gwaith o ddatblygu safleoedd strategol allweddol.

Bydd Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cynyddu momentwm, gyda mwy o brosiectau'n symud i gyflawni a canolbwyntio cynyddol ar fuddsoddiad, creu swyddi a gwerth economaidd hirdymor. Disgwylir cynnydd ar draws prosiectau blaenllaw gan gynnwys cychwyn y gwaith adeiladu ar brosiectau yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i Parc Bryn Cegin, Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn ac Porthladd Mostyn.

Bydd cysylltedd digidol yn parhau yn ganolog i dwf cynhwysol, gyda cynlluniau grant newydd a gwaith parhaus Fforwm Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru i helpu fynd i'r afael a heriau cysylltedd a chefnogi cymunedau, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus.

Edrychwn ymlaen hefyd at weld mwy o fusnesau a sefydliadau gwirfoddol yn elwa o'r Gronfa Ynni Glan fel rhan o'r Rhaglen Ynni Carbon Isel ehangach.

Ynghyd a hyn, bydd paratodau yn cychwyn ar gyfer dull rhanbarthol newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Dwf Lleol fydd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ei chyflawni o fis Ebrill 2027.

Gyda'i gilydd, mae'r blaenoriaethau hyn yn arwydd o gyfnod newydd i Ogledd Cymru, wedi'i ddiffinio gan gyflawni, uchelgais a phartneriaeth. Wedi arwain gan arweinyddiaeth gyfunol y chwe Arweinydd cyngor cyfansoddol ac wedi'u lywio gan anghenion a dyheadau ein cymunedau, byddwn yn parhau i weithio ar y cyd â phartneriaid i greu Gogledd Cymru fwy llewyrchus, gwydn, a gysylltiedig.



Alwen Williams

Prif Weithredwr
Uchelgais Gogledd Cymru

Ein Partneriaid



Prifysgol Wrexham
Wrexham University

£240m o Gyllid y Cynllun Twf

£160m o Gyllid Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrexham gan



CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

25 Medi, 2026

TEITL: Diweddariad ar y Rhaglen Trawsnewid a Gwella

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr ac Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen
Dave Hole, Arweinydd y Rhaglen

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnydd y rhaglen trawsnewid a gwella barhaus yn 2026/27.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Nodi cynnydd a heriau rhaglen 2026/27.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Er mwyn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd corfforaethol, mae'n bwysig bod y Cyd-bwyllgor yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ar y rhaglen trawsnewid a gwelliant barhaus. Mae'r Cyd-bwyllgor yn parhau i weithredu ystod o gynhyrchion a phrosiectau sy'n cyflwyno newid busnes sylweddol wrth i'r sefydliad ddatblygu ei fodel gweithredu i gwrdd â'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol. Bydd hyn yn gofyn am ddatblygu rhaglen aml-flwyddyn barhaus sy'n cydfynd â gweledigaeth ac amcanion Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mae gan y Cyd-bwyllgor statws gweithredu llawn, sy'n golygu y gall weithredu fel endid corfforaethol, cyflogi pobl, a bod ganddo'r holl drefniadau llywodraethu angenrheidiol ar waith. Mae hyn yn darparu'r prif fframwaith llywodraethu a fydd yn galluogi'r Cyd-bwyllgor i weithredu fel awdurdod cyhoeddus ar draws ei holl swyddogaethau.
- 4.2. Ar ôl trosglwyddo'r Cynllun Twf, ei gyllid a'i staff i'r Cyd-bwyllgor ar 1 Ebrill 2025, ac o dan frand Uchelgais Gogledd Cymru (UGC), mae'r Cynllun bellach ddeunaw mis ar hyd y daith mewn rhaglen amlflwyddyn ar gyfer sefydlu'r model gweithredu i gorff cyhoeddus newydd.
- 4.3. Mae'r rhaglen yn parhau i ddarparu diweddariadau ers iddi gael ei throsglwyddo i'r Cyd-bwyllgor sy'n amlinellu hyd a lled y newid sefydliadol trwy'r rhaglen sy'n cwrddu cynnydd a heriau. Mae'r adroddiadau hyn, gan gynnwys penderfyniadau a chofnodion, wedi'u cynnwys isod er hwylustod cyfeirio:

- i. [Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd 13 Mehefin, 2025](#)
- ii. [Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd 28 Tachwedd, 2025](#)

iii. [Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd 20 Mawrth, 2026](#)

- 4.4. Mae newid yn rhywbeth cyson ond hefyd yn bwysig i UGC fel corff cyhoeddus rhanbarthol er mwyn bodloni canllawiau a deddfwriaeth statudol. Mae'r rhaglen yn dangos y gallu i reoli newid a gwelliant penodol lle bydd unrhyw bwyslais ar brosesau ac arferion penodol. Bydd y rhaglen drawsnewid, yn ei chyfanrwydd, yn ailddiffinio'r sefydliad sy'n gofyn am newid dyfnach ac ehangach, yn ei ddiwylliant a'i weithrediadau, dros nifer o flynyddoedd gan ymateb i heriau amgylcheddol mewnol a macro nawr ac yn y dyfodol.
- 4.5. Mae rhaglenni yn sefydliadau dros dro a sefydlir i gyflawni canlyniadau - yn aml dros amryw o flynyddoedd - trwy ystod o brosiectau y cytunwyd arnynt sy'n darparu gallu newydd. Mae rhaglenni dros dro o'r natur hon yn aml yn gofyn am fodel hybrid o adnoddau i sicrhau llwyddiant. Mae'r ymrwymiad hwn i gyflawni ac ymgorffori newid cymhleth mewn endid newydd yn heriol ac yn gofyn am allu hyblyg ac arbenigol gyda chymysgedd o gefnogaeth interim neu gefnogaeth ymgynghorol ar wahanol adegau yn ei oes.

5. CYNNYDD RHAGLEN 2026/27 HYD YMA

- 5.1. Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad blaenorol, roedd rhaglen 2025/26 yn dathlu llwyddiant ond hefyd yn amlinellu'r heriau, a daeth i ben ddiwedd mis Mawrth 2026. Roedd y tîm yn gallu cyflawni tua 35% o'r canlyniadau gyda 35% yn cael eu cario ymlaen i'w datblygu, a 30% heb eu cychwyn ac yn cael eu symud i'r rhaglen 2026/27 newydd.

Mae rhaglen bresennol 2026/27 wedi parhau i wneud cynnydd cadarnhaol er gwaethaf dibyniaethau ariannol ac adnoddau dynol heriol. Er mwyn cyflawni, bu'n rhaid cael dull blaenoriaethu 'ystwyth' ailadroddus i reoli amryw o newidiadau syml a chymhleth ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan fwrdd y rhaglen a'r Uwch Berchennog Cyfrifol (y Prif Weithredwr) gyda chefnogaeth proses rheoli newid. Dyma rai o'r heriau allweddol ers yr adroddiad blaenorol:

- i. Mae cydbwysio capasiti adnoddau i ganolbwyntio ar raglen trawsnewid a gwella UGC yn ogystal â gweithgareddau gweithredu Busnes fel Arfer yn parhau i fod yn her wrth i'r galw a'r gofynion gynyddu.
 - ii. Datblygu galluedd o fewn tîm 'corfforaethol' bach iawn i reoli gofynion corff cyhoeddus.
 - iii. Mae cwblhau a chymeradwyo Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar y ddwy ochr wedi bod yn fater heriol i'w cytuno'n ffurfiol, er bod gwasanaethau yn cael cyllid ar hyn o bryd. Gellir dechrau recriwtio cyllid adnoddau a gymeradwyir gan y Cyd-bwyllgor unwaith y bydd cytundebau wedi'u llofnodi.
 - iv. Penodi Rheolwyr Gwasanaethau Adnoddau Dynol a TG newydd Cyngor Gwynedd i arwain ar y gwaith o gyflawni ffrydiau gwaith
 - v. Mae arweinwyr ffrwd waith (gweithredol) yn parhau i fod yn rheolwyr prosiect 'anhechnegol' gyda chefnogaeth arweinydd y rhaglen
 - vi. Mae cyfyngiadau'r gyllideb yn cael eu rheoli'n ofalus ac mae fforddiadwyedd yn gyson â blaenoriaethu prosiectau o fewn y rhaglen
 - vii. Ffactorau allanol sy'n effeithio ar newid sefydliadol wedi'i gynllunio
 - viii. Cefnogaeth partneriaid i gwrdd â dyddiadau cau a chynnydd prosiectau
 - ix. Cytundeb partner y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu
- 5.2. Er gwaethaf yr heriau presennol a amlinellwyd, mae'r rhaglen wedi parhau i wneud newid sylweddol. Dyma grynodeb o'r cynnydd ac/neu gyflawniadau cadarnhaol:

Swyddfa'r Prif Swyddog Gweithredol (Corfforaethol)

- i. Derbyniwyd cyllid grant Llywodraeth Cymru Blwyddyn 2 i ddatblygu capasiti a gallu ar gyfer UGC
- ii. Penodwyd Cyfarwyddwr Portffolio
- iii. Penodwyd Pennaeth Cyflawni'r Swyddfa Rheoli Portffolio
- iv. Datblygu Arweinyddiaeth Newid – Uwch Dîm Arweinyddiaeth
- v. Trawsnewid Digidol Dysgu Data – cyfnod darganfod
- vi. Ymholiad Rhanbarthol i Ddiwydiant Digidol, Creadigol a Diwylliant – cyfnod darganfod
- vii. Mapio teithiau cwsmeriaid yn y sector busnes – cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru ac UGC
- viii. LGF – paratoi ar gyfer Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3

Cyfreithiol a Llywodraethu

- i. Penodwyd Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro
- ii. Cwblhawyd adolygiad cyfansoddiadol llawn ar gyfer cymeradwyo
- iii. Cyhoeddwyd Cofrestr o Ddiddordeb
- iv. Datblygu strwythur llywodraethu
- v. Parodrwydd yr is-bwyllgor safonau ar gyfer lansio yn gynnar yn 2027
- vi. Datblygu'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu
- vii. Datblygu'r Pwyllgor Penodiadau
- viii. Datblygu'r Cynllun Deisebau
- ix. Ymgysylltu â chyflenwyr System Rheoli Achosion Cyfreithiol

Cyllid

- i. Cyflwynwyd cynllun archwilio allanol
- ii. Cyflwynwyd Cynllun Archwilio Mewnol
- iii. Cyflwynwyd Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig Cychwynnol
- iv. Cyflwynwyd strategaeth risg gorfforaethol

TG

- i. Penodwyd Pennaeth TG Cyngor Gwynedd – yn cefnogi cyflawni ffrwd waith TG barhaus
- ii. Parodrwydd iTrent cychwynnol
- iii. Datblygu Co-Pilot

AD

- i. Penodwyd Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd – yn cefnogi cyflawni ffrwd waith AD barhaus
- ii. Cyhoeddwyd Polisi Tâl 2026/27

Gweithrediadau (Cyffredinol)

- i. Sefydlwyd y Bwrdd Cyngori Busnes
- ii. Caffael buddion staff yn cael ei gwblhau
- iii. Datblygu gallu'r tîm gan gynnwys diogelu data a phartneriaethau cymdeithasol
- iv. Cyflwynwyd Adroddiad Blynnyddol Safonau'r Gymraeg
- v. Hyfforddwyd a phenodwyd Swyddog Diogelu Data
- vi. Cynnydd sylweddol gyda'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth tuag at gael ei arwyddo
- vii. Arolwg staff blynnyddol – wrthi'n drafftio
- viii. Canllawiau brand – wrthi'n drafftio
- ix. Strategaeth a Phrotocol Cyfathrebu – wrthi'n drafftio

- x. Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2026/27 – wrthi'n drafftio
- xi. Cytundeb Cydnabod Undebau Llafur – wrthi'n drafftio
- xii. Cynllun Parhad Busnes – wrthi'n drafftio

Gweithrediadau (Polisi)

- i. Penodwyd Uwch Swyddog Polisi
- ii. Cyflwynwyd polisi Canmoliaethau, Sylwadau, Cwynion
- iii. Cyflwynwyd polisi Absenoldeb a Thâl Mamolaeth
- iv. Ymgysylltu ynghylch polisiâu gyda phartneriaid a chomisiynwyr yn parhau
- v. Datganiad llesiant (gan gynnwys amcanion) - wrthi'n drafftio
- vi. Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Hawliau Dynol ar ffurf drafft gan gynnwys hysbysiad o fwriad gyda gwefan dros dro
- vii. Rhyddid Gwybodaeth – wrthi'n drafftio
- viii. Diogelu Data a Phreifatrwydd – wrthi'n drafftio
- ix. Bioamrywiaeth a Gwydnwch – wrthi'n drafftio
- x. Polisi Dyfarnu Grantiau (Safonau'r Gymraeg) – wrthi'n drafftio

Caffael:

- i. Llwyddwyd i benodi swyddog caffael yn dilyn amodau anodd y farchnad
- ii. Adolygu ac uwchraddio contractau yn digwydd
- iii. Cofrestr contractau – wrthi'n drafftio
- iv. Adolygu platform e-dendro
- v. Adolygiad amnewid platform caffael effaith

Trafnidiaeth

- i. Cwblhawyd archwiliad perfformiad sefydliadol Archwilio Cymru ar gyfer trafndiaeth
- ii. Recriwtiwyd swyddogion trafndiaeth
- iii. Datblygu Gwaith Monitro a Gwerthuso'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Cynllunio

- i. Paratodau i recriwtio i swyddi Uwch Gynllunydd a Swyddog Cynllunio

5.3. Nid yw'r gwaith yma sydd wedi'i flaenoriaethu wedi dechrau eto:

- i. Penodi adnodd cyfreithiol parhaol
- ii. Penodiadau Adran 151 ac adnodd cyllid
- iii. Penodi adnoddau tîm cyfathrebu ac ymgynghori
- iv. Datblygu Cynllun Corfforaethol a Datganiad Gweledigaeth
- v. System Rheoli Pwyllgorau
- vi. Gwe-ddarlledu
- vii. Newid system cofnodi amser UGC
- viii. Uwchraddio SharePoint (Rheoli Dogfennau)
- ix. Cyngor Gwynedd yn defnyddio systemau newydd – parodrwydd busnes UGC
- x. Cynllun Cyfathrebu
- xi. Rheoli perfformiad staff (gwerthuso staff)
- xii. Adolygiad Llywodraethu Llywodraeth Cymru - Cyd-bwyllgorau Corfforedig
- xiii. Cynllun Cyfranogiad y Cyhoedd
- xiv. Hunanasesiad Blynyddol (Rhan 6)

5.4. Mae rhestr 'wrth gefn' 2026/27 o gyflawniadau pellach ar gael i'w hystyried pe bai'r egwyddorion blaenoriaethu yn galluogi'r gwaith hwn. Os nad yw, byddai hyn yn cael ei symud i 2027/28. Mae crynodeb o'r eitemau ar y rhestr wrth gefn yn cynnwys:

- i. Adolygiad dylunio sefydliadol
- ii. Prosbectws Cyd-bwyllgorau Corfforedig Llywodraeth Cymru – Effaith newid
- iii. Cynllun Materion Cyhoeddus
- iv. Achrediad cyflogwr gwaith teg
- v. Rheoli a chadw gwybodaeth
- vi. Datganiadau ac uwchraddio TG
- vii. Rheoli prosesau busnes
- viii. Strategaeth a chynlluniau pobl
- ix. Adolygiadau gwella parhaus pwyllgorau
- x. Strategaeth Fuddsoddi
- xi. Strategaeth Fasnachol
- xii. Sero Net Sector Cyhoeddus

6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Mae trawsnewid a gwella UGC fel yr amlinellir yn rhaglen aml-flwyddyn. Mae'r holl ragdybiaethau y gwyddys amdanynt o ran cyllid wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig cyfredol fel bod modd parhau i sefydlu'r sefydliad, a'r gofynion newid a gwella parhaus. Bydd hyn yn galluogi i'r bobl, y prosesau a'r dechnoleg iawn i fodloni unrhyw alw presennol, ac unrhyw alw hysbys neu anhysbys yn y tymor byr i'r tymor canolig. Ar hyn o bryd mae'r Cyd-bwyllgor wedi cael blwyddyn 2 o gytundeb arian grant 3 blynedd sy'n cyfrannu at adeiladu capasiti a gallu.

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol hysbys yn yr adroddiad hwn.

ATODIADAU:

Dim

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro

“Mae'r Rhaglen Trawsnewid a Gwella yn fecanwaith bwysig ar gyfer cryfhau trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyd-bwyllgor Corfforedig a chefnogi datblygiad parhaus y sefydliad.

Yn sicr bydd gan nifer o'r ffrydiau gwaith sy'n rhan o'r rhaglen arwyddocâd cyfreithiol a llywodraethu uniongyrchol, a bydd yn bwysig sicrhau y cedwir at ofynion statudol a threfniadau llywodraethu hanfodol.

Ar hyn o bryd, yr argymhelliad yw nodi'r cynnydd yn unig ac nid yw'n awdurdodi unrhyw newidiadau ynddo'i hun. Bydd unrhyw faterion sy'n gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol yn cael eu cyflwyno drwy'r prosesau gwneud penderfyniadau priodol yn y ffordd arferol."

ii. Swyddog Cyllid Statudol

"Gallaf gadarnhau cywirdeb y wybodaeth ariannol a gynhwysir yn yr adroddiad. Fel mae'r adroddiad yn egluro, mae'r capasiti sy'n ofynnol yn cael ei adolygu'n gyson oherwydd natur y prosiect trawsnewid.

Mae'r gyllideb gymeradwy ar gyfer 2026/27 wedi cynnwys adnoddau ychwanegol i ddarparu ar gyfer cyflawni ymhellach y materion a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Os oes angen cyllid ychwanegol yn y maes hwn, yn y lle cyntaf byddwn yn chwilio am danwariant mewn penawdau cyllideb eraill ac yn argymhell unrhyw weithgareddau i'r Cyd-bwyllgor yn ôl yr angen. Gan fod hwn yn brosiect aml-flwyddyn, mae gofynion yn cael eu hystyried yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n eitem ar wahân ar raglen y cyfarfod, ac yna yn y cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod."



CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD
25 Medi 2026

TEITL: Cynllun Deisebau Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd
AWDUR: Helen Edwards, Dirprwy Swyddog Monitro

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw sefydlu Cynllun Deisebau ar gyfer y CBC.

2. PENDERFYNIAD A GEISIR

Bod y Cyd Bwyllgor Corfforedig yn cymeradwyo'r Cynllun Deisebau yn Atodiad 1.

3. RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r CBC lunio a chyhoeddi cynllun sy'n nodi sut y mae'n bwriadu ymdrin â deisebau ac ymateb iddynt. Mae'r cynllun drafft yn Atodiad 1 yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, a gofynnir i'r CBC ei gymeradwyo. Unwaith y caiff ei gymeradwyo, bydd yn dod i rym ar unwaith ac yn cael ei gyhoeddi ar wefan y CBC.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Mae'r cynllun arfaethedig yn nodi sut y gellir cyflwyno deiseb, sut ac erbyn pryd y bydd y CBC yn cydnabod ei fod wedi'i derbyn, y camau y gall eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb, a'r amgylchiadau lle gall y CBC benderfynu peidio â chymryd camau pellach. Mae'n ofyniad deddfwriaethol bod y CBC yn llunio ac yn cyhoeddi cynllun ar gyfer deisebau.

5. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

Nid oes goblygiadau sylweddol o ran adnoddau i greu a chyhoeddi cynllun deisebau. Os cyflwynir deiseb ddilys, byddai angen adnoddau gweinyddol i ymateb iddi yn unol â'r cynllun, ond ni ddisgwylir i hyn fod yn faich mawr. Os bydd y CBC yn penderfynu cymryd y camau y mae deiseb yn eu gofyn, gallai hyn arwain at oblygiadau o ran adnoddau, ond byddai hyn yn cael ei ystyried fesul achos wrth bennu'r ymateb priodol i'r ddeiseb.

6. YMGYNGHORIAD

Nid oes unrhyw ymgynghoriad wedi'i gynnal, gan fod gweithredu cynllun yn ofyniad statudol.

7. ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

7.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Wrth lunio'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd llesiant sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf').

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy, sy'n golygu'r broses o wella llesiant cymdeithasol,

economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gyda'r nod o gyflawni'r saith nod llesiant, sef:

Cymru lewyrchus

Cymru gydnerth

Cymru iachach

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Bydd gweithredu cynllun deisebau yn sicrhau bod unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau yn gallu cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, drwy godi materion o bryder cyhoeddus gyda'r CBC a galluogi i Aelodau ystyried yr angen am newid. Cydnabyddir y gall deisebau gael canlyniadau cadarnhaol sy'n arwain at newid neu sy'n llywio trafodaeth.

7.2. Deddf Cydraddoldeb 2010

Nid oes unrhyw oblygiadau penodol o ran cydraddoldeb yn deillio o'r adroddiad hwn.

7.3. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, rhoddwyd ystyriaeth i'r effaith y gallai'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg, i weld a yw'r cynigion yn ymdrin â'r Gymraeg yn fwy neu'n llai ffafriol na'r Saesneg, ac i ystyried cyfleoedd i gynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol, y cynigion ar y Gymraeg.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol a fyddai'n atal ceisio cymeradwyaeth i weithredu argymhellion yr adroddiad hwn.

Cyhoeddir y cynllun deisebau yn ddwyieithog, ac mae'n nodi'n glir y gellir cyflwyno deisebau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

7.4. Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Nid oes unrhyw faterion bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau penodol yn codi o'r adroddiad hwn.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

Mae'n ofynnol i'r CBC lunio a chyhoeddi cynllun deisebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r cynllun arfaethedig yn Atodiad 1 yn cyd-fynd â gofynion y ddeddfwriaeth honno ac yn eu bodloni.

9. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol yn deillio o'r adroddiad hwn.

10. ATODIADAU

11. DOGFENNAU CEFNDIROL

Dim

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Mae Adran 42 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, fel y'i cymhwysir i gyd-bwyllgorau corfforaethol gan reoliad 31 o Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021, yn ei gwneud yn ofynnol i'r CBC wneud a chyhoeddi cynllun deisebu a chadw'r cynllun hwnnw dan adolygiad.

Mae'r cynllun arfaethedig yn mynd i'r afael â'r gofynion statudol sy'n llywodraethu cyflwyno a chydabod deisebau, y camau y gellir eu cymryd mewn ymateb, yr amgylchiadau lle na ellir cymryd unrhyw gamau pellach, a chyfathrebu a chyhoeddi ymatebion. Dewisiadau polisi o fewn disgresiwn y CBC yw'r trothwyon llofnodion a dyraniad y gwahanol lwybrau ymateb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

CYNLLUN DEISEBAU

1. Trosolwg

Mae cyflwyno deisebau yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, drwy godi materion o ddiddordeb cyhoeddus gyda'r CBC a galluogi i Aelodau ystyried yr angen am newid. Cydnabyddir y gall deisebau arwain at ganlyniadau cadarnhaol sy'n sbarduno newid neu'n llywio trafodaethau. Gwneir y cynllun deisebau hwn o dan adran 42 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gellir cyflwyno deisebau yn Gymraeg neu yn Saesneg, a chyhoeddir y Cynllun Deisebau yn ddwyieithog.

2. Pwy All Gyflwyno Deiseb?

Gall unrhyw un sy'n byw, yn gweithio, yn berchen ar fusnes neu'n astudio yn ardal y CBC lofnodi neu gyflwyno deiseb, gan gynnwys y rhai dan 18 oed. Gall unrhyw un sy'n byw yn ardal Cyngor cyfagos hefyd lofnodi neu gyflwyno deiseb OS gellid disgwyl yn rhesymol y byddent yn cael eu heffeithio gan bwnc y ddeiseb.

Gellir cyflwyno deisebau ar bapur neu'n electronig gan ddefnyddio system ddeisebau ar-lein sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer deiseb ddilys, neu gyfuniad o'r ddau.

3. Ystyried Deiseb

3.1 Gellir ystyried deiseb yng nghyfarfod y CBC neu gan is-bwyllgor os yw pwnc y ddeiseb yn ymwneud â rôl benodol yr is-bwyllgor hwnnw.

3.2 Ystyried unrhyw ddeiseb a gyflwynir a phenderfynu a yw'n dderbyniol yn seiliedig ar y meini prawf ar gyfer deiseb ddilys a nodir yn adran 4 isod. Bydd unrhyw faterion dadleuol neu gyfreithiol yn cael eu cyfeirio at y Swyddog Monitro.

3.3 Wrth ystyried y ddeiseb, bydd y CBC yn ystyried y canllawiau statudol ac anstatudol ar ddemocratiaeth ar gyfer prif gynghorau, a wnaed o dan adran 44 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn enwedig y Canllawiau Statudol ar Ddeisebau. Nid yw'n ofynnol i'r CBC gydymffurfio â'r canllawiau hyn ond bydd yn eu defnyddio fel meincnod perthnasol.

4. Gofynion ar Gyfer Deiseb Ddilys

Prif Ddeisebydd

4.1 Mae angen prif ddeisebydd ar gyfer pob deiseba fydd yn bwynt cyswllt ar gyfer y ddeiseb. Dyma'r gofynion ar gyfer prif ddeisebydd:

- 4.1.1 Rhaid i'r prif ddeisebydd fod yn unigolyn sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio o fewn ardal y CBC neu'n sefydliad sydd wedi'i leoli yn ardal y CBC.
- 4.1.2 Rhaid cynnwys cyfeiriad post llawn cartref, gwaith neu astudio'r prif ddeisebydd neu gyfeiriad post y sefydliad, ynghyd â chyfeiriad e-bost neu wybodaeth gyswllt y gellir anfon unrhyw ohebiaeth ynghylch y ddeiseb iddo.

Y Ddeiseb

- 4.2 Bydd y CBC yn ystyried pob deiseb sydd â 10 llofnodwr o leiaf ac sy'n dod o fewn cwmpas y Cynllun hwn. Gellir cyflwyno deisebau i'r CBC ar bapur neu'n electronig, gyda gofynion cyffredinol y Cynllun yn berthnasol i ddeisebau papur ac electronig fel ei gilydd. Rhaid i'r ddeiseb:
 - 4.2.1 gynnwys datganiad clir a chryno yn ymdrin â phwnc y ddeiseb. Caiff y ddeiseb ei dychwelyd os yw'n aneglur;
 - 4.2.2 galw ar y CBC i gymryd camau penodol, er enghraifft: "Rydym yn galw ar Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd i..." Rhaid ailadrodd hyn ar bob tudalen o ddeiseb bapur;
 - 4.2.3 darparu enwau a chyfeiriadau post y rhai sy'n llofnodi'r ddeiseb, gan gynnwys codau post;
- 4.3 Dangosir awgrym o dempled deiseb yn Atodiad A i'r Cynllun Deisebau hwn.
- 4.4 Ni chaiff deisebau gynnwys:
 - 4.4.1 iaith sy'n sarhaus, yn anghymedrol neu'n bryfoclyd. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig geiriau anwedus a sarhaus, ond unrhyw iaith y byddai person rhesymol yn ei hystyried yn dramgwyddus;
 - 4.4.2 Datganiadau a allai fod yn anwir neu'n ddifriol;
 - 4.4.3 Gwybodaeth y gwaharddir ei chyhoeddi gan orchymyn llys neu gorff neu berson â phŵer tebyg;
 - 4.4.4 Deunydd a allai fod yn gyfrinachol, yn fasnachol sensitif, neu a allai achosi trallod neu golled bersonol;
 - 4.4.5 Unrhyw gymeradwyaeth fasnachol, hyrwyddo unrhyw gynnyrch, gwasanaeth neu gyhoeddiad, neu ddatganiadau sydd gyfystyr â hysbysebion;
 - 4.4.6 Enwau swyddogion cyrff cyhoeddus, oni bai eu bod yn rhan o uwch-reolaeth y sefydliadau hynny;
 - 4.4.7 Enwau aelodau teulu cynrychiolwyr etholedig neu swyddogion cyrff cyhoeddus;

- 4.4.8 Enwau unigolion, neu wybodaeth lle gellir eu hadnabod, mewn perthynas â chyhuddiadau troseddol; neu
- 4.4.9 Materion nad yw deiseb yn sianel briodol ar eu cyfer (er enghraifft, gohebiaeth am fater personol neu fater sy'n destun achos llys).

Deisebau nad ydynt yn Dderbyniol o dan y Cynllun

4.5 Ni dderbynnir y canlynol:

- 4.5.1 Deisebau sy'n ymwneud ag unrhyw beth nad yw'r CBC yn gyfrifol amdano;
- 4.5.2 Deisebau statudol, neu ddeisebau sy'n ymwneud â Refferenda Awdurdodau Lleol sy'n dod o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001, y mae trefniadau ar wahân yn berthnasol iddynt o fewn yr awdurdodau lleol perthnasol;
- 4.5.3 Deisebau sy'n gofyn i'r CBC ddyfarnu, cyflafareddu neu gyfryngu materion personol neu faterion yn ymwneud â staff neu fuddiannau masnachol, lle mai rôl llys neu dribiwnlys yw gwneud hynny;
- 4.5.4 Deisebau ar faterion sy'n destun achos cyfreithiol yn y llysoedd;
- 4.5.5 Deisebau ar faterion sydd eisoes yn destun penderfyniad gan Ombwdsmon (neu berson â phwerau tebyg);
- 4.5.6 Deisebau sydd yn eu hanfod yn geisiadau rhyddid gwybodaeth (FOI), sylwadau, canmoliaeth neu gwynion, a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r swyddog priodol i gael ymateb addas; neu
- 4.5.7 Deisebau sy'n codi materion yn ymwneud â chamymddygiad posibl gan Aelod neu weithiwr y CBC. Mae angen cyfeirio'r rhain at y gweithdrefnau priodol. Dylid cyfeirio cwynion yn erbyn aelodau'r CBC at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ. Dylid cyfeirio cwynion yn erbyn gweithwyr y CBC at adborth@uchelgaisgogledd.cymru.
- 4.6 Pan fydd deiseb wedi'i chyflwyno i'r CBC, ni fydd unrhyw ddeiseb bellach ar bwnc tebyg ac yn ceisio canlyniad tebyg yn cael ei hystyried o fewn chwe mis i'r dyddiad y cafodd y ddeiseb ei hystyried gyntaf neu y cafodd y deisebydd gyfle i gael ei glywed.

Llofnodwyr Deiseb

- 4.7 Mae unigolyn sy'n byw, yn gweithio, yn berchen ar fusnes neu'n astudio yn ardal y CBC yn llofnodwr priodol, neu unigolyn sy'n byw yn ardal Cyngor

cyfagos ac y gellid disgwyl yn rhesymol y byddai'n cael ei effeithio gan bwnc y ddeiseb.

- 4.8 Dim ond unwaith y gall unigolyn lofnodi deiseb. Ni ddylai pobl lofnodi deiseb ar-lein a deiseb bapur, a gellir dileu cofnodion dyblyg os canfyddir bod deisebydd wedi lofnodi ddwywaith.

5. Cyflwyno Deiseb

- 5.1 Rhaid cyflwyno deisebau papur neu electronig sydd i'w hystyried gan y CBC i Swyddog Monitro'r CBC:
- Drwy ebost: Pwyllgorau@uchelgaisgogledd.cymru neu
 - Drwy'r post: Gwasanaethau Democratiaeth, Uchelgais Gogledd Cymru, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno LL31 9RZ

6. Sut a phryd y bydd y CBC yn Cydnabod Derbyn Deiseb

- 6.1 Bydd derbyn deiseb bapur neu gyflwyno deiseb electronig yn cael ei gydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith, ar yr amod bod manylion cyswllt y prif ddeisebydd yn cael eu darparu ar yr un pryd.

7. Cadarnhau bod Deiseb yn Ddilys

- 7.1 Bydd y Swyddog Monitro, neu berson a awdurdodwyd ganddo, yn cynnal gwiriadau cychwynnol i gadarnhau bod deiseb a gyflwynwyd yn bodloni gofynion y Cynllun.
- 7.2 Os derbynnir nifer o ddeisebau ar bwnc tebyg gyda chanlyniadau a ddymunir tebyg, dim ond un prif ddeisebydd fydd yn gallu cyflwyno ei ddeiseb i'r CBC. Bydd y Swyddog Monitro yn hysbysu prif ddeisebydd pob deiseb ac yn gofyn iddynt gydweithio i ystyried opsiynau i gyfuno deisebau a phenderfynu pa brif ddeisebydd fydd yn cyflwyno'r ddeiseb i'r CBC. Os na chyrrhaeddir cytundeb, bydd gan y deisebydd sydd â'r nifer mwyaf o lofnodion yr hawl i gyflwyno'r ddeiseb i'r CBC.
- 7.3 Codir unrhyw bryderon ynghylch dilysrwydd y ddeiseb gyda'r Swyddog Monitro.
- 7.4 Os yw deiseb yn annilys, hysbysir y prif ddeisebydd o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y ddeiseb pam na ellir bwrw ymlaen â hi.

8. Y camau y gall y CBC eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb

- 8.1 Cyfeirir deiseb sydd â rhwng 10 a 100 o lofnodion at y Prif Weithredwr i ymateb. Darperir ymateb i'r prif ddeisebydd o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn y ddeiseb.

- 8.2 Cyfeirir deiseb sydd â rhwng 101 a 500 o lofnodion at Gadeirydd y CBC i ymateb. Darperir ymateb i'r prif ddeisebydd o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn y ddeiseb.
- 8.3 Cyfeirir deiseb sydd â mwy na 500 o lofnodion at gyfarfod o'r CBC.
- 8.4 Pan ystyrir deiseb mewn cyfarfod, gall cyflwynydd y ddeiseb amlinellu cais y deisebwyr, y rheswm dros y cais a nifer y llofnodwyr. Ni chaniateir i'r prif ddeisebydd siarad am fwy nag un funud o dan y rheol hon.
- 8.5 Gall y cyfarfod benderfynu:
- Cymryd y camau y mae'r ddeiseb yn gofyn amdanynt;
 - Peidio â chymryd camau pellach;
 - Cyfeirio'r mater at yr is-bwyllgor perthnasol, gweithgor neu swyddog;
 - Gofyn i swyddog gymryd unrhyw gam arall mewn perthynas â'r mater.
- 8.6 Cofnodir penderfyniad y cyfarfod yn y cofnodion a'i ddarparu'n ysgrifenedig i'r prif ddeisebydd.
- 8.7 Cyhoeddir ymateb y CBC i ddeiseb ar ei wefan o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad y darperir yr ymateb i'r prif ddeisebydd.

9. Eithriadau

Yn y cyfnod yn union cyn etholiad neu refferendwm, efallai y bydd angen i ni ddelio â deisebau mewn ffordd wahanol. Os felly, byddwn yn egluro'r rhesymau ac yn trafod unrhyw amserlen ddiwygiedig a allai fod yn berthnasol.

10. Dewisiadau eraill yn hytrach na Deisebau

Ar ôl darllen y Cynllun Deisebau, gall unigolyn neu sefydliad ystyried nad deiseb yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r canlyniad a ddymunir. Mae opsiynau eraill i alluogi i aelodau o'r cyhoedd leisio eu barn, yn cynnwys:

- Ysgrifennu at yr Aelod priodol o'r CBC neu at Brif Weithredwr y CBC;
- Ymateb i Ymgynghoriad;
- Gwneud awgrym drwy wefan y CBC.

11. Diogelu Data a GDPR

Bydd yr holl ddata personol yn cael ei drin yn unol â deddfau diogelu data a Hysbysiad Preifatrwydd y CBC. Cedwir gwybodaeth am ddeisebau (mewn fformat electronig ac ar bapur) am 12 mis, ac ar ôl y cyfnod hwnnw, caiff ei dinistrio'n ddiogel.

12. Adolygu

Bydd y cynllun deisebau hwn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd, ac os bydd y CBC yn ystyried bod hynny'yn briodol, caiff y cynllun ei ddiwygio. Cyhoeddir unrhyw gynllun diwygiedig ar wefan y CBC.

ATODIAD A – AWGRYM O DEMPLED AR GYFER DEISEB BAPUR

Manylion y Prif Ddeisebydd

Enw	
Cyfeiriad post llawn	
Cyfeiriad ebost	
Rhif ffôn (dewisol)	

Manylion y ddeiseb

Datganiad byr a chlir yn ymdrin â phwnc y ddeiseb. Caiff y ddeiseb ei dychwelyd os yw'n aneglur.	
Galw ar y CBC i gymryd camau penodol.	Rydym yn galw ar Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Uchelgais Gogledd Cymru) i..... Nodyn: i'w ailadrodd ar bob tudalen o ddeiseb bapur

Llofnodwyr deiseb

Rydym yn galw ar Uchelgais Gogledd Cymru i [nodwch y galw am gamau penodol wedi'i gopïo o fanylion y ddeiseb]

Rhif.	Enw	Cyfeiriad post llawn	Cod post	Llofnod
1				
2				
3				
4				

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

25 Medi 2026

TEITL: Sefydlu Is-bwyllgor Safonau

AWDUR: Helen Edwards, Dirprwy Swyddog Monitro

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Galluogi sefydlu Is-bwyllgor Safonau.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wneud y canlynol:

- 2.1 Cytuno ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Safonau (Atodiad 1).
- 2.2 Cytuno y gofynnir i'r awdurdodau cyfansoddol ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol enwebu aelodau o'r is-bwyllgor fel y nodir ym mharagraff 4.5 isod.
- 2.4 Cytuno y gofynnir i'r awdurdodau cyfansoddol enwebu aelodau Annibynnol o'u Pwyllgorau Safonau, yn amodol ar y gofynion cymhwysedd statudol. Pe na bai digon o enwebiadau, cytuno y byddai'r CBC yn cynnal ymgyrch recriwtio allanol gyhoeddus.
- 2.5 Cytuno ar yr amserlen a'r broses recriwtio ar gyfer Aelodau Annibynnol fel y nodir ym mharagraffau 4.6 a 4.7 o'r adroddiad hwn, ac awdurdodi'r Swyddog Monitro i a) ei haddasu os oes angen a b) sefydlu a phennu panel penodi yn unol â rheoliad 15 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001, fel y'u diwygiwyd.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

Caniatáu i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig symud ymlaen tuag at sefydlu Is-bwyllgor Safonau a chynnal cyfarfod cyntaf yr is-bwyllgor, yn unol â'i rwymedigaethau statudol.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1 Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig sefydlu Is-bwyllgor Safonau.
- 4.2 Bydd Cylch Gorchwyl yr is-bwyllgor yn ffurfio rhan o'r Cyfansoddiad a rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gytuno arnynt.

- 4.3 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn hanfodol i'r Is-bwyllgor Safonau gael dim llai na 5 aelod, a dim mwy na 9. Cynigir y dylai'r is-bwyllgor fod wedi'i ffurfio o 7 aelod, sy'n ymddangos yn faint ymarferol i'r is-bwyllgor allu trafod y busnes perthnasol, sicrhau ystod eang o sgiliau ymhlith ei aelodau, ac annog cworwm mewn cyfarfodydd (mae'r Rheoliadau yn gosod cworwm fel 3 aelod, y mae'n rhaid i o leiaf hanner ohonynt fod yn Aelodau Annibynnol).
- 4.4 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i o leiaf hanner aelodau'r is-bwyllgor fod yn Aelodau Annibynnol os yw'r niferoedd ar y pwyllgor yn eilrif, ac os ydynt yn odrif, rhaid i Aelodau Annibynnol fod yn y mwyafrif. Cynigir y dylid cael 4 Aelod Annibynnol ar yr is-bwyllgor.
- 4.5 Bydd y 3 aelod sy'n weddill o'r is-bwyllgor yn dod o blith aelodau'r awdurdodau cyfansoddol ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae cyfyngiadau ar bwy all ddod yn aelod o'r Is-bwyllgor Safonau, sy'n atal unrhyw aelod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig neu unrhyw un o'i is-bwyllgorau eraill rhag bod yn aelod o'r Is-bwyllgor Safonau. Gofynnir i awdurdodau cyfansoddol ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol gytuno pa un ohonynt ddylai gyflwyno un o'r 3 aelod (a ddylai gynrychioli o leiaf ddwy blaid wleidyddol wahanol) a chytuno ar eu henwebiadau drwy eu prosesau eu hunain yn y ffordd arferol.
- 4.6 Mae'r amserlen recriwtio arfaethedig fel a ganlyn:
- 4.6.1 Gofyn am enwebiadau gan yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer y 4 Aelod Annibynnol, o'u Pwyllgorau Safonau eu hunain. Os na dderbynnir digon o enwebiadau erbyn diwedd mis Medi, cyhoeddi hysbyseb i recriwtio Aelodau Annibynnol.
- 4.6.2 Y dyddiad cau er mwyn i ymgeiswyr sydd â diddordeb gyflwyno eu cais yw 12 hanner dydd, 16 Hydref.
- 4.6.3 Dewisir rhestr fer o ymgeiswyr yn ystod yr wythnos yn dechrau 19 Hydref.
- 4.6.4 Cynhelir cyfweiliadau panel ar gyfer yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn ystod yr wythnos yn dechrau 2 Tachwedd.
- 4.6.5 Bydd cyfarfod y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 20 Tachwedd 2026 yn ystyried argymhellion y Panel ac yn penodi'r Aelodau Annibynnol.
- 4.6.6 Hyfforddiant cychwynnol i'w ddarparu i aelodau'r Is-bwyllgor Safonau ym mis Ionawr 2027.
- 4.6.7 Cynhelir cyfarfod cyntaf yr Is-bwyllgor Safonau tua diwedd Ionawr i ddechrau Mawrth 2027.
- 4.7 Mae'r Rheoliadau ynghylch cyfansoddiad y panel cyfweld ar gyfer Aelodau Annibynnol yn benodol, yn yr ystyr fod yn rhaid iddo gynnwys dim mwy na 5 o bobl gan gynnwys un aelod Lleyg. Cynigir y dylai'r Panel fod wedi'i ffurfio o 3 o bobl, gan gynnwys un aelod Lleyg, a ddiffinnir fel aelod o awdurdod cyfansoddol nad yw'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod hwnnw, neu aelod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol cyfansoddol nad yw'n aelod cymwys o'r CBC.
- 4.8 Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd ddangos ei fod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd statudol. Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal y gwiriadau cymhwysedd angenrheidiol cyn cyflwyno argymhellion ar gyfer penodi i'r CBC.

5. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

Bydd angen i'r is-bwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn, a bydd angen iddo gael ei wasanaethu gan wasanaethau democratiaeth a swyddogion eraill fel unrhyw is-bwyllgor arall.

6. ASESAD EFFAITH INTEGRDIG

6.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Wrth ddatblygu Argymhellion yr adroddiad hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd llesiant sy'n codi o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'). Ystyrir y bydd Is-bwyllgor Safonau sy'n gweithredu'n dda yn cefnogi uniondeb democratiaeth leol, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

6.2. Deddf Cydraddoldeb 2010

Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb penodol sy'n deillio o'r adroddiad hwn. Bydd ceisiadau i rôl Aelodau Annibynnol yn cael eu barnu ar sail teilyngdod yn erbyn y Meini Prawf Person, a bydd y Panel yn ceisio dewis aelodau sy'n adlewyrchu amrywiaeth ardal Gogledd Cymru.

6.3. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nid oes unrhyw oblygiadau negyddol. Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg wedi'i hychwanegu at y Fanyleb Person ar gyfer yr Aelodau Annibynnol fel maen prawf dymunol. Ystyriwyd gwneud y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn sgil hanfodol, ond mae'r cyfyngiadau ar gymhwysedd i fod yn Aelod Annibynnol eisoes mor dynn fel yr ystyriwyd y byddai hyn o bosibl yn gwneud recriwtio hyd yn oed yn fwy heriol.

6.4. Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau

Dim goblygiadau penodol

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1 Yn unol ag adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig sefydlu Is-bwyllgor Safonau, yn unol â'r rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 fel y'u diwygiwyd. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn unol â'r gofynion deddfwriaethol.

7.2 Mae cytuno a/neu ddiwygio cylch gorchwyl ei is-bwyllgorau, a gwneud penodiadau iddynt, ac eithrio fel y dirprwywyd yn benodol ac yn gyfreithlon, yn fater a gedwir i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn unol â'i Gyfansoddiad.

8. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Mae gan Aelodau Annibynnol yr Is-bwyllgor Safonau hawl i lwfansau cymedrol yn unol â'r symiau a bennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Safonau

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

“Mae sefydlu Is-bwyllgor Safonau yn ofyniad statudol o dan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001, fel y'u diwygiwyd.

Mae'r aelodaeth arfaethedig o saith, sy'n cynnwys pedwar Aelod Annibynnol a thri aelod o'r awdurdodau cyfansoddol ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn gyson â'r gofynion statudol.

Rhaid i'r broses o recriwtio a phenodi Aelodau Annibynnol gydymffurfio â'r gweithdrefnau statudol rhagnodedig, gan gynnwys hysbysebu cyhoeddus, asesu yn erbyn meini prawf cyhoeddedig ac ystyried argymhellion panel penodi sydd wedi'i gyfansoddi'n briodol. Bydd cymhwysedd unigolion yn cael ei wirio cyn gwneud penodiadau, yn enwedig lle mae ymgeiswyr ar hyn o bryd yn dal swyddi ar Bwyllgorau Safonau'r awdurdodau cyfansoddol.

Yn amodol ar gydymffurfio â'r gofynion hyn, rwy'n cefnogi'r argymhellion a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer sefydlu'r Is-bwyllgor Safonau.”

ii. Swyddog Adran 151:

“Mae'r gwariant sy'n deillio o'r cynigion wedi'i ystyried yn rhan o gostau democrataidd y CBC. Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniad y ceisir ei wneud.”

CYLCH GORCHWYL YR IS-BWYLLGOR SAFONAU

5.12 Is-bwyllgor Safonau

- 5.12.1 Bydd y CBC yn sefydlu is-bwyllgor a elwir yn Is-bwyllgor Safonau. Mae ei gylch gorchwyl wedi'u nodi isod a gall y cylch gorchwyl hwnnw gael ei ddiwygio gan y CBC o bryd i'w gilydd.
- 5.12.2 Bydd aelodau'r Is-bwyllgor Safonau yn cynnwys 7 Aelod a benodir gan y CBC, y bydd 4 ohonynt yn aelodau annibynnol a benodir yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 fel y'u diwygiwyd.
- 5.12.3 Bydd cadeirydd yr is-bwyllgor yn chwarae rôl allweddol wrth ddarparu arweinyddiaeth a pherthnasau allweddol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch gwaith yr is-bwyllgor.
- 5.12.4 Caiff yr is-bwyllgor ei gynghori gan Swyddogion y CBC a'i Swyddogion Statudol neu eu cynrychiolwyr neu eu dirprwyon a benodir yn briodol.

CYLCH GORCHWYL YR IS-BWYLLGOR SAFONAU

Swyddogaethau i'w gweithredu gan yr Is-bwyllgor Safonau

Bydd yr Is-bwyllgor Safonau yn gyfrifol am weithredu'r swyddogaethau a ganlyn mewn perthynas â'r CBC:

- i. Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan ei aelodau a'i aelodau cyfetholedig;
- ii. Cynorthwyo ei aelodau a'i aelodau cyfetholedig i gadw at god ymddygiad y CBC;
- iii. Cynghori'r CBC ar fabwysiadu neu adolygu cod ymddygiad;
- iv. Monitro gweithrediad cod ymddygiad y CBC;
- v. Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi ei aelodau a'i aelodau cyfetholedig ar faterion sy'n ymwneud â chod Ymddygiad y CBC;
- vi. Goruchwyllo Cofrestr Buddiannau'r Aelodau;
- vii. Caniatáu gollyngiadau i Aelodau o ofynion sy'n ymwneud â buddiannau a nodir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau;
- viii. Ymdrin ag unrhyw adroddiadau gan dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim neu'r Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a
- ix. Phennu camau priodol ar faterion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Os yw mater yn ymwneud ag ymddygiad Aelod yn gyffredinol, ac nid yn benodol â gweithgareddau'r CBC, Pwyllgor Safonau Prif Awdurdod yr Aelod hwnnw fydd y corff cyfrifol.

AELODAETH YR IS-BWYLLGOR SAFONAU

Bydd aelodaeth Is-bwyllgor Safonau'r CBC wedi'i ffurfio o 7 Aelod a benodir gan y CBC.

Bydd 3 aelod yn cael eu tynnu o'r awdurdodau cyfansoddol neu Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ond nid aelodau cyfetholedig, nac aelodau o'r CBC nac unrhyw un o'i is-bwyllgorau eraill.

Bydd 4 aelod yn Aelodau Annibynnol.

Nid yw'r personau a ganlyn yn gymwys i wasanaethu fel Aelodau Annibynnol Is-bwyllgor Safonau'r CBC:

- i. Person sy'n aelod etholedig, yn aelod cyfetholedig neu'n swyddog yn y Cyd-bwyllgor Corfforedig, neu unrhyw rai o'i Awdurdodau Cyfansoddol neu Awdurdod y Parc Cenedlaethol, neu briod neu bartner sifil yr aelod, yr aelod cyfetholedig neu'r swyddog hwnnw;
- ii. Person sydd wedi bod, yn y 12 mis blaenorol, ond nad yw bellach yn aelod etholedig neu'n swyddog o awdurdodau cyfansoddol y CBC neu Awdurdod y Parc Cenedlaethol;
- iii. Cyn-aelod etholedig o'r CBC neu unrhyw rai o'r is-bwyllgorau
- iv. Cyn-swyddog o'r CBC
- v. Person sy'n aelod etholedig neu'n swyddog, neu briod neu bartner sifil aelod neu swyddog Awdurdod Perthnasol*
Mae "Awdurdod Perthnasol" yn golygu awdurdod perthnasol fel y diffinnir yn adran 49 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sef:
 - Cyngor Sir yng Nghymru
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol
 - Cyd-bwyllgor Corfforedig
 - Cyngor Cymuned
 - Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru
 - Awdurdod Parc Cenedlaethol

CYFNOD Y SWYDD

Penodir Aelodau Annibynnol am gyfnod o ddim llai na phedair ac nid mwy na chwe blynedd. Bydd y CBC yn pennu cyfnod y swydd wrth wneud y penodiad.

Bydd Aelod Annibynnol Is-bwyllgor Safonau Awdurdod Perthnasol yn gwasanaethu am ddim mwy nag un cyfnod yn y swydd.

Bydd cyfnod swydd aelod o Is-bwyllgor Safonau'r CBC sy'n aelod o awdurdod cyfansoddol y CBC yn ddim hwy na:

- a. Pedair blynedd; neu
- b. Y cyfnod hyd nes cynhelir etholiadau llywodraeth arferol ar gyfer y CBC p'un bynnag sydd fyrrach.

Bydd aelod o'r fath yn peidio â bod yn aelod o Is-bwyllgor Safonau'r CBC os ydynt yn peidio â bod yn aelod o Awdurdod Cyfansoddol y CBC. Yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth hon, gellir ail-benodi aelod o Is-bwyllgor Safonau'r CBC sy'n aelod o awdurdod cyfansoddol am un tymor dilynol pellach.

CYFARFODYDD

Rhaid i'r Is-bwyllgor Safonau gyfarfod o leiaf unwaith yn ystod pob cyfnod o 12 mis wedi iddo gael ei sefydlu. Gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol fel bo'r angen.

CWORWM

Ni chaiff unrhyw fusnes ei drafod mewn cyfarfod o'r Is-bwyllgor Safonau oni bai

- Bod o leiaf 3 aelod yn bresennol gan gynnwys y Cadeirydd
- Bod o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y Cadeirydd) yn aelodau annibynnol.

PLEIDLEISIO

Bydd gan bob Aelod, gan gynnwys aelodau annibynnol, hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd

Bydd cwestiwn i'w benderfynu gan yr Is-bwyllgor Safonau yn cael ei benderfynu gan fwyafrif

y pleidleisiau a fwrir gan yr aelodau hynny sy'n bresennol yn y cyfarfod ac yn gynnwys i

bleidleisio. Os digwydd i'r pleidleisiau fod yn gyfartal, bydd gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod o'r

Is-bwyllgor Safonau ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

CADEIRIO'R IS-BWYLLGOR SAFONAU

Dim ond Aelod Annibynnol o'r Is-bwyllgor Safonau all fod yn Gadeirydd neu'n Is-gadeirydd.

Bydd Aelodau'r Is-bwyllgor Safonau yn ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd o blith Aelodau Annibynnol

yr is-bwyllgor hwnnw, a dyma'r busnes cyntaf i gael ei drafod yng nghyfarfod cyntaf yr Is-bwyllgor Safonau.

Os yw'r Cadeirydd yn absennol o gyfarfod o'r Is-bwyllgor Safonau, yna bydd Is-gadeirydd yr is-bwyllgor, os yw'n bresennol, yn cadeirio.

Os yw'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd Aelod Annibynnol (fel

y'i dewisir gan yr aelodau hynny o'r Is-bwyllgor Safonau sy'n bresennol) yn cadeirio.

Etholir y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gan yr Is-bwyllgor Safonau am y cyfnod hyd nes y daw eu cyfnod yn y swydd i ben.

ADRODD

Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, bydd yr Is-bwyllgor Safonau yn gwneud adroddiad blynyddol i'r CBC yn nodi'r hyn a ganlyn:

- a. Sut mae swyddogaethau'r Is-bwyllgor Safonau wedi'u cyflawni;
- b. Adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at yr Is-bwyllgor gan yr Ombwdsmon;
- c. Camau a gymerwyd gan yr Is-bwyllgor ar ôl iddo ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath;
- d. Hysbysiadau a roddwyd i'r Is-bwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru
- e. Unrhyw faterion eraill y mae'r Is-bwyllgor yn dymuno tynnu sylw'r CBC atynt mewn perthynas â swyddogaethau'r Is-bwyllgor Safonau.

YN RHANNOL EITHRIEDIG

**CYD-BWYLLGOR CORFFORDEDIG
25 Medi 2026**

TEITL: Newidiadau i Aelodaeth Is-bwyllgorau'r CBC a Phenodiad Aelod Lleyg
AWDUR: Mark Watkins, Swyddog Monitro

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi newidiadau i gynrychiolaeth Cyngor Sir Ddinbych ar y CBC a'i is-bwyllgorau, ac yn ceisio un penodiad: Dewi Lewis fel aelod lleyg o'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- 1.2. Mae'r Swyddog Monitro wedi gwneud y penodiadau i'r Is-bwyllgorau Trafnidiaeth Strategol a Chynllunio Strategol yn unol â'r dirprwyaeth a gymeradwywyd gan y CBC ar 21 Mehefin 2024. Cyflwynir y rhain er gwybodaeth. Mae Atodiad 1 yn nodi'r newidiadau a gwmpeisir gan yr adroddiad hwn yn unig.
- 1.3. Mae curriculum vitae yr ymgeisydd yn cael ei ddarparu ar wahân fel Atodiad Eithriedig 2 (nid ar gyfer ei gyhoeddi). Mae gweddill yr adroddiad hwn yn gyhoeddus.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig:

- 2.1. Nodi bod y Cynghorydd Hugh Evans, fel Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, yn aelod o'r CBC a'i Is-bwyllgor Lles Economaidd yn rhinwedd y swydd honno.
- 2.2. Nodi penodiadau'r Swyddog Monitro o dan y ddirprwyaeth dyddiedig 21 Mehefin 2024, sef y Cynghorydd James Elson i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a'r Cynghorydd Geraint Lloyd-Williams i'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol, fel y nodir yn Atodiad 1.
- 2.3. Penodi Dewi Lewis yn aelod lleyg o'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gyfnod o bedair blynedd o ddyddiad effeithiol y penodiad, yn amodol ar gwblhau'r cytundeb cyd-ethol perthnasol.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Mae'r newid yn arweinyddiaeth a phortffolios Cabinet Sir Ddinbych yn golygu bod angen diweddaru cofnodion aelodaeth y CBC.
- 3.2. Ar 21 Mehefin 2024, awdurdododd y CJC i'r Swyddog Monitro dderbyn hysbysiadau ysgrifenedig am newidiadau i'r Is-bwyllgorau Trafnidiaeth Strategol a Chynllunio Strategol, ac i benodi aelodau cyf-etholedig newydd yn eu lle, ar yr amod bod yr penodiadau'n cael eu

hadrodd yng nghyfarfod nesaf y CBC. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni'r gofyniad hwnnw o ran adrodd.

- 3.3. Mae swydd wag wedi codi ymhlith y tri aelod lleyg o'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r penodiad arfaethedig i lenwi'r swydd wedi'i gadw ar gyfer y CBC.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Cyhoeddodd Cyngor Sir Ddinbych ei drefniadau arweinyddiaeth a phortffolios y Cabinet diwygiedig ar 8 Medi 2026. Daeth y Cynghorydd Hugh Evans yn Arweinydd; mae'r Cynghorydd James Elson yn ddeilydd y portffolio Amgylchedd a Thrafnidiaeth; ac mae'r Cynghorydd Geraint Lloyd-Williams yn ddeilydd y portffolio Tai a'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 4.2. Mae aelodaeth y Cynghorydd Hugh Evans o'r CBC yn deillio o'i swydd fel Arweinydd. Fel aelod o'r Cyngor ar y CBC, mae hefyd yn aelod o'r Is-bwyllgor Lles Economaidd. Nid oes angen penodiad newydd i'r CBC ar gyfer y naill swydd na'r llall.
- 4.3. At ddibenion gofyniad portffolio Polisi Cynllunio'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol, mae cyfrifoldeb am y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i drin fel y swyddogaeth polisi cynllunio berthnasol. Ar y sail honno, mae'r Swyddog Monitro wedi penodi'r Cynghorydd Geraint Lloyd-Williams o dan y drefn ddirprwyo bresennol, ac wedi penodi'r Cynghorydd James Elson i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn yr un modd. Mae'r penodiadau hyn wedi'u cofnodi yn Atodiad 1.
- 4.4. Mae'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys chwe aelod etholedig a thri aelod lleyg. Mae'r CBC yn penodi ei aelodau lleyg am dymor o bedair blynedd yn unol â'r trefniadau penodi sefydledig.
- 4.5. Mae'r penodiad arfaethedig yn dilyn y swydd wag a gododd yn sgil ymddiswyddiad Carys Edwards. Enwebwyd Dewi Lewis gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd ar 9 Gorffennaf 2026. Mae'n aelod lleyg ac yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwnnw, ac mae ganddo brofiad blaenorol o lywodraeth leol a datblygu cymunedol sy'n berthnasol i swyddogaethau llywodraethu ac archwilio'r CBC. Gofynnir i'r CBC benderfynu ar ei benodiad.
- 4.6. Mae CV yr ymgeisydd yn cynnwys manylion cyswllt preifat a gwybodaeth bersonol sensitif arall. Caiff ei ddarparu ar wahân fel Atodiad 2 Eithriedig. Os oes angen i Aelodau drafod y wybodaeth honno, rhaid i'r CBC benderfynu gwahardd y wasg a'r cyhoedd ar gyfer y rhan honno o'r eitem.

5. GOBLYGIADAU ADNODDAU

Mae penodiad yr aelod lleyg yn gofyn am waith arferol Gwasanaethau Democrataidd a gweinyddiaeth gyfreithiol. Telir unrhyw daliadau a threuliau yn unol â threfniadau cymeradwy'r CBC, yn amodol ar gadarnhad gan y Swyddog Adran 151.

6. YMGYNGHORIAD

- 6.1. Mae portffolios a hysbysiadau Cabinet diwygiedig Cyngor Sir Ddinbych wedi llywio'r penodiadau a wnaed o dan ddirprwyaeth gan y Swyddog Monitro. Dylid cadw hysbysiadau ysgrifenedig a chofnodion penodi gyda chofnodion llywodraethu'r CBC.
- 6.2. Enwebodd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd Dewi Lewis ar 9 Gorffennaf 2026. Dylid cadarnhau'r swydd wag, cymhwysedd a chydysniad yr ymgeisydd, ac unrhyw enwebiadau eraill, cyn i'r CBC ystyried y penodiad.

7. ASESAD EFAITH INTEGRIDIG

7.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Wrth lunio'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd llesiant sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ni nodwyd unrhyw oblygiadau andwyol penodol.

7.2. Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wedi cael eu hystyried. Ni nodwyd unrhyw oblygiadau andwyol penodol.

7.3. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae ystyriaeth wedi'i rhoi i oblygiadau'r argymhellion yn yr adroddiad hwn o ran y Gymraeg. Ni nodwyd unrhyw oblygiadau niweidiol.

7.4. Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau

Ddim yn berthnasol

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae adrannau 5.2.1, 5.8.3 a 5.9.3 o Gyfansoddiad y CJC yn darparu fframwaith penodi i is-bwyllgorau a gofynion portffolio perthnasol Polisi Trafnidiaeth a Pholisi Cynllunio. Mae penderfyniad 21 Mehefin 2024 yn dirprwyo penodiadau newydd i'r Swyddog Monitro ar hysbysiad ysgrifenedig, yn amodol ar eu hadrodd i gyfarfod nesaf y CBC. Gofynnir i'r CBC nodi, nid ail-wneud, y penodiadau i'r Is-bwyllgorau Trafnidiaeth Strategol a Chynllunio Strategol.

8.2. Mae Adran 5.11.3 o'r Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn darparu ar gyfer chwe aelod etholedig a thri aelod lleyg, gyda phenodiadau'n cael eu gwneud gan y CBC. Mae'r cyfnod swydd arfaethedig o bedair blynedd yn gyson â'r trefniadau presennol ar gyfer penodi aelodau lleyg. Dylid gwirio cymhwysedd, cydsyniad a'r swydd wag cyn gwneud y penderfyniad.

8.3. Mae apwyntiadau presennol yn parhau yn unol â'u telerau unigol ac ni chânt eu hadnewyddu yn unig oherwydd bod blwyddyn y Cyngor newydd wedi dechrau. Bydd Gwasanaethau Democrataidd yn cynnal y gofrestr aelodaeth lawn ar wahân; nid oes angen ei hatodi i'r adroddiad hwn.

8.4. Mae'r Swyddog Monitro wedi adolygu Atodiad 2 (sydd yn eithriedig) ac wedi ystyried y budd cyhoeddus o ran datgelu'r wybodaeth yn erbyn y budd cyhoeddus o ran cynnal yr eithriad. Mae'r atodiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol am yr unigolyn y bwriedir ei benodi, gan gynnwys gwybodaeth o natur sensitif. Gan ystyried paragraff 12 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i cymhwysir i'r CBC gan reoliad 26 o Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021, mae'r Swyddog Monitro yn fodlon bod y budd cyhoeddus o gynnal yr eithriad yn drech na'r budd cyhoeddus o ddatgelu'r wybodaeth.

8.5. Caiff y diddordeb cyhoeddus mewn tryloywder ei ddiwallu drwy nodi'r person a enwebwyd a'i brofiad perthnasol yn yr adroddiad cyhoeddus. Yn unol â hynny, caiff Atodiad 2 (sydd yn eithriedig) ei gadw'n ôl rhag cael ei gyhoeddi, a rhaid ei farcio fel "Heb ei fwriadu i'w gyhoeddi" yn unol â rheoliad 18(7). Os oes angen trafod y wybodaeth sydd wedi'i heithrio, rhaid i'r CBC yn gyntaf basio penderfyniad o dan reoliad 16(6) a (7) i wahardd y cyhoedd rhag bod yn bresennol ar gyfer y rhan honno o'r eitem.

9. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Dylai'r Swyddog Adran 151 gadarnhau y gellir talu tâl a threuliau'r penodiad o fewn y ddarpariaeth gyllidebol gymeradwyedig bresennol.

ATODIADAU:

ATODIAD 1	Newidiadau i aelodaeth a phenodiadau sydd angen penderfyniad
EITHRIEDIG Atodiad 2	Dewi Lewis CV — nid ar gyfer ei gyhoeddi

DOGFENNAU CEFNDIROL:

Cyfansoddiad CBC Gogledd Cymru; penderfyniad y CBC dyddiedig 21 Mehefin 2024 ynghylch cyfethol ar gyfer Cynllunio a Thrafnidiaeth.

Adroddiad penodiad ar gyfer Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r CBC, 17 Ionawr 2025; Penderfyniad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd, 9 Gorffennaf 2026; Cyhoeddiad Cabinet Sir Ddinbych, 8 Medi 2026.

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

“Rwyf wedi fy modloni bod yr argymhellion yn cyd-fynd â Chyfansoddiad y CBC a'r fframwaith statudol perthnasol.

Rwyf hefyd wedi fy modloni bod trin Atodiad 2 fel gwybodaeth eithriedig yn gyfiawnhadadwy o dan y darpariaethau perthnasol ar gyfer mynediad at wybodaeth, ar ôl ystyried y prawf budd cyhoeddus perthnasol.”

ii. Swyddog Adran 151:

“Mae cyllideb eisoes wedi'i sefydlu ar gyfer y costau democrataidd sy'n deillio o'r materion a amlinellir yn yr adroddiad. Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniad y ceisir ei wneud.”

ATODIAD 1

Newidiadau i aelodaeth a phenodiadau sydd angen penderfyniad

Mae'r atodlen hon yn cofnodi'r newidiadau y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â nhw yn unig. Cedwir y gofrestr aelodaeth lawn o'r CBC ar wahân gan y Gwasanaethau Democrataidd.

Newidiadau i'w nodi (dim penodiad pellach gan y CBC):

- Cyng Hugh Evans — Is-bwyllgor y CBC a Lles Economaidd: aelodaeth yn deillio o'i swydd fel Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych.
- Cyng James Elson — Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol: wedi'i benodi gan y Swyddog Monitro o dan y ddirprwyaeth dyddiedig 21 Mehefin 2024.
- Cyng Geraint Lloyd-Williams — Is-bwyllgor Cynllunio Strategol: wedi'i benodi gan y Swyddog Monitro o dan y ddirprwyaeth dyddiedig 21 Mehefin 2024, ar sail ei gyfrifoldeb am y Cynllun Datblygu Lleol.

Penodiad i'w benderfynu:

- Mr. Dewi Lewis — Aelod lleyg o Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, am bedair blynedd o ddyddiad y penodiad.